



Rhaglen Gyflawn



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

Gwasanaeth Democraidd  
Swyddfa'r Cyngor  
CAERNARFON  
Gwynedd  
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD GWENER, 14EG MEHEFIN, 2019**

Lleoliad

**Ystafell Glyder Fawr, Swyddfeydd y Cyngor, Penrallt, Caernarfon, Gwynedd.  
LL55 1BN**

Pwynt Cyswllt

**Bob Thomas / Heledd Jones**

**01286 685000 / 01286 679883**

[polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru](mailto:polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru)

(DOSBARTHUYD: 07/06/19)

# **PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD**

## **AELODAETH**

### **GWYNEDD**

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes,  
Berwyn Parry Jones, Gareth Griffith,  
Gareth A Roberts, John Pughe Roberts,  
Paul Rowlinson, Owain Williams

### **YNYS MÔN**

Y Cynghorwyr

Richard Dew, John Griffith,  
Kenneth P Hughes, Richard O. Jones,  
Bryan Owen, Nicola Roberts,  
Robin Williams

# RHAGLEN

## 1. CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd am 2019/20.

## 2. IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd am 2019/20.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYD

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

## 6. COFNODION

4 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 15 Ebrill 2019, fel rhai cywir.

## 7. CYFRIFION TERFYNOL AR GYFER PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD 6 - 17

Cyflwyno adroddiad gan Uwch Reolwr Cyllid (Cyngor Gwynedd).

## 8. CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL (CCA) I'W MABWYSIADU: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY 18 - 181

Cyflwyno adroddiad gan Bob Thomas (Arweinydd Tîm) Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd.

# Eitem 6



## CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

### Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd

2:00 y.p. 15 Ebrill 2019

Ystafell Bwyllgor 1, Cyngor Sir Ynys Môn

#### Presennol:

##### **Cyngor Sir Ynys Môn**

Cyng. John Griffith  
Cyng. Robin Williams  
Cyng. Richard O Jones  
Cyng. Kenneth P Hughes

##### **Cyngor Gwynedd**

Cyng. Paul Rowlinson  
Cyng. Berwyn Parry Jones  
Cyng. Gareth Griffith  
Cyng. Owain Williams  
Cyng. John Pughe Roberts

##### **Swyddogion:**

Dewi Francis Jones	Prif Swyddog Cynllunio (CSYM)
Rhun ap Gareth	Uwch Gyfreithiwr (CG)
Bob Thomas	Arweinydd Tîm – (UPCC)
Aled Lewis	Uwch Swyddog Cynllunio (UPCC)

Yn absenoldeb Cyng. Richard Dew, cytunwyd i'r Cyng. Gareth Griffith fod yn Gadeirydd i'r cyfarfod

#### Ymddiheuriadau:

Cyng. John Brynmor Hughes (CG)  
Cyng. Gareth Roberts (CG)  
Cyng. Bryan Owen (CSYM)  
Cyng. Richard Dew (CSYM)

#### 1. YMDDIHEURIADAU

Ymddiheuriadau fel y nodwyd uchod

#### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

### 3. **MATERION BRYD**

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

### 4. **COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion Pwyllgor a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2019 fel y rhai cywir. Eglurodd Bob Thomas efallai na fydd Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar y 23ain Mai 2019 yn debygol o gael ei gynnal, ac efallai bydd eitemau'r cyfarfod hwn yn cael eu trosglwyddo i'r Pwyllgor Cynllunio ar y Cyd olynol ar 14eg Mehefin 2019.

### 5. **CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL**

#### **i) Canllaw Cynllunio Atodol: Tai Fforddiadwy**

Cyflwyniad gan Bob Thomas yn egluro'r newidiadau i'r canllaw ers iddo gael ei gyflwyno i'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar y 22 Mawrth 2019 ac yn gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo'r ymateb arfaethedig i'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus ynglŷn â'r Canllaw Cynllunio Atodol a mabwysiadu'r Canllaw.

Materion a godwyd:

- Codwyd cwestiwn gan y Cyng. Owain Williams ynglŷn â pherthnasedd yr Asesiad Cynaliadwyedd a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac ail gyflwyno eryr i'r ardal.
- Cytunodd Cyng. Kenneth Hughes fod ystyr y term "lleol" yn y Canllaw yn addas a byddai'n hwyluso pobl lleol i gael tai fforddiadwy.

Ymateb:

- Esboniwyd mai barn sgrinio am Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r Canllaw oedd yr asesiadau â ymgwymerwyd yn unol â'r Rheoliadau perthnasol ac nad oedd y sylw'n berthnasol i'r CCA. Fodd bynnag cytunwyd fod y neges yn un pwysig a byddai'n fater i'w godi gyda'r adrannau perthnasol o fewn y Cynghorau unigol yn hytrach nac yn y cyfarfod hwn.

**Penderfyniad – Derbyn yr argymhelliad i gymeradwyo'r ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd am y Canllaw Cynllunio Atodol a mabwysiadu'r Canllaw hwn.**

I gloi'r cyfarfod fe wnaeth y Prif Swyddog Cynllunio nodi fod Rebeca Jones wedi ei hapwyntio fel rheolwr newydd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ac fe fydd yn cychwyn yn y swydd diwedd mis Mai 2019.

# Eitem 7

## EITEM 7

CYFARFOD	<b>Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd)</b>
DYDDIAD	<b>14 Mehefin 2019</b>
TEITL	<b>Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019</b>
PWRPAS	<b>Cyflwyno –</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2018/19,</b> a</li><li>• <b>Ffurflen Swyddogol Flynyddol o'r Cyfrifon, wedi'i ardystio, ond cyn Archwiliad</b></li></ul>
GWEITHREDIAD	<b>Derbyn a chymeradwyo'r cyfrifon</b>
AWDUR	<b>Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid, Cyngor Gwynedd</b>

---

### **1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL STATUDOL**

- 1.1 Fel adroddwyd mewn blynyddoedd a fu, mae gofynion adrodd penodol ar gyfer cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.
- 1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- 1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau â chynghorau lleol eraill.
- 1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor 'arweiniol' sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ar gyllid y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn).
- 1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol. Ble mae'r trosiant yn llai na £2.5m, ystyrir y cyd-bwyllgor yn "gyd-bwyllgor llai o faint" a rhaid paratoi'r cyfrifon ar ffurf ffurflen flynyddol gan ddilyn arferion priodol yn unol â'r ddeddfwriaeth.
- 1.6 Bydd y Ffurflen Flynyddol o'r Cyfrifon yn destun archwiliad ar wahân gan archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd.

**2. CYFRIFON 2018/19**

- 2.1 **Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2018/19 yma fel Atodiad A** ar ffurf adroddiad “alldro” syml.
- 2.2 **Yn Atodiad B, cyflwynir y Ffurflen Swyddogol Flynyddol am 2018/19 (cyn archwiliad), wedi'i gwblhau a'i ardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, sef Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (Dafydd L Edwards) fel y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.**
- 2.3 Bydd y cyfrifon a'r ffurflen yn destun archwiliad buan gan Deloitte, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd a apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Os bydd angen newidiadau yna cyflwynir fersiwn diwygiedig i'r Cyd-Bwyllgor ar 6 Medi 2019.
- 2.4 Ar ôl archwiliad ac yn dilyn unrhyw addasiadau fydd angen, bydd cynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ardystio'r ffurflen cyn 15 Medi.

**3. ARGYMHELLIAD**

- 3.1 **Gofynnir i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd dderbyn a chymeradwyo'r wybodaeth sydd yn yr atodiadau, sef –**
- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2018/19 – Atodiad A
  - Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2019 (Amodol ar Archwiliad) – Atodiad B

**PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD**

**(CYNGHORAU GWYNEDD A MÔN)**

**CYFRIF INCWM A GWARIANT REFENIW 2018/2019**

	Cyllideb 2018/2019 £	Cyfrifon Terfynol 2018/2019 £	Gwahaniaeth Gor/(Tan)wariant £
<b>Gwariant</b>			
Gweithwyr			
Cyflogau	351,370	356,402	5,032
Costau Staffio Eraill	4,070	31,921	27,851
Yswiriant Atebolrwydd	2,020	1,073	(947)
Cludiant			
Cerbydau Pwl	1,180	1,438	258
Costau Teithio	10,890	1,542	(9,348)
Cyflenwadau a Gwasanaethau			
Costau Rhedeg yr Uned	6,120	1,393	(4,727)
Costau Datblygu'r Cynllun			
Argraffiadau a Chyhoeddiadau	10,000	15,721	5,721
Archwiliad Cyhoeddus			0
Marchnata a Chyhoeddusrwydd	3,070		(3,070)
Gwasanaeth Proffesiynol / Technegol	45,000	8,955	(36,045)
Cyfrifiaduron a Meddalwedd	1,530	10,986	9,456
Costau Eraill	130	110	(20)
Cefnogaeth Ganolog			
Ad-daliadau Costau Canolog	56,490	56,490	0
<b>Cyfanswm Gwariant</b>	<b>491,870</b>	<b>486,032</b>	<b>(5,838)</b>
<b>Incwm</b>			
Gwerthiannau		(1,910)	(1,910)
Cyfraniad Cyngor Sir Ynys Môn	(223,440)	(224,743)	(1,303)
Cyfraniad Cyngor Gwynedd	(223,430)	(224,743)	(1,313)
Cyfraniad o Gronfa	(45,000)	(34,635)	10,365
<b>Cyfanswm Incwm</b>	<b>(491,870)</b>	<b>(486,032)</b>	<b>5,838</b>
<b>Cyfanswm Gwariant Net</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
Balansau/Reserfau a Glustnodwyd 31/03/18:			(209,001)
Trosglwyddiad			0
Symudiad Net			34,635
<b>Balansau/Reserfau a Glustnodwyd 31/03/19:</b>			<b>(174,366)</b>



# Cyrrff llywodraeth leol perthnasol llai yng Nghymru Ffurflen Flynyddol i'r Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2019


## Y BROSES O RAN CYFRIFON AC ARCHWILIO

Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff llywodraeth leol yng Nghymru lunio eu cyfrifon bob blwyddyn hyd at 31 Mawrth a sicrhau bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilio'r cyfrifon hynny. Mae Rheoliad 14 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi bod yn rhaid i gyrrff llywodraeth leol llai h.y. y rhai hynny ag incwm a gwariant sy'n llai na £2.5 miliwn baratoi eu cyfrifon yn unol â'r arferion priodol.

Nodir yr arferion priodol i is gyd-bwyllgorau sydd ag incwm a gwariant yn llai na £2.5 miliwn yng nghyhoeddiad Un Llais Cymru/Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol 'Governance and accountability for local councils in Wales –

A Practitioners' Guide' (y Canllaw i Ymarferwyr). Mae'r Canllaw i Ymarferwyr yn ei gwneud yn ofynnol iddynt baratoi eu cyfrifon ar ffurf ffurflen flynyddol. Mae'r ffurflen flynyddol hon yn bodloni gofynion y Canllaw i Ymarferwyr.

Mae'r cyfrifon a'r trefniadau archwilio yn dilyn y broses a nodir isod.



**Darllenwch y canllawiau ar gwblhau'r Ffurflen Flynyddol hon a chwblhewch bob adran a amlygir mewn coch gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.**

## CYMERADWYO'R FFURFLEN FLYNYDDOL

**Mae dau flwch i'w hardystio a'u cymeradwyo gan y corff. Mae'r ail flwch yn ofynnol dim ond os oes angen diwygio'r ffurflen flynyddol o ganlyniad i'r archwiliad. Dylech lenwi'r blwch uchaf yn unig cyn anfon y ffurflen at yr archwilydd.**

**Mae'n rhaid i'r pwyllgor gymeradwyo'r ffurflen flynyddol CYN i'r cyfrifon a'r dogfennau ategol fod ar gael i'w harchwilio'n gyhoeddus o dan adran 30 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.**

**Yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol fydd yn cwblhau Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru. NI CHAIFF y Clerc/Swyddog Ariannol Cyfrifol, y Cadeirydd na'r archwilydd mewnol eu cwblhau.**

Caiff ffurflenni a archwiliwyd ac a ardystiwyd eu dychwelyd i'r corff at ddibenion cyhoeddi ac arddangos y datganiadau cyfrifyddu, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a thystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

# Datganiadau cyfrifyddu 2018-19 ar gyfer:

Enw'r corff:

Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn)

	Y flwyddyn a ddaeth i ben		Nodiadau a chanllawiau i'r sawl sy'n llunio'r cyfrifon
	31 Mawrth 2018 (£)	31 Mawrth 2019 (£)	Dylech dalgrynnu'r holl ffigurau i'r £ agosaf. Peidiwch â gadael unrhyw flychau yn wag na chofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigur fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol.
<b>Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau</b>			
1. Balansau a ddygwyd ymlaen	329,516	209,001	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â Llinell 7 y flwyddyn flaenorol.
2. (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll	502,558	451,397	Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrff.
3. (+) Cyfanswm derbyniadau eraill	0	0	Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod llai'r symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a reffeniw.
4. (-) Costau staff	-430,508	-389,396	Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyflogeion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a threuliau cysylltiedig, e.e. costau terfynu.
5. (-) Llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf	0	0	Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau allanol (os o gwbl).
6. (-) Cyfanswm taliadau eraill	-192,565	-96,636	Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod llai costau staff (Llinell 4) a llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf (Llinell 5).
7. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	209,001	174,366	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) - (4+5+6).
<b>Datganiad o falansau</b>			
8. (+) Dyledwyr a balansau stoc	1,740	33	<b>Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:</b> Nodwch werth dyledion sy'n ddyledus i'r corff a balansau stoc a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn.
9. (+) Cyfanswm arian parod a buddsoddiadau	235,429	174,333	<b>Pob cyfrif:</b> Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol a chadw, daliadau ariannol a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn fod yn gyson â balans cysoni'r llyfr arian parod yn unol â chysoniad y banc.
10. (-) Credydwyr	-28,168	0	<b>Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:</b> Nodwch werth yr arian sy'n ddyledus gan y corff (heblaw costau benthyg) ar ddiwedd y flwyddyn.
11. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	209,001	174,366	<b>Dylai cyfanswm y balansau fod yn gyson â llinell 7 uchod:</b> Nodwch gyfanswm (8+9-10).
12. Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor	0	0	Gwerth cofrestr asedau a buddsoddiadau pob ased sefydlog, ynghyd ag unrhyw asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth.
13. Cyfanswm benthyciadau	0	0	Balans cyfalaf dyledus pob benthygiad o drydydd partïon ar 31 Mawrth (gan gynnwys PWLB).

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Rydym yn cydnabod, fel aelodau o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn), ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, o ran y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019, ein bod wedi gwneud y canlynol:

	Cytunwyd?		Mae 'DO' yn golygu bod y Pwyllgor wedi gwneud y canlynol:	Cyf y Dangosydd Perfformiad
	Do	Naddo*		
1. Rydym wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer: <ul style="list-style-type: none"> <li>gwaith rheoli ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a</li> <li>pharatoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu.</li> </ul>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Pennu ei gyllideb a rheoli ei arian yn briodol a pharatoi a chymeradwyo ei ddatganiadau cyfrifyddu fel y rhagnodir gan y gyfraith.	6, 12
2. Cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredd, ac adolygu ei heffeithiolrwydd.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am warchod yr arian cyhoeddus a'r adnoddau dan ei reolaeth.	6, 7
3. Rydym wedi cymryd yr holl gamau rhesymol i roi sicrwydd i ni'n hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol na phosibl â chyfreithiau, rheoliadau na chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn) i gynnal ei fusnes nac ar ei sefyllfa ariannol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Ond wedi gwneud pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny.	6
4. Rydym wedi darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Rhoi'r cyfle i bob unigolyn â diddordeb archwilio cyfrifon y corff yn unol â'r hyn a nodir yn yr hysbysiad o'r archwiliad.	6, 23
5. Rydym wedi cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn) ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Ystyried y risgiau ariannol a'r risgiau eraill a wynebir ganddo wrth weithredu'r corff a delio â hwy'n briodol.	6, 9
6. Rydym wedi cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar ba un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y corff.	6, 8
7. Rydym wedi ystyried a oes unrhyw ymgyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, wedi cael effaith ariannol ar y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn) a, lle y bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Datgelu popeth y dylai fod wedi ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben os ydynt yn berthnasol.	6
8. Rydym wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â phroblemau/gwendidau a ddygwyd i'w sylw gan archwilwyr mewnol ac allanol.	6, 8, 23

\* Ar ddalen ar wahân, rhowch esboniadau i'r archwilydd allanol ar gyfer pob ymateb 'naddo' a roddwyd; a disgrifiwch pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

## Cymeradwyaeth ac ardystiad y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn)

Y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn) sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ac am baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol.

<p><b>Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol</b></p> <p>Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn), a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019.</p>	<p><b>Cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn)</b></p> <p>Cadamhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol wedi eu cymeradwyo gan y Pwyllgor o dan gyfeirnod cofnod:</p> <p>Nodwch y cyfeirnod cofnod a dyddiad y cyfarfod</p>
<p>Llofnod y Swyddog Ariannol Cyfrifol: <i>[Signature]</i></p>	<p>Llofnod Cadeirydd y cyfarfod:</p>
<p>Enw: <i>DAFYDD L. EDWARDS</i></p>	<p>Enw:</p>
<p>Dyddiad: <i>16/05/2019</i></p>	<p>Dyddiad:</p>

## Ailgymeradwyaeth ac ailardystiad gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn) (dim ond os bydd y ffurflen flynyddol wedi ei diwygio yn yr archwiliad)

<p><b>Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol</b></p> <p>Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn), a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019.</p>	<p><b>Cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn)</b></p> <p>Cadamhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol wedi cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor o dan gyfeirnod cofnod:</p> <p>Nodwch y cyfeirnod cofnod a dyddiad y cyfarfod</p>
<p>Llofnod y Swyddog Ariannol Cyfrifol:</p>	<p>Llofnod Cadeirydd y cyfarfod:</p>
<p>Enw:</p>	<p>Enw:</p>
<p>Dyddiad:</p>	<p>Dyddiad:</p>

## Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r archwilydd allanol yn cynnal yr archwiliad ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd ganddo. Ar sail ei adolygiad o'r Ffurflen Flynyddol a'r wybodaeth ategol, mae'n nodi pa un a fydd unrhyw fater a ddaw i'w sylw yn peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni.

Ardystiwn ein bod wedi cwblhau'r archwiliad o'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 ar gyfer:

### Adroddiad yr archwilydd allanol

[Ac eithrio'r materion a nodir isod]\* Ar sail ein hadolygiad, yn ein barn ni, mae'r wybodaeth yn y Ffurflen Flynyddol yn cydymffurfio ag arferion priodol ac nid oes unrhyw faterion wedi dod i'n sylw sy'n peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni.

[[Mae'r materion hyn yn ogystal â]\* Materion eraill nad ydynt yn effeithio ar ein barn yr ydym yn eu dwyn i sylw'r corff a'n hargymhellion ar gyfer gwella wedi'u cynnwys yn ein hadroddiad i'r corff dyddiedig \_\_\_\_\_.]

### Materion eraill ac argymhellion

Ar sail ein hadolygiad, tynnwn sylw'r corff at y materion a'r argymhellion canlynol nad ydynt yn effeithio ar ein barn archwilio ond y dylai'r corff ymdrin â hwy.

(Parhewch ar daflen ar wahân os oes angen.)

Enw'r archwilydd allanol:

Llofnod yr archwilydd allanol:

Dyddiad:

Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

\* Dileer fel y bo'n briodol.

## Adroddiad archwilio mewnol blynyddol ar gyfer:

Enw'r corff:

Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn)

Mae archwiliad mewnol y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn), gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad o risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dewisol o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a'r rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2019.

Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol yn unol ag anghenion y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn) a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Nodir isod amcanion rheolaeth fewnol a chasgliadau'r archwiliad mewnol ar ba un a oedd yr amcanion canlynol o ran rheolaeth, ym mhob ffordd bwysig, yn cael eu bodloni drwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn).

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys**	
1. Mae'r llyfrau cyfrifon priodol wedi'u cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mewnosodwch destun
2. Bodlonwyd rheoliadau ariannol, cefnogwyd taliadau gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mewnosodwch destun
3. Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer eu rheoli.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mewnosodwch destun
4. Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept/ardoll/adnoddau o broses gyllidebu ddigonol, cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mewnosodwch destun
5. Cafodd yr incwm disgwylidig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n syth, a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mewnosodwch destun
6. Cefnogwyd taliadau arian mân yn briodol gan dderbynebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mewnosodwch destun
7. Talwyd cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau a gofnodwyd, a chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mewnosodwch destun
8. Roedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mewnosodwch destun

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys**	
9. Cafodd cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn eu cynnal yn briodol.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mewnosodwch destun
10. Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail cyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau/incwm a gwariant), roeddent yn gyson â'r llyfr arian parod, wedi'u cefnogi gan drywydd archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a, lle y bo'n briodol, cafodd dyledwyr a chredydwyr eu cofnodi'n briodol.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mewnosodwch destun

Roedd rheolaethau digonol yn bodoli ar gyfer unrhyw feysydd risg a nodwyd gan y Pwyllgor (rhestrwch unrhyw feysydd risg eraill isod neu ar dudalennau ar wahân os oes angen):

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys**	
11. Nodwch y maes risg	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mewnosodwch destun
12. Nodwch y maes risg	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mewnosodwch destun
13. Nodwch y maes risg	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mewnosodwch destun

\* Os atebwyd 'naddo', nodwch y goblygiadau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendid rheoli a nodwyd (ychwanegwch dudalennau ar wahân os oes angen).

\*\* Os atebwyd 'heb ei gynnwys', nodwch pryd y gwnaethpwyd y gwaith archwilio mewnol mwyaf diweddar yn y maes hwn a phryd y bwriedir ei wneud nesaf, neu os nad oes angen ei gynnwys, rhaid i'r archwilydd mewnol esbonio pam nad oes angen hynny.

[Mae fy nghanfyddiadau manwl a'm hargymhellion yr wyf yn eu dwyn i sylw'r Pwyllgor wedi'u cynnwys yn fy adroddiad manwl i'r Pwyllgor dyddiedig 16/05/2019.] \* Dileer os nad oes adroddiad wedi'i baratoi.

### Cadarnhau archwiliad mewnol

Rwyf/Rydym yn cadarnhau nad wyf i/ydym ni, fel archwilydd mewnol y Pwyllgor, wedi ymgymryd â swyddogaeth reoli na gweinyddol o fewn y corff (gan gynnwys paratoi'r cyfrifon) nac fel aelod o'r corff yn ystod y blynyddoedd ariannol 2017-18 a 2018-19. Cadarnhaf hefyd na fu unrhyw achos o wrthdaro buddiannau ynghylch fy mhenodiad.

Enw'r unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: angen enw

Manon Haf Beaton

Llofnod yr unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol:



Dyddiad:

16/05/2019

## Nodiadau cyfarwyddyd ar gwblhau'r Ffurflen Flynyddol

- Rhaid i chi gymhwyso arferion priodol wrth baratoi'r ffurflen flynyddol hon. Nodir yr arferion priodol yn y Canllaw i Ymarferwyr.
- Gwnewch yn siŵr bod y Ffurflen Flynyddol wedi ei chwblhau'n llawn, h.y. dim blychau coch gwag. Ceisiwch osgoi gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r ffurflen wedi'i chwblhau. Os na allwch osgoi hyn, rhowch linell drwy'r cofnodion anghywir, sicrhewch fod y diwygiadau wedi'u tynnu at sylw'r corff gyda llythrennau cyntaf eich enw wrth eu hymyl a'ch bod wedi rhoi esboniad i'r archwilydd allanol. **Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.** Caiff ffurflenni blynyddol anghyflawn neu rai sy'n cynnwys diwygiadau heb eu cymeradwyo a/neu eu hesbonio neu hylif cywiro eu dychwelyd heb eu harchwilio a gall olygu costau ychwanegol. Gofynnwch i'ch archwilydd am gopi electronig o'r ffurflen os oes angen un.
- Gofynnwch i ail berson, y Cadeirydd neu aelod efallai, adolygu eich Ffurflen Flynyddol er mwyn sicrhau ei bod yn gyflawn cyn anfon y ffurflen wreiddiol at yr archwilydd.
- Gwnewch yn siŵr bod eich datganiadau cyfrifyddu yn gywir, bod y balans a gariwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol (llinell 7 o 2018) yn cyfateb i'r balans a ddygwyd ymlaen yn y flwyddyn gyfredol (llinell 1 o 2019). Esboniwch unrhyw wahaniaethau rhwng ffigurau 2018 ar y ffurflen flynyddol hon a'r symiau a gofnodwyd yn ffurflen flynyddol y llynedd.
- Rhowch esboniad llawn am unrhyw amrywiannau sylweddol yn y datganiadau ariannol. Peidiwch ag anfon copi o'ch cofnodion cyfrifyddu manwl yn lle'r esboniad hwn. Mae'r archwilydd allanol am wybod eich bod chi'n deall y rhesymau dros yr holl amrywiannau. Cofiwch gynnwys dadansoddiad manwl i ategu eich esboniad a byddwch yn benodol ynghylch gwerthoedd elfennau unigol sy'n gyfrifol am yr amrywiannau.
- Sicrhewch fod y copi o'r cysoniad banc y byddwch yn ei anfon at eich archwilydd gyda'r copi o'r Ffurflen Flynyddol yn cynnwys eich **holl** gyfrifon banc a balansau ariannol. Os nad oes unrhyw eitemau cysoni, nodwch hyn a rhowch dystiolaeth o falansau'r banc. Os oes gan eich Pwyllgor unrhyw fuddsoddiadau byrdymor, nodwch eu gwerth ar y cysoniad banc. Dylai'r archwilydd allu gyfateb eich cysoniad banc i linell 9 yn y datganiadau cyfrifyddu. Ceir rhagor o gymorth ar gysoniadau banc yn y Canllaw i Ymarferwyr.
- Mae'n ofynnol i bob pwyllgor anfon gwybodaeth at yr archwilydd allanol, i ategu'r honiadau a wnaed yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hyd yn oed os nad ydych chi wedi gwneud hynny yn flaenorol.** Bydd eich archwilydd yn dweud wrthyh pa wybodaeth y mae angen i chi ei darparu. Sicrhewch eich bod yn darllen yr hysbysiad archwilio yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae'r archwilydd wedi gofyn amdani. Dylech anfon **copïau** o'r cofnodion gwreiddiol (a ardystiwyd gan y Clerc a'r Cadeirydd fel copïau cywir) at yr archwilydd allanol ac nid y dogfennau gwreiddiol eu hunain.
- Peidiwch ag anfon unrhyw wybodaeth at yr archwilydd nad yw wedi gofyn yn benodol amdani. Nid yw hyn o fudd.
- Os bydd yn rhaid i'r archwilydd adolygu gwybodaeth nas gofynnwyd amdani, gofyn eto am wybodaeth, neu os caiff gysoniad banc anghyflawn neu esboniad o amrywiannau neu os caiff ddogfennau gwreiddiol y mae'n rhaid eu dychwelyd, bydd yr archwilydd yn mynd i gostau ychwanegol y mae ganddo hawl i godi ffoedd ychwanegol amdanynt.
- Dylech ateb pob gohebiaeth â'r archwilydd allanol yn brydlon.** Bydd hyn yn eich helpu i gyflawni eich rhwymedigaethau statudol a bydd yn lleihau cost yr archwiliad.
- Noder, os byddwch yn cwblhau'r ffurflen electronig, rhaid i chi argraffu'r ffurflen er mwyn iddi gael ei hardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol a'i llofnodi gan y Cadeirydd cyn ei hanfon at yr archwilydd.**

Rhestr wirio cwblhau - Bydd ateb 'Naddo' yn golygu nad ydych o bosibl wedi bodloni'r gofynion		Cwblhawyd?	
Cyflwyniad cyntaf i'r archwilydd allanol		Do	Naddo
<b>Cyfrifon</b>	A yw'r papurau i'w hanfon at yr archwilydd allanol yn cynnwys esboniad o amrywiadau sylweddol rhwng y llynedd ac eleni?		
	A yw'r cysoniad banc ar 31 Mawrth 2019 yn gyson â Llinell 9?		
<b>Cymeradwyo</b>	A yw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi ardystio'r datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rheoliad 15 (1)) erbyn 30 Mehefin 2019 fan bellaf?		
	A yw'r corff wedi cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu cyn 30 Mehefin 2019 ac a yw Adran 3 wedi'i llofnodi a'r dyddiad wedi'i nodi gan yr unigolyn a oedd yn cadeirio'r cyfarfod pan roddwyd y gymeradwyaeth?		
<b>Pob adran</b>	A yw'r holl flychau pinc yn y datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi eu llenwi ac esboniadau wedi'u rhoi pan fo angen?		
	A yw'r holl wybodaeth y gofynnodd yr archwilydd allanol amdani wedi'i hanfon gyda'r Ffurflen Flynyddol hon? Cyfeiriwch at eich hysbysiad o archwiliad ac unrhyw atodlenni ychwanegol a ddarparwyd gan eich archwilydd allanol.		
Os caiff y cyfrifon eu diwygio ar ôl derbyn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar faterion sy'n codi		Do	Naddo
<b>Cyfrifon</b>	A yw'r datganiadau cyfrifyddu sydd wedi eu diwygio wedi'u cymeradwyo ac Adran 3 wedi'i llofnodi eto a'r dyddiad wedi'i nodi eto fel tystiolaeth o gymeradwyaeth y Bwrdd i'r diwygiadau cyn eu hailgyflwyno i'r archwilydd?		



# Eitem 8

## EITEM 8

<b>CYFARFOD</b>	<b>Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>14 Mehefin 2019</b>
<b>ENW</b>	<b>Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy</b>
<b>PWRPAS</b>	<b>Ystyried a chymeradwyo'r ymatebion arfaethedig i'r sylwadau am y Canllaw Cynllunio Atodol Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy a mabwysiadu'r Canllaw</b>
<b>ARGYMHELLIAD</b>	<b>Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r ymateb arfaethedig i'r sylwadau am y Canllaw Cynllunio Atodol canlynol a mabwysiadu'r Canllaw hyn:</b>  <b>(i) Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy</b>
<b>AWDUR</b>	<b>Arweinydd Tîm, Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn</b>

### 1. Cefndir

1.1 Mae'r Awdurdodau Cynllunio wedi ymrwmo i baratoi ystod o Ganllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae'r adroddiad yma yn cyflwyno:

- i. Adroddiad am ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r Canllaw Cynllunio Atodol Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy (Atodiad 1); a
- ii. Chopi o'r drafft terfynol o'r Canllaw Cynllunio Atodol Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy (Atodiad 2).

### 2. Yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r Canllawiau drafft terfynol

2.1 Cafodd drafft ymgynghorol y Canllaw Cynllunio Atodol Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy ei lunio'r llynedd ar sail ymgynghori gyda swyddogion perthnasol yn y ddau Gyngor a'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Derbyniwyd cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 16 Dachwedd 2018 i ymgynghori yn gyhoeddus ar y Canllaw drafft hyn.

2.2 Bu ymgynghori cyhoeddus ar gynnwys y dogfen drafft rhwng 13 Rhagfyr a 31 Ionawr, 2019. Mae'r Adroddiad Ymgynghori Cyhoeddus a welir yn Atodiad 1 yn cofnodi'r sylwadau a dderbyniwyd a'r ymateb iddynt. Mae'r Canllaw a welir yn Atodiadau 2 wedi ei ddiwygio yn sgil yr ymgynghori, gan gymryd rhai o'r materion a godwyd i ystyriaeth.

### 3. Asesiad Cynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

- 3.1 Cynhaliwyd asesiad sgrinio i benderfynu ai peidio os dylai'r Canllaw hyn fod yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) yn unol â Chyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC ac Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni Rheoliadau 2004 cysylltiedig. Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARHC) o gynlluniau a rhaglenni a allai effeithio ar safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol yn un o ofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (92/42/EEC). Felly, cafodd y Canllaw ei hasesu i benderfynu a oedd asesiad priodol llawn yn ofynnol o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.
- 3.2 Mae'r Rheoliadau yn nodi'r broses i Awdurdodau ymgymryd â barn sgrinio. Oherwydd bod y Canllawiau yn cefnogi polisiâu a fuodd yn destun AAS, y casgliad oedd nad oedd angen i'r Canllawiau fod yn destun AAS. Fe gafodd polisiâu'r Cynllun eu hasesu o dan y Rheoliadau Cynefinoedd ac fe ddaethpwyd i'r casgliad nad oedd angen Asesiad Priodol o'r Cynllun. Oherwydd bod y Canllawiau yn cefnogi rhai o'r polisiâu hynny, fe ddaeth yr asesiad sgrinio a gyfeirir ato ym mharagraff 3.1 uchod i gasgliad nad oedd angen Asesiad Priodol o'r Canllaw hyn.
- 3.3 Yn unol â'r prosesau ar gyfer y Rheoliadau a enwir uchod, cafodd yr asesiad sgrinio eu gyrru i Gyfoeth Naturiol Cymru a CADW, sef y cyrff statudol amgylcheddol penodol. 'Roedd rhaid i'r cyrff yma fynegi eu barn o fewn cyfnod 5 wythnos.
- 3.4 Mae'r broses hwn wedi arwain at benderfyniad bod asesiad sgrinio'r Cynghorau yn gywir, ac, felly, nid oes angen AAS ac Asesiad Priodol o'r Canllaw. Caiff Datganiad Sgrinio eu cyhoeddi yn unol â hynny.

#### **4. Camau nesaf**

- 4.1 Ar ôl i'r Canllaw gael ei fabwysiadu fe fydd yn ystyriaeth cynllunio perthnasol.
- 4.2 Bydd copi o'r Canllaw terfynol ar gael i'w gweld ar wefanau'r ddau Gyngor a chopi caled i'w weld yn swyddfeydd y ddau Wasanaeth Cynllunio a swyddfa'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd.
- 4.3 Bydd copi o'r Adroddiad Ymgynghori Cyhoeddus ar gael i'w weld ar wefanau'r ddau Gyngor a chopi caled i'w weld yn swyddfeydd y ddau Wasanaeth Cynllunio a swyddfa'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd.
- 4.4 Bydd copi o'r Datganiad Sgrinio'r Asesiad Cynaliadwyedd a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i'w weld ar wefanau'r ddau Gyngor a chopi caled i'w weld yn swyddfeydd y ddau Wasanaeth Cynllunio a swyddfa'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd.
- 4.5 Byddwn yn rhoi gwybod i bawb wnaeth gyfrannu i'r ymgynghoriad cyhoeddus am y penderfyniad i fabwysiadu'r Canllawiau hyn.

#### **5. Argymhelliad**

- 5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r ymateb arfaethedig i'r sylwadau am y Canllaw Cynllunio Atodol canlynol a mabwysiadu'r Canllaw hyn:
  - (i) Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy (Gweler Atodiad 2)

**ATODIADAU:**

Atodiad 1: Adroddiad Ymgynghori Cyhoeddus am y Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy

Atodiad 2: Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy drafft terfynol

## Atodiad 1

CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL – CYNNAL A  
CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
ADRODDIAD YMGYNGHORIAD AC ARGYMHELLION  
Y SWYDDOG



MEHEFIN 2019

# Cynnwys

<b>Cynnwys</b> .....	1
1.0 CEFNDIR .....	2
Diben y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA).....	2
Y Cyd-destun Polisi.....	2
Yr angen am Ganllawiau Cynllunio Atodol.....	2
Statws y Canllawiau Cynllunio Atodol.....	2
2.0 CCA CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY.....	3
Yr Ymgynghoriad Cyhoeddus .....	3
3.0 Pwyllgor Craffu (Cyngor Gwynedd) / Sgriwtini (Cyngor Môn) .....	4
Adborth gan Pwyllgor Craffu Cymunedau (Cyngor Gwynedd): .....	4
Adborth gan Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio (Cyngor Môn): .....	5

Atodiad (1a) – Ffurflen Sylwadau

Atodiad (1b) – Y Sylwadau a Dderbyniwyd ac Argymhellion gan Swyddogion

Atodiad (1c) – Newidiadau mewn Ymateb i Sylw 1

Atodiad (1ch) – Proses o Baratoi'r CCA

## 1.0 CEFNDIR

### Diben y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)

- 1.1 Diben y CCA yw:
- cynorthwyo'r ymgeiswyr a'u hasiantau i baratoi ceisiadau cynllunio a'u harwain mewn trafodaethau â swyddogion ynghylch sut i ddefnyddio polisiau perthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio,
  - cynorthwyo swyddogion i asesu ceisiadau cynllunio, a swyddogion a chynghorwyr i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio, a
  - chynorthwyo Arolygwyr Cynllunio i wneud penderfyniadau ar apelïadau.
- 1.2 Y nod gyffredinol yw gwella ansawdd datblygiadau newydd a hwyluso ffordd gyson a thryloyw o wneud penderfyniadau sy'n cyd-fynd â pholisiau perthnasol y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

### Y Cyd-destun Polisi

#### Y Cynllun Datblygu Lleol

- 1.3 Dan ddeddfwriaeth gynllunio, mae'r polisiau cynllunio ar gyfer pob ardal wedi'u cynnwys yn y 'cynllun datblygu'. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn ar 31 Gorffennaf 2017. Mae'n ymwneud ag ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd a Môn.
- 1.4 Mae'r Cynllun yn darparu polisiau amrywiol ynghyd â dyraniadau ar gyfer y prif ddefnyddiau tir, megis tai, cyflogaeth a manwerthu; bydd yn cynorthwyo i siapia dyfodol ardal y Cynllun yn ffisegol ac yn amgylcheddol, a bydd hefyd yn dylanwadu arno yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Felly, mae'r Cynllun yn:
- galluogi i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol wneud penderfyniadau rhesymegol a chyson ar geisiadau cynllunio drwy ddarparu fframwaith polisi sy'n gyson â pholisi cenedlaethol; ac
  - arwain datblygiadau i ardaloedd addas yn ystod y cyfnod hyd at 2026.

### Yr angen am Ganllawiau Cynllunio Atodol

- 1.5 Er bod y Cynllun yn cynnwys polisiau sy'n galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud penderfyniadau cyson a thryloyw ar geisiadau datblygu, ni all rhoi'r holl gyngor manwl sydd ei angen ar swyddogion a darpar ymgeiswyr i lywio cynigion yn lleol. Er mwyn darparu'r cyngor manwl hwn, mae'r Cynghorau'n rhoi cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi'r Cynllun gyda chanllawiau mwy manwl ar amrediad o bynciau a materion i gynorthwyo i ddadansoddi neu weithredu polisiau a chynigion y Cynllun.

### Statws y Canllawiau Cynllunio Atodol

- 1.6 Ystyrir Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn ystyriaethau cynllunio perthnasol yn ystod y broses o asesu a gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Bydd Llywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio yn rhoi pwys sylweddol ar ganllawiau cynllunio atodol sy'n deillio o gynllun datblygu ac sy'n gyson ag ef. Nid yw'r CCA yn cyflwyno unrhyw bolisiau cynllunio newydd nac yn addasu polisiau sy'n bodoli eisoes.
- 1.7 Felly, cyn gynted ag y bydd wedi'i fabwysiadu, dylid rhoi pwys sylweddol i'r CCA fel ystyriaeth gynllunio berthnasol.

## 2.0 CCA CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY

- 2.1 Prif fwriad y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) hwn (ynghyd â Chanllawiau Cynllunio Atodol eraill) yw helpu ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio i ddeall cyfres o bolisiau perthnasol a fydd yn integreiddio 'datblygu cynaliadwy' yn y broses datblygu, er mwyn cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy. Bydd hyn yn sicrhau y bodlonir gofynion deddfwriaeth a pholisi ac y cyflawnir safonau arfer gorau. Mae'n cynnig dull safonol y dylai'r holl ymgeiswyr eu dilyn. Mae'r Canllawiau hyn yn ymhelaethu ar y prif egwyddorion a nodir ym mholisiau perthnasol y Cynllun Datblygu Lleol. Dylid ei ddefnyddio efo asesiadau arbenigol o fanylion pob achos penodol (lle mae'r asesiadau yn angenrheidiol).
- 2.2 Mae'r CCA a fuodd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus wedi cael ei rannu i dri adran ac mae'n cynnwys cyfres o 8 atodiad. Mae Adran 1 ac Adran 3 yn ymwneud â llunio datblygiad cynaliadwy'n gyffredinol. Mae Adran 2, ynghyd ag Atodiad 2 – 3, a 5 - 8, yn canolbwyntio ar roi arweiniad am ofynion maen prawf 4 o Bolisi PS 5 'Datblygu Cynaliadwy' a gofynion Polisi PS 1 'Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig'.

### Yr Ymgynghoriad Cyhoeddus

- 2.3 Paratowyd drafft o'r Canllaw hwn mewn ymgynghoriad â swyddogion o Adain Rheolaeth Datblygu y ddau Awdurdod a Swyddogion Datblygu Iaith y ddau Gyngor. Cafwyd ymgynghoriad eang yn y broses o baratoi y Canllaw gweler y tabl yn Atodiad (1ch). Ar ôl rhoi ystyriaeth i argymhellion Pwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Gwynedd, penderfynodd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn ei gyfarfod ar 26 Ebrill 2018 i gomisiynu cwmnïau allanol i ymgymryd â gwerthusiad beirniadol o fersiwn drafft ymgynghorol cychwynnol o'r CCA. Cafodd Cwmni Iaith a Gwasanaethau Ymgynghorol BURUM eu penodi i gydweithio i wneud y gwaith hwnnw. Cymeradwywyd fersiwn ddrafft ymgynghorol o'r CCA hwn (a oedd yn ymgorffori newidiadau a gafodd eu hargymell gan Cwmni Iaith a Gwasanaethau Ymgynghorol BURUM) ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 16 Tachwedd 2018.
- 2.4 'Roedd y CCA yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 13 Rhagfyr 2018 a 31 Ionawr 2019.
- 2.5 Rhoddwyd manylion yr ymgynghoriad cyhoeddus ar wefannau'r ddau Gyngor ac anfonwyd e-byst/llythyrau at yr holl Gynghorwyr, Cynghorau Cymuned, asiantau cynllunio, ymgynghorwyr statudol, awdurdodau cyfagos ynghyd â nifer o unigolion, cwmnïau a mudiadau sydd yn ymwneud a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig a rhai a oedd gan ddiddordeb penodol yn natblygiad canllawiau am sut i ddefnyddio Polisi PS 1 Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. Mae'r rhain yn cynnwys: Comisiynydd y Gymraeg, aelodau Fforwm Iaith Mon, Pwyllgor Ymgyrch Tai a Chynllunio Gwynedd a Môn, Yr Urdd, Prifysgol Bangor, Hanfod, Arad, Trywydd (nid yw'r rhestr hwn yn un cynhwysfawr). Roedd copïau caled o'r CCA hefyd ar gael i'w darllen ym mhob llyfrgell gyhoeddus, prif swyddfa Cyngor Ynys Môn yn Llangefni ac yn Siop Gwynedd (Caernarfon, Dolgellau a Phwllheli).
- 2.6 Roedd nifer o ffyrdd gwahanol i bobl ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys:
- Ffurflen ymateb ar-lein mewn Word a .pdf - ar gael ar y ddwy wefan a chopïau papur ar gael yn holl lyfrgelloedd a Siop Gwynedd. Roedd copïau papur o'r ffurflen ymateb hefyd ar gael ar gais gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd.
  - E-bost
  - Llythyr

- 2.7 Gofynnwyd 9 cwestiwn penodol ac 1 cwestiwn cyffredinol ar y ffurflen sylwadau – gweler Atodiad (1a). Fe wnaeth 8 sylwebydd ymateb yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus. Derbyniwyd 88 o sylwadau. Fe wnaeth rhai o'r sylwebyddion ddefnyddio strwythur y ffurflen sylwadau i gyflwyno'u sylwadau (h.y. maent wedi ateb y cwestiynau), tra mae'r gweddill wedi cyflwyno'u sylwadau ar ffurf llythyr.
- 2.8 Rhoddwyd ystyriaeth lawn i bob un sylw a dderbyniwyd. Ymgynghorwyd gyda swyddogion cynllunio a gyda'r cwmnïau ddaru ymgymryd â gwerthusiad beirniadol o'r Canllaw drafft cyn gwneud argymhelliad ynglŷn â'r ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd. Mae Atodiad (1b) yn cofnodi'r sylwadau a dderbyniwyd. Mae'n cynnwys ymateb iddynt a, phan fo'n briodol, yn argymhell unrhyw newidiadau i'r CCA sydd eu hangen yn sgil y sylwad. Oherwydd awgrymir newid trefn rhai paragraffau mewn ymateb i un o'r sylwadau, mae'r newidiadau hynny wedi cael eu dangos yn Atodiad (1c). Mae'r newidiadau'n cael eu dangos un ai mewn **print bras** neu ~~destun wedi cael ei ddileu.~~

### 3.0 Pwyllgor Craffu (Cyngor Gwynedd) / Sgriwtini (Cyngor Môn)

- 3.1 Cafodd y CCA ei adrodd i Pwyllgor Craffu Cymunedau (Cyngor Gwynedd) ar y 4ydd Ebrill a Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio Cyngor Môn ar y 9fed o Ebrill. Pwrpas hyn oedd i graffu sut cafodd yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus eu trin a cyfle iddynt gynnig adborth cyn i'r Canllaw gael ei ystyried gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd.

#### 3.2 Adborth gan Pwyllgor Craffu Cymunedau (Cyngor Gwynedd):

- Penderfynwyd derbyn yr adroddiad ac i'r gweithgor craffu gyflwyno sylwadau ar ran y Pwyllgor Craffu i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.
- Mae'r tabl isod yn nodi y materion gafodd eu codi yn y cyfarfod ynghyd a ymateb yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) i'r materion yma.

**TABL 1**

Mater a Godwyd yn y Pwyllgor Craffu	Ymateb yr UPCC
Yn dilyn cyhoeddiad Polisi Cynllunio Rhifyn 10 mae angen ystyried y newidiadau fyddai'n cael effaith ar y CCA.	Fel a amlygwyd ym mharagraff 6.3 o'r Adroddiad i'r cyfarfod mis Ebrill o'r Pwyllgor Craffu mae Polisi Cynllunio Cymru 10 yn ail ategu y deddfwriaeth perthnasol ar gyfer paratoi cynllun datblygu a penderfyniadau am ddatblygiadau arfaethedig ar y defnydd o'r Gymraeg. Felly nid oes newid wedi bod felly rhwng safbwynt Llywodraeth Cymru am rôl y system gynllunio i hyrwyddo'r amodau sy'n hanfodol i'r Gymraeg rhwng argraffiad 9 ac Argraffiad 10.
Awgrymwyd y dylid parhau i ddefnyddio'r CCA presennol hyd 2020 a phenodi arbenigwyr i geisio tystiolaethu ar effaith y	Mae yna ymrwymiad o fewn y CDLI ar y cyd i fabwysiadu CCA ar gyfer y maes yma. Golyga hyn fod y Canllaw yn cyd fynd gyda'r Polisi yn y Cynllun cyfredol a felly yn cael mwy o



Mater a Godwyd yn y Pwyllgor Craffu	Ymateb yr UPCC
canllaw gan lunio addasiadau erbyn Awst 2020.	bwysau fel ystyriaeth berthnasol wrth ddelio efo ceisiadau cynllunio perthnasol.
Angen i'r canllaw fod yn gryf a gwerthfawr ac roedd ei werth yn y ffurf bresennol yn cael ei gwestiynu.	Nid dogfen bolisi yw'r CCA ond un sydd yn rhoi cig ar asgwrn Polisi er mwyn rhoi arweiniad ar sut mae Cyngor Gwynedd (a Chyngor Sir Ynys Môn) yn bwriadu gweithredu'r Polisi.
Cwestiynwyd yr angen am ganllaw os nad oes angen asesiad iaith ar safleoedd sydd eisoes wedi eu dynodi yn y Cynllun Datblygu Lleol ac ar gyfer y nifer fechan hynny os yw'r 'angen' wedi newid.	<p>Mewn ymateb yn y cyfarfod, roedd y swyddogion yn derbyn rhwystredigaeth yr Aelod ac yn nodi y byddai angen newid deddfwriaeth i gyfarch hyn gyda phwysau gwleidyddol a thystiolaeth briodol.</p> <p>Mae'r Polisi ar Canllaw yn dilyn Polisi Cenedlaethol ar gyfer pryd mae angen cael Datganiad neu Asesiad Ieithyddol efo bwriad.</p> <p>Os yw anheddle benodol wedi mynd uwchlaw ei lefel twf dangosol neu nad yw'r math o fwriad yn cyfarch ag angen adnabyddedig yna fe fydd yna angen am Asesiad neu Ddatganiad i gyfiawnhau'r bwriad hyd yn oed os yw'r safle wedi ei ddynodi.</p>
Gofynnwyd sut mae modd casglu ystadegau a thystiolaeth a beth yw'r ffordd ymlaen. Gofynnwyd hefyd a oedd tystiolaeth yn bodoli dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac os oes mecanwaith yn ei le i gasglu tystiolaeth.	Mewn ymateb yn y cyfarfod, nododd y swyddogion bod ystadegau o'r cyfrifiad yn cael ei ddefnyddio ynghyd a gwybodaeth twf aelwydydd/ poblogaeth. Amlygwyd hefyd bod yr uned yn gweithio gyda swyddogion iaith.

- Yn wreiddiol rhoddwyd tan y 30ain Ebrill er mwyn cael sylwadau gan y Gweithgor Craffu fodd bynnag gan fod cyfarfod mis Mai wedi cael ei ganslo rhoddwyd estyniad am rhain tan y 20fed o Fai.
- Nid oedd sylwadau ar ran y Pwyllgor Craffu wedi ei derbyn mewn perthynas ag ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus gynhaliwyd ar y CCA drafft yn 2018/19, na chwaith ar y CCA drafft newydd o fewn amser paratoi yr adroddiad yma.

### 3.3 Adborth gan Pwyllgor Sgriwitini Partneriaeth ac Adfywio (Cyngor Môn):



- Penderfynwyd derbyn y CCA fel a gyflwynwyd yn Atodiad 1 o'r adroddiad.

- Mae'r tabl isod yn nodi y materion gafodd eu codi yn y cyfarfod ynghyd a ymateb yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) i'r materion yma.

**TABL 2**

<b>Mater a Godwyd yn y Pwyllgor Sgrwtini</b>	<b>Ymateb yr UPCC</b>
A oedd y Gwasanaeth yn siomedig ar gyfer y nifer o sylwadau a dderbyniwyd?, hefyd nodwyd nad oedd unrhyw sylwadau wedi cael ei wneud gan Cynghorau Cymuned Ynys Môn.	Cynnwys y sylwadau sydd yn bwysig yn hytrach na'r nifer. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau a dderbyniwyd yn rhai adeiladol. Mae'r UPCC wedi argymhell derbyn nifer helaeth o'r sylwadau.
A all y CCA dros amser arwain at newid yn y Polisi?	Mae yna fframwaith fonitro o fewn y Cynllun sydd yn golygu'r angen am Adroddiad Monitro Blyneddol. Gall canfyddiadau'r monitro yma arwain tuag at yr angen i adolygu polisiâu o fewn y Cynllun. Bydd dadansoddiad o effeithlonrwydd y Canllaw yn rhan o'r ystyriaeth monitor yma.
A yw'r broses cynllunio yn ddigon cadarn i warchod yr iaith a'r Diwylliant Cymraeg o fewn cymunedau gwledig pan gaiff cais cynllunio mawr ei gyflwyno?	Yn bresennol yr hen CCA sydd yn cael ei ddefnyddio a nid yw hwn yn rhoi canllaw ar gyfer y methodoleg diweddaraf ar gyfer paratoi Datganiadau / Aseidiadau Ieithyddol. Mae'r Canllaw yma yn rhoi cyfarwyddyd i ddatblygwyr ar gyfer y dull gweithredu sydd ei angen i sicrhau fod y gwybodaeth perthnasol ar gyfer yr iaith Gymraeg a diwylliant yn cael ei gyflwyno efo cais.
A yw'r CCA yn ddigon cadarn i ddelio efo achosion o apeliadau yn erbyn y Cyngor?	Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi pwyslais mawr i CCA sydd yn gyson efo'r Cynllun Datblygu Lleol. Fel efo unrhyw Bolisi / Canllaw yn ymwneud efo'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd bydd yn rhaid disgwyl i weld penderfyniadau apêl i asesu ei addasrwydd.
Nodwyd gall hyd yn oed cais bach effeithio ar natur yr iaith Gymraeg o fewn ardal wledig. Sut gall y CCA warchod ardaloedd gwledig oddi wrth fath ddatblygiadau?	Yn unol efo Polisi PS 1 yn y Cynllun pan mae unrhyw fwriad yn mynd uwchben lefel twf dangosol y disgwylir mewn anheddle benodol yna bydd angen o leiaf datganiad Ieithyddol i gefnogi'r cais.  Os yn fwriad am 5 neu fwy o dai rhaid i'r bwriad ddangos ei fod yn mynd i'r afael â thystiolaeth o angen a galw am dai a gofnodwyd mewn Aseiad Marchnad Tai a ffynonellau tystiolaeth leol berthnasol eraill. Eto os nad yw bwriad yn cyflawni hyn yna bydd gofyn am Datganiad Ieithyddol i gefnogi'r cais.

<b>Mater a Godwyd yn y Pwyllgor Sgrwtini</b>	<b>Ymateb yr UPCC</b>
	<p>Mae'r Canllaw yn cynnwys cyfarwyddyd ar gyfer paratoi'r datganiadau yma. Dylai hyn sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi tuag at materion ieithyddol efo nifer o geisiadau bach yn ardal y Cynllun.</p>

	 <p>CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL</p>	<p>Defnydd swyddfa yn unig/ Office use only</p> <p>Rhif Cyn./Rep No.:</p> <p>Derbyniwyd/Received:</p> <p>Cydnabod/Acknowledged</p>
--	--	--

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Adnau Ynys Môn a Gwynedd 2011-2026**  
**FFURFLEN SYLWADAU CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL /**  
**Anglesey and Gwynedd Deposit Joint Local Development Plan 2011-2026**  
**SUPPLEMENTARY PLANNING GUIDANCE COMMENTS FORM**  
**13/12/18.**

Yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, mae Awdurdodau Cynllunio Gwynedd a Môn yn paratoui cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol yn rhoi arweiniad a rhagor o fanylion angenrheidiol am bolisïau penodol yn y Cynllun Datblygu Lleol. Dylai'r Canllawiau hyn, felly, roi mwy o sicrwydd i ymgeiswyr, a'u helpu nhw i baratoi ceisiadau cynllunio addas i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio. Nid oes gan y Canllawiau Cynllunio Atodol yr un statws â'r Polisiâu sy'n rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol, ond, maent yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Hoffem glywed eich barn ar y **CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY (DRAFFT YMGYNGHOROL)**

Mae'n rhaid derbyn eich sylwadau **ddim hwyrach na 4.30yh ar y 31 Ionawr 2019. NI FYDD SYLWADAU A DDERBYNNIR WEDI'R DYDDIAD YMA YN CAEL EU HYSTYRIED**

Sylwer bod **RHAID** i sylwadau fod yn ymwneud â'r **Canllaw Cynllunio Atodol yn unig, ac nid am bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.** Ni fydd sylwadau eraill yn derbyn sylw.

Trwy'r post: **Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Swyddfa'r Cyngor, Stryd y Castell, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH**

Neu trwy e-bost: [polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru](mailto:polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru) (gellir cael fersiwn gellir ei olygu mewn pdf a Word i'w lawrlwytho yn [www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru) neu [www.ynysmon.gov.uk](http://www.ynysmon.gov.uk) )

Following adoption of the Anglesey and Gwynedd Joint Local Development Plan, Anglesey and Gwynedd Local Planning Authorities are preparing a series of Supplementary Planning Guidance. Supplementary Planning Guidance provide advice and additional required information about specific policies in the Local Development Plan. The Supplementary Planning Guidance does not have the same status as Policies included in the Local Development Plan, but they are material planning consideration in the decision making process.

We would like your views about **SUPPLEMENTARY PLANNING GUIDANCE: MAINTAINING AND CREATING DISTINCTIVE AND SUSTAINABLE COMMUNITIES (CONSULTATION DRAFT)**

Your views must be submitted **no later than 4.30 pm on 31 January 2019. REPRESENTATIONS RECEIVED AFTER THE DEADLINE WILL NOT BE ACCEPTED**

Please note that representations **MUST** relate only to the **Supplementary Planning Guidance, not to policies in the Joint Local Development Plan.** Other representations will be disregarded.

By post to: **Joint Planning Policy Unit, Council Offices, Stryd y Castell, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH**

Or by e-mail: [planningpolicy@gwynedd.llyw.cymru](mailto:planningpolicy@gwynedd.llyw.cymru) (an editable pdf or Word version is available to download at [www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru) or [www.anglesey.gov.uk](http://www.anglesey.gov.uk) )


Bydd yr adborth a ddarperir gennych yn galluogi'r Awdurdodau i gwblhau'r Canllawiau Cynllunio Atodol yma. Bydd eich enw llawn a'ch sylwadau chi yn cael eu cyhoeddi mewn copi caled ac ar-lein fel rhan o'r Datganiad Ymgynghoriad, a fydd yn nodi pwy yr ymgynghorwyd â hwy, y prif faterion a godwyd a sut ymatebwyd i'r sylw. Drwy lenwi'r ffurflen hon a'u cyflwyno i'r Awdurdodau 'rydych yn rhoi eich caniatâd i'r Awdurdodau wneud hynny. Byddwn ond yn defnyddio eich manylion cyswllt personol i gysylltu gyda chi os fydd gennym gwestiwn am eich sylwadau ac i roi gwybod i chi pan gaiff y Canllawiau Cynllunio Atodol ei fabwysiadu. Byddwn yn cadw eich manylion cyswllt personol dim ond am hyd at ddeuddeg mis o ddiwedd yr ymgynghoriad.

The feedback you provide will enable the Authorities to finalise this Supplementary Planning Guidance. Your full name and comments you provide will be published online and in hard copy as part of a Consultation Statement setting out who was consulted, the main issues raised and how they were addressed. By completing this form and submitting it to the Authorities you are giving your consent for the Authorities to include your full name in the Consultation Statement. We'll only use your personal contact details to contact you if we have any queries about your comments and to notify you of the Supplementary Planning Guidance's adoption. Your personal contact details will only be retained for up to twelve months from the close of the consultation.

<b>RHAN A/PART A:</b>		
<b>Manylion cyswllt (Ni fydd y hwn ar gael yn gyhoeddus) - ni allwn dderbyn sylwadau dienw:</b>		
<b>Contact details (This will not be made publically available) – we cannot accept anonymous representations:</b>		
	<b>Eich manylion neu manylion eich cleient</b> <i>Your details or your client's details</i>	<b>Manylion yr Asiant (os yn berthnasol)</b> <i>Agent's details (If relevant)</i>
<b>Enw</b> <i>Name</i>		
<b>Sefydliad (os yn berthnasol)</b> <i>Organisation (If relevant)</i>		
<b>Cyfeiriad</b> <i>Address</i>		
<b>Côd Post</b> <i>Postcode</i>		
<b>E-bost</b> <i>Email:</i>		
<b>Dyddiad</b> <i>Date</i>		

Os yw grŵp yn rhannu barn gyffredin ynglŷn â'r Canllaw Cynllunio Atodol drafft, byddai'n ddefnyddiol pe fyddai'r grŵp hwnnw yn anfon ffurflen sengl gyda'u sylwadau, yn hytrach na bod nifer fawr o unigolion yn anfon ffurflenni ar wahân sy'n ailadrodd yr un pwynt. Mewn achosion o'r fath, dylai'r ffurflen ddangos yn glir faint o bobl sy'n cael eu cynrychioli a sut cafodd y gynrychiolaeth ei awdurdodi (gan gynnwys un pwynt cyswllt ar gyfer gohebiaeth yn y dyfodol).

Where a group shares a common view about the draft Supplementary Planning Guidance, it would be helpful for that group to send a single form with their comments, rather than for a large number of individuals to send in separate forms repeating the same point. In such cases, the form should clearly indicate how many people are being represented and how the representation has been authorised (including a single point of contact for future correspondence).

		<b>Defnydd swyddfa yn unig/ Office use only</b> Rhif Cyn./Rep No.: Derbyniwyd/Received: Cydnabod/Acknowledged
--	---	--

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Adnau Ynys Môn a Gwynedd 2011-2026**  
**FFURFLEN SYLWADAU CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL /**  
**Anglesey and Gwynedd Deposit Joint Local Development Plan 2011-2026**  
**SUPPLEMENTARY PLANNING GUIDANCE COMMENTS FORM**

**13/12/18.**

<b>RHAN B: Eich Sylwadau a Newidiadau a Awgrymir</b> <b>PART B: Your Comments and Suggested Changes</b>
<b>Eich enw/Sefydliad:</b> <b>Your name/Organisation:</b>

<b>1. Ar ba Ganllaw Cynllunio Atodol yr ydych chi'n gwneud sylwadau? (Cofiwch defnyddio ffurflen ar wahân ar gyfer pob Canllaw Cynllunio Atodol)</b> <b>1. Which Supplementary Planning Guidance are you commenting? (Remember to use a separate form for each Supplementary Planning Guidance)</b>	
Enw'r Canllaw Cynllunio Atodol/ <i>Name of Supplementary Planning Guidance</i>	CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY (DRAFFT YMGYNGHOROL / MAINTAINING AND CREATING DISTINCTIVE AND SUSTAINABLE COMMUNITIES (CONSULTATION DRAFT)

Nodwch isod eich cefnogaeth neu bryderon ynghylch y Canllawiau Cynllunio Atodol drafft, gan gynnwys unrhyw newid sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â'ch pryder. Bydd angen i chi ddweud sut y bydd newid yn ymdrin â'ch pryder, darparu geiriad diwygiedig i'r testun ac unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r newid.

Please set out below your support or concerns about the draft Supplementary Planning Guidance, including any change you consider necessary to address a concern. You will need to say how a change will address your concern, provide any suggested revised wording to the text, and any evidence to support the change.

<b>2. Adran 1 Rhan A.1 - Ydi'r Canllaw Cynllunio Atodol yn rhoi disgrifiad cadarn o 'gymuned nodedig a chynaliadwy' yn y cyd-destun lleol?/ Section 1 Part A.1 – Does the Supplementary Planning Guidance provide a sound description of a 'distinctive and sustainable community' within a local context?</b>			
<b>Ydi/ Yes</b>		<b>Nac ydi/ No</b>	

Rhowch resymau am eich barn/ Provide reasons for your view

defnyddiwch daflen ychwanegol fel bo angen/ use an additional sheet as necessary

**3. Adran 1 Rhan B.1, Tabl 1: Ydi'r Canllaw Cynllunio Atodol yn adnabod y 'teulu' llawn o bolisïau sy'n mynd i hyrwyddo datblygiad a fydd yn cyfrannu i gynnal neu greu cymunedau nodedig a chynaliadwy?/ Section 1 Part B.1, Table 1: Does the Supplementary Planning Guidance identify the full 'family' of policies that will promote development which will contribute to maintaining or creating distinctive and sustainable communities?**

**Ydi/ Yes**

**Nac ydi/ No**

Rhowch resymau am eich barn/ Provide reasons for your view

defnyddiwch daflen ychwanegol fel bo angen/ use an additional sheet as necessary

**4. Adran 3: Ydi'r Canllaw Cynllunio Atodol yn rhoi arweiniad digonol am wybodaeth a fyddai ei angen i gefnogi ceisiadau cynllunio perthnasol?/ Section 3: does the Supplementary Planning Guidance provide strong guidance about the information that would be needed to support planning applications?**

**Ydi/ Yes**

**Nac ydi/ No**

Rhowch resymau am eich barn/ Provide reasons for your view

defnyddiwch daflen ychwanegol fel bo angen/ use an additional sheet as necessary

**5. Adran 2: Ydi'r Canllaw Cynllunio Atodol yn cynnwys eglurhad cadarn o ystyriaethau allweddol ym Mholisi PS 1, e.e. beth olygir gyda safle ar hap annisgwyl, niwed o sylwedd, ayb./ Section 2: Does the Supplementary Planning Guidance provide clarification of key policy considerations included in Policy PS 1, e.g. what is meant by unexpected windfall site, significant harm, etc;**

**Ydi/ Yes**

**Nac ydi/ No**

Rhowch resymau am eich barn/ Provide reasons for your view

defnyddiwch daflen ychwanegol fel bo angen/ use an additional sheet as necessary

**6. Adran 2 Diagram 9, Atodiad 7 ac Atodiad 8: Ydi'r Canllaw Cynllunio Atodol yn rhoi disgrifiad clir o 'unigolyn cymwys' a rôl yr unigolyn?/ Section 2 Diagram 9, Appendix 7 and Appendix 8: Does the Supplementary Planning Guidance provide a clear description of a 'competent person' and the person's role?**

**Ydi/ Yes**

**Nac ydi/ No**

Rhowch resymau am eich barn/ Provide reasons for your view

defnyddiwch daflen ychwanegol fel bo angen/ use an additional sheet as necessary



**7. Atodiad 2: A oes yna ffynhonnell gydnabyddedig arall o wybodaeth ddylwn gyfeirio ato?/ Appendix 2: is there another recognised source of information that should be referred to?**

defnyddiwch daflen ychwanegol fel bo angen/ use an additional sheet as necessary

**8. Atodiad 5: A oes gennych sylwadau am y broses sgrinio?/ Appendix 5: Do you have any comments about the screening process?**

defnyddiwch daflen ychwanegol fel bo angen/ use an additional sheet as necessary

**9. Atodiad 7: Ydi'r fethodoleg ar gyfer ystyried effaith datblygiad ar y Gymraeg a chyflwyno'r dystiolaeth angenrheidiol mewn Datganiad Iaith Gymraeg yn glir?/ Appendix 7: Is the methodology to consider the impact of development on the Welsh language and submit the necessary evidence in a Language Statement clear?**

defnyddiwch daflen ychwanegol fel bo angen/ use an additional sheet as necessary

**10. Atodiad 8: Ydi'r fethodoleg ar gyfer ystyried effaith datblygiad ar y Gymraeg a chyflwyno'r dystiolaeth angenrheidiol mewn adroddiad Asesiad Effaith Iaith Gymraeg yn glir? Appendix 8: Is the methodology to consider the impact of development on the Welsh language and submit the necessary evidence in a Welsh Language Impact Assessment report clear?**

defnyddiwch daflen ychwanegol fel bo angen/ use an additional sheet as necessary

**11. Rydym wedi gofyn cwestiynau penodol i chi. A oes gennych sylwadau am rannau eraill o'r Canllaw? Os oes gennych sylwadau ychwanegol, rhwch nhw yn y rhan yma o'r ffurflen. Cofiwch ddweud wrthym ba ran o'r Canllaw rydych yn cyfeirio ato:/ We have asked you specific questions. Do you have any comments about other parts of the Guidance? If you have additional comments, please record them in this part of the form. Remember to tell us which part of the Guidance you refer to:**

Pa ran o'r Canllaw –  
paragraff/ tabl/  
diagram  
Which part of the  
Guidance –  
paragraph/ table/  
diagram

Eich sylwadau, a'r newidiadau hoffech weld a rhesymau/ thystiolaeth i gefnogi'ch barn.  
Your comments, and the amendments you would like to see and reasons/ evidence for  
your views

--	--

defnyddiwch daflen ychwanegol fel bo angen/ use an additional sheet as necessary

**DIOLCH AM EICH SYLWADAU AM Y CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL / THANK YOU FOR YOUR COMMENTS  
ON THE SUPPLEMENTARY PLANNING GUIDANCE**

Bydd y sylwadau a dderbyniwyd ar y Canllaw Cynllunio Atodol drafft yn cael eu hystyried wrth baratoi'r fersiwn drafft terfynol, a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd i'w fabwysiadu/ The comments received on the draft Supplementary Planning Guidance will be taken into account in preparing the final draft, which will be submitted to the Joint Planning Policy Committee for adoption

Gadewch i ni wybod a ydych yn dymuno cael gwybod drwy'r cyfeiriad / cyfeiriad e-bost a ddarparwyd am y penderfyniad i fabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol / Please let us know whether you wish to be notified via the address/ email address provided of the adoption of the Supplementary Planning Guidance

Oes/ Yes

Na/ No

ATODIAD (1b) - SYLWADAU A DDERBYNIWYD A SYLWADAU AC ARGYMHELLION GAN SWYDDOGION

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
1	Gwrthwynebiad	Pwyllgor Ymgyrch Tai a Chynllunio Gwynedd a Môn	Cyffredinol	<p>Hoffem yn y lle cyntaf nodi'r hyn y credwn y dylai'r Canllaw Cynllunio Atodol newydd ei bwysleisio ar y cychwyn un, sef:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1) Pwysigrwydd allweddol Gwynedd fel cadarnle cryfaf y Gymraeg a'r angen am bolisiau penodol i warchod ei nodweddion unigryw ac i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r iaith;</li> <li>2) Amcanion strategaethau perthnasol i gryfhau'r iaith, gan gynnwys <ul style="list-style-type: none"> <li>o Cynllun Hybu'r Gymraeg – strategaeth iaith Cyngor Gwynedd.</li> <li>o Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn – sy'n amcanu at gynyddu nifer y cymunedau sydd â 70% a throsodd o'u poblogaeth yn medru'r Gymraeg.</li> <li>o Strategaeth iaith Llywodraeth Cymru – sy'n anelu at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050</li> <li>o Nodyn Cyngor Technegol 20 : Cynllunio a'r Iaith Gymraeg</li> <li>o Darpariaethau iaith Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.</li> </ul> </li> <li>3) Yr angen i bob datblygiad arfaethedig gael ei arfarnu yn ôl pa mor gydnaws yw â'r amcanion uchod. Dylid sicrhau felly fod pob datblygiad naill ai'n cyfrannu'n gadarnhaol at wireddu'r amcanion neu, o leiaf, na fyddai ar unrhyw gyfrif yn llesteirio'r ymdrechion i'w cyflawni.</li> </ol>	<p>1) &amp; 2) Mae rhannau o'r Canllaw eisoes yn cyfeirio at yr hyn a nodir yn y gwrthwynebiad, e.e. Tabl 2, paragraffau C.2, C.19 – C.21. Ond, cytunir gellir newid trefn rhai paragraffau a chynnwys croesgyfeiriad at baragraffau 5.12 – 5.15 ym Mhenod 5 Strategaeth y Cynllun er mwyn gwella eglurder. Gellir gweld y diwygiad arfaethedig yn Atodiad 2A, sydd hefyd yn cynnwys newidiadau i gwrdd â sylwadau perthnasol oddi wrth Lichfields a Menter Iaith Bangor.</p> <p>3) Polisiâu'r Cynllun, gan gynnwys Polisi PS 5 a Pholisi PS 1, ac ystyriaethau cynllunio perthnasol sy'n rhoi'r sail ar gyfer gwneud ar geisiadau cynllunio.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – cynnwys y diwygiadau a welir yn Atodiad (1c)</p>
2	Gwrthwynebiad	Pwyllgor Ymgyrch Tai a Chynllunio Gwynedd a Môn	Cyffredinol	<p>Rhoi'r gorau i ddefnyddio Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol, a'i gwneud yn ofynnol i ddarparu Asesiad Effaith Ieithyddol yn yr achosion lle bo Datganiad yn ofynnol ar hyn o bryd. Mae'r dystiolaeth yn dangos nad yw'r Datganiad yn ddigonol ac nad yw'n cyflawni ei waith yn briodol</p>	<p>Polisi PS 1 sy'n penderfynu pa fath o asesiad o effaith sy'n angenrheidiol. Mae angen i ddatblygiadau sy'n cwrdd â maen prawf 1 a – c ym Mholisi PS 1 ymgymryd ag asesiad â'i gyflwyno ar ffurf Datganiad iaith Gymraeg. Ni all Canllaw newid Polisi na chyflwyno Polisi newydd.</p> <p>Yn ychwanegol, mae'r Canllaw newydd arfaethedig yn cyflwyno methodoleg newydd i ymgymryd ag asesiad effaith a fyddai angen ei gyflwyno ar ffurf Datganiad iaith Gymraeg.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – nid oes sail statudol i wneud y newid a chredir nid oes angen newid i'r Canllaw oherwydd mae Atodiad 7 yn rhoi manylion newydd ar gyfer ymgymryd ag asesiad effaith a fyddai angen ei gofnodi mewn Datganiad iaith Gymraeg.</p>
3	Gwrthwynebiad	Pwyllgor Ymgyrch Tai a Chynllunio Gwynedd a Môn	Atodiad 8	<p>Gwella methodoleg Asesiad Effaith Ieithyddol fel bod dadansoddi a dehongli tystiolaeth yn gadarnach. Cyd-drafod â Chomisiynydd y Gymraeg, mentrau iaith leol, Mentrau Iaith Cymru ac ymgyrchwyr dros y Gymraeg ar y ffordd orau o ddatblygu methodoleg gadarnach, ac adolygu'r fethodoleg yn gyson er mwyn sicrhau ei bod yn ateb y diben. Cyd-drafod â'r cyrff hyn hefyd ar yr angen am ddiffinio a datblygu dealltwriaeth gydnabyddedig o faes Cynllunio Iaith/Cymdeithaseg Iaith.</p>	<p>Nid yw'r sylwebydd wedi cyflwyno tystiolaeth i gefnogi'r safbwynt bod angen 'gwella methodoleg'. Mae'r broses o baratoi'r fethodoleg wedi cynnwys trafodaeth gyda swyddogion datblygu'r iaith yn y Cynghorau, swyddog sy'n cynrychioli Hunaniaith. Cafodd y fethodoleg drafft ei werthuso gan dîm o ymgynghorwyr annibynnol, sef Cwmni Iaith a Burum. Ymgynghorwyd gyda Chomisiynydd y Gymraeg, Fforwm Iaith Môn (sy'n cynnwys Menter Iaith Môn) a nifer o unigolion, grwpiau a mudiadau ynglŷn â'r Canllaw Cynllunio Atodol er mwyn cael barn am y fethodoleg mae'r sylwebydd yn cyfeirio ato.</p>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
					Nid yw cynnal trafodaeth i ddiffinio a datblygu dealltwriaeth gydnabyddedig o faes Cynllunio Iaith/Cymdeithaseg Iaith yn fater i'r Canllaw.  <u>ARGYMHELLIAD</u> – nid oes angen gwneud newid i'r Canllaw oherwydd bod ei ddatblygiad wedi cael ei lywio gan arbenigwyr amrywiol.
4	Gwrthwynebiad	Pwyllgor Ymgyrch Tai a Chynllunio Gwynedd a Môn	Atodiad 8	Ei gwneud yn ofynnol bod Aseidiadau Effaith Ieithyddol yn cael eu cynhyrchu gan rai sydd â dealltwriaeth o faes Cynllunio Iaith/Cymdeithaseg Iaith.	Mae Diagram 7 a pharagraff 6 yn Atodiad 8 yn y Canllaw yn gosod disgwyliad ar ymgeisydd i gyflogi unigolyn cymwys i ymgymryd ag asesiad effaith a fydd yn arwain at adroddiad Aseidiad Effaith Iaith Gymraeg. Mae Diagram 8 yn disgrifio 'person cymwys'.  <u>ARGYMHELLIAD</u> – nid oes angen gwneud newid oherwydd bod y Canllaw eisoes yn cwrrdd efo disgwyliadau'r sylwebydd.
5	Gwrthwynebiad	Pwyllgor Ymgyrch Tai a Chynllunio Gwynedd a Môn	Atodiad 8	Bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn darparu Aseidiad Effaith Ieithyddol trwy gomisiynu rhai â dealltwriaeth o faes Cynllunio Iaith/Cymdeithaseg Iaith a hynny ar gost y datblygwr.	Yn unol â gofynion Polisi PS 1, cyfrifoldeb yr ymgeisydd ydi comisiynu asesiad o effaith ei ddatblygiad ar yr iaith Gymraeg, nid yr Awdurdod Cynllunio Lleol a chyflwyno casgliadau'r asesiad fel rhan o'r pecyn gwybodaeth gyda'r cais cynllunio. Dyma sy'n digwydd o ran, e.e. asesiad bioamrywiaeth, archeolegol, trafndiaeth. Mae Diagram 11 Cam 6 yn disgrifio'r amgylchiadau pan fydd yr Awdurdod Cynllunio'n cyflogi person cymwys allanol, ac mai'r ymgeisydd fydd yn talu am y gwaith hwn.  <u>ARGYMHELLIAD</u> – nid oes angen gwneud newidiadau oherwydd bod y Canllaw eisoes yn cofnodi ymagwedd yr Awdurdodau at y pwnc a bod hynny'n gyson â'r ymagwedd at fathau eraill o asesiadau effaith.
6	Gwrthwynebiad	Pwyllgor Ymgyrch Tai a Chynllunio Gwynedd a Môn	Atodiad 8	Ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol sicrhau bod yr Aseidiad Effaith Ieithyddol yn cael ei arfarnu gan rai sydd â dealltwriaeth o faes Cynllunio Iaith/Cymdeithaseg Iaith.	Mae Diagram 11 Cam 6 yn cadarnhau caiff y dystiolaeth a gyflwynir gan yr ymgeisydd ei arfarnu gan swyddogion cymwys a/ neu swyddog cymwys allanol (pan fydd anghydfod rhwng yr ymgeisydd a'r Swyddog Cynllunio).  <u>ARGYMHELLIAD</u> – nid oes angen gwneud newidiadau oherwydd bod y Canllaw eisoes yn cofnodi caiff yr asesiadau effaith eu arfarnu gan asesydd cymwys.
7	Gwrthwynebiad	Pwyllgor Ymgyrch Tai a Chynllunio Gwynedd a Môn	Atodiad 8	Bod y sawl a gomisiynir i wneud Aseidiad Effaith Ieithyddol yn ymgynghori gyda chynghorau cymuned, mentrau iaith leol, Mentrau Iaith Cymru, ysgolion lleol a mudiadau iaith fel rhan o'r gwaith.	Mae Ffigur 7.1 a pharagraff 18 yn Atodiad 7 eisoes yn datgan gwerth ymgysylltu gyda'r gymuned leol a chyfeirir at nifer o enghreifftiau o fudd –ddeiliaid perthnasol. Mae paragraffau 9 ac 16 yn Atodiad 8 yn datgan pwysigrwydd ymgysylltu ac ymgynghori gyda budd – ddeiliaid lleol perthnasol.  <u>ARGYMHELLIAD</u> – nid oes angen gwneud newidiadau oherwydd bod y Canllaw eisoes yn cofnodi pwysigrwydd ymgysylltu ac ymgynghori gyda budd –ddeiliaid lleol perthnasol.
8	Cefnogi	Cyngor Tref Ffestiniog	Cyffredinol	Mae Cyngor Tref Ffestiniog yn cefnogi'r ddogfennaeth yma.	Nodi'r sylw cefnogol.  <u>ARGYMHELLIAD</u> – dim newid
9	Cefnogi	Lichfield ar ran Bourne Leisure Ltd	Cyffredinol	Mae Bourne Leisure yn cefnogi mewn egwyddor yr angen i gynnal a chreu cymunedau nodedig a chredir bod cymunedau nodedig presennol yng	Nodi'r sylw cefnogol.

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
				Ngwynedd yn un o'r rhesymau y mae twristiaid yn dymuno ymweld â'r ardal leol.	<u>ARGYMHELLIAD</u> – dim newid
10	Gwrthwynebu	Lichfield ar ran Bourne Leisure Ltd	Cyffredinol	Noda NCT 20 y gellir cynnal asesiadau effaith ar gyfer unrhyw fath o gynigion datblygu ar hap ond dylai ACLI ystyried yn ofalus pa fudd a ddisgwyllir o asesu'r datblygiad cyflogaeth, manwerthu neu fasnachol arfaethedig (Para 3.3.1). Awgryma hyn y dylai ffocws asesiadau effaith fod ar ddatblygiad preswyl ac nid ar y datblygiadau amgen hyn. Er y cydnabyddir bod Polisi PS1 yn gosod y meini prawf a fyddai'n arwain at ddatganiad neu asesiad effaith, mae'n tynnu sylw at yr angen i unrhyw ddogfennau o'r fath fod yn gymesur â'r datblygiad arfaethedig, yn enwedig pan fo'n ymwneud â datblygiad dibreswyl. Nid yw'r egwyddor o gymesuredd yn rhaeadru drwy'r CCA drafft. Ystyriwn fod angen adolygu'r gofynion sydd wedi'u nodi a bod cymesuredd yn cael ei gydnabod yn amlwg ac yn llwyr drwyddi draw.	<p>Nid yw NCT 20 yn gwahardd awdurdodau cynllunio rhag rhoi ystyriaeth i effaith datblygiad cyflogaeth, manwerthu a masnachol ar yr iaith Gymraeg. Mae Polisi PS 1 yn nodi'r amgylchiadau pan fydd angen i ymgeisydd gyflwyno Datganiad Iaith Gymraeg ac adroddiad am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg gyda'r cais cynllunio.</p> <p>Yn ychwanegol, ers cyhoeddi'r ymgynghoriad ar y CCA Drafft Ymgynghorol, mae Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 10 wedi ei gyhoeddi:</p> <p>Mae para 3.28 yn nodi:</p> <p>“Gall ystyriaethau yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg gael sylw gan benderfynwyr cyn belled â'u bod yn berthnasol i geisiadau am ganiatâd cynllunio.”</p> <p>Mae para. 3.29 yn nodi:</p> <p>“Os bydd angen, gellir cynnal asesiadau o'r effaith ar yr iaith mewn perthynas â datblygiadau mawr na ddyrannwyd mewn cynllun datblygu sy'n cael eu cynnig mewn ardaloedd o sensitifrwydd neu bwysigrwydd arbennig i'r iaith. Dylai unrhyw ardaloedd o'r fath fod wedi'u diffinio'n glir yn y cynllun datblygu”</p> <p>Mae'r Cynllun yn cydnabod fod yr iaith Gymraeg yn rhan o wead pob rhan o'r ardal a bod angen rhoi ystyriaeth briodol i effaith debygol pob datblygiad mawr na ragwelwyd.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – dim newid</p>
11	Gwrthwynebu	Lichfield ar ran Bourne Leisure Ltd	C.1	<p>Noda paragraff C.1 bod yn rhaid casglu gwybodaeth ynghylch datblygiadau er mwyn dod i gasgliad ynghylch yr effaith. Mae hyn yn cynnwys nodi p'un a oes buddion i'r iaith. Ystyriwn na ddylai bod angen i ddatblygiadau sydd ddim yn darparu unrhyw fuddion, na dim effaith ychwaith, orfod creu buddion. Mae hyn oherwydd y byddai'r datblygiad yn dderbyniol yn ei ffurf bresennol ac na fyddai angen unrhyw rwymedigaethau pellach i wneud y datblygiad yn dderbyniol.</p> <p>Yn y cyswllt hwn, mae'r CCA yn anghydnaws â Pholisi PS1 a PS5 y CDLI gan fod y polisiau hyn angen i gynigion "amddiffyn, hybu a chyfoethogi" yr iaith. Nid oes angen i gais cynllunio greu "buddion" er mwyn bodloni'r gofyniad polisi i "warchod" yr iaith.</p>	<p>Mae paragraff C.1 yn cynnwys <u>enghreifftiau</u> o gwestiynau a ofynnir i ystyried y dystiolaeth a chyn dod i gasgliad am beth yw'r effaith ar y Gymraeg boed yn bositif, negyddol neu'n niwtral. Yn unol â'r Polisiau a'r fethodoleg asesu, pan fydd cais cynllunio'n cael ei baratoi, mae'n hanfodol bod amser yn cael ei wario i wneud yn siŵr bod y manteision yn cael eu huchafu cymaint ag y gallant fod, tra bod unrhyw niwed yn cael ei leihau gymaint ag sy'n bosibl. Pan fydd tystiolaeth yn dangos hynny, cytunir gallai datblygiad sy'n cael effaith niwtral gyfrannu i gynnal/ warchod yr iaith Gymraeg. Argymhellir newidiadau i baragraffau C.8 - C10 er mwyn gwella eglurder.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – diwygio paragraffau C.8 – C10 yn unol â'r isod:</p> <p>C.8 Pan mae'r iaith Gymraeg yn ystyriaeth cynllunio berthnasol, mae penderfynu a yw datblygiad yn debygol o gael effaith bositif, <b>niwtral</b> neu negyddol, a phenderfynu ar raddfa debygol yr effaith honno ar gymeriad ieithyddol ardal, <b>yn y presennol ac i'r dyfodol</b>, yn hynod o gymhleth. <b>Mae cymeriad ieithyddol ardal yn agored i nifer o ddylanwadau tu hwnt i faes y defnydd a datblygiad o dir ac i un datblygiad arfaethedig – neu gyfuniad o ddatblygiadau - penodol.</b> Hyd yn oed gyda gwybodaeth lawn ni fyddai'n hawdd ei fesur oherwydd nad all y system gynllunio <del>ragweld na rheoli</del> priodweddau personol (fel y gallu i siarad Cymraeg yn</p>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
					<p>y dyfodol neu ddeinameg y defnydd ohoni). Ni all y system ychwaith wahaniaethu ar sail gallu ieithyddol ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio na gallu ieithyddol yr unigolion fydd yn meddiannu neu wneud defnydd o eiddo neu <b>safe</b>.</p> <p>C.9 Mae asesu effaith debygol ar yr iaith Gymraeg yn rhannu egwyddorion, fframweithiau a phrosesau tebyg i'r rhai a welir mewn meysydd eraill lle mae angen asesu ac ymdrin ag effeithiau tebygol. <b>Y maent yn ceisio adnabod, deall a mesur y dyfodol a'r ansicrwydd o ddarogan beth fyddai'r niwed (neu fendith) a ddaw sy'n deillio o weithred yn y presennol. Er enghraifft, yn y maes cynllunio mae asesiadau ardrawiad amgylcheddol ac asesiadau o gynaliadwyedd yn fathau o asesiadau effaith sydd wedi hen ennill eu plwyf.</b></p> <p>C.10 Mae'r Sefydliad Safonau Rhyngwladol (International Organization for Standardization - ISO) wedi cyhoeddi Safon Ryngwladol 31000 ar Reoli Risg. Er mai yn nhermau risg (neu effaith debygol <b>andwyol neu</b> negyddol) y disgrifir y Safon mae'r un fframwaith, egwyddorion a phrosesau yn briodol i uchafu bendithion yn ogystal. Felly, maent yn briodol i asesiadau tebyg i asesiadau effaith ar yr iaith Gymraeg. Mae ISO 31000 yn darparu egwyddorion a chanllawiau generig ar gyfer eu defnyddio ar draws pob sefydliad ac yn adnabod y nodweddion canlynol o reoli risg/uchafu cyfleoedd yn effeithiol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• elfen gychwynnol o ddisgrifio a sefydlu'r cyd-destun;</li> <li>• cydrannau o adnabod, dadansoddi, asesu, ac wynebu risg neu gyfleoedd; a</li> <li>• gweithgareddau i gyfathrebu ac ymgynghori gyda rhanddeiliaid trwy gydol y broses.</li> </ul>
12	Gwrthwynebu	Lichfield ar ran Bourne Leisure Ltd	C.8	Mae camgymeriad yng ngeiriad y frawddeg olaf. Dylid ei addasu i ddweud: <i>"The system also <b>cannot</b> discriminate against a planning application on the grounds of an applicant's linguistic ability and the linguistic ability of the individuals who will occupy or use a property."</i>	<p>Cytuno bod y gair 'cannot' ar goll o'r frawddeg yn y fersiwn Saesneg o baragraff C.8.</p> <p><b>ARGYMHELLIAD</b> – diwygio paragraff C.8 yn y fersiwn Saesneg yn unol â'r isod:</p> <p>The system also <b>cannot</b> discriminate against a planning application on the grounds of an applicant's linguistic ability and the linguistic ability of the individuals who will occupy or use a property.</p>
13	Gwrthwynebu	Lichfield ar ran Bourne Leisure Ltd	Diagram 4	<p>Er ei fod yn ddefnyddiol ar gyfer prosiectau cymhleth, rydym yn anghytuno y 'dylid' defnyddio'r gwasanaeth cyngor cyn gwneud cais, cyn cyflwyno pob cais cynllunio. Mae sawl achlysur lle gall ymgeisydd gyflwyno cais heb orfod mynd drwy'r broses cyngor cyn gwneud cais, sy'n gallu bod yn faith, yn gostus ac yn ddiangen i'r ymgeisydd a'r awdurdod cynllunio lleol. Mae hyn yn hynod o wir am gynlluniau llai lle y byddai gofyn am gyngor cyn gwneud cais yn anghymesur.</p> <p>Yn ogystal, mae'r diagram yn egluro, pan nad yw'r cais yn destun y broses Ymgynghori Cyn Gwneud Cais statudol, bod disgwyl i'r ymgeiswyr ymgysylltu â budd-ddeiliaid perthnasol. Rydym yn ystyried bod yr angen i ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn y cyd-destun hwn yn llafurus, yn enwedig gan mai mân geisiadau fydd ceisiadau sydd ddim yn destun y broses Ymgynghori Cyn</p>	<p>1) Cytuno gyda'r sylwebydd bod y testun yn y blwch cyntaf yn Niagram 4 yn rhy ragnodol.</p> <p><b>ARGYMHELLIAD</b> – diwygio'r testun yn Niagram 4 i gyfeirio at y gwasanaeth cyn cyflwyno cais cynllunio yn hytrach na dweud dylid ei ddefnyddio, gweler isod:</p> <p><b>Mae'r ddau Awdurdod Cynllunio yn cynnig gwasanaeth cyn cyflwyno cais cynllunio. Pan fydd ymgeisydd angen arweiniad ynglyn â'r angen asesiad am asesiad ar ffurf Datganiad/ Asesiad Effaith Iaith Gymraeg anogir iddi/ o ddefnyddio'r gwasanaeth cyn cyflwyno cais cynllunio y dylid defnyddio'r gwasanaeth cyn cyflwyno cais cynllunio mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn ei chynnig – gweler Atodiad 4 – manylion cyswllt defnyddiol.</b></p>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
				<p>Gwneud Cais. Yn y cyswllt hwn, dylai'r ymgeisydd fedru dod i'w gasgliad ei hun am effaith y datblygiad, os o gwbl, drwy gynnal astudiaeth desg. Dylai'r angen i gynnal ymgynghoriad â budd-ddeiliaid fod yn gymesur â natur a graddfa'r datblygiad.</p> <p>Er gwaetha'r pwynt hwn, nid yw'r ddogfen yn glir o ran pwy y gellid ei ystyried yn fudd-ddeiliad perthnasol a p'un a oes ganddynt adnoddau sydd wedi ymrwymo i ymateb i unrhyw ymgysylltu a wneir gan ymgeiswyr. Heb gael prosesau addas a ffurfiol yn eu lle, efallai y byddai ymgeisydd yn cael ei lesteirio yn ystod y cam cyn gwneud cais, a hynny yn sgil amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.</p> <p>Yn olaf, mae'r diagram yn egluro, pan nad oes angen cyflwyno Datganiad Ieithyddol neu Aseiad Effaith Ieithyddol, bod disgwyl i'r ymgeisydd gofnodi sut bydd y datblygiad yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i hyfywdra'r iaith Gymraeg. Eto, rydym yn pwysleisio na ddylai datblygiadau nad ydynt yn darparu unrhyw fuddion, na dim effaith ychwaith, orfod creu buddion. Mae hyn oherwydd y byddai'r datblygiad yn dderbyniol yn ei ffurf bresennol ac na fyddai angen unrhyw rwymedigaethau pellach i wneud y datblygiad yn dderbyniol.</p> <p>Yn gyffredinol, mae angen ystyried gofynion y cyfnod cyn gwneud cais a'u gwneud yn gymesur ac yn berthnasol i'r datblygiad arfaethedig ac adlewyrchu'r darpariaethau statudol sy'n darparu hyblygrwydd o ran sut mae ceisiadau'n cael eu paratoi a'u cyflwyno.</p>	<p>2) Mae'r testun yn cyfeirio at ymgysylltu gyda budd- ddeiliaid perthnasol sy'n wahanol i ymgynghoriad cyhoeddus. Er mai datblygiadau sy'n llai na rhai 'mawr' (fel y'u diffinnir yn Erthygl 2 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (DMPWO).) a gyfeirir ato, gall trafod y bwriad gyda budd - ddeiliaid fel cynghorau cymuned, cynghorwyr lleol, hwyluswyr tai gwledig, fod yn fuddiol, e.e. bwriad i adeiladu 5 tŷ mewn neu ar ymyl pentref lleol. Cytunir dylai'r angen i ymgysylltu fod yn gymesur â natur a maint y datblygiad arfaethedig. Er mwyn gwella eglurder, credir bod angen diwygio'r testun i nodi ymagwedd sy'n addas i'w bwrpas.</p> <p>Mae Atodiad 7 ac Atodiad 8 yn awgrymu mathau o fudiadau a grwpiau fyddai'n ddefnyddiol i gysylltu â hwy. Er hynny, credir byddai'n fuddiol cyfeirio at enghreifftiau yn y rhan hwn o'r Canllaw hefyd. Nid yw capasiti'r budd- ddeiliaid i ymateb i ymholiadau ac ymgynghoriadau oddi wrth ymgeisydd neu'r sawl a fydd yn ei gynrychioli yn fater i'r Canllaw. Gall yr ymgeisydd gofnodi ei ymdrechion ynghyd ag unrhyw ymateb neu ddiffyg ymateb mewn dogfen gyda'r cais cynllunio, e.e. llythyr, datganiad cynllunio, datganiad dylunio a mynediad.</p> <p>3) Mae Adran 70(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn egluro y gellid ystyried effeithiau ar ddefnydd y Gymraeg, cyn belled y bo'n berthnasol i'r cais, wrth benderfynu ar gais am ganiatâd cynllunio. Gall hyn ddigwydd gydag unrhyw gais yn unrhyw ran o Gymru. Bwriad y blwch hwn yn Niagram 4 yw annog ymgeiswyr am ddatblygiad sy'n disgyn o dan drothwyon meini prawf 1 a 2 o Bolisi PS 1 i ddangos mewn dull priodol bod eu datblygiadau'n debygol o fod yn llesol i'r Gymraeg (hyd yn oed os mai effaith niwtral sydd ganddo).</p> <p>Cytunir gellir gwella eglurder trwy ddiwygio'r testun yn y blwch i gyfeirio at 'annog' yn lle disgwyliad a'r angen i'r dull i gyflwyno'r wybodaeth fod yn addas i bwrpas.</p> <p>Cymerir y cyfle hefyd i ddiwygio paragraff C13 i bwysleisio'r budd i ymgysylltu gydag eraill cyn cyflwyno cais cynllunio hyd yn oed pan nad oes godyniad statudol i wneud hynny, ac i ystyried mynd gam ymhellach (yn gymesur â graddfa a math o ddatblygiad). Mae cyfle hefyd, er mwyn gwella llif y ddogfen, i symud paragraff C.14 – C.16 fel eu bod yn dod cyn Diagram 4 a Diagram 5.</p> <p><b>ARGYMHELLIAD</b> - diwygio paragraff C.13, symud C.14 i ddod cyn Diagram 4 a symud paragraffau C.15 a C.16 fel ei fod o dan bennawd Cam 1, nid Cam 2. Diwygio'r testun yn y blwch yn Niagram 4 yn unol â'r isod:</p> <p>C.13 Mae Diagram 4 yn egluro'r broses o sgrinio'r datblygiad arfaethedig a llunio barn gychwynol. Yn unol â'r egwyddor o gyfathrebu ac ymgynghori gyda rhanddeiliaid trwy gydol y broses, mae'n pwysleisio'r <b>angen budd</b> i ymgysylltu ac ymgynghori gyda'r gwasanaeth cynllunio a rhanddeiliaid eraill yn ystod y cyfnod cyn cyflwyno cais cynllunio <b>mewn dull sy'n addas i raddfa a'r math o ddatblygiad arfaethedig. Yn achos datblygiad 'mawr' mae'r Diagram yn codi ymwybyddiaeth o'r gofyniad statudol i ymgynghori'n gyhoeddus cyn cyflwyno'r cais cynllunio.</b></p>



Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
					<p>Pan nad oes rhaid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus statudol cyn cyflwyno cais cynllunio, <b>anogir</b> disgwylir bod yr ymgeisydd yn i ymgysylltu gyda budd- ddeiliaid lleol perthnasol ac yn cofnodi'r a <b>chofnodi'r</b> wybodaeth mewn dogfennau gyda'r cais cynllunio. <b>Mae angen i'r dull ymgysylltu cyn ymgeisio gael ei deilwra i natur y datblygiad arfaethedig a'r materion a fydd angen mynd i'r afael â hwy. Ceir enghreifftiau o fudd – ddeiliaid lleol perthnasol ym mharagraff 18 yn Atodiad 7 a pharagraff 16 yn Atodiad 8.</b></p> <p>Pan nad oes angen cyflwyno Datganiad Iaith Gymraeg neu adroddiad am Asesiad Effaith Gymraeg, disgwylir i'r a <b>phan fydd yr iaith Gymraeg yn berthnasol i'r datblygiad anogir</b> ymgeisydd i gofnodi sut mae'r datblygiad rhoddwyd ystyriaeth yn cyfrannu'n bositif i hyfywedd y Gymraeg mewn Datganiad Cynllunio a/ neu Ddatganiad Dylunio a Mynediad – gweler Atodiad 5 am syniadau arfer da. <b>Mae angen i'r dull o gofnodi'r wybodaeth gael ei deilwra i natur y datblygiad arfaethedig a'r materion a fydd angen mynd i'r afael â hwy. Gall y dulliau gynnwys llythyr gyda'r cais cynllunio, Datganiad Cynllunio, Datganiad Dylunio a Mynediad.</b></p>
14	Gwrthwynebu	Lichfield ar ran Bourne Leisure Ltd	Diagram 5	<p>Mae diagram 5 yn gwrthdaro â Pholisi PS1. Mae Diagram 5 yn cyflwyno siart llif sy'n pennu p'un a fydd angen Datganiad Iaith Gymraeg neu Asesiad Effaith i gyd-fynd â chais cynllunio. Mae dau bwynt i'w gwneud yma:</p> <p>Mae rhan gyntaf y siart yn gofyn am ystyried p'un a yw'r datblygiad arfaethedig ar gyfer defnydd manwerthu, diwydiannol neu fasnachol ac yna p'un a fyddai'r datblygiad yn creu mwy na 1000 metr sgwâr o ofod llawr ac/neu p'un a fyddai'r cynnig yn cyflogi mwy na 50 o weithwyr. O ran estyniadau i weithrediadau presennol, megis ym mharciau Bourne Leisure, dylai'r CCA egluro'n glir y byddai'r trothwy ond yn berthnasol i'r cynnydd net mewn gweithwyr gweithredol a grëir gan y cynnig ac na fyddai'n ystyried nifer gros y gweithwyr o'i gyfuno â'r gweithrediadau presennol. Byddai hyn yn sicrhau bod y CCA yn gyson â geiriad Polisi PS1;</p>	<p>Bwriad Diagram 5 ydi rhoi amrantiad gweledol i egluro gofynion meini prawf 1 a 2 o Bolisi PS 1.</p> <p>Cytunir bod angen egluro mai'r cynnydd net mewn arwynebedd neu nifer o weithwyr a gyfeirir ato ym maen prawf 1a o Bolisi PS 1. Nid yw'n rhesymol i reoli effaith datblygiad sydd eisoes wedi derbyn caniatâd cynllunio. I sicrhau cysondeb, mae angen diwygio rhan B1 yn Atodiad 5.</p> <p><b>ARGYMHELLIAD</b> – diwygio'r testun yn unol â'r isod:</p> <p>Maen prawf 1a) – <b>A fyddai</b> Ydi'r arwynebedd llawr adeilad <b>sy'n destun y cais cynllunio</b> yn fwy na 1,000 m sg a/ neu a fydd y cynnig yn <b>golygu y bydd angen</b> cyflogi mwy na 50 o weithwyr <b>ychwanegol?</b></p>
15	Gwrthwynebu	Lichfield ar ran Bourne Leisure Ltd	Diagram 6	<p>Os mai'r ateb i'r cwestiwn cyntaf yn y siart llif yw na, y cwestiwn nesaf yw p'un a yw'r datblygiad ar gyfer defnydd cyflogaeth ar raddfa fawr ar safle ar hap sy'n dod ar gael yn annisgwyl, a fyddai'n arwain at lif sylweddol o weithwyr. Os felly, byddai angen Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Mae Polisi PS1 yn gwneud asesiad o'r fath yn ofynnol pan geir datblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr a fyddai'n arwain at lif gweithlu sylweddol (ein pwyslais). Nid yw datblygiad cyflogaeth wedi'i ddiffinio'n glir yn y CDLI mabwysiedig ond fe'i defnyddir yn y dangosyddion monitro. Ar gyfer hyn, mae'r cyfeiriad at ddatblygiad cyflogaeth yn ymwneud yn benodol â datblygiad ar 'dir cyflogaeth' dan bolisiau CYF1, CYF3 a CYF5. Mae'r rhain yn ymwneud â diwydiannau cyflogaeth 'traddodiadol' dan ddsbarthiadau defnydd B1, B2 a B8 yn unig, yn hytrach na'r holl ddefnyddiau sy'n arwain at greu cyflogaeth. Fel y cyfryw, mae'r profion hyn yn gwrthdaro â'i gilydd a dylid addasu'r cyntaf i gyd-fynd â'r olaf er mwyn i'r CCA fod yn gyson â'r Cynllun Lleol sydd wedi'i fabwysiadu. I osgoi unrhyw ddryswch yn y dyfodol, dylid gwneud hyn yn glir yn y CCA ynghyd ag eglurhad na fyddai defnyddiau sy'n ymwneud â thwristiaeth yn dod o dan y</p>	<p>Cytuno gyda'r angen i sicrhau bod y Canllaw yn cynnwys yr un termau a ddefnyddir ym maen prawf 2 o Bolisi PS 1.</p> <p><b>ARGYMHELLIAD</b> – diwygio'r testun i sicrhau cysondeb termau yn Gymraeg a Saesneg:</p> <p>Maen prawf 2 - Ydi'r datblygiad yn un gyflogaeth ar raddfa fawr a fyddai'n <b>golygu llif arwyddocaol o weithlu</b> arwain at lif arwyddocaol o weithwyr ar safle ar hap annisgwyl? Edrychwch ar Ddiagram 7.</p> <p>Criterion 2 - is the development for a large scale employment <b>development</b> use on an unexpected windfall site which would lead to a significant <b>workforce</b> flow of <b>workers</b>? Look at Diagram 7.</p>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
				categori hwn ac na fyddai felly yn arwain at yr angen i ddarparu Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg.	O ran diffinio beth olygir gyda datblygiad economaidd a chyfeiriad y sylwebydd at y fframwaith fonitro fel dull o wneud hynny. Nid oes disgwyl i fframwaith fonitro cynllun datblygu lleol ymdrin â phob un polisi'n unigol. Felly, nid hwnnw sy'n rhoi'r diffiniad. Mae pennod 6.3 y Cynllun yn cynnwys amrediad o bolisiau ar gyfer datblygiad sy'n cyfrannu at economi ac adfywio ardal y Cynllun. Mae'r polisiau'n cynnwys rhai sy'n ymwneud â'r sector twristiaeth. Ni fyddai eithrio datblygiad twristiaeth fawr ar safle ar hap annisgwyl a fyddai'n golygu llif arwyddocaol o weithlu yn gyson gyda gofynion Polisi PS 1 a pholisiau perthnasol eraill y Cynllun, sydd wedi cael eu hasesu yn erbyn Asesiad Cynaliadwyedd y Cynllun.  ARGYMHELLIAD – dim newid.
16	Gwrthwynebu	Lichfield ar ran Bourne Leisure Ltd	Diagram 7	Mae'r trothwy ar gyfer ' <i>datblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr</i> ' sydd wedi'i osod yn y CCA yn hynod isel. Mae dull o'r fath yn cyflwyno trothwyon polisi na phrofwyd drwy archwiliad ac fe fyddant yn llafurus mewn unrhyw achos.  Mae'r ddogfen hon yn egluro bod y trothwy wedi'i adnabod gan mai dim ond 11% o fusnesau'r ardal sy'n cyflogi mwy na 10 aelod o staff. Fodd bynnag, rydym yn cwestiynu priodoldeb y meintiolwr hwn a'i gyfiawnhad wrth bennu'r trothwy. Nid yw trothwy cyffredinol yn gymorth bob amser ac yn hytrach, dylai'r penderfyniad o ran p'un a fyddai angen asesiad effaith fod yn seiliedig ar effaith debygol y datblygiad ar yr iaith Gymraeg ac felly rydym yn ystyried y dylid cael gwared ar y trothwy.	Rôl y Canllaw ydi cyflwyno arweiniad am Bolisiau penodol yn y Cynllun. Mae'n rhesymol felly i'r Canllaw hwn roi diffiniad o ddatblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr. Mae'r Canllaw yn egluro pam dewiswyd 10 fel trothwy, h.y. oherwydd mae cyflogwr sy'n cynnig gwaith i 10 neu fwy o weithwyr yn ardal y Cynllun yn gymharol anghyffredin yn ardal y Cynllun. Mae'n rhoi diffiniad o un rhan o'r trothwy a roddir ym maen prawf 2 o Bolisi PS 1. Gallai diffyg diffiniad olygu y byddai'r polisi'n cael ei gymhwyso'n anghyson ac ni fyddai'r Canllaw yn darparu'r sicrwydd mae ymgeiswyr ei angen.  <u>ARGYMHELLIAD</u> – dim newid
17	Gwrthwynebu	Lichfield ar ran Bourne Leisure Ltd	Diagram 7	O safbwynt yr ail faen prawf, mae tair prif ardal teithio i'r gwaith sy'n berthnasol i Wynedd a Môn. Tywyn a Dolgellau yn y de, Pwllheli a Phorthmadog yn yr ardal ganolog a gorllewinol a Bangor a Chaerdybi yn y gogledd. Mae Greenacres a Garreg Wen wedi'u lleoli ger Porthmadog, sy'n golygu eu bod ar gyrion dwy ardal deithio i'r gwaith. Byddai'n hollol rhesymol i berson yn Harlech, er enghraifft, deithio i'r gwaith yn y ddau barc hwn, er eu bod o fewn ardaloedd teithio i'r gwaith gwahanol. Gallai dull o'r fath arwain at ofyniad i gynnal asesiadau diangen ac fe ddylid dileu'r meini prawf.	Rôl y Canllaw ydi cyflwyno arweiniad am Bolisiau penodol yn y Cynllun. Mae'n rhesymol felly i'r Canllaw hwn roi diffiniad o beth olygir gyda 'llif arwyddocaol o weithlu'. Mae'r cyfeiriad at yr ardaloedd teithio i waith yn un rhan o'r diffiniad. Noder byddai angen i ddatblygiad arfaethedig gwrdd gyda chyfuniad o ffactorau i fod angen asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg, sef bod safle'r datblygiad yn un ar hap o bersbectif strategaeth a pholisiau perthnasol y Cynllun + ei fod yn ddatblygiad newydd mawr + nad yw'r sgiliau angenrheidiol ar gael o fewn yr ardal teithio i'r gwaith.  Mae'r testun yn y blwch yn cyfeirio at 'Ardal Teithio i'r Gwaith cydnabyddedig'. Er mwyn gwella eglurder credir bod angen enwi'r Ardaloedd.  <u>ARGYMHELLIAD</u> – diwygio'r testun i enwi'r Ardaloedd yn unol â'r isod:  Bod rhaid marchnata'r swyddi tu hwnt i'r Ardaloedd Teithio i'r Gwaith <b>canlynol cydnabyddedig</b> er mwyn i'r gweithlu gael y sgiliau perthnasol ar gyfer y swyddi newydd: <b>Caerdybi a Bangor; Pwllheli a Phorthmadog; a Thywyn a Dolgellau.</b> Cysylltwch gyda'r Adran sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu economi'r ardal am wybodaeth -gweler manylion cyswllt yn <b>Atodiad 4.</b>
18	Gwrthwynebu	Lichfield ar ran Bourne Leisure Ltd	C.28	Dylid adolygu'r meini prawf a ddefnyddir i adnabod person cymwys i gynnal Datganiad Iaith Gymraeg neu Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Mae'r agweddau sydd angen eu hadolygu/egluo ymhellach, fel a ganlyn:	Yn unol â disgwyliadau'n gysylltiedig ag asesiadau mewn meysydd eraill, e.e. archeoleg, manwerthu, bioamrywiaeth, mae'n rhesymol disgwyl i asesiadau am effaith ar yr iaith Gymraeg gael eu gwneud gan asesydd cymwys. Mae hyn yn

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
				<p>Gweler Atodiad 2B</p> <p>Dylid addasu'r CCA i nodi nad yw'r cymwyseddau'n ofyniad, ond yn ddull posib o adnabod ymgynghorwyr priodol.</p>	<p>gwella hygredd yr asesiad. Mae Diagram 9 eisoes yn cynnig arweiniad i'r ymgeisydd i'w gynorthwyo i ddewis yr asesydd cymwys.</p> <p>O ran y sylwadau unigol, credir bod y sylwebydd wedi codi materion dilys:</p> <p>i. Diwygio'r testun i gyfeirio at enghreifftiau: Er enghraifft, RTP1 Diwygio'r testun i gyfeirio at: Cyrsiau proffesiynol arbenigol ar Gynllunio Tir a'r iaith Gymraeg, IAITH: Y Ganolfan Cynllunio iaith; Tystysgrif ol-radd mewn Polisi a Chynllunio iaith, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant; MA Polisi a Cynllunio ieithyddol, Prifysgol Bangor.</p> <p>ii. Mae'r Canllaw yn awgrymu mai dim ond rhai mathau o geisiadau sy'n debygol o fod angen mwy nag un math o arbenigwr.</p> <p>iii. Nid yw'r Canllaw yn dweud bod rhaid i'r asesydd cymwys fod wedi ymgymryd ag asesiad o'r blaen. Mae'n ymarferiad cyffredinol pan fydd unigolyn yn chwilio am rywun i wneud gwaith iddo i holi am brofiad yr asesydd cyn penderfynu ei benodi ai pheidio.</p> <p>iv. Nid yw'r Canllaw yn dweud bod rhaid i'r asesydd cymwys fod yn lleol. Cynnig arweiniad mae'r Canllaw. Er hynny, cytunir gallai'r testun awgrymu mai dim ond person lleol all roi'r gwasanaeth i'r ymgeisydd. Credir bod sail i diwygio'r testun i wella eglurder</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – diwygio'r blychau sy'n disgrifio person cymwys yn unol â'r uchod a'r isod:</p> <p><u>Gwybodaeth am yr ardal leol – bydd gallu a phrofiad i ymgymryd â'r gwaith ymchwil angenrheidiol am yr ardal leol</u> Bydd unigolyn sydd gan wybodaeth leol mewn sefyllfa well i asesu goblygiadau datblygiad arfaethedig yn hanfodol.</p>
19	Gwrthwynebu	Lichfield ar ran Bourne Leisure Ltd	Diagram 10	<p>Ni ellir cyfiawnhau'r angen i gynnig sy'n arwain at effeithiau cadarnhaol i'r ardal leol, sicrhau buddion ehangach pellach i'r datblygiad (ac mae'n anghyfiawnadwy). Os yw cynnig yn cael effaith niwtral neu gadarnhaol, ni fyddai angen arddangos buddion pellach gan y byddai'r cais yn dderbyniol mewn termau cynllunio. Yn gyntaf, noda Polisi PS1 y bydd yr awdurdodau'n gwrthod cynigion fyddai'n achosi niwed sylwedol i gymeriad a chydbwysedd ieithyddol cymuned na ellir ei osgoi na'i liniaru'n addas drwy ddulliau cynllunio priodol. Mae'r dull a ddefnyddir yn y CCA yn llawer mwy llafurus na'r hyn y mae'r polisi ei angen. Yn ogystal, nid yw Polisi PS 5 (Datblygiad Cynaliadwy) PS 1, yn nodi bod angen i bob datblygiad gael effeithiau cadarnhaol. Er enghraifft, noda maen prawf 4 ym Mholisi Strategol PSS y dylai pob cynnig "...warchod, cefnogi a hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg yn unol â Pholisi Strategol PS 1." Cyhyd â bod yr iaith yn cael ei gwarchod a ddim yn cael ei niweidio, ystyriwn y byddai datblygiad yn dderbyniol ac na fyddai'n rhaid arddangos buddion pellach. Rydym yn gwrthwynebu maen prawf i) y rhan sy'n ymdrin â 'cyflwyno cais cynllunio' am yr un rheswm. Fel y cyfryw, mae angen adolygu'r CCA i gael gwared ar y gofyniad hwn.</p>	<p>Hyd yn oed mewn achosion lle ystyrir bod lliniaru'n ddiangen, mae Polisi PS 5 yn dweud bod angen i ddatblygiad newydd ddiogelu, cefnogi a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae'r fethodoleg sydd yn Atodiad 8 yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd a'u cynghorwyr ddewis strategaeth fwyaf priodol, sy'n cynnwys ystyried sut i fanteisio ar gyfleoedd sy'n codi ac os ellir gwella unrhyw effeithiau positif. Dylai'r dull hwn fod yn briodol i'w maint, math a lleoliad y datblygiad. Mae'r ymagwedd hwn yn gyson gyda dulliau eraill i asesu a rheoli risg.</p> <p>Cytunir nad yw'r testun yn Niagram 10 ddigon clir a gellir gwneud diwygiad i wella eglurder.</p> <p>O ran testun pwynt bwled i, mae ymateb i sylw blaenorol wedi amlygu'r angen i ddiwygio'r testun am ddulliau i roi gwybodaeth am sut roddwyd sylw i'r iaith Gymraeg wrth lunio datblygiad pan na fydd angen Datganiad iaith Gymraeg ac adroddiad am Asesiad Effaith iaith Gymraeg. Er mwyn sicrhau cysondeb mewnol y Canllaw, dylid diwygio Diagram 10 yn unol â hynny.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – diwygio'r testun yn Niagram 10 yn unol â'r isod:</p>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
					<p>Os caiff effeithiau cadarnhaol positif posib eu hadnabod, pan yn bosib, <b>anogir ymgeisydd ystyried os ellir manteisio ar/ uchafu'r effeithiau hynny</b> dylid cymryd camau i sicrhau buddion ehangach o'r datblygiad.</p> <p>i. <b>Pan nad oes angen Datganiad Iaith Gymraeg ac adroddiad am Asesiad Effaith iaith Gymraeg, anogir ymgeisydd i gyflwyno cofnod am sut roddwyd ystyriaeth i'r iaith Gymraeg wrth lunio'r cais cynllunio. Mae angen i'r dull o gofnodi'r wybodaeth gael ei deilwra i natur y datblygiad arfaethedig a'r materion a fydd angen mynd i'r afael â hwy. Gall y dulliau gynnwys llythyr gyda'r cais cynllunio, Datganiad Cynllunio, Datganiad Dylunio a Mynediad.</b> gwybodaeth am sut mae'r datblygiad yn llesol i'r gymuned a'r iaith Gymraeg yn rhan o Ddatganiad Cynllunio neu mewn rhan ychwanegol o'r Datganiad Dylunio a Mynediad; neu</p>
20	Gwrthwynebu	Lichfield ar ran Bourne Leisure Ltd	Diagram 11	Fel y mae NCT20 (2017) yn tynnu sylw ato, nid yw Adran 70(2) y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref yn rhoi unrhyw bwys ychwanegol i'r iaith Gymraeg uwchben unrhyw ystyriaeth berthnasol arall ac mae'n rhaid i benderfyniadau ar bob cais am ganiatâd cynllunio fod ar sail cynllunio yn unig ac mae'n rhaid iddynt fod yn rhesymol. Dylai'r swyddog ganfod cydbwysedd cynllunio cyffredinol ynghylch pa mor dderbyniol yw'r cynnig, gan roi pwys priodol i ystyriaethau gwahanol, h.y. gan ddilyn y llwybr gweithredu arferol wrth wneud penderfyniad ar gais cynllunio. Dylid addasu Diagram 11 i adlewyrchu'r dull hwn.	<p>Bwriad cynnwys symbol clorian yn Niagram 11 oedd cyfleu rôl y Swyddog Cynllunio a'r Pwyllgor Cynllunio yn cloriannu'r materion perthnasol cyn dod i gasgliad am y cais cynllunio, sef ei ganiatâu neu ei wrthod. Un o'r ystyriaethau hynny ydi ei effaith ar yr iaith Gymraeg. I wella eglurder, gellir diwygio'r testun i adlewyrchu hynny'n well.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – diwygio'r testun yn unol â'r isod:</p> <p><b>Rhaid, o dan y ddeddfwriaeth, i'r Pwyllgor Cynllunio neu'r Prif Swyddog Cynllunio wneud penderfyniad ar gais yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol, oni bai bod materion eraill yn nodi bod hyn yn amhriodol. Mae gan y rhai sy'n cyflwyno'r cais cynllunio am ddatblygiad gyfrifoldeb hefyd i ddarparu gwybodaeth ddigonol i alluogi'r penderfynwr i wneud penderfyniad gwybodus ynglyn â chynaliadwyaeth y datblygiad (h.y. yn cyfrannu at lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol). Rôl y sawl sy'n gwneud y penderfyniad ydi nodi'r manteision, nodi'r niwed, ystyried y materion i gyd, a phwyso a'u mesur nhw i gyd er mwyn gallu gwneud penderfyniad cadarn:</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>Cysondeb efo polisiau'r Cynllun Datblygu Lleol, oni bai bod ystyriaethau cynllunio perthnasol yn nodi fel arall;</li> <li>Gall ystyriaethau cynllunio gynnwys barn y cyhoedd. Nid yw gwrthwynebiad neu gefnogaeth leol ynddo'i hun yn sail dros wrthod neu roi caniatâd cynllunio, oni bai ei fod yn seiliedig ar resymau cynllunio;</li> <li>Pa amodau cynllunio a/ neu ymrwymiad Cytundeb Adran 106 (sef mecanwaith cynllunio priodol), sy'n angenrheidiol —gweler Atodiad 6;</li> <li>A fyddai'n achosi niwed o sylwedd i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned nad ellir ei osgoi neu ei liniaru yn foddhaol trwy ddefnyddio mecanwaith cynllunio priodol. Bydd penderfynu os oes risg o niwed 'o sylwedd' yn fater o ffaith a gradd ac fe bennir hyn ar rinweddau'r achos unigol ar sail dadansoddiad o dystiolaeth rymus.</li> </ol>
21	Cefnogi	Cyngor Cymuned Llanengan	A.1	Ategir yr hyn a ddisgrifir yn gadarn yn y cyd-destun lleol.	<p>Nodi'r sylw cefnogol.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – dim angen newid i gwrdd â'r sylw hwn.</p>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
22	Cefnogi	Cyngor Cymuned Llanengan	B.1	Mewn ymateb i'r cwestiwn: Ydi'r Canllaw Cynllunio Atodol yn adnabod y 'teulu' llawn o bolisiâu sy'n mynd i hyrwyddo datblygiad a fydd yn cyfrannu i gynnal neu greu cymunedau nodedig a chynaliadwy? Cafwyd ymateb positif gan y sylwebydd.	Nodi'r sylw cefnogol.  <u>ARGYMHELLIAD</u> – dim angen newid i gwrdd â'r sylw hwn.
23	Cefnogi	Cyngor Cymuned Llanengan	Adran 3	Mewn ymateb i'r cwestiwn: Adran 3: Ydi'r Canllaw Cynllunio Atodol yn rhoi arweiniad digonol am wybodaeth a fyddai ei angen i gefnogi ceisiadau cynllunio perthnasol? Cafwyd ymateb positif gan y sylwebydd.	Nodi'r sylw cefnogol.  <u>ARGYMHELLIAD</u> – dim angen newid i gwrdd â'r sylw hwn.
24	Cefnogi	Cyngor Cymuned Llanengan	Adran 2	Mewn ymateb i'r cwestiwn: Ydi'r Canllaw Cynllunio Atodol yn cynnwys eglurhad cadarn o ystyriaethau allweddol ym Mholisi PS 1, e.e. beth olygir gyda safle ar hap annisgwyl, niwed o sylwedd, ayb. Cafwyd ymateb positif gan y sylwebydd.	Nodi'r sylw cefnogol.  <u>ARGYMHELLIAD</u> – dim angen newid i gwrdd â'r sylw hwn.
25	Cefnogi	Cyngor Cymuned Llanengan	Diagram 9, Atodiad 7 ac Atodiad 8:	Mewn ymateb i'r cwestiwn: Ydi'r Canllaw Cynllunio Atodol yn rhoi disgrifiad clir o 'unigolyn cymwys' a rôl yr unigolyn? Cafwyd ymateb positif gan y sylwebydd.	Nodi'r sylw cefnogol.  <u>ARGYMHELLIAD</u> – dim angen newid i gwrdd â'r sylw hwn.
26	Gwrthwynebu	Cyngor Cymuned Llanengan	Atodiad 7	Mewn ymateb i'r cwestiwn: Ydi'r fethodoleg ar gyfer ystyried effaith datblygiad ar y Gymraeg a chyflwyno'r dystiolaeth angenrheidiol mewn Datganiad Iaith Gymraeg yn glir? Dywedodd y sylwebydd fel a ganlyn: Ydi, ond dylid ei chryfhau ymhellach, gan fod sawl ymgeisydd braidd yn chwit chwat yn llenwi'r adran hon o'n profiad ni fel Cyngor.	Nodi'r sylw. Nid yw'r sylwebydd wedi rhoi manylion ynglyn â pha agweddau o'r fethodoleg ellir eu cryfhau. Nodir barn y Cyngor ynglyn ag ansawdd datganiad neu adroddiad am asesiad maent wedi weld yn y gorffennol. Credir bod Atodiad 7 yn cynnig arweiniad mwy manwl ynglyn â disgwyladau'r Awdurdodau Cynllunio am sgôp yr asesiad ar gyfer Datganiad Iaith Gymraeg. Ar ôl i'r Canllaw gael ei fabwysiadu bydd angen cadw golwg ar ba mor effeithiol ydi o erbyn cyfnod adolygu a diwygio'r Cynllun. Yn dibynnu ar gasgliadau'r gwaith monitro gellir diwygio'r Canllaw.  <u>ARGYMHELLIAD</u> – dim newid
27	Gwrthwynebu	Cyngor Cymuned Llanengan	Atodiad 8	Mewn ymateb i'r cwestiwn: Ydi'r fethodoleg ar gyfer ystyried effaith datblygiad ar y Gymraeg a chyflwyno'r dystiolaeth angenrheidiol mewn adroddiad Asesiad Effaith Iaith Gymraeg yn glir? Ydi, ond dylid ei chryfhau ymhellach, gan fod sawl ymgeisydd braidd yn chwit chwat yn llenwi'r adran hon o'n profiad ni fel Cyngor.	Nodi'r sylw. Nid yw'r sylwebydd wedi rhoi manylion ynglyn â pha agweddau o'r fethodoleg ellir eu cryfhau. Nodir barn y Cyngor ynglyn ag ansawdd datganiad neu adroddiad am asesiad maent wedi weld yn y gorffennol. Credir bod Atodiad 8 yn cynnig arweiniad mwy manwl ynglyn â disgwyladau'r Awdurdodau Cynllunio am sgôp yr asesiad ar gyfer Asesiad Effaith Iaith Gymraeg. Ar ôl i'r Canllaw gael ei fabwysiadu bydd angen cadw golwg ar ba mor effeithiol ydi o erbyn cyfnod adolygu a diwygio'r Cynllun. Yn dibynnu ar gasgliadau'r gwaith monitro gellir diwygio'r Canllaw.  <u>ARGYMHELLIAD</u> – dim newid.
28	Sylw	Angela Gliddon	Cyffredinol	In reference to discussion of housing in Clusters I think it is a good idea to stop large individual housing units in Cluster areas. Our Island is becoming full of enourmous houses but needs more affordable accommodation.	Nodi'r sylw.  <u>ARGYMHELLIAD</u> – dim angen newid mewn ymateb i'r sylw hwn
29	Gwrthwynebu	Cyngor Tref Penrhyndeudraeth	Adran 2	Ceir diffygion rhwng tudalennau 89 a 106 o'r ddogfen Canllaw Cynllunio Atodol Drafft Ymgynghorol - Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy	Mae defnyddio egwyddorion asesiad risg/ effaith yn rhan gyffredin o drin ceisiadau cynllunio.

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
				<p>Rhagfyr 2018, lle rhoir cyngor i ddatblygwyr beth i'w osgoi yn eu cynlluniau rhag niweidio'r Gymraeg. Defnyddir y gair 'risg' droeon a'r gair 'lliniaru'.</p> <p>Mae 'lliniaru' yn golygu bod rhywbeth i'w wella / bod niwed yn bosib.</p> <p>Os oes unrhyw radd o 'risg' ynglŷn â datblygiad neu bod angen unrhyw radd o 'liniaru' arno, fe ddylid ei wrthod. Mae'r Gymraeg yn rhy werthfawr i'w pheryglu.</p>	<p>Yn gyffredinol, mae'n gysylltiedig ag arwyddocâd newid, ac effaith hynny ar ddefnydd o dir ac adeiladau. Bydd penderfynu os oes risg o niwed o sylwedd yn fater o ffaith a gradd ac fe fernir hyn ar rinweddau'r achos unigol.</p> <p>Defnyddir egwyddorion asesiad risg: natur a graddfa'r niwed; maint neu ganlyniad y niwed; pa mor debygol ydi'r niwed neu ba mor aml fydd o'n digwydd; pa mor agored ydi'r derbynnydd i niwed; graddfa amser a phryd allai'r niwed ddigwydd.</p> <p>Mae cyfeirio at, neu ddefnyddio, mesurau lliniaru yn rhan gyffredin o baratoi polisïau cynllunio ac wrth drin ceisiadau cynllunio.</p> <p>Mae Diagram 10 yn cyflwyno'r hierarchaeth ymateb i effeithiau negyddol a phositif lle anogir datblygwyr i geisio osgoi neu leihau effeithiau andwyol posibl ac i geisio sicrhau buddion ehangach gydag effeithiau positif.</p> <p>Mae polisi cynllunio cenedlaethol, sy'n cynnwys Nodyn Cyngor Technegol 20, yn nodi pryd i ystyried mesurau lliniaru ac yn rhoi enghreifftiau ohonynt. Mae'r math o fesurau yn gallu bod yn wahanol o gais i gais, gan ddibynnu ar natur y datblygiad arfaethedig a'r amgylchiadau yn gysylltiedig ag ef. Eu diben yn gyffredinol ydi rheoli risgiau o niwed. Maent yn gallu bod yn rhai sydd yn arwain at osgoi niwed, lleihau niwed i lefel sydd yn dderbyniol yn nhermau cynllunio defnydd tir, a gwella effeithiau positif y datblygiad.</p> <p>Lle mae mesurau lliniaru yn angenrheidiol i wneud datblygiad penodol yn dderbyniol yn nhermau cynllunio, ni allir cymeradwyo'r datblygiad os na ellir sicrhau'r mesurau sy'n ofynnol drwy amodau priodol neu gytundebau Adran 106 (sef y mecanweithiau cynllunio priodol).</p> <p>Os nad yw'r datblygiad yn gyson â pholisïau amrywiol y Cynllun yn y lle cyntaf ac os nad allir ei newid trwy ddefnyddio mesurau lliniaru fel y disgrifir uchod mae'r niwed yn debygol o fod yn un o sylwedd ac fe ellir gwrthod y cais cynllunio.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – dim newid.</p>
30	Sylw	Cyngor Tref Penrhyndeudraeth	Cyffredinol	Pwy fydd yn asesu cynlluniau datblygu o ran eu heffaith ar y Gymraeg? Arbenigwyr ym meysydd iaith, ynteu'r datblygwyr eu hunain ?	<p>Rôl yr ymgeisydd yn y lle cyntaf ydi cynllunio'i ddatblygiad yn ofalus er mwyn sicrhau bod y datblygiad arfaethedig wedi ei selio ar ddealltwriaeth drylwyr o'r sefyllfa. Yn dibynnu ar leoliad a natur y datblygiad bydd angen i'r ymgeisydd benodi pobl sy'n gymwys mewn meysydd penodol i roi arweiniad iddo. Yn achos ystyried sut fydd ei ddatblygiad yn effeithio ar yr iaith Gymraeg, mae'r Canllaw yn amlygu'r budd i benodi person cymwys i ymgymryd â'r gwaith i asesu effaith datblygiad ar yr iaith Gymraeg. Mae Diagram 9 yn y Canllaw yn rhoi arweiniad ar sut i adnabod person cymwys.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – dim newid</p>
31	Gwrthwynebu	Cyngor Cymuned Llanystumdwy	A.1	Mewn ymateb i'r cwestiwn: Ydi'r Canllaw Cynllunio Atodol yn rhoi disgrifiad cadarn o 'gymuned nodedig a chynaliadwy' yn y cyd-destun lleol, dywedodd y sylwebydd fel a ganlyn: Sonnir am "gymunedau trefol a gwledig nodedig a	Mae sawl polisi yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn hyrwyddo datblygiadau amrywiol yng nghefn gwlad. Mae Tabl 1 yn Adran 1 o'r Canllaw yn adnabod rhai

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
				chynaliadwy". Does dim hawl gwneud dim byd yng nghefn gwlad, felly fydd yna ddim byd nodedig na chynaliadwy am gefn gwlad. Dylid newid pob "gwledig" i "bentrefol".	ohonynt. Wrth ail edrych ar y tabl hwn gwelwyd nad yw'n cyfeirio at gyfleoedd i gael tai newydd yng nghefn gwlad. Byddai gwneud hynny yn gwella eglurder.  <u>ARGYMHELLIAD</u> - diwygio Tabl 1 i gyfeirio at Bolisiau sy'n hyrwyddo datblygiad tai mewn amgylchiadau penodol yng nghefn gwlad.  <ul style="list-style-type: none"> <li><b>Cefnogir: tai fforddiadwy angen lleol mewn Clostyrau yng nghefn gwlad (Polisi TAI 6), tai ar gyfer mentrau gwledig (Polisi PCYFF 2 a Nodyn Cyngor Technegol 6), unedau byw a gweithio mewn adeiladau yng nghefn gwlad (Polisi TAI 7), a throsi adeiladau yng nghefn gwlad i dai fforddiadwy angen lleol pan nad ydi defnydd economaidd yn hyfyw (Polisi TAI 7)</b></li> </ul>
32	Gwrthwynebu	Cyngor Cymuned Llanystumdwy	Rhan B.1, Tabl 1	Mewn ymateb i'r cwestiwn: Ydi'r Canllaw Cynllunio Atodol yn adnabod y 'teulu' llawn o bolisiau sy'n mynd i hyrwyddo datblygiad a fydd yn cyfrannu i gynnal neu greu cymunedau nodedig a chynaliadwy, dywedodd y sylwebydd fel a ganlyn: Does dim posibil creu cymuned wledig o dan y Polisiau presennol.	Gweler yr ymateb i Sylw 31 uchod.  <u>ARGYMHELLIAD</u> – diwygio Tabl 1 i gyfeirio at Bolisiau sy'n hyrwyddo datblygiad tai mewn amgylchiadau penodol yng nghefn gwlad.
33	Gwrthwynebu	Cyngor Cymuned Llanystumdwy	Adran 3	Mewn ymateb i'r cwestiwn: Ydi'r Canllaw Cynllunio Atodol yn rhoi arweiniad digonol am wybodaeth a fyddai ei angen i gefnogi ceisiadau cynllunio perthnasol, dywedodd y sylwebydd: Mae'r Canllaw yn llawer rhy gymhleth, ailadroddus a chlogyrnaidd.  O ystyried fod rhan helaeth o'r Canllaw am yr Iaith Gymraeg, teimlwn fod llawer gormod o wallau ieithyddol yn y fersiwn Gymraeg.	Nid yw'r sylwebydd wedi darparu manylion i gefnogi ei safbwynt, e.e. pa rannau sy'n cael eu hail- adrodd heb fod angen. Mae'r Canllaw wedi rannu i 3 Adran pendant, ac yn defnyddio diagramau a thablau cyn gymaint â phosib er mwyn osgoi paragraffau hirfaith. Er hynny, bydd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn edrych i mewn i sut ellir gosod cynnwys y ddogfen mewn ffordd fwy hwylus i'w darllen a gwneud mwy o ddefnydd o hypergysylltiadau i gysylltu rhannau efo'i gilydd.  Nid yw'r sylwebydd wedi rhoi enghreifftiau o wallau ieithyddol. Defnyddiwyd Cysill ac offer prawf ddarllen i wirio sillafu cyn cyhoeddi'r canllaw ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Byddwn yn trefnu caiff y ddogfen derfynol ei phrawf ddarllen unwaith eto cyn ei chyhoeddi ar ei ffurf derfynol.  <u>ARGYMHELLIAD</u> – dim newid i gynnwys y Canllaw ond edrych i mewn i gael cymorth argraffydd a phrawf ddarllenydd cyn cyhoeddi'r Canllaw terfynol.
34	Gwrthwynebu	Cyngor Cymuned Llanystumdwy	Adran 2	Mewn ymateb i'r cwestiwn: Adran 2: Ydi'r Canllaw Cynllunio Atodol yn cynnwys eglurhad cadarn o ystyriaethau allweddol ym Mholisi PS 1, e.e. beth olygir gyda safle ar hap annisgwyl, niwed o sylwedd, ayb, dywedodd y sylwebydd: Gweler yr ateb i gwestiwn 4.  Mae Polisi PS1 yn rhan allweddol o'r Canllaw ac eto nid yw'n cael ei ddyfynnu tan t47.  Byddai rhoi rhif y dudalen lle mae'r Atodiad/Polisi/Diagram/Tabl yn union ar ôl sôn amdano yn gwneud darllen y ddogfen ychydig bach yn haws.	Credir mai atodiad ydi'r lle mwyaf priodol i gynnwys testun cyfan y Polisiau.  Nodi'r sylw ynglŷn â rhoi rhif tudalen a chytuno i wneud hynny trwy'r ddogfen gyfan.  <u>ARGYMHELLIAD</u> – rhoi rhif tudalen lle ellir darllen yr Atodiad/Polisi/Diagram/Tabl a defnyddio hypergysylltiadau.
35	Gwrthwynebu	Cyngor Cymuned Llanystumdwy	Diagram 9, Atodiad 7 ac Atodiad 8:	Mewn ymateb i'r cwestiwn: Ydi'r Canllaw Cynllunio Atodol yn rhoi disgrifiad clir o 'unigolyn cymwys' a rôl yr unigolyn, dywedodd y sylwebydd: Pam fod angen cymhwyster mewn Cynllunio Gwlad a Thref i wneud Asesiad Iaith?	Mae cymhwyster Cynllunio Gwlad a Thref yn cael ei adnabod fel un o'r mathau o gymwysterau posib ar gyfer person cymwys oherwydd bod cynllunwyr siartredig gyda phrofiad o ymchwilio am dystiolaeth am feysydd amrywiol a gyda sgiliau i gloriannu gwybodaeth manwl a thechnegol cyn dod i benderfyniad.

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
					<p>Mae angen person hefyd i ddeall a chlориannu datblygiad a'i effaith debygol yn ogystal â nodweddion ieithyddol neu garfan o bobl. Mae cynllunwyr yn deall y cyddestun deddfwriaethol, polisi a rheoliadau cynllunio defnydd tir. Yn ogystal mae angen rhywun gyda methodoleg ymgysylltu da. Mae'r rhain yn rhan o set sgiliau a ddysgir wrth ennill cymhwyster Cynllunio Gwlad a Thref.</p> <p>Er mwyn osgoi camddealltwriaeth, gellir gwella eglurder y testun yn y blwch i gadarnhau nad oes disgwyl i berson cymwys fod yn gynllunydd gwlad a thref a chael un o'r cymwysterau eraill.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – newid y testun yn unol â'r isod:</p> <p>..... ymchwil am feysydd cynllunio ieithyddol a/ neu gymhwyster Cynllunio Gwlad a Thref.</p>
36	Gwrthwynebu	Cyngor Cymuned Llanystumdwy	Atodiad 2	Mewn ymateb i'r cwestiwn: A oes yna ffynhonnell gydnabyddedig arall o wybodaeth ddylwn gyfeirio ato, dywedodd y sylwebydd: Mae'n eironig fod Mudiad y Ffermwyr Ifanc yn cael eu cynnwys yn yr Atodiad ac eto nid ydynt yn cael eu hariannu gan y Cyngor.	<p>Atodiad 4 nid Atodiad 2 sy'n cyfeirio at Fudiad Ffermwyr Ifanc. Nid bwriad Atodiad 4 ydi cynnwys grwpiau a ariennir gan y Cyngorau. Ei fwriad ydi adnabod budd-ddeiliaid lleol allai fod yn ddefnyddiol i ymgeisydd.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – dim newid</p>
37	Gwrthwynebu	Cyngor Cymuned Llanystumdwy	Atodiad 5	Mewn ymateb i'r cwestiwn: A oes gennych sylwadau am y broses sgrinio, dywedodd y sylwebydd: Dyma ran mwyaf eglur yr holl ddogfen.	<p>Nodi'r sylw cefnogol.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – dim angen newid mewn ymateb i'r sylw hwn</p>
38	Gwrthwynebu	Cyngor Cymuned Llanystumdwy	Atodiad 7	<p>Mewn ymateb i'r cwestiwn: Ydi'r fethodoleg ar gyfer ystyried effaith datblygiad ar y Gymraeg a chyflwyno'r dystiolaeth angenrheidiol mewn Datganiad Iaith Gymraeg yn glir, dywedodd y sylwebydd:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1) Nid yw'n glir beth ydi'r gwahaniaeth rhwng Datganiad Iaith Gymraeg ac Asesiad Effaith Iaith Gymraeg. Mae paragraffau 6 a 7 ar dudalen 73 yn darllen gair am air yr un fath â pharagraffau 4 a 5 ar dudalen 82 ar wahân i newid "Datganiad" yn "Asesiad".</li> <li>2) t 77. Elfennau Gweledol – pwynt bwled 3 a t 92 – pwynt bwled 2. Dylid gadael allan y geiriau "os yn ymarferol" ar y diwedd gan mai mater o farn yw pa mor "ymarferol" yw rhywbeth. Byddai unrhyw ddatblygwr fyddai ddim yn awyddus i ddefnyddio'r Gymraeg yn medru defnyddio hwn fel esgus i beidio gwneud hynny.</li> <li>3) t 78. Ansawdd Bywyd – pwynt bwled 4. Os yw'r datblygiad yn cynyddu'r galw am ddefnyddio Canolfannau trochi iaith, mae'n holl bwysig fod y Canolfannau hyn yn parhau mor effeithio ag erioed.</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1) Mae Atodiad 7 ac Atodiad 8 yn rhoi manylion methodoleg ar gyfer dau fath o asesiad effaith. Oherwydd bod y ddau fath yn anelu i gyflawni'r un peth, mae'n annatod bod y paragraffau sy'n disgrifio'u pwrpas yn debyg iawn i'w gilydd. Mae'r sail dros wneud asesiad at gyfer Datganiad Iaith ac Asesiad Effaith yn wahanol. Yn syml, mae'r cyntaf ar gyfer datblygiad sy'n debygol o fod wedi ei ystyried yn barod wrth baratoi'r Cynllun ond bod angen rhywfaint o wybodaeth amdano, a'r ail ar gyfer datblygiadau annisgwyl sydd ar raddfa lle bo angen i'r ymgeisydd ymgymryd ag ymgynghoriad statudol cyn cyflwyno cais cynllunio ac mae angen gwybodaeth fanwl amdano.</li> </ol> <p>Erbyn cyrraedd un ai Atodiad 7 neu Atodiad 8 disgwylir bydd y darllenydd eisoes wedi dod i gasgliad pa fath o asesiad effaith sy'n bridol ar gyfer y datblygiad dan sylw.</p> <p>Er hynny, gellir diwygio paragraff C.25 i ategu neges sydd ym mharagraff C.16 ac yn Diagram 5 a gellir croesgyfeirio ym mharagraff 1 yn Atodiad 7 at baragraff C.16.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – diwygio yn unol â'r isod:</p> <p>C.25 Mae <b>paragraffau C.16 a</b> Diagram 5 uchod yn egluro'r amgylchiadau pan fydd angen darparu Datganiad Iaith Gymraeg gyda chais cynllunio.....</p>



Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
					<p>Atodiad 7</p> <p>1 Mae <b>paragraffau C.16</b> a Diagramau 5 a 6 wedi <del>gosod allan y gofynion o ran pryd</del> <b>disgrifio'n gryno</b> pryd fydd angen Datganiad iaith Gymraeg a'i bwrpas.</p> <p>2) Ni fydd yn bosib rhoi enw newydd Cymraeg ar eiddo ar sail cysylltiad hanesyddol, daearyddol neu leol i'r ardal pan nad ydi'r cysylltiadau'n bodoli. Mae'n rhaid i'r Canllaw fod yn realistig a pheidio gosod disgwyliadau sydd y tu hwnt i reolau'n gysylltiedig ag enwi strydoedd a stadau tai. Er hynny, cytunir i newid y testun yn unol ag awgrymiad y sylwebydd yn ogystal â chynnwys dolen i dudalennau gwe sy'n ymdrin ag enwi strydoedd a stadau tai ym mharagraff C.30.</p> <p>Cymerir y cyfle hefyd i ddiwygio paragraff C.29 sy'n cyfeirio at arwyddion a hysbysebion. Credir bod cyfle i son mwy am arwyddion a hysbysebion sy'n rhoi gwybodaeth am faterion fel oriau agor, nwyddau neu wasanaeth sy'n cael ei gynnig gan y busnes.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – diwygio yn unol â'r isod:</p> <p>Enw'r safle neu'r datblygiad – a fydd yn dal gafael ar hen enw Cymraeg neu a fydd unrhyw enw newydd yn deillio o gysylltiadau hanesyddol, daearyddol neu leol i'r ardal, <del>os yn ymarferol</del>.</p> <p>C.30 <u>Enwau lleoedd</u> - mae maen prawf 6 o Bolisi PS 1 yn annog datblygwyr i ddefnyddio enwau Cymraeg ar gyfer datblygiadau, enwau tai a strydoedd newydd er mwyn atgyfnerthu cymeriad ieithyddol cymunedau. Mae'r ddau Gyngor yn annog datblygwyr i ddal gafael ar hen enwau Cymraeg - <u>trefniadau Cyngor Gwynedd</u> &lt;<a href="https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Cynllunio-a-rheolaeth-adeiladu/Enwi-eiddo.aspx">https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Cynllunio-a-rheolaeth-adeiladu/Enwi-eiddo.aspx</a>&gt; &amp; <u>threfniadau Cyngor Sir Ynys Môn</u> &lt;<a href="https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Trigolion/Parcio-lonydd-a-theithio/Ffyrdd-a-Phalmentydd/Enwi-strydoedd-a-rhifo-eiddo.aspx">https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Trigolion/Parcio-lonydd-a-theithio/Ffyrdd-a-Phalmentydd/Enwi-strydoedd-a-rhifo-eiddo.aspx</a>&gt;. Byddai defnyddio enw newydd sy'n deillio o gysylltiadau hanesyddol, daearyddol neu leol i'r ardal, <del>os yn ymarferol</del> yn syniad da. Os yw'r enw presennol yn un gwreiddiol neu wedi bod yn enw ar yr eiddo ers amser maith, yn enwedig os yw'r enw'n un Cymreig, bydd y Cyngor yn gofyn i'r sawl sy'n gwneud cais i roi enw newydd ar yr eiddo i ailystyried, hyd yn oed os ydi'r enw newydd arfaethedig yn un Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r penderfyniad terfynol yn nwylo'r perchennog. Mae gan ardal y Cynllun gefndir hanesyddol pwysig ac felly credir ei bod hi'n bwysig gwarchod y dreftadaeth hon. Mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi "Canllawiau safoni enwau lleoedd Cymru" (gweler Atodiad 3).</p> <p>C.29 <u>Arwyddion a hysbysebion</u> - Mae arwyddion yn cael effaith weledol amlwg ar gymeriad ardal, gan gynnwys ei chymeriad ieithyddol. Maent hefyd yn un ffordd o hybu diwylliant unigryw'r ardal, sy'n arwyddocaol o safbwynt hunaniaeth gwahanol gymunedau a'r diwydiant twristiaeth. Yn achos arwyddion a hysbysebion sy'n destun rheolau cynllunio, mae maen prawf 5 o Bolisi PS 1 yn hybu darparu arwyddion dwyieithog mewn manau cyhoeddus sy'n rhan o</p>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
					<p>ddatblygiad. Mae'r Awdurdodau yn cydnabod bod rhai sefydliadau a chwmnïau â brand a delwedd gref a ddefnyddir eisoes tu hwnt i Gymru. Os ydi'r brand a/ neu logo yn un sy'n dibynnu ar eiriau (yn hytrach na llun) a ddim yn rhan o hunaniaeth y sefydliad neu gwmni mae'r Awdurdodau'n awyddus i drafod posibilrwydd o addasu'r ddelwedd ehangach ar gyfer adlewyrchu ei leoliad yn ardal y Cynllun. Mae pob sefydliad a chwmni yn gallu sicrhau bod arwyddion a hysbysebion eraill yn ddwyieithog. <b>Mewn amgylchiadau lle mae geiriad yr arwyddion/ hysbyseb (allai fod e.e. ar 'awning', ffenest, drws) yn disgrifio cynnyrch neu wasanaeth a werthir (yn hytrach na y brand corfforaethol/cwmni) mae'n arferol o fewn ardal y Cynllun i'r geiriad ar yr arwyddion/ hysbyseb fod yn ddwyieithog, yn Gymraeg a Saesneg.</b> Mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi "Canllaw Dylunio Dwyieithog", sy'n cynnwys cyfeiriadau at ddylunio arwyddion dwyieithog (gweler Atodiad 3).</p> <p>3) Nodi'r sylw am y canolfannau trochi.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – dim angen newid mewn ymateb i'r sylw hwn</p>
39	Gwrthwynebu	Cyngor Cymuned Llanystumdwy	Atodiad 8	<p>Mewn ymateb i'r cwestiwn: Ydi'r fethodoleg ar gyfer ystyried effaith datblygiad ar y Gymraeg a chyflwyno'r dystiolaeth angenrheidiol mewn adroddiad Asesiad Effaith Iaith Gymraeg yn glir, dywedodd y sylwebydd:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1) Gweler sylwadau Cwestiwn 9.</li> <li>2) t 92 Iaith a Symudedd Poblogaeth – pwynt bwled 5. Newid y geiriau "nad oes gan" i "heb".</li> <li>3) t 98 Ffactorau Economaidd – pwynt bwled 2. Newid "Ydi o'n o feithrin..." i "Ydi o'n meithrin..."</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1) Gweler yr ymateb i sylw 38</li> <li>2) Cytuno i newid "nad oes gan" i "heb"</li> <li>3) Cytuno i newid "Ydi o'n o feithrin..." i "Ydi o'n meithrin..."</li> </ol> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – newid y testun yn unol â'r isod:</p> <p>A oes tebygolrwydd bydd yna newid yn y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg (gan gynnwys dysgwyr) ac unigolion <del>nad oes gan</del> <b>heb</b> unrhyw allu yn Gymraeg.</p> <p>Ydi o'n o meithrin amrywioldeb economaidd yn yr ardal leol, h.y. creu swyddi sydd ddim ar gael yn lleol?</p>
40	Gwrthwynebu	Cyngor Cymuned Llanystumdwy	Diagram 3	<ol style="list-style-type: none"> <li>1) Mae Cam 4 ar goll yn y fersiwn Saesneg ac mae'r rhai Cymraeg wedi eu nodi yng Ngham 1 i 8 a'r rhai Saesneg yn A i E. Mae angen cysoni.</li> <li>2) Monitro. Pwy fydd yn gwneud hyn? A oes gan yr Awdurdod yr adnoddau/ewyllys i wneud hyn?</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1) Cytuno i wneud y newidiadau i gysoni'r dogfennau</li> <li>2) Mae paragraffau C.33 – C.37 (tudalen 32) yn rhoi gwybodaeth am y cam monitro</li> </ol> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – newid y testun yn unol â'r isod:</p> <p>Newid trefn rhifo yn y fersiwn Saesneg i gyfeirio at 1 – 8 yn lle A – E.</p>
41	Gwrthwynebu	Cyngor Cymuned Llanystumdwy	Tabl 2	<p>Mae sôn yn y paragraff cyntaf am y ffigwr 70% ar gyfer i'r iaith Gymraeg fod yn iaith pob dydd y gymuned. Ni does cyfeiriad arall at hwn yng ngweddill y ddogfen na'r camau i gyrraedd at hyn.</p>	<p>Rhan o bwrpas y CCA ydi darparu canllawiau mwy manwl i helpu dehongli a gweithredu polisiau a chynigion y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Fel yr eglurir yn yr adran "Gwybodaeth Gyffredinol" "nid pwrpas CCA yw cyflwyno unrhyw bolisi cynllunio newydd ac nid yw'n rhan o'r cynllun datblygu lleol." Cafodd Polisi PS 5 a Pholisi PS 1 eu cynnwys yn y Cynllun er mwyn cyfarch un o amcanion y Cynllun, sydd wedi cael ei ddylanwadu gan yr amcan cynaliadwyedd. Y targed polisi ydi cael datblygiadau newydd sy'n cyfrannu at gynnal neu gryfhau'r iaith Gymraeg. Mae'r Canllaw yn rhoi arweiniad ar sut i gymhwyso'r Polisiau all gyflawni hynny.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – dim newid</p>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
42	Gwrthwynebu	Cyngor Cymuned Llanystumdwy	Diagram 5	Nid oes sôn yma nac mewn llawer i le arall am y posibilrwydd o fedru gwrthod cais cynllunio.	<p>Mae Maen Prawf 3 yn egluro pryd y gwrthodir ceisiadau ar sail effaith ar gymeriad a chydbwysedd iaith Cymuned, sef yr ardal ddylanwad. Rhan o bwrpas y Canllaw yw rhoi arweiniad ar sut i wneud asesiad effaith ieithyddol ac i ddisgrifio'r trefniadau i ymdrin â chais cynllunio, nid gwneud yr arfarniad.</p> <p>Nodir ym mharagraff C.14 mai pwrpas Diagram 5 ydi egluro pryd fydd angen cynnal asesiad ar gyfer Datganiad Iaith Gymraeg ac asesiad ar ffurf Asesiad Effaith Iaith Gymraeg. Nid yw'n briodol, felly, i son am y posibilrwydd o wrthod cais cynllunio ar ôl ymgymryd ag asesiad, ystyried casgliadau'r asesiad, ei wirio, a chloriannu ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill.</p> <p>Mae sawl rhan o Adran 2 yn y Cynllun yn disgrifio'r broses i ystyried cais cynllunio ac mae'r atodiadau'n canolbwyntio ar roi gwybodaeth angenrheidiol i gyfoethogi asesiadau. Cam 7 yn y broses (ar dudalennau 30 – 31) sy'n son am gloriannu'r wybodaeth all arwain at benderfyniad i wrthod cais cynllunio.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – dim newid</p>
43	Gwrthwynebu	Cyngor Cymuned Llanystumdwy	Diagram 6	Beth sy'n cyfrif fel "Cymuned leol" a faint o bwys a roddir i'r farn?	<p>Cytunir bod 'cymuned leol' yn y blwch cyntaf yn rhy amwys. Argymhellir bod y testun yn cael ei newid i gyfeirio at yr ardal ddylanwad. Wrth wneud hyn ceir cysondeb gyda chynnwys y blwch cyntaf yn Niagram 7. Mae'r ail blwch yn cyfeirio at ymgysylltu ac ymgynghori gyda'r gymuned leol. Credir gellir diwygio'r rhan hwn i groesgyfeirio at baragraff perthnasol yn Atodiad 7 i roi mwy o arweiniad am beth olygir gyda 'cymuned leol'. Bydd y paragraff hwnnw yn diffinio 'budd - ddeiliaid lleol' trwy gyfeirio at e.e. gyngor cymuned. Yn sgil sylwadau eraill, bydd angen diwygiad ychwanegol i sicrhau bod yr ymagwedd yn gymesur â natur, maint a lleoliad y datblygiad arfaethedig.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – newid y testun yn Niagram 6 i gyfeirio at ardal ddylanwad a chroesgyfeirio at Atodiad 7.</p> <p>Mae paratoi Datganiad iaith Gymraeg i'w gyflwyno gyda chais yn rhoi nifer o fanteision, yn arbennig fel arf ar gyfer arddangos a chyfathrebu bod ystyriaeth ddigonol wedi cael ei roi i'r iaith yn ystod y broses o lunio cynnig. Mae'n broses lle mae gwybodaeth am effeithiau tebygol datblygiad arfaethedig yn cael eu casglu, coladu, a'u hasesu gan <del>asesydd unigol</del> yn cymwys a fydd yn cynghori'r ymgeisydd. Bydd yr ymgeisydd yn rhoi ystyriaeth i'r wybodaeth fel rhan o'r gwaith i lunio'r datblygiad. Mae'n ofynnol i ddangos os yw datblygiad yn mynd i gyfrannu at greu hinsawdd gymdeithasol a'r amodau sy'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn yr <b>ardal ddylanwad gymuned</b> leol. Mae'n caniatáu i'r Awdurdod weld os ydi'r cynnig yn bodloni amcanion a pholisïau'r Cynllun. Bydd o gymorth i'r ymgeisydd, yna'r awdurdod, i benderfynu pa fesurau sy'n ofynnol (wedi'i ymgorffori neu ei reoli'n gan amod cynllunio neu gytundeb 106) i ddileu neu leihau effeithiau neu i wella'r effaith gadarnhaol.</p> <p>Mae <del>bwysig</del> ymgysylltu ac ymgynghori efo <del>gymuned</del> <b>budd- ddeiliaid</b> leol cyn cwblhau'r cais cynllunio <b>yn bwysig</b> hyd yn oed os nad oes gofyniad statudol i wneud hynny <b>oherwydd gall budd -ddeiliad leol gynnig gwybodaeth leol hanfodol a helpu i nodi materion cynhennus yn gynnar yn y broses. Mae hyn yn</b></p>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
					<b>galluogi'r ymgeisydd a'r sawl sy'n ei gynghori i ystyried y materion a mynd i'r afael â nhw neu ddarparu esboniadau. Mae paragraff 18 yn Atodiad 7 yn rhoi enghreifftiau o fudd – ddeiliaid lleol.</b>
44	Gwrthwynebu	Cyngor Cymuned Llanystumdwy	Cam 8	Rydym yn croesawu paragraffau C36 a 37. Pa mor aml y gwneir yr ymchwil? Mae'r Cynllun mewn bodolaeth ers 2011, oes 'na ymchwil o'r fath wedi'i wneud yn barod? Os oes, sawl gwaith y'i gwnaed?	Nodi'r sylw cefnogol. Nid yw'r Cynllun mewn bodolaeth ers 2011. Nid oedd yn weithredol hyd nes cafodd ei fabwysiadu ar 31 Gorffennaf 2017. Bydd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn trafod dulliau monitro gydag Uned Ymchwil a Gwybodaeth Cyngor Gwynedd, swyddogion datblygu'r iaith yn y Cynghorau, Hunaniaith a Menter Iaith Môn.  <u>ARGYMHELLIAD</u> – dim newid
45	Gwrthwynebu	Cyngor Cymuned Llanystumdwy	Diagram 11	Os yw'r ymgeisydd yn cael dewis rhywun i wneud Datganiad Iaith ar ei ran, bydd yn debygol iawn o gael rhywun sy'n cefnogi ei gynlluniau. Dylai fod rhywun annibynnol o'r Cyngor a'r Ymgeisydd yn asesu'r Datganiad Iaith.	Mae'r cyngor a roddir i ymgeisydd ynglŷn â dewis rhywun i'w gynghori am faterion ieithyddol a chymunedol yn debyg i'r cyngor a roddir yn gysylltiedig â meysydd eraill, h.y. yr ymgeisydd sy'n dewis rhywun i wneud asesiad bioamrywiaeth, trafndiaeth, archeolegol, ayb ar gyfer ei gais cynllunio. Bydd Swyddog Cynllunio mewn ymgynghoriad gyda pherson cymwys o fewn y Cyngor yn ystyried y wybodaeth a gyflwynir gan yr ymgeisydd, oni bod anghydfod a bod angen penodi person cymwys annibynnol.  <u>ARGYMHELLIAD</u> – dim newid
46	Gwrthwynebiad	Menter Iaith Bangor	A1	Mewn ymateb i'r cwestiwn dywedodd y sylwebydd: Credwn nad yw Adran 1 Rhan A.1 yn rhoi disgrifiad cadarn o 'gymuned nodedig a chynaliadwy' yn y cyd-destun lleol a chynigiwn esboniad isod. Cyfeiria diagram 2: Elfennau hanfodol ar gyfer cymuned nodedig a chynaliadwy at: <b>"Cartrefi</b> - gwahanol fathau i gefnogi aelwydydd lleol amrywiol (maint, oedran ac incwm) lle trosglwyddir yr iaith Gymraeg" a <b>"Gwaith</b> - economi leol lewyrchus ac amrywiol sy'n creu amgylchiadau i warchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg"  Yn ein tyb ni mae'r uchod wedi hepgor y dimensiwn pwysicaf un ynglŷn â thai sef [diffyg] grym economaidd sydd gan gyfran sylweddol o bobl leol i allu prynu tŷ'n lleol gan fod graddfa a maint y sector tai haf wedi codi pris cyfartalog tai yn y sir ymhell y tu hwnt i gyrraedd mwyafrif trigolion lleol. Ni chyfeirir ychwaith at y ffaith mai yng Ngwynedd mae'r nifer/canran uchaf o dai haf yn unrhyw un o siroedd gwledydd Prydain. Mae'r rhain yn ffactorau allweddol sy'n effeithiol ar fywydau nifer fawr o drigolion Gwynedd ac yn llesteirio eu gallu i brynu eiddo ar y farchnad agored gan arwain at or-ddibyniaeth/ ddibyniaeth uwch ar dai fforddiadwy. Mae angen adlewyrchu hynny yn y testun yma felly.	Mae Diagram 2 yn rhoi ciplun o'r elfennau sy'n hanfodol i gael cymunedau nodedig a chynaliadwy. Mae Tabl 1 yn cyfeirio at ystod o Bolisiau sydd yn y Cynllun er mwyn gallu cael yr elfennau hynny mewn cymunedau. Mae'r sylwebydd yn cyfeirio at dai haf. Nid oes angen caniatâd cynllunio i ddefnyddio tai fel tai haf. Felly, ni ellir cynnwys polisi cynllunio i daclo'r math yma o ddefnydd. Fe roddwyd sylw i fodolaeth y defnydd hwn wrth adnabod gofyniad tai'r Cynllun.  Cyfeirir yn Nhabl 1 at Bolisiau sy'n mynd i hyrwyddo'r mathau o dai sy'n angenrheidiol i daclo'r materion mae'r sylwebydd yn gyfeirio atynt, sef tai sydd yn cyfarch anghenion cymunedau ardal y Cynllun (boed yn dai marchnad neu'n dai i'r rhai sy'n methu prynu a rhentu ty ar y farchnad agored). Mae'r Tabl hefyd yn cyfeirio at Bolisiau sy'n hyrwyddo datblygiad economaidd a fyddai'n cynnig swyddi amrywiol. Cytunnir gellir gwneud newid bychan i'r testun am gartrefi yn Diagram 2 i gyfeirio at dai fforddiadwy er mwyn cadarnhau rôl y math hwn o dai mewn cymuned.  <u>ARGYMHELLIAD</u> – diwygio Diagram 2 yn unol â'r isod:  Cartrefi – gwahanol fathau ( <b>gan gynnwys tai fforddiadwy</b> ) i gefnogi aelwydydd lleol amrywiol (maint, oedran, incwm) lle trosglwyddir yr iaith Gymraeg
47	Gwrthwynebiad	Menter Iaith Bangor	A3	Cyfeiriwn at bwynt A.3. (tudalen 11) "O ran yr iaith Gymraeg, mae datblygiad cynaliadwy yn ymwneud â hyrwyddo amgylchiadau o fewn cymunedau sy'n bwysig i gonglfeini cynllunio ieithyddol,". Wrth gefnogi'r datganiad credwn nad	Cytuno gyda'r sylw.  <u>ARGYMHELLIAD</u> – diwygio'r baragraff yn unol â'r isod:

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad	
				<p>yw'n ddigon cyflawn nac yn mynd yn ddigon pell gan nad yw cyfeirio'n benodol at 'gwarchod a chryfhau' amgylchiadau o fewn cymunedau sy'n bwysig i gonglfeini cynllunio ieithyddol. Ynndo'i hunan proses yn unig yw hyrwyddo ac nid yw'n warant o lwyddiant boed hynny yn cryfhau, gynnal neu atgyfnerthu sefyllfa ieithyddol. Felly o ran sicrhau cynllunio ieithyddol gwirioneddol mae angen ychwanegu'r gosodiad 'hyrwyddo, gwarchod a chryfhau' i'r testun. Mewn geiriau eraill, mi all datblygiad hyrwyddo ond nid o reidrwydd arwain at fabwysiadu nac ychwaith gryfhau amgylchiadau o fewn cymunedau. Byddai hyn hefyd yn gyson a'r cyfeiriadau at 'gwarchod a chryfhau' a geir yn niagram 2 yn rhan A o'r CCA (ac y sonnir amdano ym mhwynt C.18).</p>	<p>"O ran yr iaith Gymraeg, mae datblygiad cynaliadwy yn ymwneud â hyrwyddo, <b>gwarchod a chryfhau'r</b> amgylchiadau o fewn cymunedau sy'n bwysig i gonglfeini cynllunio ieithyddol,....."</p>	
48	Gwrthwynebiad	Menter Bangor	laith	B1 Tabl 1	<p>Mewn ymateb i'r cwestiwn, dywedodd y sylwebydd:</p> <p>Ar y cyfan rydym yn cytuno fod y cyd-destun o ran teulu o bolisiau yn ymddangos yn gyflawn ond mae ganddo bryder am un o'r gosodiadau fel y nodir isod.</p> <p>Noda pwynt bwled cyntaf Tabl 1 (Adran 1, tudalen 11)</p> <p>☐ mae cymunedau angen trigolion o wahanol gefndir, oedran ac sy'n byw mewn gwahanol fathau o dai os ydynt am fod yn llefydd lle mae pobl yn dymuno byw ynddynt yn y tymor hir. I'r gwrthwyneb, byddai peidio gwneud hynny yn gallu arwain at gymuned yn gweld gostyngiad yn ei boblogaeth yn y tymor hir, colli ei natur nodedig leol a'i gysylltiadau â threftadaeth ddiwylliannol;</p> <p>Rhagdybiwn fod y diffiniad o '[g]wahanol gefndir' hefyd yn cwmpasu trigolion o gefndiroedd ieithyddol gwahanol, ac mi allai niferoedd, os yn anghymesur ac amhriodol o ran niferoedd i'r gymuned honno, arwain at golli natur nodedig leol a'i gysylltiadau a threftadaeth ddiwylliannol. Mae ystadegau sawl Cyfrifiad ar gyfer nifer o wardiau megis rhai ym Mangor (Arfon), wardiau arfordirol ym Meirionnydd ac Abersoch ac Aberdaron yn Nwyfor yn cadarnhau hynny. Mewn wardiau o'r fath mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg wedi dirywio'n enbyd yn sgil mewnlifiad a Seisnigeiddio pobl o gefndir ieithyddol a diwylliannol gwahanol.</p>	<p>Cytuno gyda'r sylw, o fewn cyd-destun nad ellir rheoli pwy sy'n meddiannu tai yn y stoc gyfredol ac na all bolisiau'r Cynllun na'r canllawiau amdanynt wahaniaethu ar sail gallu ieithyddol unigolion. Er mwyn gwella eglurder gelir cyfeirio at dabl 1 yn nhestun paragraff B.1 a gwella eglurder y rhan hwn o'r Tabl trwy ychwanegu cyfeiriad at y ffaith dylid darllen y pwyntiau efo'i gilydd ac ychwanegu 'cymysgedd gymesur' wrth son am gefndir ac oedran trigolion yn y pwynt bwled cyntaf.</p> <p><b>ARGYMHELLIAD</b> – diwygio'r testun yn unol â'r isod:</p> <p>Mae Diagram 2 uchod (paragraff A.1) wedi dangos bod angen sawl math o ddatblygiad i gyflwyno gwahanol gyfleoedd i helpu cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy. Mae <b>Tabl 1 isod</b> <del>rhannu</del> yn disgrifio'n gryno sut all gwahanol fathau o ddatblygiad gyfrannu i hynny. Wrth wneud hynny mae'n adnabod y prif bolisiau cynllunio sy'n berthnasol i'r datblygiadau. Gellir gweld y bolisiau unigol yn Natganiad Ysgrifenedig y Cynllun Datblygu Lleol sydd ar gael i'w ddarllen ar wefan y ddau Awdurdod Cynllunio yn (<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/cd11">www.gwynedd.llyw.cymru/cd11</a> &amp; <a href="http://www.ynysmon.gov.uk/cd11">www.ynysmon.gov.uk/cd11</a>)</p> <p>Tabl 1:</p> <p>Sut mae'r datblygiad yn helpu i gynnal neu greu cymunedau nodedig a chynaliadwy (<b>nid yw'r pwyntiau wedi'u rhestru mewn unrhyw drefn benodol a dylid darllen y tabl cyfan</b>):</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>mae cymunedau angen <b>cymysgedd gymesur o drigolion</b> o wahanol gefndir, oedran ac sy'n byw mewn gwahanol fathau o dai os ydynt am fod yn llefydd lle mae pobl yn dymuno byw ynddynt yn y tymor hir. I'r gwrthwyneb, byddai peidio gwneud hynny yn gallu arwain at gymuned yn gweld gostyngiad yn ei boblogaeth yn y tymor hir, colli ei natur nodedig leol a'i gysylltiadau â threftadaeth ddiwylliannol;</li> </ul>
49	Gwrthwynebiad	Menter Bangor	laith	Adran 3	<p>Mewn ymateb i gwestiwn 4, dywedodd y sylwebydd:</p> <p>I raddau helaeth credwn ei fod yn rhoi arweiniad digonol am wybodaeth a fyddai ei angen i gefnogi ceisiadau cynllunio perthnasol ond cynigiwn ARGYMHELLIAD pellach isod.</p>	<p>Nodi'r sylw. Mae Tabl 3 yn amlygu'r math o dystiolaeth allai fod yn angenrheidiol i ymgeisydd gyflwyno gyda'i gais cynllunio, yn dibynnu ar leoliad, natur a graddfa'r datblygiad arfaethedig.</p>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad	
				<p>O ran Tabl 3 Datganiad tai fforddiadwy o dan bennawd gwybodaeth bellach (Adran 3, tudalen 38) credwn, fel man cychwynol, y byddai'n werthfawr cynnal arolwg sirol i sefydlu natur y berthynas rhwng tai fforddiadwy a'r Gymraeg ac i ba raddau mae'r polisi (TAI 15) yn cyfrannu at gynaliadwyedd ieithyddol y sir ar ei ffurf bresennol ac at ddirnadaeth well o'r disgrifiad o 'angen lleol'. Byddai hefyd yn gaffaeliad i gynyddu arfer da o ran cyrraedd y targed tai fforddiadwy a bennwyd ac yn adlewyrchu gofynion presennol ac arfaethedig yr ardal. Byddai hynny'n cynyddu dealltwriaeth a fyddai'n sail dilys dros roi bwysoliad mwy priodol fyth i ddimensiwn tai fforddiadwy o fewn datblygiadau tai marchnad agored. Byddai hefyd yn cyfrannu at roi mwy o ddilysrwydd i Atodiad 6 Gweithgareddau i liniaru a gwella effeithiau ieithyddol datblygiad bwynt 6 'Bydd rhai cynigion, fel datblygiad sy'n cynnwys tai fforddiadwy digonol, yn cynnwys lliniaru ymgorfforwyd ac felly ni fyddai angen rhagor o fesurau.' Byddai hefyd yn gallu cyfrannu'n fwy gwyddonol at bwyntiau ii a iii o dan Tabl A: Rhestr o enghreifftiau o weithgareddau posib i liniaru effeithiau ieithyddol datblygiad. Mewn sir sydd a thros 5 mil o dai haf mae pwysigrwydd tai fforddiadwy yn aciwt ac felly mae'n bwysig adnabod a deall beth yw cyfraniad stoc tai fforddiadwy o ran cynnal, cryfhau ac atgyfnerthu'r Gymraeg yng nghymunedau Gwynedd. Prin yw'r ymchwil wedi bod hyd yma ond ynghyd â Chymdeithasau Tai mae angen datblygu ymchwil ac arbenigedd.</p>	<p>Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy yn rhoi manylion am ddisgwyliadau polisiâu tai fforddiadwy'r Cynllun.</p> <p>Heb anghofio'r ffaith nad ellir gwahaniaethu ar sail gallu ieithyddol meddianwyr tai (yn cynnwys tai fforddiadwy), cytunir byddai gwaith ymchwil o'r math a ddisgrifir yn ddefnyddiol. Rhoddir ystyriaeth i hynny wrth fonitro datblygiadau tai sydd wedi cael eu hadeiladu ar ôl iddynt dderbyn caniatâd cynllunio o dan bolisiâu tai'r Cynllun. Gwneir hynny mewn ymgynghoriad gydag Uned Ymchwil a Gwybodaeth Cyngor Gwynedd, Cymdeithasau Tai a chael mewnbwn gan berson cymwys (yn ôl disgrifiad yn Niagram 9 y Canllaw).</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – dim newid</p>	
50	Gwrthwynebiad	Menter Bangor	laith	Adran 2	<p>Mewn ymateb i gwestiwn 5, dywedodd y sylwebydd:</p> <p>Ydyw i raddau ond mae ganddom nifer o sylwadau a phryderon sy'n cael eu datgan isod.</p> <p>ADRAN 2 (Rhan C) - Mae'r Adran gyntaf o'r CCA yn amlygu perthnasedd y Gymraeg i sawl math o ddatblygiad sy'n angenrheidiol i gynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy. Mae'r ail Adran o'r CCA yn rhoi manylion ynglŷn â gofynion manwl yr Awdurdodau Cynllunio Lleol o ran sut y bydd Polisi PS 1 o'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei weithredu. Mae'n dangos sut y disgwylir gweld ystyriaethau am yr iaith Gymraeg yn cael eu hymgorffori ym mhob datblygiad perthnasol. Mae'n cynnwys gofynion am y ffordd i gofnodi mewn un ai Datganiad laith Gymraeg neu adroddiad am Asesiad Effaith laith Gymraeg sut fyddai'r datblygiad perthnasol yn llesol i'r Gymraeg.</p> <p>Ers dyfodiad Datganiad ac Asesiad effaith ar laith, eu pwrpasol sylfaenol yw i asesu effaith tebygol y datblygiad ar y Gymraeg, boed yn gadarnhaol, negyddol neu'n niwtral. Mae'r pwysoliad gwahanol o gyfeiriad llesol i'r Gymraeg yn gogwyddo'r rheidrwydd gwrthrychol hwnnw ac hebdo sut mewn difrif mae modd sefydlu os yw'r datblygiad yn llesol neu beidio i'r Gymraeg. Yn fwy pryderus hefyd yw'r disgwyliad felly, os yw datblygwr yn cyflwyno cyfres o fesurau i gefno llesiant ieithyddol, yna y bydd popeth yn iawn. Y gwir amdani gyda sawl math o ddatblygiad yw nad oes modd lliniaru rhai effeithiau negyddol ar y Gymraeg ac felly, nid yw'r pwysoliad ar lesiant yn cwmpasu'r cyd-destun llawnaf posibl.</p>	<p>Nodir y sylw. Cytunnir mai pwrpas asesiadau ydi casglu tystiolaeth am y datblygiad arfaethedig a'i effaith ar yr ardal ddylanwad, boed nhw'n effeithiau negyddol, positif neu niwtral. Y nod wrth gwrs ydi hyrwyddo datblygiad sy'n llesol i'r iaith Gymraeg. Cytunnir i edrych trwy'r Canllaw erbyn ei gyhoeddi ar ei ffurf drafft terfynol i sicrhau cyfeirir at asesu effaith ym mhob achos a pheidio cyfeirio'n syth at effaith llesol.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – prawf ddarllen y Canllaw i sicrhau cyfeirir at asesu effaith yn hytrach na chyfeirio'n benodol at allbwn llesol yn unig.</p>
51	Gwrthwynebiad	Menter Bangor	laith	Adran 2	<p>Ar sail pwyntiau blaenorol am gyfraddau tai haf (ail gartrefi) Gwynedd a phatrymau symuded poblogaeth o du allan i Wynedd a Chymru i'r sir, rydym yn croesawu pwynt bwled 4 a 5 (Tabl 1, tudalen 11):</p>	<p>Nodi'r sylw cefnogol hwn.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – dim angen newid mewn ymateb i'r sylw hwn.</p>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad	
				<p>☒ mae'n rhaid i ddatblygiadau tai sy'n ychwanegu at y stoc dai presennol mewn Canolfannau a Phentrefi sy'n cael eu hadnabod ym Mholisi TAI 5 fod yn dai marchnad leol, a thai fforddiadwy os ydi Polisi TAI 15 yn berthnasol;</p> <p>☒ mae digon o dai yn lleol ar gyfer cymysgedd o aelwydydd yn fwy tebygol o olygu defnydd hyfyw o gyfleusterau a gwasanaethau yn yr anheddle neu mewn anheddle cyfagos, sy'n gallu bod yn llefydd pwysig i'r iaith Gymraeg.</p>		
52		Menter Bangor	laith	C.8	<p>Cyfeiria pwynt C.8 (tudalen 15) at "Pan mae'r iaith Gymraeg yn ystyriaeth cynllunio berthnasol, mae penderfynu a yw datblygiad yn debygol o gael effaith positif neu negyddol, a phenderfynu ar raddfa debygol yr effaith honno ar gymeriad ieithyddol ardal, yn hynod o gymhleth. Hyd yn oed gyda gwybodaeth lawn ni fyddai'n hawdd ei fesur oherwydd nad all y system gynllunio ragweld na rheoli priodweddau personol (fel y gallu i siarad Cymraeg yn y dyfodol neu ddeinameg y defnydd ohoni)."</p> <p>Cytunwn ei fod yn broses gymhleth ond anghytunwn a'r ail frawddeg oherwydd rhagweld priodweddau personol cronus unigolion/ teuluoedd/ preswylwyr/aelwydydd fyddai'n debygol o brynu tai mewn datblygiad yw holl nod a phwrpas cynnal asesiad effaith neu ddatganiad ieithyddol. Gellir uchafsymu ac isafsymu rhagolygon er mwyn gallu ceisio adnabod graddfa debygol yr effaith ar gymeriad ieithyddol ac ar sail hynny ddod i gasgliad gwrthrychol a mwyaf tebygol o effaith cronus ar y Gymraeg.</p> <p>Hefyd wrth gwrs mae modd i'r broses gynllunio ail ymweld â datblygiad a ganiatawyd er mwyn sefydlu mewn gwirionedd beth fu'r effaith cronus ar gymeriad y Gymraeg a chymharu hynny gyda'r graddfeydd rhagolygon er mwyn datblygu dealltwriaeth a chofnodi astudiaethau achos i gyfrannu at fireinio a datblygu'r broses i'r dyfodol.</p> <p>Credwn felly fod y gosodiad ar ei ffurf bresennol yn anghywir ac i raddau hefyd yn tansilio hygredd a phwrpas cynnal asesiad effaith neu ddatganiadau iaith trwy hepgor gwerth a phwysigrwydd monitro ôl ganiatâd cynllunio. I ddatblygu dealltwriaeth ac arbenigedd dros amser mae'n allweddol bod yn gorolwg yn ymestyn y tu hwnt i'r broses o gyflwyno cais cynllunio yn unig ac mae angen ail ymweld a'r datblygiad dros gyfnod hwn o amser i sefydlu beth fu'r effeithiau ieithyddol gwirioneddol. Credwn hefyd mai dyma'r unig ffordd i ddatblygu a chynyddu dealltwriaeth ieithyddol oddi fewn i broses gynllunio fwy holistaidd. Yn wir dyna gasgliad methodoleg asesu effaith tai fforddiadwy ar y Gymraeg a luniwyd ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Hunaniaith, Cymdeithas Tai Eryri yn 2010 (Llunio methodoleg i asesu ardrawiad ieithyddol a chymunedol prosiectau tai fforddiadwy, effaith prosiectau o'r fath ar y sector dai a'r farchnad rentu, treialu'r fethodoleg yn Congl Meinciau, Botwnnog). Peilotwyd y fethodoleg yn ddiweddarach mewn datblygiadau cyffelyb yn Waunfawr a Llanfrothen gan hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd.</p>	<p>Yn gyffredinol mae newid mewn stoc tai neu stoc cyflogaeth yn newid yn raddol o flwyddyn i flwyddyn. Ar gyfartaledd mae'r newid hwnnw yn digwydd ar raddfa net o lai nai 2% y flwyddyn. Felly mae ceisio rhagweld beth fydd cyfansoddiad ieithyddol datblygiad newydd yn hynod broblemus - gall yr aelwydydd ddeillio o'r stoc bresennol naill ai o fewn yr ardal neu o greu aelwydydd newydd. Ar ben hynny mae cyfansoddiad ieithyddol aelwyd yn gallu newid dros amser fel y cynhyrchir siaradwyr newydd neu gollir siaradwyr presennol. Mae'r model yn ceisio darogan ar sail profiad o ddatblygiadau tebyg mewn ardaloedd ieithyddol tebyg.</p> <p>Cytunir byddai gwaith ymchwil o'r math a ddisgrifir gan y sylwebydd yn ddefnyddiol. Rhoddir ystyriaeth i hynny wrth fonitro datblygiadau tai sydd wedi cael eu hadeiladu ar ôl iddynt dderbyn caniatâd cynllunio o dan bolisiau tai'r Cynllun. Gwneir hynny mewn ymgynghoriad gydag Uned Ymchwil a Dadansoddeg Cyngor Gwynedd, Cymdeithasau Tai a chael mewnbyn gan berson cymwys (yn ôl disgrifiad yn Niagram 9 y Canllaw). Mae paragraff C.36 yn cyfeirio at fonitro effaith cynlluniau a ganiateir o dan bolisiau'r Cynllun.</p> <p>Gellir gwella eglurder paragraff C. 8 i hepgor cyfeiriad at 'ragweld'. Mae ei gynnwys yn awgrymu bod modd cynhyrchu rhagolygon poblogaeth ar sail gweithred o adeiladu tai yn unig.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – diwygio'n unol â'r isod</p> <p>Hyd yn oed gyda gwybodaeth lawn ni fyddai'n hawdd ei fesur oherwydd nad all y system gynllunio ragweld na rheoli priodweddau personol (fel y gallu i siarad Cymraeg yn y dyfodol neu ddeinameg y defnydd ohoni)."</p>
53		Menter Bangor	laith	Diagram 3	<p>Cyfeiria Diagram 3 Cam 1 (tudalen 17) at "llunio barn gychwynnol" ond onid "llunio asesiad gwrthrychol o effaith cronus ar iaith" sydd ei angen mewn gwirionedd?</p>	<p>Ni chytunir gyda'r awgrymiad, oherwydd mai pwrpas y cam cyntaf ydi sgrinio datblygiadau er mwyn dod i gasgliad os oes angen asesiad ar ffurf datganiad neu asesiad effaith a dod i gasgliad am ba weithredoedd a fydd angen eu cymryd. Er</p>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
					<p>mwyn gwella eglurder diagram 3 dylid cael gwared â'r testun 'llunio barn gychwynnol'.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – diwygio'r testun ar gyfer Cam 1 a diwygio pennawd Diagram 4 i beidio cyfeirio at 'llunio barn gychwynnol'.</p>
54		Menter laith Bangor	Diagram 4	<p>Cyfeiria Diagram 4, y 3ydd blwch (a'r cylch gwyrdd) (tudalen 18) at "er mwyn dod i ddeall sut fydd y datblygiad arfaethedig yn cyfrannu'n bositif i hyfywedd y Gymraeg". Credwn fod y geiriad yma yn gamarweiniol gan mai'r swyddogaeth greiddiol yw asesu beth yw'r effaith cronus ar y Gymraeg boed yn gadarnhaol, negyddol neu'n niwtral. Yn sgil hynny wedyn mae angen sefydlu OS fydd y datblygiad yn cyfrannu'n bositif i hyfywedd y Gymraeg ai peidio gan dderbyn na fydd hynny yn bosibl mewn nifer o achosion. Mae'r geiriad hefyd felly yn rhagdybio hynny yn gyffredinol a heb seiliau, gan sgiwio'r dyletswydd sylfaenol.</p> <p>Credwn hefyd, er cyn bwysiced yw cyrchu barn gyhoeddus, nad yw hynny ynddo'i hunan gyfystyr â chael barn corff neu sefydliad sydd a'r arbenigedd ieithyddol. Cymharer er enghraifft a'r rheidrydd i ddatblygwr ymateb i farn cyrff megis Cyfoeth Naturiol Cymru ar faterion amgylcheddol neu gadwraethol. Hefyd pwy mewn gwirionedd fydd yn sefydlu os yw datganiad neu asesiad yn wrthrychol ac yn cynnig casgliadau mwyaf tebygol gan y bydd barn gyhoeddus yn debygol o ymdrin fwyfwy gyda chefnogaeth neu wrthwynebiad i'r datblygiad ar seiliau ieithyddol? Gan nad yw'r swyddogaeth yma wedi ei phennu i unrhyw sefydliad arbenigol, cynigiwn y dylid cyrchu barn Mentrau Iaith Cymru, Hunaniaith (Menter Iaith Gwynedd), Menter Iaith Bangor, Menter Iaith Môn a Chyrff tebyg megis Cyfeillion Llŷn a Menter Iaith Ogwen. Credwn bod angen i'r cyfarwyddiadau o ran cynnal ymgynghoriad cyhoeddus gyfeirio'r ymgeisydd at y rheidrydd i ymgynghori a'r mathau yma o sefydliadau.</p>	<p>Cytunir bod angen diwygio'r testun yn y 3ydd blwch i beidio cyfeirio at "fydd y datblygiad arfaethedig yn cyfrannu'n bositif i hyfywedd y Gymraeg" a chynnwys testun amgen yn ei le, sef cyfeirio at ddefnyddio'r cyfnod i ymgyfarwyddo â gwybodaeth am y gymuned/ ardal ddylanwad er mwyn bod mewn sefyllfa orau i ymgymryd ag asesiad.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – diwygio'r testun yn y 3ydd blwch yn unol â'r isod:</p> <p>"Dylid defnyddio'r cyfnod cyn cyflwyno cais cynllunio i ymgyfarwyddo â gwybodaeth am y gymuned/ ardal ddylanwad er mwyn dod i ddeall <b>yr ystod o faterion sydd angen rhoi sylw iddynt wrth lunio'r datblygiad a bod yn y sefyllfa orau i ymgymryd ag asesiad.</b> <del>sut fydd y datblygiad arfaethedig yn cyfrannu'n bositif i hyfywedd y Gymraeg.</del> Edrychwch ar Atodiad 2—ffynonellau data a gwybodaeth ddefnyddiol am yr iaith Gymraeg. <b>Bydd natur a lefel yr ymgysylltu ac ymgynghori yn gymesur â'r datblygiad arfaethedig"</b></p> <p>Mae'r rheoliadau am ymgynghoriad cyhoeddus statudol cyn cyflwyno cais cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr yn pennu pwy sydd rhaid ymgynghori â hwy. Maent yn cynnwys perchnogion eiddo cyfagos, ymgynghoreion cymunedol (Cynghorau Cymuned a Chynghorwyr Lleol) ac ymgynghoreion arbenigol. Mae ymgynghori gyda Chynghorau Cymuned a Chynghorwyr Lleol yn ffynonellau cyfoethog o wybodaeth leol a medrant roi cyngor i'r ymgeisydd ar y ffordd orau o ymgysylltu a'r gymuned leol. Felly mae disgwyliad i ymgeisydd gyrchu barn gyhoeddus. Mae'r awdurdodai cynllunio hefyd o'r farn fod ymgynghori gyda budd-ddeiliaid lleol perthnasol yn bwysig i ddatblygiadau nad ydynt yn ddatblygiadau mawr ac yn annog ymgeiswyr am ddatblygiadau o'r math hwn i wneud hynny.</p> <p>Rhoddir manylion am bwy yw'r ymgynghoreion arbenigol statudol a phryd y dylid ymgynghori a nhw, yn Atodlen 4 i'r DMPWO. Gall y datblygwr adnabod ymgynghoreion ychwanegol, gwerthfawr na restrir hwynt yn yr Atodlen 4. Anogir datblygwyr i ymgynghori'n eang ac ni chyfyngir ar faint o bobl y gall y datblygwr ymgynghori gyda nhw. Er mwyn gwella eglurder gellir disgrifio budd-ddeiliaid perthnasol yn Atodiad 7 ac Atodiad 8 a chroesyfeirio at hynny yn Niagram 4.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – diwygio'r blychau perthnasol yn Niagram 4 i gynnwys croesyfeiriad i baragraff 18 yn Atodiad 7 a pharagraff 16 yn Atodiad 8 a diwygio'r paragraffau hynny i gynnwys cyfeiriad at y mentrau iaith a grwpiau perthnasol eraill (sydd wedi eu rhestru yn Atodiad 4).</p>



Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
					<p>“Mae’n rhaid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus statudol cyn cyflwyno cais cynllunio os ydi’r datblygiad yn cyrraedd y trothwy statudol roddir yn y Ddeddf. Edrychwch ar lawlyfr y Llywodraeth i weld pa fath o ddatblygiad sydd angen bod yn destun yr ymgynghori statudol yma. Pan fydd Polisi PS 1 yn gofyn am Ddatganiad Iaith Gymraeg neu adroddiad am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg disgwylir i’r ymgeisydd gyhoeddi drafft cyntaf o’r gwaith yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus statudol cyn cyflwyno cais cynllunio er mwyn i’r budd-ddeiliaid perthnasol (<b>gweler paragraff 18 yn Atodiad 7 a pharagraff 16 yn Atodiad 8</b>) allu cyflwyno sylwadau i’r ymgeisydd.”</p> <p>“Pan nad oes rhaid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus statudol cyn cyflwyno cais cynllunio, <b>anogir disgwylir</b> bod yr ymgeisydd yn i ymgysylltu gyda budd- ddeiliaid lleol perthnasol ac yn cofnodi’r <b>achofnodi’r</b> wybodaeth mewn dogfennau gyda’r cais cynllunio. <b>Mae angen i’r dull ymgysylltu cyn ymgeisio gael ei deilwra i natur y datblygiad arfaethedig a’r materion a fydd angen mynd i’r afael â hwy. Ceir enghreifftiau o fudd – ddeiliaid lleol perthnasol ym mharagraff 18 yn Atodiad 7 a pharagraff 16 yn Atodiad 8.”</b></p>
55		Menter laith Bangor	C.15	Noda pwynt C.15 (tudalen 20) pan nad oes angen Datganiad Iaith Gymraeg neu adroddiad am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg, a rhoddir y dystiolaeth mewn Datganiad Cynllunio neu ran ychwanegol i’r Datganiad Dyluniad a Mynediad, bydd dilyn gofynion Polisi a’r gofynion a nodir yn y Canllaw hwn yn osgoi oedi diangen yn ystod y broses benderfynu. Bydd diffyg gwybodaeth digonol perthnasol i allu dod i gasgliad am effaith y datblygiad yn reswm i wrthod cais cynllunio.” Cwestiynwn sut fyddai unrhyw wybodaeth mewn datganiad dyluniad a mynediad yn gallu bodloni gofynion ieithyddol ac yn bwysicach fyth, heb ddiffiniad penodol o’r hyn a olygir gan ‘gwybodaeth digonol’ yma mae perygl gwirioneddol o gamddechongli a gweithredu anghyson rhwng swyddogion cynllunio gwahanol, gydag oblygiadau pellgyrhaeddol posibl i dynged cais ac felly i’r Gymraeg yn sgil hynny.	<p>Cytunir nad yw’r wybodaeth ym mharagraff C.15 yn ddigon eglur. Mae’r angen i ddilyn gofynion polisi a’r arweiniad a roddir yn y Canllaw yn neges ddilys. Fodd bynnag, credir mai Adran 3 yn y Canllaw hwn ydi’r lleoliad cywir i gyflwyno’r neges, ond bod angen diwygio’r testun i beidio cyfeirio’n benodol at Ddatganiad iaith Gymraeg ac adroddiad Asesiad Effaith iaith Gymraeg.</p> <p><b>ARGYMHELLIAD</b> – cael gwared â pharagraff C.15 a chynnwys paragraff ychwanegol ar ddiwedd Adran 3 o’r Canllaw i roi’r neges am bwysigrwydd rhoi ystyriaeth i dystiolaeth berthnasol wrth lunio datblygiad a chyflwyno’r dystiolaeth gyda’r cais cynllunio.</p> <p><del>“C.15 Pan nad oes angen Datganiad Iaith Gymraeg neu adroddiad am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg, a rhoddir y dystiolaeth mewn Datganiad Cynllunio neu ran ychwanegol i’r Datganiad Dyluniad a Mynediad, bydd dilyn gofynion Polisi a’r gofynion a nodir yn y Canllaw hwn yn osgoi oedi diangen yn ystod y broses benderfynu. Bydd diffyg gwybodaeth digonol perthnasol i allu dod i gasgliad am effaith y datblygiad yn reswm i wrthod cais cynllunio.”</del></p> <p>“D.5 Mae Tabl 5 drosodd yn crynhoi gofynion gwybodaeth berthnasol am y cyd-destun ehangach. <b>Bydd dilyn gofynion Polisi a’r gofynion a nodir yn y Canllaw hwn yn osgoi oedi diangen yn ystod y broses benderfynu. Bydd diffyg gwybodaeth ddigonol berthnasol i allu dod i gasgliad am effaith y datblygiad yn rheswm i wrthod cais cynllunio.”</b></p>
56		Menter laith Bangor	C.16	Credwn fod pwynt C.16 (tudalen 20) yn hepgor dimensiwn allweddol pwysig sef gosod disgwyliad ar y datblygwr i sicrhau fod asesiad effaith yn cael ei chwblhau gan aseswyr ieithyddol profiadol (unigolion neu gwmnïau cymeradwy). Heb hynny does dim yn atal y datblygwr rhag llunio asesiad eu hunain a all	<p>Cytunir byddai’n fuddiol cyfeirio at gael arweiniad gan berson cymwys ym mharagraff C.16 a chroesgyfeirio at Ddiagram 9 wrth wneud hynny.</p> <p><b>ARGYMHELLIAD</b> – diwygio paragraff C.16 yn unol â’r isod:</p>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad	
				danseilio'r holl broses sy'n cynnwys yr angen i fod yn wrthrychol wrth ystyried effaith cronrus y datblygiad ar y Gymraeg. Gwyddom am achos datblygiad tai mawr fod yr Awdurdod Cynllunio ei hunain wedi llunio asesiad iaith oedd yn casglu y byddai'n cael effaith cadarnhaol ar y Gymraeg. Mewn hinsawdd o'r fath beth sydd i atal datblygwr rhag dilyn yr un patrwm? Tra cyfeirir at y disgwyliad hwn yn nes ymlaen yn y ddogfen, credwn fod angen ail adrodd y disgwyliad yma hefyd.	Mae Polisi PS 1 (1) a (2) yn cyfeirio at yr amgylchiadau lle mae angen "Datganiad Iaith Gymraeg" (DIG) ac "Adroddiad ar Asesiad Effaith Iaith Gymraeg" (AEIG). Yn cyd-destun yr uchod, mae'r ddau declyn neu fethodoleg yn dilyn prosesau tebyg. <b>Mae Diagram 9 yn y Canllaw hwn yn rhoi arweiniad i ymgeisydd ynglyn â'r materion i'w hystyried wrth ddewis person cymwys i roi arweiniad iddo ynglyn â chymhwysu'r fethodoleg a ddisgrifir yn Atodiadau 7 ac 8.</b> Y prif wahaniaeth yw bod AEIG i ddigwydd "pam fydd y datblygiad arfaethedig ar safle ar hap annisgwyl ar gyfer datblygiad tai ar raddfa fawr neu ddatblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr a fyddai'n golygu llif arwyddocaol o weithlu." Prif nodwedd y categori hwn o ddatblygiadau yw bod rhaid iddynt ddilyn y broses statudol o Ymgynghori Cyn Ymgeisio. Yn unol â chanllawiau ISO ar reoli risg/cyfleoedd yn effeithiol (gweler C.10 - C.11 uchod) disgwylir i ymgeiswyr ar gyfer datblygiadau o'r fath "gynnal gweithgareddau i gyfathrebu ac ymgynghori gyda rhanddeiliaid trwy gydol y broses". Bydd gwahaniaeth hefyd yn lefel y dystiolaeth o'r ystyriaeth a roddwyd i'r effeithiau tebygol wrth gyflwyno Datganiad Iaith o'i gymharu ag Asesiad Iaith. Mae Atodiadau 7 ac 8 yn amlygu'r gwahaniaethau ymhellach.	
57		Menter Bangor	laith	C.17	Noda C.17 (tudalen 20) "Anogir ymgeiswyr nad oes rhaid iddynt gynnal Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio statudol ofyn am gyngor cyn cyflwyno cais cynllunio i gychwyn trafodaethau'n gynnar gyda'r Unedau Rheolaeth Datblygu o fewn yr Awdurdod Cynllunio berthnasol i drafod pa bolisiau sy'n berthnasol i'w cynnig a'r angen neu beidio am ddatganiad Iaith Gymraeg neu Asesiad Effaith Iaith Gymraeg." Yn y tymor byr a chanol, er mwyn datblygu a rhannu arbenigedd a dealltwriaeth gyffredinol ym maes cynllunio a chynllunio ieithyddol, credwn y dylai swyddogion Cynllunio gyrchu barn sefydliadau megis Hunaniaith, Menter Iaith Bangor a Menter Iaith Môn yma.	Ni fydd y mudiadau mae'r sylwebydd yn cyfeirio ato mewn sefyllfa i allu rhoi arweiniad i ymgeisydd ynglyn â pha bolisiau sy'n berthnasol ac nid rôl y mudiadau ydi penderfynu pa fath o asesiad sy'n angenrheidiol.  <u>ARGYMHELLIAD</u> – dim newid
58		Menter Bangor	laith	C.22	O ran C.22 (tudalen 21) "Y ffordd hawsaf i osgoi effeithiau negyddol neu hyrwyddo effeithiau positif ar y gymuned ydi paratoi'r dystiolaeth yn drylwyr i gefnogi'r cais cynllunio am y datblygiad arfaethedig. Mae adnabod nodweddion y gymuned a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y lleoedd sy'n bwysig i hyfywedd yr iaith yn gynnar yn cynnig y cyfle gorau i sicrhau fod y Gymraeg yn ystyriaeth wrth ddatblygu'r cynnig. Mae'n hanfodol fod ymgeiswyr yn sicrhau fod ganddynt yr holl wybodaeth angenrheidiol am y gymuned, a gwybodaeth polisi cynllunio." Tra cytunwn am bwysigrwydd paratoi tystiolaeth yn drylwyr, y dimensiwn pwysicaf un yw bod y casgliadau yn seiliedig ar hynny, yn wrthrychol ac yn rhagweld yr effaith cronrus mwyaf tebygol yn sgil uchaf ac isafsymu rhagolygon ieithyddol. Yn hanesyddol dyna fu gwendid asesiadau a datganiadau iaith a'r ffaith ychwaith na heriwyd mo asesiadau goddrychol neu anghyflawn. Heb hynny mae perygl gwirioneddol i'r holl broses gael ei thanseilio a dibrisio.	Cytunir byddai ychwanegu cyfeiriad at yr angen i sicrhau bod casgliadau'r gwaith yn dylanwadu ar y gwaith o lunio'r datblygiad arfaethedig.  <u>ARGYMHELLIAD</u> – diwygio paragraff C.22 i gyfeirio at yr angen i ddefnyddio casgliadau'r gwaith ymchwil i lunio'r datblygiad arfaethedig.  "Y ffordd hawsaf i osgoi effeithiau negyddol neu hyrwyddo effeithiau positif ar y gymuned ydi paratoi'r dystiolaeth yn drylwyr i gefnogi'r cais cynllunio am y datblygiad arfaethedig. Mae adnabod nodweddion y gymuned a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y lleoedd sy'n bwysig i hyfywedd yr iaith yn gynnar yn cynnig y cyfle gorau i sicrhau fod y Gymraeg yn ystyriaeth wrth ddatblygu'r cynnig. Mae'n hanfodol fod ymgeiswyr yn sicrhau fod ganddynt yr holl wybodaeth angenrheidiol am y gymuned, a gwybodaeth polisi cynllunio <b>ac yn defnyddio casgliadau'r asesiad o'r wybodaeth yn wrthrychol i ragweld yr effaith cronrus mwyaf tebygol ar yr iaith Gymraeg.</b> "
59		Menter Bangor	laith	C.24	O ran hygredded i'r broses credwn y dylid gosod dyletsywydd yn hytrach nac anogaeth ar ddatblygwyr i ddilyn Atodiad 2 sy'n adnabod ffynonellau cydnabyddedig am yr iaith Gymraeg mewn cymunedau yn ardal y Cynllun adeg	Cytunir y dylid gosod disgwyliad i ymgeisydd ystyried ffynonellau gwybodaeth a restrir yn Atodiad 2, ond bod angen dweud hefyd bydd yr angen i wneud hynny yn dibynnu ar natur, graddfa a lleoliad y datblygiad arfaethedig, h.y. arddell dull gymesur.

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
				paratoi'r Canllaw Cynllunio Atodol? (Pwynt C.24). Oni wneir hynny mae perygl o danseilio'r broses, y gofynion a chreu oedi di-angen.	<p><u>ARGYMHELLIAD</u> – diwygio paragraff C.24 trwy ddileu 'anogir' a chynnwys 'disgwylir' yn ei le a chynnwys cyfeiriad bod graddfa'r gwaith ymchwil angen bod yn addas i'w bwrpas.</p> <p>“Mae Tabl 2 yn adnabod y prif faterion i'w hystyried a gwybodaeth ychwanegol angenrheidiol i asesu rhinweddau cynaliadwy datblygiad o safbwynt yr iaith Gymraeg. Mae Atodiad 2 yn adnabod ffynonellau cydnabyddedig am yr iaith Gymraeg mewn cymunedau yn ardal y Cynllun adeg paratoi'r Canllaw Cynllunio Atodol. <b>Anogir Disgwylir</b> i ymgeiswyr i ymgyfarwyddo â'r wybodaeth am y gymuned/ ardal ddylanwad, gan sicrhau eu bod yn chwilio am y wybodaeth gydnabyddedig a fydd yn bodoli adeg paratoi'r cais cynllunio. <b>Mae angen i'r lefel o wybodaeth a fydd yn angenrheidiol gael ei deilwra i natur y datblygiad arfaethedig a'r materion a fydd angen mynd i'r afael â hwy.</b>”</p>
60		Menter Bangor	laith	Tabl 2	<p>Nid yw Tabl 2 (tudalen 22), wrth drafod 'materion i'w hystyried' yn yr ail golofn, yn cyfeirio o gwbl at niferoedd siaradwyr Cymraeg, gan ganolbwyntio'n llwyr ar y canrannau. I ddeall y demograffig ieithyddol yn gyflawn mae angen cynnwys niferoedd yn ogystal gan nad yw canrannau eu hunain yn cyfleu'r darlun yn llawn.</p> <p>Cytuno gyda'r sylw. Mewn rhai sefyllfaoedd lle mae iechyd y Gymraeg fel cyfrwng cymdeithasol yn debygol o fod mewn perygl fe all y niferoedd o siaradwyr presennol hefyd fod yn fater i'w hystyried.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – diwygio Tabl 2 i gynnwys niferoedd siaradwyr Cymraeg.</p>
61		Menter Bangor	laith	Diagram 6	<p>Cyfeiria Diagram 6 'Pwrpas' (Adran 2, tudalen 24) at “Mae'n ofynnol i ddangos os yw datblygiad yn mynd i gyfrannu at greu hinsawdd gymdeithasol a'r amodau sy'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned leol.” Onid yw hi cyn bwysiced bod y datganiad hefyd yn dangos os nad yw'r datblygiad yn mynd i gyfrannu at greu hinsawdd gymdeithasol a'r amodau sydd ddim yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned leol? Mewn geiriau eraill bod y datganiad yn rhoi asesiad o effaith cronus ar y Gymraeg, boed gadarnhaol, negyddol neu niwtral? Nodir hynny o dan 'Pwrpas' yn dilyn pwynt C.26. Yma hefyd nodir “Bydd ymgymryd â'r Asesiad yn fodd o sicrhau datblygiad a fydd yn cyfrannu at sicrhau cymunedau nodedig a chynaliadwy, ac yn benodol gyfrannu at sicrhau Cymraeg ffyniannus mewn cymunedau.” Anghytunwn a'r gosodiad hwn oherwydd nid oes gwarant ymhob un achos y bydd pob un datblygiad a phob un asesiad effaith ar y Gymraeg yn rhoi'r gwaddol hwn hyd yn oed hefo mesurau lliniaru. Diau y bydd rhai asesiadau yn haeru hynny ond yn y cyfnod monitro dilynol y mae canfod mewn gwirionedd beth fu'r effeithiau ieithyddol.</p> <p>Mae cyfeirio at “gyfrannu at greu hinsawdd ..... sy'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg..” a geiriau tebyg yn y blwch yn dilyn C.26 yn gosod beth ydi amcan y Polisiau. Os na lwyddir cyflawni hynny gyda mesurau wedi eu hymgorffori yn y datblygiad a/ neu trwy fesurau lliniaru yna cytunir na fydd y datblygiad yn cael effaith positif. Yn unol â maen prawf 3 o Bolisi PS 1, bydd angen i'r sawl sy'n gwneud penderfyniad benderfynu os ydi'r effaith negyddol yn un o sylwedd. Er hynny, credir bod cyfiawnhad i nodi'n gliriach beth ydi pwrpas yr asesiad yn Niagram 6 a Diagram 7, sef bod y Datganiad a'r adroddiad am yr Asesiad Effaith yn cofnodi gwybodaeth briodol a chyflwyno asesiad o effaith cronus ar y Gymraeg, boed yn un cadarnhaol, negyddol neu niwtral.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – diwygio blwch 'Pwrpas' yn Niagram 6 a Diagram 7 yn unol â'r isod:</p> <p>“Mae paratoi Datganiad iaith Gymraeg i'w gyflwyno gyda chais yn rhoi nifer o fanteision, yn arbennig fel arf ar gyfer arddangos a chyfathrebu bod ystyriaeth ddigonol wedi cael ei roi i'r iaith yn ystod y broses o lunio cynnig. Mae'n broses lle mae gwybodaeth am effeithiau tebygol datblygiad arfaethedig yn cael eu casglu, coladu, a'u hasesu gan <b>asesydd unigol</b> yn cymwys a fydd yn cynghori'r ymgeisydd. <b>Mae'n ofynnol i roi asesiad o effaith cronus ar y Gymraeg, boed yn un positif, negyddol neu niwtral.</b> Bydd yr ymgeisydd yn rhoi ystyriaeth i'r wybodaeth fel rhan o'r gwaith i lunio'r datblygiad. <b>Mae'n ofynnol i ddangos os yw datblygiad yn mynd i gyfrannu at greu hinsawdd gymdeithasol a'r amodau sy'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned leol.</b> Mae'n caniatáu i'r Awdurdod weld os ydi'r cynnig yn bodloni amcanion a pholisïau'r Cynllun. Bydd o gymorth i'r ymgeisydd, yna'r awdurdod, i benderfynu pa fesurau sy'n ofynnol (wedi'i ymgorffori neu ei reoli'n</p>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
					<p>gan amod cynllunio neu gytundeb 106) i ddileu neu leihau effeithiau neu i wella'r effaith <b>positif cadarnhaol</b>.”</p> <p>“Sefydlu effaith debygol datblygiad tai neu gyflogaeth ar raddfa fawr sydd ar safle ar hap annisgwyl ar ardal ddylanwad yn gyffredinol, ac ar yr iaith Gymraeg yn fwy penodol. Os yn angenrheidiol, bydd yn adnabod mesurau a fydd un ai yn lliniaru effeithiau negyddol neu ddiogelu/ wella/ lledaenu effeithiau positif. Bydd ymgymryd â'r Asesiad yn fodd o <b>adnabod effaith cronus ar y Gymraeg, boed yn positif, negyddol neu niwtral</b>. <del>sicrhau datblygiad a fydd yn cyfrannu at sicrhau cymunedau nodedig a chynaliadwy, ac yn benodol gyfrannu at sicrhau Cymraeg ffyniannus mewn cymunedau.</del> Mae'n broses lle mae gwybodaeth am effeithiau tebygol datblygiad arfaethedig yn cael eu casglu, coladu, a'u hasesu gan <b>asesydd unigol</b> yn cymwys a fydd yn cynghori'r ymgeisydd. Bydd yr ymgeisydd yn rhoi ystyriaeth i'r wybodaeth fel rhan o'r gwaith i lunio'r datblygiad.”</p>
62		Menter laith Bangor	Diagram 10	<p>Ar sail y sylw blaenorol credwn y dylai'r blwch glas sy'n dilyn Diagram 10 (Adran 2, tudalen 28) hefyd gyfeirio at effeithiau niwtral yn ogystal ag effeithiau positif a negyddol. Hefyd onid oes angen ail lunio brawddeg “Bydd Datganiad Iaith Gymraeg ac adroddiad am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg yn cofnodi'r ystyriaethau a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â nhw.” I adlewyrchu'r ffaith na fydd unrhyw gamau ymarferol wedi cael eu cynnal bryd hynny credwn fod angen addasu 'camau a gymerwyd' i 'camau a gymerir'? O ran cysondeb terminoleg ac ystyr onid ddylid addasu 'effeithiau andwyol' ac 'effeithiau andwyol sylweddol' i 'effeithiau negyddol' os na olygir effeithiau gwaeth na rhai negyddol lle nad oes modd lliniaru eu heffeithiau? Dyma'r cyfeiriadau cyntaf at y termau hyn yn y ddogfen. Felly hefyd y defnydd o 'effeithiau cadarnhaol' ac 'effeithiau positif'.</p>	<p>Mae Diagram 10 yn disgrifio'r sefyllfa pan fydd ymgeisydd (gyda chynghor gan yr asesydd a fydd wedi ei benodi ganddo) wedi gwneud asesiad o effaith y datblygiad arfaethedig ac wedi dod i gasgliad pa fath o effaith fydd gan y datblygiad. Bydd y cam hwn yn golygu bod yr ymgeisydd yn disgrifio'r camau fydd wedi ei gymryd i lliniaru risg neu i uchafu budd, h.y. bydd wedi cymryd camau i newid ei gynlluniau gwreiddiol cyn cyflwyno'r cais cynllunio. Cytuno bod angen diwygio'r frawddeg i wella eglurder.</p> <p>Mae'r Canllaw yn defnyddio terminoleg a ddefnyddir ym Mholisiau'r Cynllun. Ar sail hynny, ac er mwyn sicrhau cysondeb, mae angen diwygio'r testun yn y blwch glas cyntaf yn Niagram 10 trwy ddisodli 'negyddol' efo 'andwyol' a 'cadarnhaol' efo 'positif.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – diwygio Diagram 10 yn unol â'r isod:</p> <p>“Dylai'r cynigion ddangos sut roddwyd ystyriaeth gynnar i effeithiau posibl ar gymunedau a'r iaith Gymraeg. Dylid ystyried yn ofalus effeithiau <b>andwyol negyddol</b> a phositif y datblygiad ar leoedd sy'n bwysig i allu trosglwyddo'r Gymraeg a lleoedd sy'n bwysig i greu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu Cymraeg. Bydd Datganiad Iaith Gymraeg ac adroddiad am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg yn cofnodi'r ystyriaethau a'r camau a gymerwyd i <b>addasu'r datblygiad arfaethedig i fynd i'r afael â nhw.</b>”</p>
63		Menter laith Bangor	Diagram 10	<p>Mae'r frawddeg “Os na ellir lliniaru effeithiau andwyol sylweddol yn ddigonol, dylai'r Datganiad Iaith Gymraeg a'r adroddiad am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol i'r Awdurdod ar gyfer symud ymlaen gyda'r cais cynllunio” yn bwysig drosben a chredwn fod angen manylu yma trwy gynnig enghreifftiau ar y mathau o gyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol a fyddai'n debygol ac wrth reswm yn dderbyniol? Heb hynny mae dimensiwn pwysig drosben yn amwys ac annelwig. Mae hefyd yn mynd a'r penderfyniad o ran ceisiadau cynllunio unigol i dir newydd ac mae monitro dilynol yn allweddol er mwyn datblygu dealltwriaeth ac arbenigedd ymhellach ar sail astudiaethau achos penodol.</p>	<p>Cytunir bod angen arweiniad ynglyn â pha fath o gyflwyniad a ddisgwylir gan ymgeisydd yn yr amgylchiadau a ddisgrifir ar ddiwedd y blwch oren.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – diwygio'r testun yn y blwch oren yn Niagram 10 yn unol â'r isod:</p> <p>“Os na ellir lliniaru effeithiau andwyol sylweddol yn ddigonol, dylai'r Datganiad Iaith Gymraeg a'r adroddiad am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol i'r Awdurdod i <b>egluro pam fod yr ymgeisydd yn dewis ar gyfer</b> symud ymlaen gyda'r cais cynllunio. <b>Disgwylir i'r dystiolaeth egluro</b></p>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad	
					<b>pam fod rhinweddau'r datblygiad (sy'n ystyriaethau cynllunio perthnasol) yn gorbwyso gofynion Polisi PS 5 ac maen prawf 3 ym Mholisi PS 1.</b>	
64		Menter Bangor	laith	C.35	Wrth groesawu'r cyfeiriad at y mentrau iaith ran pwynt C.35 (Adran 2, tudalen 32), yn achos Hunaniaith byddai angen sicrhau adnoddau digonol ychwanegol i allu cyflawni'r swyddogaeth yn briodol. Ar hyn o bryd mae ffocws gwaith Hunaniaith a Menter Iaith Bangor ar gynyddu defnydd cymunedol ac felly byddai angen ystyried hynny i'r dyfodol yng ngoleuni natur a graddfa'r swyddogaeth ychwanegol hon. Tybed a fyddai gwerth mewn ystyried secondiad swyddogaeth i gymryd cyfrifoldeb penodol dros y cydweithio i asesu'r defnydd a wneir o Ddatganiadau ac/ neu Aseidiadau wrth asesu addasrwydd y wybodaeth y gofynnir amdano ac adnabod unrhyw heriau i gyflawni'r polisiau.	Nodi'r sylw. Nid yw materion capasiti y mentrau iaith yn fater penodol i'w gynnwys yn y Canllaw.  <u>ARGYMHELLIAD</u> – dim angen newid mewn ymateb i'r sylw hwn.
65		Menter Bangor	laith	Cam 8	Wrth drafod Cam 8 Monitro (Adran 2, tudalen 32) cyfeiriwn chi at sylwadau blaenorol a gyflwynwyd ar y dimensiwn allweddol bwysig hwn, ac yn arbennig craffu ar ddatblygiadau ymhen blwyddyn a thu hwnt i gymharu rhagolygon a sefyllfaoedd gwirioneddol. Byddwn hefyd yn credu bod angen craffu mewn manylder ar ardal datblygiadau penodol a chyrchu barn trigolion lleol am effeithiau gwirioneddol ieithyddol (gan gynnwys carfanu ieithyddol) a chymdeithasol/ diwylliannol.	Nodi'r sylw a chytunir gyda'r syniadau am sut i fynd ati i ddatblygu'r sail dystiolaeth am gymunedau er mwyn cyfoethogi aseidiadau yn y dyfodol.  <u>ARGYMHELLIAD</u> – dim angen newid mewn ymateb i'r sylw hwn
66	Cefnogi	Menter Bangor	laith		Mewn ymateb i gwestiwn 6, dywedodd y sylwebydd: Credwn ei fod yn yr amgylchiadau sydd ohoni ar hyn o bryd.	Nodi'r sylw cefnogol  <u>ARGYMHELLIAD</u> – dim angen newid mewn ymateb i'r sylw hwn
67	Cefnogi	Menter Bangor	laith	Atodiad 2	Mewn ymateb i gwestiwn 7, dywedodd y sylwebydd: Hyd y gwyddom mae'r cyfeiriadau yma yn gynhwysfawr a phriodol.	Nodi'r sylw cefnogol  <u>ARGYMHELLIAD</u> – dim angen newid mewn ymateb i'r sylw hwn
68	Sylw	Menter Bangor	laith	Atodiad 5	Mewn ymateb i gwestiwn 8, dywedodd y sylwebydd: Ni chredwn fod ffynhonnell arall ond mae angen ychwanegu'r dimensiwn a nodir isod yn ein barn ni. O ran Atodiad 5: Y Drefn Sgrinio o dan bwynt Ch2) Arfer da, credwn y dylid cryfhau'r geiriad yma i gynnwys cadarnhad am nifer a chanran o'r holl swyddi llawn a rhan amser a glustnodir lle bydd sgiliau dwyieithog yn hanfodol, yn ddymunol a ddim eu hangen o gwbl. Derbyniwn nad yw hi bob tro yn bosibl penodi ar sail anghenion ieithyddol swydd ddisgrifiadau ond byddai ychwanegu gwybodaeth o'r fath yn cryfhau gwerth datganiad neu aseiad effaith ieithyddol a rhoi darlun mwy eglur o raddfa perthynas dyfodiad swyddi newydd hefo proffil ieithyddol a marchnad lafur lleol yr ardal.	Nodi'r sylw. Nid yw'r rhan a gyfeirir ato yn berthnasol i Ddatganiad Iaith Gymraeg nac adroddiad am Aseiad Effaith iaith Gymraeg. Mae'r testun yn cyfeirio at dystiolaeth all ymgeisydd gyflwyno i ddangos i'r Awdurdod Cynllunio sut roddwyd ystyriaeth i'r iaith Gymraeg wrth lunio'r datblygiad. Ar sail hynny cytunir byddai ychwanegu cyfeiriad at wybodaeth am sgiliau ieithyddol gweithwyr yn gwella'r arweiniad a roddir am arfer da.  <u>ARGYMHELLIAD</u> – ychwanegu'r testun canlynol o dan y pennawd 'arfer da' sydd yn Ch2:  "Ceir gwybodaeth mewn Datganiad Cynllunio sy'n nodi faint o swyddi (nifer a chanran) llawn a rhan amser lle bydd sgiliau dwyieithog yn hanfodol, yn ddymunol neu dim eu hangen o gwbl."
69	Gwrthwynebu	Menter Bangor	laith	Atodiad 7	Mewn ymateb i gwestiwn 9, dywedodd y sylwebydd: I raddau helaeth credwn ei fod ond cynigiwn rhai gwelliannau pellach isod.	Cytunir byddai'n fuddiol i gyfeirio at 'bris cyfartalog tai yn yr ardal' o dan y pennawd 'Tai Newydd'.

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
				<p>Cytunwn a meysydd adrodd yn Atodiad 7 Methodoleg ar gyfer paratoi Datganiad Iaith Gymraeg (tudalen 72). Maent yn bwrpasol a defnyddiol ac yn taro deuddeg o ran y meysydd blaenoriaeth amlwg. Ond o ran 'Tai Newydd' credwn bod angen ychwanegu maen prawf pellach sef 'Ydy'r datblygiad yn debygol o gyfrannu at bris cyfartalog tai yn yr ardal?' gan mai dyna yw un o feini tramgwydd mwyaf i bobl leol o ran prynu eiddo. Byddai hyn hefyd yn gydnaws a'r cwestiwn a ofynnir wrth lunio asesiad effaith iaith.</p> <p>O ran pwynt 18 "Ymgysylltu a'r gymuned leol ac eraill" (Atodiad 7, tudalen 76), credwn fod angen nodi pwysigrwydd ymgynghori a'r gymuned leol yn ddwyieithog ond gan roi blaenoriaeth i'r Gymraeg o gofio mai dyna yw holl destun yr ymgynghoriad. Tra bo hynny'n synnwyr cyffredin i ni nid yw o reidrwydd i gwmnïau mwy neu ddieithr i'r ardal/sir/Cymru. Gallai hepgor neu gamweinyddu hyn greu argraff ac adwaith llai na dymunol ymhlith aelodau'r gymuned leol, yn arbennig wrth ystyried llwyddiant y cais.</p>	<p><u>ARGYMHELLIAD</u> – diwygio'r testun yn y pwynt bwled cyntaf o dan bennawd 'Tai Newydd' yn unol â'r isod:</p> <p>Pris marchnad ddisgwyliedig ar gyfer y tai a sut mae hyn yn cymharu ag incwm aelwydydd lleol a <b>phris cyfartalog tai yn yr ardal'</b></p> <p>Cytunir dylid nodi pwysigrwydd ymgynghori â'r gymuned leol yn ddwyieithog ond gan roi blaenoriaeth i'r Gymraeg, oherwydd bydd canran o'r boblogaeth gan sgiliau iaith Gymraeg.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – diwygio'r testun ym mharagraff 18 yn Atodiad 7 yn unol â'r isod:</p> <p>"Dangoswch sut yr ydych wedi <b>ymgysylltu/</b> ymgynghori ac ymgysylltu â'r <b>budd – ddeiliaid lleol perthnasol</b> <del>gymuned leol</del> am eich cynnig. Gall <b>budd –ddeiliaid lleol</b> hyn gynnwys ymgynghori â cymdogion, grwpiau cymunedol a gwirfoddol, grwpiau penodol (<b>all gynnwys mentrau iaith</b>), y Cyngor Cymuned, <b>yr Aelod lleol</b> neu Wasanaethau o fewn y Cyngor sydd â gwybodaeth berthnasol am yr anheddle lle lleolir y datblygiad. <b>Mae Atodiad 4 i'r Canllaw hwn yn rhoi manylion cyswllt defnyddiol. Mae'r iaith Gymraeg yn nodwedd bwysig ar draws yr holl gymunedau sydd ym Mon a Gwynedd. Disgwylir i ymgeisydd ddarparu gwybodaeth yn ddwyieithog, gan roi blaenoriaeth i'r iaith Gymraeg. Dylai ymgeisydd bob amser fod yn barod i dderbyn ymatebion i waith ymgysylltu ac ymgynghori yn Gymraeg. Bydd natur a graddfa'r ymgysylltu/ ymgynghori yn dibynnu ar fath a graddfa'r datblygiad sydd mewn golwg. Mae'r gofynion deddfwriaethol yn nodi'r lleiafswm o ymgynghori sydd angen ei wneud ar gyfer datblygiad mawr a sut i gyflwyno gwybodaeth am yr ymgynghori. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllaw arfer da ar gyfer ymgynghori â'r gymuned wrth ymgynghori cyn cyflwyno ceisiadau mawr.<sup>1</sup> Mae Cymorth Cynllunio Cymru (ar ran Llywodraeth Cymru) hefyd wedi cyhoeddi <u>llawlyfr ar gyfer</u> cynghorau cymuned a thref, grwpiau cymunedol ac unigolion sydd eisiau deall ac ymateb i ymgynghoriadau cyn ymgeisio.</b></p> <p>Os nad ydi'r datblygiad yn un 'mawr' yn ôl y Gorchymyn a gyfeiriwyd ato uchod, dylech roi datganiad byr am y camau a dulliau ymgysylltu fel rhan o'r Datganiad Iaith Gymraeg. <b>Gall pob datblygiad, waeth pa mor fawr neu fach, elwa o ymgysylltu effeithiol ac y mae canllawiau Llywodraeth Cymru/ Cymorth Cynllunio Cymru a ddisgrifir uchod yr un mor berthnasol i ddatblygiadau nad ydynt yn rhai 'mawr' o ran arfer dda.</b> Mae'r ymgynghori a'r ymgysylltu yn gyfle i chi rannu'ch cynnig dechreuol â'r <b>budd- ddeiliaid lleol</b> <del>gymuned leol</del> a'i egluro wrthynt cyn cyflwyno cais ffurfiol a chael <del>cymradwyaeth</del> <b>cefnogaeth</b> gan y gymuned os yw'n bosibl. Ni fydd llwyddiant y cais cynllunio yn dibynnu'n llwyr ar gefnogaeth gan y gymuned."</p>

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru (2017) "Ymgynghori â'r gymuned cyn ymgeisio: Canllaw arfer gorau i ddatblygwyr" Digidol ISBN 978 1 4734 9506 7

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad	
70	Gwrthwynebu	Menter Bangor	laith	Atodiad 8	<p>Mewn ymateb i gwestiwn 10, dywedodd y sylwebydd:</p> <p>Yn gyffredinol rydym yn cefnogi'r fethodoleg ond mae ganddom rhai pryderon ac awgrymiadau pellach fel y nodir isod.</p> <p>Mae'r frawddeg ganlynol ym mhwynt 16 Atodiad 8 yn peri gofid i ni: "Nid oes unrhyw rwymedigaeth ar yr ymgeisydd i ymgynghori ag unrhyw un ynghylch y wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn adroddiad Asesiad Effaith Ieithyddol." Casglwn fod y rhesymau am hynny y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod Cynllunio, ond tybed a oes modd ail eirio i fod yn fwy annelwig? Felly hefyd "amseriad trafodaethau anffurfiol o'r fath yn ôl disgrisiwn yr ymgeisydd". Cynigiwn hynny oherwydd fel arall onid oes perygl i hyn danseilio hygrededd y broses o ystyried y Gymraeg o fewn cynllunio neu o leiaf cyfleu'r argraff mai eilradd ydyw i faterion eraill megis yr amgylchedd a chadwraeth? Credwn y dylai'r gwasanaeth cyngor cyn cyflwyno cais cynllunio sicrhau, hyd orau y gallent, nad yw'r argraff yma yn cael ei gyfleu mewn unrhyw ffordd, boed yn llafar neu ysgrifenedig. I'r gwrthwyneb yng Ngwynedd a Môn byddant o bwys mawr o gofio cyd-destun ieithyddol arbennig Gwynedd a Môn.</p>	<p>Cytunir gallai'r frawddeg gyntaf greu cam argraff a thanseilio disgwyliadau'r Cynghorau Mae mynd i'r afael â'r hyn a nodir gan y sylwebydd yn rhoi cyfle i ni ddiwygio paragraff 16 yn Atodiad 8, e.e. trwy gael gwared â'r frawddeg gyntaf, rhoi mwy o bwyslais ar yr ymgynghoriad cyhoeddus statudol cyn cyflwyno cais, pwyslais ar y drefn cael barn cyn cyflwyno cais cynllunio, ac ail drefnu'r testun i wella llif y paragraff.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – diwygio paragraff 16 yn unol â'r isod:</p> <p><del>"Nid oes unrhyw rwymedigaeth ar yr ymgeisydd i ymgynghori ag unrhyw un ynghylch y wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn adroddiad Asesiad Effaith Ieithyddol. Fodd bynnag, ceir rhesymau ymarferol da i wneud hynny. Gall pob datblygiad, waeth pa mor fawr neu fach, elwa o ymgysylltu/ ymgynghori effeithiol. Yn gyntaf fe fyddai'n cyd-fynd ag un o egwyddorion yr ISO 31000 sef "gweithgareddau i gyfathrebu ac ymgynghori gyda rhanddeiliaid trwy gydol y broses"</del> Yn ail, mae adnabod nodweddiad y gymuned a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y lleoedd (peuoedd) sy'n bwysig i hyfywedd yr iaith yn gynnar yn cynnig y cyfle gorau i sicrhau fod y Gymraeg yn ystyriaeth wrth ddatblygu'r cynnig. Mae Diagram 5 yn y Canllaw yn adnabod disgwyliadau'r <b>Cynghorau</b> o ran ymgysylltu ac ymgynghori yn ystod y cyfnod cyn cyflwyno cais cynllunio. <b>Bydd datblygiad sydd angen bod yn destun Asesiad Effaith iaith Gymraeg yn ddatblygiad 'mawr' o dan Erthygl 2 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (DMPWO). O dan y Ddeddf Cynllunio 2015, bydd angen i ymgeiswyr am 'datblygiad mawr' ymgynghori'n statudol cyn gwneud cais. Gosodir nifer o weithgareddau ymgynghori sydd angen eu cyflawni gan yr ymgeisydd cyn y gall gyflwyno'r cais cynllunio. Maent yn cynnwys ymgynghori gyda thri grŵp o bobl, sef</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pobl sy'n ddeiliaid neu'n berchnogion gerllaw safle'r cais;</li> <li>• Ymgynghoreion cymunedol, sy'n cynnwys Cyngor Cymuned a Chynghorydd (Aelod Lleol); a</li> <li>• Ymgynghoreion arbenigol. Rhoddir manylion am bwy yw'r rhain a phryd y dylid ymgynghori â nhw, yn Atodlen 4 i'r DMPWO. Penderfynir pwy yw'r ymgynghoreion arbenigol a restrir yn Atodlen 4 sy'n berthnasol i ddatblygiad arfaethedig drwy broffion disgrifiad o'r datblygiad. Mae Atodiad 2 i'r llawlyfr Ymgynghori â'r Gymuned Cyn-cais: Canllaw Ymarfer Gorau ar gyfer Datblygwyr (2017) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn rhoi'r profion hynny.</li> </ul> <p>Mae Llywodraeth Cymru'n hefyd yn nodi gall ymgeisydd adnabod ymgynghoreion ychwanegol, gwerthfawr na restrir hwynt yn Atodlen 4 i'r DMPWO. Disgwylir i ymgeisydd ymgynghori gyda'r fenter iaith berthnasol. Bydd creu amserlen o weithgareddau ymgynghori ar ddechrau'r prosiect yn helpu i gyflawni'r gweithgareddau ymgysylltu anstatudol, a statudol, ar yr adeg iawn. Gall hefyd helpu i sicrhau bod y gofynion statudol yn cael eu cwrdd.</p> <p><del>Mae'r ymgysylltu a'r ymgynghori yn cynnwys cymdogion, grwpiau cymunedol a gwirfoddol, grwpiau penodol a Chynghorau Cymuned. Bydd gan yr Awdurdod</del></p>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad	
					<del>Cynllunio/ Cyngorau yn aml wybodaeth leol ac arbenigol defnyddiol ac fe fydd yn gallu rhoi cyngor rhagarweiniol ar yr ardal ddylanwad a'r agweddau hynny o'r cynnig sy'n debygol o fod yn destun pryder arbennig i'r Awdurdod Cynllunio. Mae'r ddau Awdurdod Cynllunio Lleol yn darparu gwasanaeth rhoi cyngor cyn cyflwyno cais cynllunio (cynnwys dolen i'r gwefannau yn y fan yma). Mae Atodiad 4 o'r Canllaw Cynllunio Atodol yn cynnwys cyfeiriadau budd-ddeiliaid allweddol. Mae amseriad trafodaethau anffurfiol o'r fath yn ôl disgrisiwn yr ymgeisydd; ond, yn gyffredinol bydd yn hynod fanteisiol iddynt ddiwydd cyn gynted ag y mae'r ymgeisydd mewn sefyllfa i ddarparu digon o wybodaeth i ffurfio sail ar gyfer trafodaeth. Bydd yn gyfle i swyddogion cynllunio <del>penodol</del> dynnu sylw'r ymgeisydd a/ neu'r rhai a fydd yn ei gynghori (sef yr unigolyn cymwys) at unrhyw fylchau mewn gwybodaeth a gasglwyd ganddo. <b>Bydd y swyddog cynllunio yn gofyn am wybodaeth gan swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor.</b> Gall yr ymgeisydd ofyn bod unrhyw wybodaeth ragarweiniol a ddarperir ar hyn o bryd yn cael ei drin yn gyfrinachol gan yr awdurdod cynllunio. <del>Mae'r ddau Awdurdod yn cynnig gwasanaeth cyngor cyn cyflwyno cais cynllunio (cynnwys dolen i'r gwefannau yn y fan yma). Mae Atodiad 4 o'r Canllaw Cynllunio Atodol yn cynnwys cyfeiriadau budd-ddeiliaid allweddol.</del></del>	
71	Gwrthwynebu	Menter Bangor	laith	Atodiad 8	<p>Tra'n croesawu'r ymdrech a'r bwriad, mae ganddom sawl pryder am y matrices risg a allai ei danseilio a'i ddiabrisio. O ran Ffigur 8.1 Matrics Risg/ Buddiol Enghreifftiol a phennawd 'Amledd' o dan 'Tebygolrwydd', y cwestiwn allweddol yw, a ydy gwybodaeth am gyfnod o 10 i 20 mlynedd ar gael gan yr awdurdod cynllunio neu yn gyhoeddus? Os nad yw yna mae'r seiliau gwyddonol dros ei ddefnyddio yn sigledig ac efallai'n annilys. At hynny hefyd mae'r diffiniadau yn rhai dadlennol ac agored i'w herio, e.e. lleihad o 2.5% a throsodd yn cyfateb i 'sylweddol negyddol' a'r naid rhwng 'lleiafrif' yn syth i 'mwyafri' o dan 'Siawns' heb ddim opsiwn rhyngddynt o dan bennawd 'Effaith 20 mlynedd'. Unwaith yn rhagor mae'n tanlinellu pwysigrwydd monitro ac adrodd ar ddatblygiadau ar ôl iddynt gael eu cwblhau a bod hynny'n cael ei gofnodi mewn man canolog at bwrpas ymchwil a chroes gyfeirio i'r dyfodol.</p>	<p>Cytunir nad oes sail wyddonol gadarn i'r diffiniadau o "amledd" a "newid mewn siaradwyr yr Ardal Ddethol". Mae paragraff 22 yn gwneud yn glir fod y Matrics yn opsiwn. Mae'r pwyslais ar geisio ennyn dod i farn gydsyniol rhwng gwahanol randdeiliaid ar debygolrwydd yr effaith. Mae'n dull gweledol o gofnodi sut rhoddwyd ystyriaeth i'r dystiolaeth a gasglwyd i ymateb i'r materion a restrir yn Nhabl 8.3. Cytunir dylai'r matrices ddilyn tabl 8.3.</p> <p>Cytunir y bydd y fethodoleg yn gwella o ganlyniad i fonitro parhaus a gwell dealltwriaeth o'r berthynas rhwng datblygiad a iechyd y Gymraeg.</p> <p>Er mwyn gwella eglurder cytunir na ddylid cyfeirio at 'gadarn' yn y drydedd golofn yn y matrices.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> - diwygio'r testun yn y drydedd golofn (o dan y penawd 'Amledd') fel a ganlyn: "tystiolaeth <del>gadarn</del> iddo ddiwydd o leiaf ....."</p>
72	Cefnogi	Menter Bangor	laith	Atodiad 8	<p>Cefnogwn Atodiad 8 y fframwaith a'r gyfres o gwestiynau sydd ynddo. Deillia'i rhain o'r fethodoleg a luniwyd yn 2005 ac sydd i bob pwrpas wedi cael eu defnyddio gan amlaf mewn asesiadau effaith iaith ers hynny.</p>	<p>Nodi'r sylw cefnogol.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – dim angen newid mewn ymateb i'r sylw hwn.</p>
73	Sylw	Menter Bangor	laith	Atodiad 8	<p>Tybed a fyddai'n fuddiol darparu fersiwn electronig ar lein o'r fframwaith asesiad effaith (a datganiad iaith) a matrices cynaliadwy er mwyn sicrhau fod ymgeiswyr yn eu cwblhau yn llawn? Gallai hefyd gynnwys colofnau penodol o dan cwestiynau perthnasol i gofnodi dystiolaeth gefnogol.</p>	<p>Cytunir byddai cyhoeddi fersiwn electronig (word) ellir ei lawr lwytho a'i lenwi yn ddefnyddiol iawn. Gellir gwneud hynny ar ôl mabwysiadu'r Canllaw.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – dim angen newid i'r Canllaw mewn ymateb i'r sylw hwn ond cytuno i lunio fersiwn electronig y gellir ei olygu</p>
74	Sylw	Menter Bangor	laith	Matrics	<p>O ran y cyfeiriad at "GODDEF - derbyn y risg drwy ddewis beidio ag ymyrryd;" ym mhwynt 29, derbyniwn y bydd amgylchiadau lle bydd angen gwneud hyn</p>	<p>Nodi'r sylw</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> dim newid</p>



Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad	
				ond yr hyn sy'n allweddol yw fod y risg yn hysbys a fod yn penderfyniad i beidio ag ymyrryd yn seiliedig ar farn a safbwynt gwybodus.		
75	Gwrthwynebu	Menter Bangor	laith	31	<p>Ym mhwynt 31 nodir "Os nad yw effeithiau negyddol sylweddol yn dderbyniol, rhaid ystyried a yw'n bosibl cymryd camau i leihau'r risg i lefel dderbyniol. Dylid cydnabod nad yw'n bosibl, yn ymarferol, i ddileu risg yn gyfan gwbl. Bydd hyn yn gymorth i ddewis pa opsiynau sydd ar gael i'w cynnwys mewn Strategaeth a Chynllun Gweithredu." Rydym yn anghyffyrddus a'r geiriad presennol oherwydd os mai canlyniad dyfodiad datblygiad yw effeithiau negyddol sylweddol yna fe ddylid mewn gwirionedd wrthod y cais ar y sail honno. Mae'r frawddeg fel y saif yn awgrymu i ni y gellir bwrw ymlaen er gwaethaf effeithiau negyddol sylweddol trwy Strategaeth a Chynllun Gweithredu. Efallai mai mater o graffu eto ar y geiriad ydyw ond heb os mae angen nodi yng nghorff y ddogfen y byddai datblygiadau cynllunio sydd ag effeithiau negyddol sylweddol i'r Gymraeg yn debygol iawn o gael eu gwrthod.</p>	<p>Cytuno y gallai'r geiriad fod yn fwy eglur:</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – ychwanegu brawddeg fel a ganlyn:</p> <p>Os fydd effaith cadarnhaol neu negyddol yn cael eu hadnabod yng nghanam uchod bydd rhaid ystyried os ellir gwella unrhyw effaith cadarnhaol neu sut fyddwch yn rheoli effeithiau negyddol. <b>Rhaid cadw mewn cof fod posibilrwydd cryf y bydd y cais cynllunio yn cael ei wrthod gan yr awdurdod cynllunio lleol yn unol â Pholisi PS1, maen prawf 3, os asesir fod effeithiau negyddol o sylwedd yn debygol. Felly dylid ystyried a oes opsiwn arall yn debygol o ostwng y risg i lefel dderbyniol.</b> Dylid cydnabod nad yw'n bosibl, yn ymarferol, i ddileu risg yn gyfan gwbl. Bydd hyn yn gymorth i dewis pa opsiynau sydd ar gael i'w cynnwys mewn strategaeth a chynllun gweithredu.</p>
76	Cefnogi	Menter Bangor	laith	33	<p>Croesawn y bwriad ym mhwynt 33 sef "Dylid trafod mesurau posib gyda'r Mentrau laith a'r Swyddog Cynllunio, a fydd yn trafod gyda swyddogion perthnasol o fewn y Cynghorau, e.e. swyddogion addysg, swyddogion datblygu economi.</p>	<p>Nodi'r sylw cefnogol.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – dim angen diwygio'r Canllaw mewn ymateb i'r sylw hwn.</p>
77	Gwrthwynebu	Menter Bangor	laith	Tabl 8.5	<p>Tra'n croesawu Tabl 8.5: Templed Cynllun Gweithredu i gofnodi gweithgareddau diogelu/ gwella/ hybu/ lliniaru credwn bod angen cwblhau'r Cynllun Gweithredu trwy ychwanegu 2 golofn bellach 'Dull monitro' a 'Casgliadau monitro' gan fod y dimensiwn hwn mor allweddol i ddatblygu dealltwriaeth ac arbenigedd. Wedi'r cyfan. Dyma ddimensiynau allweddol o'r Cynllun Gweithredu yn ei gyfanrwydd.</p>	<p>Bydd y gweithgareddau diogelu/ gwella/ hybu/ lliniaru yn cael eu sicrhau trwy amod cynllunio a/ neu ymrwymiad cynllunio (Cytundeb 106). Mewn achosion lle bydd angen i gyflogwr lunio cynllun hybu'r iaith Gymraeg a bod hynny'n ofyniad mewn Cytundeb 106, gall y Cytundeb sicrhau bod adroddiad am y cynllun hybu'r iaith Gymraeg yn cael ei chyhoeddi ar adegau penodol er mwyn hwyluso monitro. Nid rôl y person cymwys a fydd yn cynnal yr asesiad fydd adnabod dulliau i fonitro gweithrediad yr amodau a/ neu Gytundeb 106. Fel nodwyd mewn ymateb i sylwadau eraill, bydd gweithrediad Polisi PS 1 (a Pholisïau perthynol) yn cael eu monitro'n flynyddol ar ôl mabwysiadu'r Cynllun. Er mwyn gwella eglurder gellir ychwanegu colofn i gyfeirio at 'ddull ac amllder monitro - pan fydd hynny'n briodol' er mwyn adlewyrchu'r ffaith na fydd angen monitro pob un gweithgaredd.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – diwygio Tabl 8.5 trwy ychwanegu colofn gyda'r pennawd 'Dull ac amllder monitro (lle mae'n briodol)</p>
78	Gwrthwynebu	Menter Bangor	laith	A.1	<p>"Mae gan bolisïau amrywiol y Cynllun Datblygu Lleol rôl bwysig i'w chwarae wrth gefnogi cynnal a chreu cymunedau trefol a gwledig nodedig a chynaliadwy. Maent yn helpu i sicrhau y cyflawnir datblygiadau priodol yn y man cywir ar yr adeg gywir. Maent yn gwneud hynny drwy sicrhau fod digon o dir ar gael i ddarparu cartrefi a chyfleoedd gwaith i bobl leol, gan helpu cynnal gwasanaethau trefol a gwledig. "</p> <p>Onid yw'r methodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer pennu nifer stoc tai newydd i'w caniatáu/ hadeiladu dros oes y CDU yn seiliedig ar anghenion bobl leol yn unig? Os yw'n seiliedig ar unrhyw batrwm symudedd y boblogaeth i'r sir, nid yw'n gydnaws a'r datganiad uchod. Er enghraifft, gwyddom fod 40% o holl dai a</p>	<p>Mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer adnabod gofyniad tai'r Cynllun yn seiliedig ar ystyriaeth o ffactorau cymdeithasol ac economaidd a sut allai hynny gael dylanwad ar boblogaeth ardal y Cynllun. 'Roedd rhai o'r ffactorau'n cynnwys creu cyfleoedd i bobl oed gweithio i fyw a gweithio yn ardal y Cynllun, newid tebygol yng nghyfansoddiad y boblogaeth pe fyddai tueddiadau'r gorffennol yn parhau, cefnogi amcanion datblygu'r economi ac adfywio sydd gan y ddau Gyngor a darparu mwy o dai fforddiadwy.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – dim newid</p>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad	
				werthwyd yng Ngwynedd yn y 12 mis olaf wedi eu gwerthu fel tai haf (ail gartrefi).		
79	Gwrthwynebu	Menter Bangor	laith	Atodiad 1	<p>O ran polisi strategol PS 1 YR IAITH GYMRAEG A'R DIWYLLIANT CYMREIG pwynt 2 (Atodiad 1, tudalen 47) lle nodir "Ofyn am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg, a fydd yn dweud sut fydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg" nodwn eto mai'r swyddogaeth gychwynnol yw asesu beth yw effeithiau tebygol ar y Gymraeg. Ar sail hynny wedyn mae mynd ati i warchod, hyrwyddo neu gryfhau'r iaith, fel ail gam yn y broses.</p> <p>Wedyn o ran pwynt 3 cyfeirir at 'niwed o sylwedd'. Awgrymwn yn gryf bod angen llunio ac ychwanegu diffiniad gweithredol penodol o'r hyn a olygir. Fel arall mae'n rhy benagored ac felly yn agored i ddehongliadau gwahanol ac i heriau cyfreithiol/ apêl posib. Byddai diffiniad gweithredol eglur felly yn goresgyn unrhyw amwyster ac yn fodd i amlygu beth yw'r waelodlin o ran niwed sylweddol fyddai yn annerbyniol i'r awdurdod cynllunio.</p>	<p>Ni all y Canllaw newid Polisi PS 1. Mae Diagram 11 yn disgrifio'r broses asesu'r cais cynllunio a gwneud penderfyniad ac mae'n disgrifio beth olygir gyda'r term 'niwed o sylwedd'.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – dim newid</p>
80	Gwrthwynebu	Menter Bangor	laith	Atodiad 3	<p>Mae tudalen 54 (Atodiad 3) yn cyfeirio at restr o ddogfennau defnyddiol. Yn ychwanegol oni ddylai Cynghorau Gwynedd a Môn fod yn cadw copïau electronig o'r holl ddatganiadau iaith ac asesiadau effaith iaith ynghlwm a cheisiadau cynllunio penodol fel ffynhonnell gwybodaeth a sail ar gyfer gwaith astudiaethau achos ac ymchwil i'r dyfodol? Dyma un o wendidau hanesyddol lle nad oes unman neilltuol yn bodoli i alluogi cadw a chael mynediad at wybodaeth ieithyddol benodol. Hefyd o ran monitro sefyllfaoedd gwirioneddol yn erbyn rhagamcanion, byddai sefydlu un llyfrgell benodol yn synhwyrol ac yn fodd o gyfrannu at hwyluso datblygu dealltwriaeth ac arbenigedd.</p>	<p>Mae'r ddau Gyngor yn cadw copi electronig o'r holl ddogfennau a gyflwynir gyda cheisiadau cynllunio. Oni bai bod gwybodaeth sensitif (e.e. gwybodaeth ariannol) yn y dogfennau hynny, maent ar gael i'w gweld gan y cyhoedd. Gellir gweld dogfennau ceisiadau cynllunio ar wefan Cyngor Gwynedd trwy borth 'Dilyn a Darganfod'. Ar hyn o bryd gellir mynd i dderbynfa Cyngor Sir Ynys Môn a defnyddio cyfrifiadur i weld dogfennau ceisiadau cynllunio. Mae'r Cyngor wrthi'n cwblhau trefniadau i agor porth ar ei wefan i alluogi'r cyhoedd i weld dogfennau ceisiadau cynllunio.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – dim angen diwygio'r Canllaw mewn ymateb i'r sylw hwn.</p>
81	Sylw	Menter Bangor	laith	-	<p>O ran yr uchod ac yn benodol dogfen <i>Dosbarthiad twf ardal Bangor</i> byddwch yn ymwybodol fod Menter iaith Bangor eisoes wedi mynegi ei bryder sylfaenol am y testun a'r dadansoddiad ar ei ffurf bresennol. Mewn llythyr gan Menna Baines at Gareth Jones a Nia Haf Jones dyddiedig 20/12/2016 nodwyd "Yn ein barn ni mae'r darlun o'r demograffeg ieithyddol yn anghyflawn, yn ornegyddol, o bosibl yn cynnwys data anghywir ac yn cyflwyno dehongliad a chasgliadau anghywir am y Gymraeg o dan <i>Pwyntiau allweddol a Chasgliadau</i>. O ganlyniad credwn bod perygl gwirioneddol y gallai'r dadansoddiad presennol agor y llifddorau i roi caniatâd cynllunio i unrhyw ddatblygiadau tai gan fod y gwerth materol i'r iaith yn cael ei danbriso'n ormodol. Os oes cyfle, credwn bod angen ailedrych ar y testun a'r dehongliad, ac anelu i'w ddiwygio i greu dogfen fwy cytbwys sydd hefyd yn rhoi cyd-destun i warchod yr iaith. Os oes modd, byddwn yn croesawu'r cyfle i drafod hynny ymhellach hefo chi." Mewn cyfarfod dilynol (23/1/17), derbyniwyd llythyr (13/3/17) gan Nia Haf Davies yn cadarnhau:</p> <p>"O ran y dyfodol, mae'r Cynghorau yn bwriadu cyhoeddi Canllaw Cynllunio Atodol i gefnogi polisiau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, gan gynnwys Polisi PS 1. Bydd hwn yn disodli'r rhai cyfredol sydd gan y ddau Gyngor am ddatblygiad a'r iaith Gymraeg. Mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, sy'n gyfrifol am baratoi'r Canllawiau yma, yn bwriadu cydweithio gyda swyddogion datblygu'r iaith Gymraeg yn y ddau Gyngor, Hunaniaith a Menter Iaith Môn.</p>	<p>Nodi'r sylw.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> dim newid</p>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad	
				<p>Bydd fersiwn drafft o'r Canllawiau yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, pryd bydd cyfle i unrhyw un gyflwyno sylwadau am y Canllawiau cyn iddo gael ei fabwysiadu gan y Cynghorau. Ar hyn o bryd, anelir i fod mewn sefyllfa i gyflwyno'r Canllawiau i'r Pwyllgorau perthnasol yn y ddau Gyngor i'w fabwysiadu o fewn 6 mis o ddyddiad mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.</p> <p>Yn y cyfamser, wrth wneud sylwadau am geisiadau cynllunio perthnasol bydd yr Uned yn awgrymu bod ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio am ddatblygiad yn ardal Bangor yn cysylltu efo Menter Iaith Bangor. Yn achos cais cynllunio am ddatblygiad sydd angen bod yn destun asesiad effaith ieithyddol, bydd swyddogion yr Uned yn cysylltu gyda Rheolwr Gwasanaethau Iaith Cyngor Gwynedd i drafod y datblygiad arfaethedig er mwyn sicrhau bod y wybodaeth orau'n cael ei gyflwyno i'r Swyddog Achos. Gan nad oes yr un datblygwr wedi bod mewn cysylltiad a'r Fenter a chan mai "awgrymu bod datblygwyr...yn cysylltu efo Menter Iaith Bangor" a wneir, mae ein pryderon gwirioneddol yn parhau heb ei hateb. Rydym felly yn awyddus i glywed ymhellach gan Awdurdod Cynllunio Gwynedd sut mae modd cywiro/ unioni dogfen <i>Dosbarthiad twf ardal Bangor</i> ac osgoi sefyllfaoedd fel a amlinellir uchod.</p>		
82	Gwrthwynebu	Menter Bangor	Iaith	Atodiad 6	<p>O ran "Mae Atodiad 6 [Gweithgareddau i liniaru a gwella effeithiau ieithyddol Datblygiad] (tudalen 67) yn rhestru enghreifftiau o weithgareddau y gellir eu defnyddio i osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau andwyol neu gryfhau/ ledaenu effeithiau cadarnhaol neu fuddiannau unrhyw ddatblygiad cymwys." Credwn bod angen ychwanegu hefyd enghreifftiau o weithgareddau i daclo effeithiau niwtral er mwyn iddynt ddod yn effeithiau cadarnhaol. Byddai hyn yn ei dro yn symud y cydbwysedd fwy o blaid y Gymraeg. Fel arall mewn rhai ceisiadau cynllunio unigol ni fyddai clwstwr o gasgliadau effaith niwtral ynddo'i hunain yn gaffaeliad i'r Gymraeg ac felly mae angen ceisio goresgyn hynny hefyd.</p>	<p>Nodi'r sylw. Mae Atodiad 6 yn cyfeirio at weithgareddau all liniaru a gwella effeithiau ieithyddol. Yn hynny o beth mae'n darparu 'bwydlen' o weithgareddau allai arwain i'r ymgeisydd wneud newidiadau i'r datblygiad a fyddai'n golygu ceir effaith bositif yn hytrach nag effaith niwtral.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – dim newid</p>
83	Gwrthwynebu	Menter Bangor	Iaith	Atodiad 6	<p>Ym mhwynt 7 (tudalen 67) croesawn y cyfeiriad at "Disgwyli'r unigolyn cymwys a fydd yn cynghori'r ymgeisydd i gysylltu gyda'r Fenter Iaith a/ neu swyddogion sydd â chyfrifoldeb dros hybu'r Gymraeg i drafod y mesurau yn ogystal â thrafod gyda'r Swyddog Cynllunio." ond yn bryderus nad oes ymgynghori blaenorol (na dilynol) e.e. wrth ymgynghori'n gyhoeddus neu os nad yw'r datblygwr yn penderfynu comisiynu unigolyn cymwys i gynnal y datganiad neu asesiad effaith. Gallai hyn olygu mai (mwy) cyfyngedig fyddai ymwneud y Fenter Iaith a'r broses - yng nghyd-destun mesurau osgoi/ lliniaru a strategaeth lliniaru yn unig yn hytrach na'r datganiad/ asesiad llawn a dyweder mesurau mwy cyffredinol gan gynnwys rhai i gryfhau effaith iaith niwtral megis "Os caiff effeithiau cadarnhaol posib eu hadnabod, pan yn bosib, dylid cymryd camau i sicrhau buddion ehangach o'r datblygiad." Diau y byddai gan y fenter brofiad a barn werthfawr ynglŷn â'r rhain hefyd?</p>	<p>Nid yw'r dyfyniad yn gyflawn - mae'r frawddeg yn gorffen "...mor fuan â phosibl yn y broses o baratoi cais cynllunio i drafod mesurau liniaru a gwella."</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – dim newid</p>
84	Gwrthwynebu	Menter Bangor	Iaith	Atodiad 6	<p>Croesawn fanylder Atodiad 6 Gweithgareddau i liniaru a gwella effeithiau ieithyddol datblygiad, er yn ail adroddus. Gyda rhai datblygiadau mwy onid oes angen gosod disgwyliad/ trothwy y byddant, os ydynt yn cael effeithiau negyddol ar y Gymraeg, yn gorfod ymrwymo i fabwysiadu cyfres o'r mesurau</p>	<p>Dim yn cytuno bod angen gosod trothwy yn Atodiad 6. Nid dyna ydi bwriad yr Atodiad.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – dim newid.</p>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad	
				hyn a hynny fel isafswm disgwylidig? Fel arall, onid oes perygl y byddai rhai datblygwyr yn penderfynu ceisio dethol a dewis yn fympwyol? Hefyd o ran mesurau sy'n cyfeirio at gefnogi ac ariannu, onid oes angen egluro y gallai hyn fod i'r tymor canol/ hir ac nad un taliad unwaith ag am byth a fyddai, yn ddibynnol ar natur, graddfa a maint y datblygiad?		
85	Gwrthwynebu	Menter Bangor	laith	Atodiad 6	<p>O ran adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol yn unol a mesur yr iaith Gymraeg 2011, oni ddylid addasu pwynt xvii. o dan CYFLOGAETH (a sawl un arall o dan benawdau dilynol) lle cyfeirir at 'polisi/cynllun iaith' i 'safonau iaith'? Ond os yw'n rhwym i bolisi ISA 1 deallwn na fyddai hynny o reidrwydd yn bosibl.</p>	<p>Mae'r cyfeiriad at 'polisi / cynllun iaith gwirfoddol neu statudol' yn gywir. Busnesau ac elusennau sy'n mabwysiadu polisi / cynllun iaith gwirfoddol. Mae nifer o sefydliadau yn parhau i weithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (e.e. cymdeithasau tai, cyngorau tref a chymuned ac adrannau Llywodraeth y DU). Mae ambell i gorff (e.e. un o adrannau Llywodraeth y DU) wedi mabwysiadu 'safonau iaith' yn wirfoddol. Fel arall, dim ond cyrff sy'n cael eu henwi gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac yn derbyn 'hysbysiad cydymffurfio' yn unol ag Adran 44 y Mesur sy'n <u>gorfod</u> gweithredu 'safonau iaith Gymraeg'.</p> <p>Polisi ISA 1 – mae cynigion yn gallu deillio oddi wrth ymgeisiwyr nad ydynt yn destun i ofynion mabwysiadu "safonau iaith", felly ddim yn berthnasol yng nghyd destun y Polisi.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> - dim newid</p>
86	Gwrthwynebu	Menter Bangor	laith	Atodiad 6	<p>O dan Atodiad 6 pwynt 7 nodir y disgwylir i ymgeisydd gysylltu gyda swyddogion cymwys (e.e. swyddogion cynllunio, datblygu'r iaith Gymraeg, tai, ac addysg) o fewn yr Awdurdodau a/ neu gyda'r Mentrau Iaith <b>mor fuan â phosib</b> yn y broses o baratoi cais cynllunio i drafod mesurau lliniaru a gwella. Pa fecanwaith, os o gwbl, sydd yn ei le i hwyluso hyn? Ac os na wneir cysylltiad, beth yw'r camau dilynol? Credwn y byddai'n fwy synhwyrol i'r awdurdod cynllunio nodi bod disgwylid i'r ymgeisydd gysylltu o fewn x o ddyddiau neu gyfnod penodol (a'i ddiffinio) mewn dogfennaeth safonol i bob darpar ymgeisydd.</p>	<p>Mae'r testun yn cyfeirio at y cyfnod cyn i ymgeisydd gyflwyno cais cynllunio. Ni ellir gosod amserlen i'r ymgeisydd ymgysylltu gyda'r budd- ddeiliaid perthnasol. Mae paragraff 18 yn Atodiad 7 a Thabl 8.2 yn Atodiad 8 yn cyfeirio at gofnodi'r gwaith ymgysylltu, gan gofio bod angen i'r gwaith ymgysylltu fod yn gymesur i'r datblygiad arfaethedig. Ar wahân i 'ddatblygiadau mawr' nid oes unrhyw orfodaeth i ymgeisydd ymgysylltu nac ymgynghori cyn cyflwyno'i gais cynllunio. Mae'n ofyniad statudol i ymgeiswyr am 'ddatblygiad mawr' baratoi Adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio. Mae'r adroddiad hwn yn ofynnol i ddilysu ceisiadau cynllunio a bydd yn rhan o gyflwyno'r cais terfynol.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – dim newid</p>
87	Gwrthwynebu	Menter Bangor	laith	Atodiad 7	<p>O dan bwynt 7 nodir "Bydd y fethodoleg hefyd yn cael ei wirio gan swyddogion cymwys o fewn yr Awdurdod cyn i'r sawl a fydd yn gwneud penderfyniad benderfynu a ddylid rhoi caniatâd neu beidio." Mae profiad yn awgrymu'n gryf y bydd angen mabwysiadu proses neu drefn fewnol i wirio hyn gan gynnwys trefn lle bydd un swyddog yn gwirio'r cais ac yn llenwi ffurflen safonol unai yn cymeradwyo, gwrthod neu gyfeirio'r cais yn ôl i gynnwys mwy o fanylion neu ddehongliad gwahanol a'r rheolwr llinell wedyn yn cymeradwyo neu wrthod ARGYMHELLIAD y swyddog. Gall trefn o'r fath hefyd, mewn rhai amgylchiadau, gynnwys cyfeirio'r cais unigol at Reolwr Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor/ Hunaniaith/ MIB ac yn wir, mewn amgylchiadau mwy eithriadol, pwyllgor Cynllunio'r Awdurdod Cynllunio. Credwn y dylai ffurflen safonol fod yn ateb 2 ofyniad penodol hefyd sef:</p> <p>(i) a atebwyd holl gwestiynau'r fethodoleg yn gyflawn a</p>	<p>Nodi'r sylw. Cytunnir bydd angen trefniadau mewnol grymus i gofnodi a gwneud penderfyniadau am asesiadau a gyflwynir. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hyn yn fater i'r Canllaw. Er hynny, credir byddai'n fuddiol i roi trosolwg o'r ystyriaethau ym mharagraff 24 o Atodiad 7 fel awgrymir gan y sylwebydd</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – diwygio paragraff 24 yn unol â'r isod:</p> <p>"Bydd y Swyddog Cynllunio a fydd yn ymdrin â'r cais cynllunio yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynir. Wrth wneud hynny bydd yn ymgynghori gyda swyddog (-ion) cymwys o fewn y Cyngor, <b>a fydd yn gwirio:</b></p> <p><b>(i) a atebwyd holl gwestiynau'r fethodoleg yn gyflawn, ac</b></p>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad	
				<p>(ii) ydy'r dadansoddiadau a'r casgliadau ar sail yr wybodaeth gronnus a gyflwynwyd yn rhesymol ai peidio. Derbyniwn fod hwn yn ddimensiwn sy'n adlewyrchu barn oddrychol, ond mae hanes yn profi bod angen cael mesuriad o resymoldeb synhwyrol. Bydd dealltwriaeth o hynny yn datblygu dros amser ond dyna reswm pam bod angen mwy nac un swyddog i wirio ceisiadau unigol yn ein tyb ni.</p> <p>Byddai hynny yn atgyfnerthu pwyntiau 24 a 25 ac yn rhoi seiliau mwy dilys dros ymdrin a'r broses. Trwy ei ffurfioli mae hefyd yn amlygu ymdrechion diffuant i geisio consensws mewn maes sydd yn ei hanfod yn agor i ddehongliad. Byddai hefyd yn bodloni'r Aelodau Etholedig bod proses fewnol drylwyr a chynhwysol yn ei lle. Trwy gyflawni hyn hefyd mae'r Awdurdod Cynllunio yn amddiffyn ei hunain fwyfwy rhag heriau ac apeliadau ar seiliau ieithyddol gan ddatblygwyr.</p>	<p><b>(ii) ydi'r dadansoddiadau a'r casgliadau ar sail yr wybodaeth gronnus a gyflwynwyd yn rhesymol ai peidio.</b></p> <p>Cyn dod i gasgliad a gwneud argymhelliad am y cais cynllunio, bydd y <b>Swyddog Cynllunio'n</b> ystyried tystiolaeth y swyddog (-ion) cymwys a thystiolaeth berthnasol a geir gan bartïon allanol, e.e. cynghorau cymuned a thref. Gall y Swyddog Cynllunio ofyn i'r ymgeisydd am eglurhad neu am ragor o fanylion i sicrhau bod y Datganiad yn gywir ac yn gyflawn cyn gwneud argymhelliad am y cais am ganiatâd cynllunio. Bydd y Swyddog Cynllunio yn trafod tystiolaeth ychwanegol a dderbynnir gan yr ymgeisydd gyda swyddog (-ion) cymwys o fewn y Cyngor."</p>	
88	Gwrthwynebu	Menter Bangor	laith	Cyffredinol	<p>Credwn fod y Canllaw Cynllunio Atodol hwn yn gynhwysfawr ac y dylid rhoi pwyslais sylweddol arni felly fel ystyriaeth cynllunio berthnasol. Ond fel mae profiadau'r gorffennol eisoes wedi ei amlygu, yr elfennau gweithredu a monitro sy'n allweddol i sicrhau cynladwyedd y Gymraeg o fewn y broses gynllunio. Bydd hyn yn golygu gwyntyllu a gwerthuso datganiadau ac asesiadau effaith iaith mewn modd trwyadl, gwrthrychol, cyson a chyflawn gan gynnwys (o bryd i'w gilydd) gwrthod fersiynau drafft cychwynnol a gofyn am welliannau ac ychwanegiadau i ddatganiadau ac asesiadau effaith iaith. Yn anorfod bydd hefyd yn golygu y gwrthodir rhai ceisiadau cynllunio lle mae rhagdybiaethau o effeithiau negyddol sylweddol i'r Gymraeg (na fydd modd ei lliniaru neu ei lleihau). Yn ddiwahân hefyd, elfen greiddiol i'w gyflawni bydd monitor effaith ieithyddol ar ôl i ddatblygiadau cynllunio gael eu cymeradwyo. Bydd angen sicrhau adnoddau digonol a strwythur pwrpasol mewnol i alluogi hynny. Bryd hynny yn bennaf oll mae deall yn llawn cydberthynas yr iaith a'r broses Gynllunio a gwerth mesurau lliniaru/ cryfhau'r Gymraeg fel rhan o wead cymunedau siroedd Gwynedd a Môn, dwy sir Gymreiciaf Cymru.</p> <p>Mae'r gofynion a'r disgwyliadau yn enfawr felly a bydd awdurdodau Cynllunio eraill yn edrych i gyfeiriad y Gogledd Orllewin am arweiniad ac arferion da i'w mabwysiadu i'r dyfodol.</p> <p>Dymunwn pob dymuniad da i Awdurdodau Gwynedd a Môn a'r gyflawni'r swyddogaeth allweddol bwysig yma.</p>	<p>Nodi'r sylw</p> <p>Mae Diagram 3 a'r disgrifiad o Gam 8 yn egluro'r broses monitro.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – dim angen newid mewn ymateb i'r sylw hwn</p>

## Atodiad (1c)

Rhif y Sylw a'r sylwebydd	1	Pwyllgor Ymgyrch Tai a Chynllunio Gwynedd a Môn
<b>Newid arfaethedig:</b> Ail drefnu paragraffau C.1 – C.7, diwygio'r testun i gyfeirio at Bolisi Cynllunio Cymru Argraffiad 10 a symud testun a oedd ym mharagraffau C.19 – C.21 i'r rhan hwn o'r Canllaw ac ail rifo'r paragraffau yn unol â hynny.		
<p>C.1 Mae Polisi PS 1: Iaith Gymraeg a Diwylliant yn hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg. Fe'i hategir gan Bolisi PS 5 Datblygu Cynaliadwy (maen prawf 4). Ceir copi o'r Polisiâu hyn yn Atodiad 1 i'r CCA hwn. Yn unol â Pholisi PS 1, mae angen casglu a derbyn gwybodaeth am rai mathau o ddatblygu er mwyn gallu dod i gasgliad ynglŷn ag effaith debygol y datblygiad arfaethedig, e.e. a oes buddion i'r Gymraeg, a oes angen diwygio'r cynnig, a oes risg i iechyd gymunedol y Gymraeg ac a ellir lliniaru'r effaith mewn ffordd sy'n lliniaru'r risg a sut ellir monitro'r sefyllfa yn y gymuned. Uchelgais Llywodraeth Cymru yw "gweld miliwn o bobl yn gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg erbyn 2050<sup>1</sup>. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod "nad oes dim dwywaith fod hon yn uchelgais heriol"<sup>2</sup> "Os ydym am wireddu'r sefyllfa lle mae'r Gymraeg yn elfen annatod o bob agwedd ar fywyd bob dydd... mae'n rhaid i'r genedl gyfan fod yn rhan o'r daith. Mae gan bawb ei ran i'w chwarae, ac rydym am i bawb gyfrannu at wireddu ein huchelgais."<sup>3</sup> Mae'n bwysig i ymgeiswyr ddeall felly fod disgwyl i ddatblygiadau dros gyfnod y Cynllun gyfrannu'n bositif tuag at gynaliadwyedd a hyfywedd y Gymraeg ac nid yn unig osgoi cyfrannu at leihad yn y gyfran o'r boblogaeth sy'n gallu siarad y Gymraeg.</p> <p>C.2 Blaenoriaeth Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd (2018 - 2023) ar gyfer cyfnod cyntaf y Cynllun, yn arwain at y Cyfrifiad nesaf yn 2021, fydd "cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer defnyddio'r Gymraeg, ar gyfer magu hyder unigolion nad ydynt yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg, a hefyd edrych ar gyfleoedd fydd yn ein helpu i gadw pobl ifanc yn ein cymunedau." Wrth wneud hynny, un nod ydi gweld "y Gymraeg yn cael lle blaenllaw gan y Cyngor mewn cynlluniau economaidd, tai a chynllunio yn lleol er mwyn sicrhau bod unrhyw gynlluniau a datblygiadau yn cyfrannu yn gadarnhaol at ymdrechion i ddiogelu'r iaith yn ein cymunedau."</p> <p>C.3 Mae Strategaeth Iaith Gymraeg Ynys Môn 2016 – 21 yn anelu at adfer y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg i lefel Cyfrifiad 2001. Mae'n cynnwys tri Maes Blaenoriaeth – Addysg, Y Gweithle, Gwasanaethau Cymraeg a Seilwaith a Chymuned. O ran cymunedau mae'n gosod targed o "gynnal y wardiau lle mae 70% o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg a chynyddu canrannau gweddill y wardiau eraill".</p> <p>C.4 O bersbectif y system gynllunio defnydd tir mae Adran 31 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn diwygio adran 70 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 trwy ychwanegu'r cymal canlynol: "any considerations relating to the use of the Welsh language, so far as material to the application." Golyga hyn ei fod yn ddyletswydd wrth wneud penderfyniad ar gais cynllunio i gynnwys ystyriaethau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg, <u>lle mae'n berthnasol i'r cais hwnnw</u>.</p> <p>C.5 Mae paragraffau 3.25 – 3.29 o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10, 2018) yn ymdrin â'r 'Gymraeg a Chreu Lleoedd' o bersbectif paratoi cynlluniau datblygu lleol a gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Dywed paragraff 4.13.5 3.28 Polisi Cynllunio Cymru (argraffiad 9, 2016) "Gall ystyriaethau yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg gael sylw gan benderfynwyr cyn belled â'u bod yn berthnasol i geisiadau am ganiatâd cynllunio. Ni ddylai polisiâu a phenderfyniadau gyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu rhwng unigolion yn</p>		

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru (2017) *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Rhagair y Gweinidogion*

<sup>2</sup> Ibid.

<sup>3</sup> Ibid.

**seiliedig ar eu gallu ieithyddol, ac ni ddylent geisio rheoli deiliadaeth tai ar sail ieithyddol. Caiff y rheini sy'n gwneud penderfyniadau roi sylw i ystyriaethau'n ymwneud â defnydd o'r Gymraeg eyn belled bod yr ystyriaethau hynny'n berthnasol i'r ceisiadau am ganiatâd cynllunio."**

C.6 Mae'r Asesiad o Gynaliadwyedd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (a lywiwyd gan wybodaeth o'r Asesiad Effaith Ieithyddol ailadroddol) wedi ceisio ystyried effeithiau tebygol strategaeth a pholisïau'r Cynllun ar hyfywedd y Gymraeg. Ceir strategaeth a pholisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar sail dealltwriaeth resymol o'r goblygiadau posib i'r iaith Gymraeg. Maent yn cyfrannu i greu hinsawdd ac amodau cymdeithasol sy'n hwyluso defnyddio'r Gymraeg. **Mae Strategaeth y Cynllun, ym mharagraffau 5.12 – 5.15, yn cynnwys datganiad am sut mae'r ddau Awdurdod Cynllunio wedi ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol a sut mae'r polisïau yn ymwneud â'r Gymraeg yn rhyngweithio â pholisïau eraill.**

C.7 Bydd y gwahanol fathau o ddatblygu sy'n angenrheidiol i gynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy yn digwydd ar amryw o raddfeydd. Bydd y materion a fydd angen rhoi sylw iddynt, ac felly'r wybodaeth a fydd yn angenrheidiol i ddod i benderfyniad rhesymedig arno yn amrywio hefyd.

C.8 **Mae Polisi PS 1: Iaith Gymraeg a Diwylliant yn gwarchod, hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg. Fe'i hategir gan Bolisi PS 5 Datblygu Cynaliadwy (maen prawf 4). Ceir copi o'r Polisïau hyn yn Atodiad 1 i'r CCA hwn. Trwy gymhwysu'r Polisïau hyn bydd y Gwasanaethau Cynllunio yn rhoi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg, pan mae'n berthnasol i wneud hynny, o fewn gofynion y ddeddfwriaeth a pholisi cenedlaethol cynllunio perthnasol gyfeirir atynt ym mharagraffau C.4 a C.5.**

C.9 Mae'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref 2012 (Gweithdrefn Rheolaeth Datblygu) (Cymru) (y DMPWO) yn darparu Ffurflen Gais Safonol ar gyfer ceisiadau cynllunio yng Nghymru ac yn datgan beth yw'r diffiniad o gais 'dilys'. Er mwyn cofrestru'r ceisiadau yn rhai 'dilys' rhaid i ymgeiswyr ddarparu'r holl wybodaeth sydd wedi'i nodi ar y Ffurflen Gais Safonol, e.e. cynlluniau, diagramau a thystysgrifau ac unrhyw asesiadau ategol ychwanegol. Gall awdurdod cynllunio lleol wrthod derbyn cais os nad yw'r wybodaeth briodol yn cael ei darparu gydag o.


C.10 Yn ychwanegol at y wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer dilysu ceisiadau, bydd Awdurdod Cynllunio Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn, fel pob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru, angen arolygon ac adroddiadau ategol ychwanegol yn unol â gofynion y polisïau sydd yn y Cynllun Datblygu Lleol. **Yn unol â Pholisi PS 1, mae angen casglu a derbyn gwybodaeth am rai mathau o ddatblygu er mwyn gallu dod i gasgliad ynglŷn ag effaith debygol y datblygiad arfaethedig, a sut bydd y datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg, e.e. a oes buddion i'r Gymraeg, a oes angen diwygio'r cynnig, a oes risg i iechyd cymunedol y Gymraeg ac a ellir lliniaru'r effaith mewn ffordd sy'n lliniaru'r risg, a ellir uchafu'r budd, a sut ellir monitro'r sefyllfa yn y gymuned. Mae'r Canllaw hwn yn rhoi arweiniad ar yr arolygon a'r atodiadau ategol ychwanegol fydd yn angenrheidiol i gyd fynd â maen prawf 1 a 2 ym Mholisi PS 1 ac yn rhoi arweiniad ar sut roddir ystyriaeth i'r iaith Gymraeg pan na fydd angen arolygon ac atodiadau ategol.**

C.11 Bydd y pwyslais o ran gwneud penderfyniad am gais cynllunio ar osgoi datblygiadau perthnasol a fyddai'n achosi niwed o sylwedd i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned. Bydd yr Awdurdodau Cynllunio yn cymryd i ystyriaeth cynigion sydd yn ceisio uchafu bendithion lle mae'r ystyriaethau hynny yn berthnasol i'r cais.

# Atodiad (1ch)

Medi 2017 - Chwefror 2018	Ionawr & Chwefror 2018	Mawrth - Ebrill 2018	Gorffennaf 2018	Hydref – Tachwedd 2018	Rhagfyr 2018 – Ionawr 2019	Chwefor - Mawrth 2019	<b>Ebrill 2019</b>	Mai 2019
------------------------------	---------------------------	-------------------------	--------------------	------------------------------	-------------------------------------	--------------------------	--------------------	----------

## PROSES PARATOI CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY





**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL  
DRAFFT ÔL-YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS**

**CYNNAL A CHREU  
CYMUNEDAU NODEDIG A  
CHYNALIADWY**



**MEHEFIN 2019**

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT ÔL YMGYNGHORI**

**TUDALEN GYNNWYS**

<b>Pennawd</b>	Disgrifiad	Tudalen
<b>Rhagarweiniad</b>	Gwybodaeth Gyffredinol	
	Cyflwyniad	
<b>Adran 1</b>	Beth a olygir wrth Gymunedau Nodedig a Chynaliadwy?	
<b>Adran 2</b>	Sut i fodloni gofynion Polisi Strategol PS1	
<b>Adran 3</b>	Sut i fodloni gofynion Polisiâu Strategol PS5 a PS6	

Atodiadau

Atodiad	Disgrifiad
1	Polisi PS 5, Polisi PS 6 a Pholisi PS 1
2	Ffynonellau data a gwybodaeth ddefnyddiol am yr iaith Gymraeg
3	Rhestr o ddogfennau defnyddiol
4	Manylion cyswllt defnyddiol
5	Y Drefn sgrinio
6	Mesurau lliniaru a gwella posib – iaith Gymraeg
7	Methodoleg ar gyfer paratoi Datganiad Iaith Gymraeg
8	Methodoleg ar gyfer paratoi Asesiad Effaith Iaith Gymraeg

<b>Rhestr Diagramau</b>		
<b>Diagram 1</b>	Y saith nod llesiant	
<b>Diagram 2</b>	Elfennau hanfodol ar gyfer cymuned nodedig a chynaliadwy	
<b>Diagram 3</b>	Siart llif: proses o roi datblygiad arfaethedig at ei gilydd, ei asesu a gwneud penderfyniadau amdano	
<b>Diagram 4</b>	Y broses o sgrinio'r datblygiad arfaethedig a llunio barn gychwynnol	
<b>Diagram 5</b>	Sut i ddewis pa fath o asesiad effaith debygol ar yr iaith Gymraeg	
<b>Diagram 6</b>	Paratoi Datganiad iaith Gymraeg	
<b>Diagram 7</b>	Paratoi Adroddiad Asesiad Effaith Iaith Gymraeg	
<b>Diagram 8</b>	Enghreifftiau o Senarios Pan Fyddai Angen Ymgymryd Ag Asesiad Effaith Iaith Gymraeg	
<b>Diagram 9</b>	Sut i ddewis rhywun cymwys i'ch cyngori gyda Datganiad Iaith Gymraeg neu Asesiad Effaith Iaith Gymraeg	
<b>Diagram 10</b>	Adnabod Mesurau Osgoi a Lliniaru, Paratoi strategaeth a chyflwyno'r cais cynllunio	
<b>Diagram 11</b>	Y broses o asesu a Gwneud Penderfyniad ar Gais Cynllunio	

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT ÔL YMGYNGHORI**

Rhestr Tablau		
Tabl 1	Ystyriaethau polisi cynllunio ar gyfer mathau penodol o ddatblygiad	
Tabl 2	Materion i'w hystyried a gwybodaeth ychwanegol angenrheidiol i asesu rhinweddau cynaliadwy datblygiad o safbwynt yr iaith Gymraeg	
Tabl 3	Materion i'w hystyried a gwybodaeth ychwanegol angenrheidiol i asesu rhinweddau cynaliadwy datblygiad	
Tabl 4	Lefel twf fesul haen o aneddeleodd yn y Goeden Aneddeleodd	
Tabl 5	Crynhoad o'r Gofynion Gwybodaeth am y Cyd-Destun Ehangach	
Rhestr Mapiau		
Map 1	Strategaeth Aneddeleodd a Rôl yr Aneddeleodd Unigol	

# CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY DRAFFT ÔL YMGYNGHORI

## **GWYBODAETH GYFFREDINOL**

### **Pwrpas**

Dibenion y Canllawiau hyn yw:

- cynorthwyo'r ymgeiswyr a'u hasiantau wrth baratoi'r cynigion cynllunio a'u harwain mewn trafodaethau gyda swyddogion cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio;
- helpu aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb i ddeall gofynion a disgwyliadau'r polisi perthnasol ac i'w helpu i baratoi sylwadau a mewnbwn ystyrion i'r broses gwneud penderfyniad;
- cynorthwyo swyddogion i asesu ceisiadau cynllunio, a swyddogion a chynghorwyr i wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio, a
- helpu Arolygwyr Cynllunio i wneud penderfyniadau ar apeliadau.

Y nod cyffredinol yw gwella ansawdd datblygiad newydd a hwyluso dull cyson a thryloyw o wneud penderfyniadau.

## **Y Cyd-destun polisi**

### Cynllun Datblygu Lleol

O dan ddeddfwriaeth cynllunio, y 'cynllun datblygu' sy'n cynnwys polisiâu cynllunio ar gyfer pob ardal. Cafodd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn ei fabwysiadu ar 31 Gorffennaf 2017. Mae'n berthnasol i ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd ac i Ynys Môn. Nid yw'n cynnwys ardal Parc Cenedlaethol Eryri.

Mae'r Cynllun yn darparu polisiâu eang ynghyd â dynodiadau tir ar gyfer y prif ddefnyddiau megis tai, cyflogaeth a manwerthu. Bydd yn helpu i lunio dyfodol ardal y Cynllun mewn ffordd ffisegol ac amgylcheddol yn ogystal â dylanwadu arno yn economaidd, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol. Felly, mae'r Cynllun yn ceisio:

- arwain yr Awdurdodau Cynllunio Lleol i wneud penderfyniadau rhesymegol a chyson ar geisiadau cynllunio drwy ddarparu fframwaith polisi sy'n gyson â pholisi cenedlaethol; ac
- arwain datblygiad i leoliadau priodol dros y cyfnod hyd at 2026.

### Yr angen am Ganllawiau Cynllunio Atodol

Er bod y Cynllun yn cynnwys polisiâu sy'n galluogi'r Awdurdodau Cynllunio Lleol wneud penderfyniadau cyson a thryloyw wrth ystyried cynigion datblygu, ni all ddarparu'r holl gyngor manwl sydd ei angen ar swyddogion a darpar ymgeiswyr i lywio'r cynigion yn lleol. Er mwyn darparu'r cyngor manwl hwn mae'r Cynghorau yn paratoi ystod o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) i gefnogi'r Cynllun. Bydd rhain yn darparu canllawiau mwy manwl ar amrywiaeth o bynciau a materion i helpu i ddehongli a gweithredu'r polisiâu a'r cynigion yn y Cynllun.

## **Statws Canllawiau Cynllunio Atodol**

Gall Canllawiau Cynllunio Atodol gael eu hystyried fel ystyriaeth gynllunio berthnasol yn y broses asesu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio. Bydd Llywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Cynllunio yn rhoi cryn

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT ÔL YMGYNGHORI**

bwyslais ar ganllawiau cynllunio atodol sy'n deillio o gynllun datblygu ac sy'n gyson ag ef. Nid pwrpas CCA yw cyflwyno unrhyw bolisi cynllunio newydd ac nid yw'n rhan o'r cynllun datblygu lleol.

Yn unol â chynghor Llywodraeth Cymru, mae'r CCA wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a phenderfyniad y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar ran y Cynghorau. Cymeradwywyd drafft o'r CCA hwn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar 16 Tachwedd 2018 gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Bu'r canllawiau cynllunio atodol yn destun ymarferiad ymgynghori cyhoeddus rhwng 13 Rhagfyr 2018 a 31 Ionawr 2019. Rhoddwyd ystyriaeth i'r sylwadau a gyflwynwyd i'r Cynghorau, a lle'n briodol, mae gwelliannau priodol wedi'u cynnwys yn y drafft terfynol a gymeradwywyd gan y *Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd* ar ddyddiad i'w ddefnyddio fel ystyriaeth berthnasol wrth asesu a gwneud penderfyniadau ar geisiadau ac apeliadau cynllunio. Rhoddir crynodeb o'r sylwadau ac ymateb y Cynghorau yn *Atodiad neu leoliad adroddiad i Bwyllgor*.

**(Ar ôl iddi gael ei mabwysiadu) Felly, dylid rhoi pwyslais sylweddol ar y ddogfen hon fel ystyriaeth gynllunio berthnasol.**

# CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY DRAFFT ÔL YMGYNGHORI


## CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY

### 1 Cyflwyniad

#### Diffiniadau

1.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyfrff cyhoeddus (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) i ymgymryd â datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn gosod saith nod llesiant er mwyn helpu i sicrhau bod yr holl gyfrff cyhoeddus yn gweithio tuag at yr un weledigaeth o ran Cymru gynaliadwy:

Diagram 1: Y saith nod llesiant



1.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn rhoi diffiniad clir o ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru:

#### *Diffiniad o ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru*

*Ystyr "datblygu cynaliadwy" yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol ag egwyddor datblygu gynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant.*

*Mae gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu gynaliadwy yn golygu bod yn rhaid i gorff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod modd diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy.*

1.3 Cyflwynodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 bwrpas statudol ar gyfer y system gynllunio yng Nghymru – rhaid i unrhyw gorff statudol sy'n cyflawni swyddogaeth gynllunio arfer y swyddogaethau hynny yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd ac yn Ynys Môn, mae'r ddyletswydd hon yn derbyn sylw yn rhannol drwy gynnwys polisiâu yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Cynllun Datblygu Lleol).

# CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY DRAFFT ÔL YMGYNGHORI

## Pwrpas a strwythur y Canllaw

1.4 Nod polisiâu PS1, PS5 a PS6 yw integreiddio 'datblygu cynaliadwy' yn y broses ddatblygu, er mwyn cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy. Prif fwriad y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) hwn (ynghyd â Chanllawiau Cynllunio Atodol eraill) yw helpu ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio i ddeall polisiâu perthnasol fydd yn integreiddio 'datblygu cynaliadwy' yn y broses ddatblygu, er mwyn cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy. Bydd hyn yn sicrhau y bodlonir gofynion deddfwriaeth a pholisi ac y cyflawnir safonau arfer gorau. Mae'n cynnig dull safonol y dylai'r holl ymgeiswyr ei ddilyn. Mae'r Canllawiau hyn yn ymhelaethu ar y prif egwyddorion a nodir ym mholisiâu perthnasol y Cynllun Datblygu Lleol. Dylid eu defnyddio gydag asesiadau arbenigol o fanylion pob achos penodol (lle mae'r asesiadau yn angenrheidiol).

1.5 Mae tair prif adran i'r CCA hwn ac mae'n cynnwys cyfres o Atodiadau:

**ADRAN 1** (Rhannau A a B) – mae'r adran hon yn rhoi disgrifiad cyffredinol o'r hyn a olygir wrth gymunedau nodedig a chynaliadwy a sut y gall mathau penodol o ddatblygiad gyfrannu at gynnal neu greu cymunedau nodedig a chynaliadwy.

Rhan A – Datblygu cynaliadwy – cymunedau nodedig a chynaliadwy – disgrifiad bras o'r hyn a olygir wrth gymuned nodedig a chynaliadwy;  
Rhan B - Mathau penodol o ddatblygiad a'u cyfraniad i gynnal neu greu cymunedau nodedig a chynaliadwy.

**ADRAN 2** (Rhan C) – Mae Adran cyntaf y CCA yn amlygu perthnasedd y Gymraeg i sawl math o ddatblygiad sy'n angenrheidiol i gynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy.

Mae ail Adran y CCA yn rhoi manylion ynghylch gofynion manwl yr Awdurdodau Cynllunio Lleol o ran sut fydd Polisi PS 1 y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei weithredu. Mae'n dangos sut y disgwylir gweld ystyriaethau am yr iaith Gymraeg yn cael eu hymgorffori ym mhob datblygiad perthnasol. Mae'n cynnwys gofynion am y ffordd i gofnodi, naill ai mewn Datganiad Iaith Gymraeg neu adroddiad am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg, y wybodaeth berthnasol am y datblygiad arfaethedig, ei effaith tebygol (negyddol, cadarnhaol, niwtral) ar yr iaith Gymraeg a'r gwerthusiad o'r wybodaeth honno. Bydd yr angen am Ddatganiad neu adroddiad am Asesiad yn ddibynol ar fath a lleoliad y datblygiad arfaethedig. Yn ogystal â thynnu sylw at ofynion polisi a chanllawiau cynllunio defnydd tir, mae'r Adran hon yn tynnu sylw at arfer dda, e.e. mesurau cryfhau'r budd neu liniaru effaith y gellir eu mewnbllannu yn y datblygiad.

**ADRAN 3** (Rhannau CH a D) – mae'r Adran hon yn rhoi arweiniad i'r ymgeisydd o ran sut i gyflwyno tystiolaeth o blaid y datblygiad yn erbyn y gofynion ehangach o ddatblygiad cynaliadwy. Mae hefyd yn fodd i gynorthwyo'r ymgeisydd ddeall yn well beth yw rhinweddau nodedig a chynaliadwy gwahanol fathau o ddatblygiad.

Rhan Ch – Materion i'w hystyried a'r wybodaeth ychwanegol angenrheidiol i gefnogi cais cynllunio – disgrifiad o wybodaeth fydd yn angenrheidiol ar gyfer dilysu cais cynllunio a gwybodaeth ychwanegol fydd yn angenrheidiol er mwyn dangos sut mae'r datblygiad arfaethedig yn gyson â pholisiâu perthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol.

Rhan D – Beth ellir ei adeiladu ac ymhle? – disgrifiad cryno o Strategaeth Aneddleoedd a Choeden Aneddleoedd y Cynllun Datblygu Lleol i hyrwyddo patrwm cynaliadwy o ddatblygu.

1.6 Mae Atodiad 1 – 8 yn cynnwys gwybodaeth neu'n cyfeirio at wybodaeth ddefnyddiol.

**ADRAN 1:**

**BETH A OLYGIR WRTH  
GYMUNEDAU  
NODEDIG A  
CHYNALIADWY**



**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT ÔL YMGYNGHORI**

**ADRAN 1**

**Rhan A: Datblygu cynaliadwy – Cymunedau nodedig a chynaliadwy**

A.1 Mae gan bolisiau amrywiol y Cynllun Datblygu Lleol rôl bwysig i'w chwarae wrth gefnogi cynnal a chreu cymunedau trefol a gwledig nodedig a chynaliadwy. Maent yn helpu i sicrhau y cyflawnir datblygiadau priodol yn y man cywir ar yr adeg gywir. Maent yn gwneud hynny drwy sicrhau fod digon o dir ar gael i ddarparu cartrefi a chyfleoedd gwaith i bobl leol, gan helpu i gynnal gwasanaethau trefol a gwledig. Ar yr un pryd, maent yn darparu fframwaith i ymateb i'r heriau sy'n codi yn sgil newid yn yr hinsawdd, er enghraifft, drwy gynnwys yr angen i gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Maent hefyd yn gwarchod ac yn gwella'r amgylchedd naturiol a hanesyddol ac yn diogelu cefn gwlad a mannau agored. At ei gilydd, maent yn cefnogi cymunedau sy'n fyw ac yn gweithio er mwyn iddynt fod yn gynaliadwy yn economaidd, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol, yn ieithyddol ac yn amgylcheddol. Mae'r diagram nesaf yn rhoi darlun syml o'r elfennau sy'n hanfodol ar gyfer cymunedau nodedig a chynaliadwy.

Diagram 2: Elfennau hanfodol ar gyfer cymuned nodedig a chynaliadwy



**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT ÔL YMGYNGHORI**

A.2 Mae polisiâu amrywiol y Cynllun Datblygu Lleol yn hyrwyddo datblygiadau sy'n cydbwysu ac yn integreiddio ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, diwylliannol ac ieithyddol er mwyn cwrdd ag anghenion trigolion nawr ac yn y dyfodol. Er enghraifft, mae Polisi Strategol PS 5 yn gosod egwyddorion datblygu cynaliadwy a Pholisi Strategol PS 6 yn darparu'r fframwaith ar gyfer ystyried lliniaru effeithiau newid hinsawdd ac addasu iddynt (gweler Atodiad 1).

A.3 O ran yr iaith Gymraeg, mae datblygiad cynaliadwy yn ymwneud â hyrwyddo, gwarchod a chryfhau'r amgylchiadau o fewn cymunedau sy'n bwysig i gonglfeini cynllunio ieithyddol, megis trosglwyddo'r iaith yn y cartref (neu gymdeithasoli iaith yn y teulu), a darparu ac atgynhyrchu'r cydestun cymdeithasol angenrheidiol i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'r gwead cymdeithasol arferol.

**Rhan B: Mathau penodol o ddatblygiad a'u cyfraniad at gynnal neu greu cymunedau nodedig a chynaliadwy**

B.1 Mae diagram 2 uchod (paragraff A.1) wedi dangos bod angen sawl math o ddatblygiad i gyflwyno gwahanol gyfleoedd i helpu i gynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy. Mae Tabl 1 isod yn disgrifio'n gryno sut all gwahanol fathau o ddatblygiad gyfrannu at hynny. Wrth wneud hynny mae'n adnabod y prif bolisiau cynllunio sy'n berthnasol i'r datblygiadau. Gellir gweld y polisiâu unigol yn Natganiad Ysgrifenedig y Cynllun Datblygu Lleol sydd ar gael i'w ddarllen ar wefan y ddau Awdurdod Cynllunio yn ([www.gwynedd.llyw.cymru/cdll](http://www.gwynedd.llyw.cymru/cdll) a [www.ynysmon.gov.uk/cdll](http://www.ynysmon.gov.uk/cdll) )

Tabl 1 – Ystyriaethau polisi cynllunio ar gyfer mathau penodol o ddatblygiad

<b>Math y datblygiad</b>	<b>Sut mae'r datblygiad yn helpu i gynnal neu greu cymunedau nodedig a chynaliadwy (nid yw'r pwyntiau wedi'u rhestru mewn unrhyw drefn benodol a dylid darllen y tabl cyfan)</b>
Tai	<ul style="list-style-type: none"> <li>• mae cymunedau angen cymysgedd gymesur o drigolion o wahanol gefndir, oedran ac sy'n byw mewn gwahanol fathau o dai os ydynt am fod yn llefydd lle mae pobl yn dymuno byw ynddynt yn y tymor hir. I'r gwrthwyneb, byddai peidio â gwneud hynny yn gallu arwain at gymuned yn gweld gostyngiad yn ei phoblogaeth yn y tymor hir, yn colli ei natur nodedig lleol a'i chysylltiadau â threftadaeth ddiwylliannol;</li> <li>• mae angen ystyried sut y gellir diwallu anghenion gwahanol aelwydydd yng nghymunedau'r ardal nawr ac yn y dyfodol (Polisi TAI 8);</li> <li>• disgwylir i ddatblygiad fydd yn arwain at greu cynnydd mewn cartrefi newydd wneud cyfraniad 'tai fforddiadwy', pan mae'n hyfyw i wneud hynny (Polisi TAI 15 a Pholisi TAI 16);</li> <li>• mae'n rhaid i ddatblygiadau tai sy'n ychwanegu at y stoc tai presennol mewn Canolfannau a Phentrefi sy'n cael eu hadnabod ym Mholisi TAI 5 fod yn dai marchnad leol, a thai fforddiadwy os yw Polisi TAI 15 yn berthnasol;</li> <li>• cefnogir tai fforddiadwy angen lleol mewn Clystyrau yng nghefn gwlad (Polisi TAI 6), tai ar gyfer mentrau gwledig (Polisi PCYFF 2 a Nodyn Cyngor Technegol 6); unedau byw a gweithio mewn adeiladau yng nghefn gwlad (Polisi TAI 7), a throsi adeiladau yng nghefn gwlad i dai fforddiadwy angen lleol pan nad yw'r defnydd economaidd yn hyfyw (Polisi TAI 7);</li> <li>• mae digon o dai yn lleol ar gyfer cymysgedd o aelwydydd yn fwy tebygol o olygu defnydd hyfyw o gyfleusterau a gwasanaethau yn yr anheddle neu mewn anheddle cyfagos, sy'n gallu bod yn fannau pwysig i'r iaith Gymraeg;</li> </ul>

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT ÔL YMGYNGHORI**

<b>Math y datblygiad</b>	<b>Sut mae'r datblygiad yn helpu i gynnal neu greu cymunedau nodedig a chynaliadwy (nid yw'r pwyntiau wedi'u rhestru mewn unrhyw drefn benodol a dylid darllen y tabl cyfan)</b>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>ni all y system gynllunio defnydd tir ragweld na rheoli priodweddau personol meddianwyr tai newydd, e.e. y gallu i siarad Cymraeg, i ba raddau caiff y Gymraeg ei throsglwyddo yn y teulu, ac ati. Er hynny, mae darparu digon o dai yn lleol ar raddfa ac o faint priodol ac ar gyfer cymysgedd o aelwydydd yn bwysig oherwydd mae'n ffactor pwysig i hyfywedd y Gymraeg - mae'n lle pwysig i drosglwyddo'r Gymraeg o un genhedlaeth i'r llall ac yn y gymuned, cadw unigolion sy'n arddel yr iaith mewn cymunedau, a chynhyrchu siaradwyr newydd (Polisi TAI 8, Polisi PS 1, Polisiau TAI 1 - TAI 6).</li> </ul>
Datblygiadau cyflogaeth (gan gynnwys twristiaeth a manwerthu)	<ul style="list-style-type: none"> <li>mae datblygiadau sy'n cefnogi swyddi yn ardal y Cynllun yn hanfodol i feithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol (Polisi PS 13);</li> <li>gwarchodir a dynodir safleoedd penodol ar gyfer cefnogi swyddi amrywiol (Polisi CYF 1), a gellir cefnogi datblygiad ar safleoedd na chafodd eu gwarchod na'u dynodi yn amodol ar gydymffurfio gyda pholisiau galluogi sy'n seiliedig ar feini prawf (Polisi CYF 4 a Pholisi CYF 6);</li> <li>mae datblygiadau sy'n gofyn am leoliad yng nghefn gwlad yn debygol o gael eu caniatáu os ydynt yn cefnogi diwydiannau sy'n briodol i'r safle a'r ardal leol (Polisi PS 13, Polisi CYF 6, Polisi TWR1 – Polisi TWR 5);</li> <li>cefnogir datblygiadau manwerthu a masnachol lle maent yn cynnal ac yn gwella bywiogrwydd a hyfywedd yr aneddeleoedd presennol, yn enwedig yn y canol, ac yn parchu amwynder eu cymdogion (Polisiau MAN 1 – MAN 6);</li> <li>cefnogir unedau byw-gweithio mewn egwyddor (Polisi PS 13);</li> <li>mae llefydd gwaith yn un o'r llefydd ieithyddol pwysig lle mai'r nod yw annog a galluogi defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac wrth ryngweithio â chwsmeriaid, y cyhoedd a gweithwyr eraill yn y gweithle (Polisi PS 1, Polisi ISA 1).</li> </ul>
Cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol	<ul style="list-style-type: none"> <li>cefnogir cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol newydd a gwarchodir rhai presennol oni fydd cynnig am ddatblygiad amgen yn cydymffurfio gyda gofynion polisi sy'n seiliedig ar feini prawf (Polisi ISA 2 – Polisi ISA 5);</li> <li>maent yn llefydd ieithyddol pwysig - ysgolion (mannau i ddefnyddio a dysgu'r iaith), a siopau, tafarndai, cludiant cyhoeddus, neuaddau neu fannau eraill i gynnal gweithgareddau cymunedol (mannau i hyrwyddo a defnyddio'r iaith Gymraeg).</li> </ul>
Isadeiledd telathrebu a gwybodaeth	<ul style="list-style-type: none"> <li>mae cynigion ar gyfer isadeiledd telathrebu a gwybodaeth, sydd wedi'u dylunio a'u lleoli i barchu'r dirwedd ac unrhyw nodweddion arbennig ac osgoi ymyriant radio sylweddol, yn dderbyniol (Polisi PS 3).</li> <li>cefnogir datblygiad sy'n cynnwys isadeiledd ar gyfer telegyfathrebu a gwybodaeth gyfoes (Polisi PCYFF 3).</li> </ul>
Ynni adnewyddadwy	<ul style="list-style-type: none"> <li>mae datblygiadau ynni adnewyddadwy yn darparu dewis amgen carbon isel i ffynonellau ynni allyrru carbon traddodiadol, sy'n helpu i osgoi achosion newid hinsawdd ac, o bosib, ddarparu ffynhonnell incwm newydd ar gyfer y cymunedau;</li> </ul>

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT ÔL YMGYNGHORI**

<b>Math y datblygiad</b>	<b>Sut mae'r datblygiad yn helpu i gynnal neu greu cymunedau nodedig a chynaliadwy (nid yw'r pwyntiau wedi'u rhestru mewn unrhyw drefn benodol a dylid darllen y tabl cyfan)</b>
	<ul style="list-style-type: none"><li>• cefnogir datblygiadau ynni adnewyddadwy sy'n parchu nodweddion arbennig ardal y Cynllun (Polisi ADN 1 – ADN 3 a Pholisi PCYFF 5).</li></ul>

B2 Mae'r Adran hon wedi amlygu pwysigrwydd y Gymraeg i gynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy. Mae'r Adran wedi cyfeirio at Bolisi PS 5 a Pholisi PS 1 y Cynllun Datblygu Lleol. Mae Polisi PS 5 yn adnabod yr angen i ddatblygiadau warchod, cefnogi a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel un o feini prawf datblygu cynaliadwy. Mae Polisi PS 1 yn rhoi mesurau penodol i gefnogi'r Gymraeg. Mae Adran nesaf y Canllaw Cynllunio Atodol yn canolbwyntio ar roi arweiniad a chynghor ar sut i ddefnyddio Polisi PS 1 y Cynllun Datblygu Lleol.

**ADRAN 2:**  
**SUT I FODLONI**  
**GOFYNIION POLISI**  
**STRATEGOL PS 1**

CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT ÔL YMGYNGHORI

ADRAN 2

**Rhan C - Arweiniad ar ofynion y Ddeddf, polisi cenedlaethol a Pholisi PS 1 o ran asesu effaith debygol y cynnig ar yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig ac egwyddorion, fframweithiau a phrosesau asesu risg.**

C.1 Uchelgais Llywodraeth Cymru yw “*gweld miliwn o bobl yn gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg erbyn 2050*”<sup>1</sup>. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod “*nad oes dim dwywaith fod hon yn uchelgais heriol*”<sup>2</sup> “*Os ydym am wireddu'r sefyllfa lle mae'r Gymraeg yn elfen annatod o bob agwedd ar fywyd bob dydd... mae'n rhaid i'r genedl gyfan fod yn rhan o'r daith. Mae gan bawb ei ran i'w chwarae, ac rydym am i bawb gyfrannu at wireddu ein huchelgais.*”<sup>3</sup> Mae'n bwysig i ymgeiswyr ddeall felly fod disgwyl i ddatblygiadau dros gyfnod y Cynllun gyfrannu'n gadarnhaol at gynaliadwyedd a hyfywedd y Gymraeg ac nid yn unig osgoi cyfrannu at leihad yng nghyfran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg.

C.2 Blaenoriaeth Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd (2018 – 2023) ar gyfer cyfnod cyntaf y Cynllun (yn arwain at y Cyfrifiad nesaf yn 2021), fydd “*cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer defnyddio'r Gymraeg, ar gyfer magu hyder unigolion nad ydynt yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg, ac hefyd edrych ar gyfleoedd fydd yn ein helpu i gadw pobl ifanc yn ein cymunedau.*” Wrth wneud hynny, un nod yw gweld “*y Gymraeg yn cael lle blaenllaw gan y Cyngor mewn cynlluniau economaidd, tai a chynllunio yn lleol er mwyn sicrhau bod unrhyw gynlluniau a datblygiadau yn cyfrannu yn gadarnhaol at ymdrechion i ddiogelu'r iaith yn ein cymunedau.*”

C.3 Mae Strategaeth Iaith Gymraeg Ynys Môn 2016 – 21 yn anelu at adfer y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg i lefel Cyfrifiad 2001. Mae'n cynnwys tri Maes Blaenoriaeth – Addysg, Y Gweithle, Gwasanaethau Cymraeg a Seilwaith a Chymuned. O ran cymunedau, mae'n gosod targed o “*gynnal y wardiau lle mae 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg a chynyddu canrannau gweddill y wardiau eraill*”.

C.4 O safbwynt y system gynllunio defnydd tir, mae Adran 31 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn diwygio adran 70 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 drwy ychwanegu'r cymal a ganlyn: “*any considerations relating to the use of the Welsh language, so far as material to the application.*” Golyga hyn ei fod yn ddyletswydd wrth wneud penderfyniad ar gais cynllunio i gynnwys ystyriaethau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg, lle mae'n berthnasol i'r cais hwnnw.

C.5 Mae paragraffau 3.25 – 3.29 Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10, 2018) yn ymdrin â'r ‘Gymraeg a Chreu Lleuedd’ o safbwynt paratoi cynlluniau datblygu lleol a gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Dywed paragraff 3.28 “*Gall ystyriaethau yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg gael sylw gan benderfynwyr cyn belled â'u bod yn berthnasol i geisiadau am ganiatâd cynllunio. Ni ddylai polisïau a phenderfyniadau gyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu rhwng unigolion yn seiliedig ar eu gallu ieithyddol, ac ni ddylent geisio rheoli deiliadaeth tai ar sail ieithyddol.*”

C.6 Mae Asesiad o Gynaliadwyedd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (a lywiwyd gan wybodaeth o'r Asesiad Effaith Ieithyddol ailadroddol) wedi ceisio ystyried effeithiau tebygol strategaeth a pholisïau'r Cynllun ar hyfywedd y Gymraeg. Ceir strategaeth a pholisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru (2017) *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Rhagair y Gweinidogion*

<sup>2</sup> Ibid.

<sup>3</sup> Ibid.

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT ÔL YMGYNGHORI**

sail dealltwriaeth resymol o'r goblygiadau posib i'r iaith Gymraeg. Maent yn cyfrannu at greu hinsawdd ac amodau cymdeithasol sy'n hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Mae Strategaeth y Cynllun, ym mharagraffau 5.12 – 5.15, yn cynnwys datganiad am sut mae'r ddau Awdurdod Cynllunio wedi ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol a sut mae'r polisiau yn ymwneud â'r Gymraeg yn rhyngweithio â pholisiau eraill.

C.7 Bydd y gwahanol fathau o ddatblygu sy'n angenrheidiol i gynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy yn digwydd ar amryw o raddfeydd. Bydd y materion fydd angen rhoi sylw iddynt, ac felly y wybodaeth fydd yn angenrheidiol i ddod i benderfyniad rhesymedig arno, yn amrywio hefyd.

C.8 Mae Polisi PS 1: Iaith Gymraeg a Diwylliant yn hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg. Fe'i ategir gan Bolisi PS 5 Datblygu Cynaliadwy (maen prawf 4). Ceir copi o'r Polisiau hyn yn Atodiad 1 y CCA hwn. Drwy gymhwyso'r Polisiau hyn, bydd y Gwasanaethau Cynllunio yn rhoi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg, pan mae'n berthnasol i wneud hynny.

C.9 Mae'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref 2012 (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (y DMPWO) yn darparu Ffurflen Gais Safonol ar gyfer ceisiadau cynllunio yng Nghymru ac yn datgan beth yw'r diffiniad o gais 'dilys'. Er mwyn cofrestru'r ceisiadau yn rhai 'dilys', rhaid i ymgeiswyr ddarparu'r holl wybodaeth sydd wedi'i nodi ar y Ffurflen Gais Safonol, e.e. cynlluniau, diagramau a thystysgrifau ac unrhyw asesiadau ategol ychwanegol. Gall awdurdod cynllunio lleol wrthod derbyn cais os nad yw'r wybodaeth briodol yn cael ei darparu gydag ef.

C.10 Yn ychwanegol at y wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer dilysu ceisiadau, bydd Awdurdod Cynllunio Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn, fel pob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru, angen arolygon ac adroddiadau ategol ychwanegol yn unol â gofynion y polisiau sydd yn y Cynllun Datblygu Lleol. Yn unol â Pholisi PS 1, mae angen casglu a derbyn gwybodaeth am rai mathau o ddatblygiadau er mwyn gallu dod i gasgliad ynghylch effaith debygol y datblygiad arfaethedig, e.e. a oes buddion i'r Gymraeg, a oes angen diwygio'r cynnig, a oes risg i iechyd gymunedol y Gymraeg ac a ellir lliniaru'r effaith mewn ffordd sy'n lliniaru'r risg a sut ellir monitro'r sefyllfa yn y gymuned. Mae'r Canllaw hwn yn rhoi arweiniad ar yr arolygon a'r atodiadau ategol ychwanegol fydd yn angenrheidiol i gyd fynd â maen prawf 1 a 2 ym Mholisi PS 1 ac yn rhoi arweiniad ar sut roddir ystyriaeth i'r iaith Gymraeg pan na fydd angen arolygon ac atodiadau ategol.

C.11 Bydd y pwyslais, o ran gwneud penderfyniad ar gais cynllunio, ar osgoi datblygiadau perthnasol fyddai'n achosi niwed o sylwedd i gymeriad a chydbwysedd iaith Cymuned. Bydd yr Awdurdodau Cynllunio'n ystyried cynigion sy'n ceisio uchafu bendithion lle mae'r ystyriaethau hynny'n berthnasol i'r cais.

**Egwyddorion, Fframweithiau a Phrosesau Asesu Effaith Debygol**

C.12 Pan mae'r iaith Gymraeg yn ystyriaeth gynllunio berthnasol, mae penderfynu p'un a yw datblygiad yn debygol o gael effaith positif, niwtral neu negyddol, a phenderfynu ar raddfa debygol yr effaith honno ar gymeriad ieithyddol ardal, yn y presennol ac i'r dyfodol, yn hynod o gymhleth. Mae cymeriad ieithyddol ardal yn agored i nifer o ddylanwadau y tu hwnt i faes defnydd a datblygiad o dir ac i un datblygiad arfaethedig neu gyfuniad o ddatblygiadau penodol. Hyd yn oed gyda gwybodaeth lawn, ni fyddai'n hawdd ei fesur gan na all y system gynllunio reoli priodweddau personol (fel y gallu i siarad Gymraeg neu ddeinameg y defnydd ohoni). Ni all y system ychwaith wahaniaethu ar sail gallu ieithyddol ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio na gallu ieithyddol yr unigolion fydd yn meddiannu neu wneud defnydd o eiddo neu safle.

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT ÔL YMGYNGHORI**

C.13 Mae asesu'r effaith debygol ar yr iaith Gymraeg yn rhannu egwyddorion, fframweithiau a phrosesau tebyg i'r rhai a welir mewn meysydd eraill lle mae angen asesu ac ymdrin ag effeithiau tebygol. Maent yn ceisio adnabod, deall a mesur y dyfodol a'r ansicrwydd o ddarogan beth fyddai'r niwed (neu fendith) a ddaw sy'n deillio o weithred yn y presennol. Er enghraifft, yn y maes cynllunio, mae asesiadau ardrawiad amgylcheddol ac asesiadau o gynaliadwyedd yn fathau o aesiadau effaith sydd wedi hen ennill eu plwyf.

C.14 Mae'r Sefydliad Safonau Rhyngwladol (*International Organization for Standardization* - ISO) wedi cyhoeddi Safon Rhyngwladol 31000 ar Reoli Risg.<sup>4</sup> Er mai yn nhermau risg (neu effaith debygol andwyol neu negyddol) y disgrifir y Safon, mae'r un fframwaith, egwyddorion a phrosesau yn briodol i uchafu bendithion yn ogystal. Felly, maent yn briodol i asesiadau tebyg i asesiadau effaith ar yr iaith Gymraeg. Mae ISO 31000 yn darparu egwyddorion a chanllawiau generig i'w ddefnyddio ar draws pob sefydliad ac yn adnabod y nodweddion a ganlyn o reoli risg/uchafu cyfleoedd yn effeithiol:

- elfen gychwynnol o ddisgrifio a sefydlu'r cyd-destun;
- cydrannau o adnabod, dadansoddi, asesu, a wynebu risg neu gyfleoedd; a
- gweithgareddau i gyfathrebu ac ymgynghori â rhanddeilaid trwy gydol y broses.

C.15 Mae hefyd yn annog aseswyr i ddilyn y broses a ganlyn:

Cam 1 - Paratoi ar gyfer yr Aseiad Effaith Debygol gan gynnwys diffinio'r broblem neu fater dan sylw yn gywir a dylunio'r aseiad;

Cam 2 - Gwneud neu gynnal yr Aseiad Effaith Debygol;

Cam 3 - Adnabod a chloriannu'r opsiynau hyfyw a dewis 'Hoff Strategaeth' i uchafu'r manteision neu wynebu a/neu mynd i'r afael â risg;

Cam 4 - Paratoi a chynnig Cynllun Gweithredu o fewn yr Hoff Strategaeth a ddewiswyd.

C.16 Mae Diagram 3 yn rhoi darlun o'r broses o roi datblygiad arfaethedig at ei gilydd cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio, aseiad yr Awdurdod Cynllunio ohono, a gwneud penderfyniad arno. Mae'n canolbwyntio ar ymgorffori ystyriaethau am hyfywedd y Gymraeg mewn datblygiad perthnasol. Yng nghyd destun aseiad effaith debygol ar y Gymraeg byddai'r camau ISO a ddisgrifir ym mharagraff C11 yn trosi i gamau 1 - 4 yn Niagram 3:


---

<sup>4</sup> International Organization for Standardization (2009) *Risk Management Principles and Guidelines*.



**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT ÔL YMGYNGHORI**

**Diagram 3 - Siart Ilif: y broses o roi datblygiad arfaethedig at ei gilydd, ei asesu a gwneud penderfyniad arno**



**Cam 1: Sgrinio'r datblygiad**

C.17 Mae Diagram 4 yn egluro'r broses o sgrinio'r datblygiad arfaethedig. Yn unol â'r egwyddor o gyfathrebu ac ymgynghori gyda rhanddeiliaid drwy gydol y broses, mae'n pwysleisio'r budd o ymgysylltu ac ymgynghori gyda'r gwasanaeth cynllunio a rhanddeiliaid eraill yn ystod y cyfnod cyn cyflwyno cais cynllunio mewn dull sy'n addas i raddfa a math y datblygiad arfaethedig. O ran datblygiad 'mawr', mae'r Diagram yn codi ymwybyddiaeth o'r gofyniad statudol i ymgynghori'n gyhoeddus cyn cyflwyno'r cais cynllunio.

**Pa Declyn i'w Ddefnyddio a Pha Bryd?**

C.18 Mae Polisi PS 1 (1) a (2) yn cyfeirio at yr amgylchiadau lle mae angen "Datganiad Iaith Gymraeg"(DIG) ac "Adroddiad ar Asesiad Effaith Iaith Gymraeg"(AEIG). Yng nghyd-destun yr uchod, mae'r ddau declyn neu fethodoleg yn dilyn prosesau tebyg. Mae Diagram 9 y Canllaw hwn yn rhoi arweiniad i ymgeisydd ynghylch y materion i'w hystyried wrth ddewis person cymwys i roi arweiniad iddo ynglŷn â chymhwyso'r fethodoleg a ddisgrifir yn Atodiadau 7 ac 8. Y prif wahaniaeth yw bod AEIG i ddigwydd "*pan fydd y datblygiad arfaethedig ar safle ar hap annisgwyl ar gyfer datblygiad tai ar raddfa fawr neu ddatblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr a fyddai'n golygu llif arwyddocaol o weithlu.*" Prif nodwedd y categori hwn o ddatblygiadau yw bod yn rhaid iddynt ddilyn y broses statudol o Ymgynghori Cyn Gwneud Cais. Yn unol â chanllawiau ISO ar reoli risg/cyfleoedd yn effeithiol (gweler C.10 - C.11 uchod) disgwylir i ymgeiswyr ar gyfer datblygiadau o'r fath "*gynnal gweithgareddau i gyfathrebu ac ymgynghori gyda rhanddeiliaid trwy gydol y broses*". Bydd gwahaniaeth hefyd yn lefel y dystiolaeth o'r ystyriaeth a roddwyd i'r effeithiau tebygol wrth gyflwyno Datganiad Iaith o'i gymharu ag Asesiad Iaith. Mae Atodiadau 7 ac 8 yn amlygu'r gwahaniaethau ymhellach.

C.19 Mae Diagram 5 ac Atodiad 5 yn rhoi darlun gweledol o ba bryd fydd angen cynnal asesiad effaith a'i gyflwyno mewn Datganiad Iaith Gymraeg neu adroddiad Asesiad Effaith Iaith Gymraeg.

## DIAGRAM 4 CAM 1 CYFNOD CYN CYFLWYNO CAIS CYNLLUNIO: TREFN SGRINIO'R DATBLYGIAD ARFAETHEDIG

Mae'r ddau Awdurdod Cynllunio'n cynnig gwasanaeth cyn cyflwyno cais cynllunio. Pan fydd ymgeisydd angen arweiniad ynglŷn â'r angen am asesiad ar ffurf Datganiad/Asesiad Effaith Gymraeg anogir iddi/iddo ddefnyddio'r gwasanaeth hwnnw cyn cyflwyno'r cais cynllunio —gweler Atodiad 4—manylion cyswllt defnyddiol.

Dylid sefydlu p'un a oes angen cyflwyno Datganiad Iaith Gymraeg neu adroddiad am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg— gweler Diagram 5 ac Atodiad 5. Os oes angen un o'r ddau, edrychwch ar ddiagram 6 a 7 ac Atodiad 7 ac Atodiad 8.

Dylid defnyddio'r cyfnod cyn cyflwyno cais cynllunio i ymgyfarwyddo â gwybodaeth am y gymuned/ardal ddylanwad er mwyn dod i ddeall yr ystod o faterion sydd angen rhoi sylw iddynt wrth lunio'r datblygiad a bod yn y sefyllfa orau i ymgymryd ag asesiad. Edrychwch ar Atodiad 2—ffynonellau data a gwybodaeth ddefnyddiol am yr iaith Gymraeg. Bydd natur a lefel yr ymgysylltu ac ymgynghori'n gymwys â'r datblygiad arfaethedig.

Ymgysylltu ac ymgynghori yn ystod y cyfnod cyn cyflwyno cais cynllunio

Pan nad oes angen cyflwyno Datganiad Iaith Gymraeg neu adroddiad am Asesiad Effaith Gymraeg, a phan fydd yr iaith Gymraeg yn berthnasol i'r datblygiad, anogir yr ymgeisydd gofnodi sut roddwyd ystyriaeth i hyfywedd y Gymraeg — gweler Atodiad 5 am syniadau arfer dda. Mae angen i'r dull o gofnodi'r wybodaeth gael ei deilwra i natur y datblygiad arfaethedig a'r materion fydd angen mynd i'r afael â hwy. Gall y dulliau gynnwys llythyr gyda'r cais cynllunio, Datganiad Cynllunio, Datganiad Dylunio a Mynediad.

Gweler Atodiad 6 am syniadau am weithgareddau gwella neu liniaru effaith y datblygiad.

Pan nad oes rhaid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus statudol cyn cyflwyno cais cynllunio, anogir yr ymgeisydd i ymgysylltu â budddeiliaid lleol perthnasol a chofnodi'r wybodaeth mewn dogfennau gyda'r cais cynllunio. Mae angen i'r dull ymgysylltu cyn gwneud cais gael ei deilwra i natur y datblygiad arfaethedig a'r materion fydd angen mynd i'r afael â hwy. Ceir eng-hreiffiau o fudddeiliaid lleol perthnasol ym mharagraff 18 yn Atodiad 7 a pharagraff 16 yn Atodiad 8.

Mae'n rhaid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus statudol cyn cyflwyno cais cynllunio os yw'r datblygiad yn cyrraedd trothwy statudol y Ddeddf. Edrychwch ar [lawlyfr y Llywodraeth](#) i weld pa fath o ddatblygiad sydd angen bod yn destun yr ymgynghori statudol hwn. Pan fydd Polisi PS 1 yn gofyn am Ddatganiad Iaith Gymraeg neu adroddiad am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg, disgwylir i'r ymgeisydd gyhoeddi drafft cyntaf o'r gwaith yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus statudol cyn cyflwyno cais cynllunio er mwyn i'r budddeiliaid perthnasol (gweler paragraff 18 yn Atodiad 7 a pharagraff 16 yn Atodiad 8) allu cyflwyno sylwadau i'r ymgeisydd.

A yw'r cynnig ar gyfer datblygiad manwerthu, diwydianol neu fasnachol?

### Diagram 5: GOFYNION POLISI PS 1

A yw'r cynnig ar gyfer datblygiad preswyl sy'n ychwanegu at y stoc tai cyfredol?

Ydi

Nac ydi

Ydi

Maen prawf 1a) - A fyddai arwynebedd llawr adeilad sy'n dest-un y cais cynllunio yn fwy na 1,000 m sg a/neu a fydd y cynnig yn golygu y bydd angen cyflogi mwy na 50 o weithwyr ychwanegol?

Maen prawf 2 - A yw'r datblygiad yn un cyflogaeth ar raddfa fawr a fyddai'n golygu llif arwyddocaol o weithlu ar safle ar hap annisgwyl? Edrychwch ar Ddiagram 7.

Maen prawf 1c) - A yw'r datblygiad ar gyfer 5 o unedau tai neu fwy ar safle a ddynodwyd neu safle ar hap y tu mewn i ffiniau datblygu nad yw'n mynd i'r afael â thystiolaeth o angen a'r galw am dai a gofnodir mewn Asesiad Marchnad Tai, ar y Gofrestr Tai, Cofrestr Tai Teg, Arolwg Tai Lleol?

Maen prawf 1b) - A fydd y datblygiad preswyl ar ben ei hun neu'n gronnus yn darparu mwy na'r ddarpariaeth tai dangosol a osodwyd ar gyfer yr anheddle ym Mholisi TAI 1—TAI 6? (Yn achos un tŷ ychwanegol, lle mai'r datblygwr yw'r ymgeisydd, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynllunio am arweiniad)

Maen prawf 2) - A yw'r datblygiad yn un preswyl ar raddfa fawr ar safle ar hap annisgwyl? Edrychwch ar Ddiagram 7.

Nac ydi

Nac ydi

Nac ydi

Nac ydi

Ydi

Ydi

Ystyriwch ofynion maen prawf 3 a 4 Polisi PS 1, rhannau perthnasol eraill y Canllaw hwn, e.e. Atodiad 5, a Pholisiau a Chanllawiau perthnasol eraill.

Ydi

Ydi

Ydi

Mae angen ystyried sut mae'r datblygiad yn cael effaith ar y Gymraeg yn y gymuned a chofnodi'ch casgliadau, gan gynnwys unrhyw fesur gwella neu liniaru, mewn **Datganiad Iaith Gymraeg**— yn unol â'r Fethodoleg a roddir yn Atodiad 7 y Canllaw hwn

Mae angen ystyried sut mae'r datblygiad yn cael effaith ar y Gymraeg yn yr ardal a chofnodi'ch casgliadau, gan gynnwys unrhyw fesur gwella neu liniaru mewn adroddiad am **Asesiad Effaith Iaith Gymraeg**— yn unol â'r Fethodoleg a roddir yn Atodiad 8 y Canllaw hwn

Mae angen ystyried sut mae'r datblygiad yn cael effaith ar y Gymraeg yn y gymuned a chofnodi'ch casgliadau, gan gynnwys unrhyw fesur gwella neu liniaru mewn **Datganiad Iaith Gymraeg**— yn unol â'r Fethodoleg a roddir yn Atodiad 7 y Canllaw hwn.

Mae angen ystyried sut mae'r datblygiad yn cael effaith ar y Gymraeg yn yr ardal a chofnodi'ch casgliadau, gan gynnwys unrhyw fesur gwella neu liniaru mewn adroddiad am **Asesiad Effaith Iaith Gymraeg**— yn unol â'r Fethodoleg a roddir yn Atodiad 8 y Canllaw hwn

## **Cam 2A, 2B neu 2C Paratoi Datganiad, adroddiad Asesiad neu dystiolaeth gefnogol pan fydd angen amdanynt**

### **Materion i'w hystyried**

C.20 Mae Diagram 2 yn rhan A y CCA wedi rhoi darlun o sut fyddai cymuned nodedig a chynaliadwy yn edrych. Gwelir yn y diagram a chynnwys rhan B (ac Adran 3 Ch - Dd) bod sawl math o ddatblygu yn gallu cyfrannu at greu amgylchiadau sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar hyfywedd y Gymraeg mewn cymunedau. Gall gyfrannu drwy greu, gwarchod neu gryfhau isadeiledd i gynnal neu greu lleoedd sy'n creu amgylchiadau ffafriol i gynnal rhwydweithiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, trosglwyddo'r Gymraeg o un genhedlaeth i'r llall o fewn y cartref a'r gymuned a chynhyrchu 'siaradwyr' newydd.

C.21 Y ffordd hawsaf i osgoi effeithiau negyddol neu hyrwyddo effeithiau cadarnhaol ar y gymuned yw paratoi'r dystiolaeth yn drylwyr i gefnogi'r cais cynllunio am y datblygiad arfaethedig. Mae adnabod nodweddion y gymuned a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y lleoedd sy'n bwysig i hyfywedd yr iaith yn gynnar yn cynnig y cyfle gorau i sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth wrth ddatblygu'r cynnig. Mae'n hanfodol fod ymgeiswyr yn sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth angenrheidiol am y gymuned, a gwybodaeth polisi cynllunio ac yn defnyddio casgliadau'r asesiad o'r wybodaeth yn wrthrychol i ragweld yr effaith gronnu fwyaf tebygol ar yr iaith Gymraeg.

C.22 Yn unol â chanllawiau ISO ar reoli risg/cyfleoedd yn effeithiol (gweler C.14 – C.15 uchod) disgwylir i ymgeiswyr ar gyfer datblygiadau "*gynnal gweithgareddau i gyfathrebu ac ymgynghori gyda rhanddeiliaid trwy gydol y broses*". Bydd gwahaniaeth yn lefel y dystiolaeth o'r ystyriaeth a roddwyd i'r effeithiau tebygol wrth gyflwyno Datganiad Iaith o'i gymharu ag Asesiad Iaith. Mae Atodiadau 7 ac 8 yn amlygu'r gwahaniaethau ymhellach.

C.23 Anogir ymgeiswyr nad oes yn rhaid iddynt gynnal Ymgynghoriad Cyn Gwneud Cais statudol ofyn am gyngor cyn cyflwyno cais cynllunio i gychwyn trafodaethau'n gynnar gyda'r Unedau Rheolaeth Datblygu o fewn yr Awdurdod Cynllunio perthnasol i drafod pa bolisiau sy'n berthnasol i'w cynnig a'r angen neu beidio am Ddatganiad Iaith Gymraeg neu Asesiad Effaith Iaith Gymraeg.

C.24 O ran ceisiadau mawr annisgwyl, bydd hefyd yn fantais cynnal gweithgareddau i gyfathrebu ac ymgynghori gyda rhanddeiliaid yn gynnar yn y broses. Mae gwneud hyn o'r cychwyn yn lleihau'r risg o oedi o ran gwneud penderfyniadau neu o argymhelliad i wrthod cais cynllunio yn sgil diffyg gwybodaeth berthnasol ddigonol. Gall hefyd leihau'r risg o wrthwynebiadau gan gymunedau yn ystod y cyfnod ymgynghori am y cais cynllunio, yn sgil diffyg gwybodaeth am y datblygiad arfaethedig.

C.25 Mae Tabl 2 yn adnabod y prif faterion i'w hystyried a'r wybodaeth ychwanegol angenrheidiol i asesu rhinweddau cynaliadwy datblygiad o safbwynt yr iaith Gymraeg. Mae Atodiad 2 yn adnabod ffynonellau cydnabyddedig am yr iaith Gymraeg mewn cymunedau yn ardal y Cynllun ar adeg paratoi'r Canllaw Cynllunio Atodol. Disgwylir i ymgeiswyr ymglyfarwyddo â'r wybodaeth am y gymuned/ardal ddylanwad, gan sicrhau eu bod yn chwilio am y wybodaeth gydnabyddedig fydd yn bodoli ar adeg paratoi'r cais cynllunio. Mae angen i'r lefel o wybodaeth angenrheidiol gael ei theilwra i natur y datblygiad arfaethedig a'r materion fydd angen mynd i'r afael â hwy.

Tabl 2 - Materion i'w hystyried a gwybodaeth ychwanegol angenrheidiol i asesu rhinweddau cynaliadwy datblygiad o safbwynt yr iaith Gymraeg

Pwnc	Materion i'w hystyried	Gwybodaeth ychwanegol
<p>Yr iaith Gymraeg</p>	<p>Mae pwysigrwydd y Gymraeg fel rhan o gymeriad cymdeithasol a diwylliannol ardal y Cynllun yn amlwg. Mewn cyd-destun cenedlaethol, mae ardal y Cynllun yn cynnwys y gyfran fwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru (65.4% yng Ngwynedd a 57.2% yn Ynys Môn, yn ôl Cyfrifiad 2011). Fodd bynnag, mae'r Cynllun yn cydnabod bod y ffigurau hyn yn dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng ers Cyfrifiad 2001, o 77,495 i 77,000 yng Ngwynedd ac o 38,893 i 38568 yn Ynys Môn, pan oedd cyfrannau siaradwyr Cymraeg yn 69% a 60%, yn ôl eu trefn. Mae'r gostyngiad hwn yn arbennig o arwyddocaol gan ei fod yn lleihau canran y siaradwyr Cymraeg ymhellach islaw'r ffigur 70%. Hwn yw'r ffigwr y mae Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru yn ei gydnabod sy'n ofynnol er mwyn i'r Gymraeg fod yn iaith pob dydd y gymuned. Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn amrywio'n fawr ar draws ardal y Cynllun, gydag 87.8% wedi'u cofnodi mewn un ward a 18.6% yn un arall. Mae'r dirywiad wedi effeithio ar ardaloedd sydd â chrynodeidiau uwch ac is o siaradwyr Cymraeg. O ran tueddiadau cyfredol a chyflwr yr iaith Gymraeg, ceir cofnod ystadegol o wahanol Gyfrifiadau a ffynonellau amrywiol ym Mhapur Testun 10A a 10B, ac mewn ffynonellau eraill (gweler Atodiad 2).</p> <p>Ni ddylai datblygiadau niweidio nodweddion cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol y cymunedau. Gall cyfuniad o Bolisiau fod yn berthnasol, er enghraifft:</p> <p>Polisi PS 1 Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, Polisi TAI 8 Cymysgedd briodol o dai, Polisi TAI 15 Trothwy tai fforddiadwy a'u dosbarthiad, Polisi TAI 16 Safleoedd eithrio, Polisi CYF 3 Defnyddiau ategol ar safleoedd cyflogaeth, Polisi CYF 4 Mentrau diwydiannol neu fusnes newydd ar gyfer un defnyddiwr mawr oddi ar safleoedd wedi eu gwarchod neu eu dynodi ar gyfer cyflogaeth, Polisi ISA 2 Cyfleusterau cymunedol.</p> <p>Ceir mwy o wybodaeth am ofynion yr Awdurdodau yn ystod y broses cynllunio ffurfiol neu cyn cyflwyno cais cynllunio yn Adran 3. Lle'n briodol, cyfeirir hefyd at CCA eraill, e.e. Ymrwymadau Cynllunio.</p>	<p><u>Trefn Sgrinio, Datganiad iaith Gymraeg, neu Asesiad Effaith iaith Gymraeg</u></p> <p>Mae'r <u>Drefn Sgrinio</u> yn digwydd yn ystod y cam cyn cyflwyno cais cynllunio. Pan na fydd angen cyflwyno Datganiad iaith neu adroddiad am Asesiad Effaith iaith Gymraeg, mae'n amlygu cyfleodd i ymgeisydd gadarnhau, e.e. drwy ran o Ddatganiad Cynllunio, bod y datblygiad arfaethedig yn gyson ag amcan a gofynion polisiau'r Cynllun ar gyfer yr iaith Gymraeg.</p> <p>Bydd <u>Datganiad iaith</u> yn angenrheidiol er mwyn cael mwy o wybodaeth am ddatblygiad sy'n cyrraedd trothwyon maen prawf 1 a – c Polisi PS 1. Gweler Diagram 6 ac Atodiad 7 am fwy o wybodaeth.</p> <p>Yn unol â maen prawf 2, Polisi PS 1, bydd angen <u>Asesiad Effaith Ieithyddol</u> ar gyfer datblygiad mawr annisgwyl na chafodd ei nodi na'i ragweld yn y Cynllun Datblygu</p>

Pwnc	Materion i'w hystyried	Gwybodaeth ychwanegol
	<p>Mae Atodiad 3 yn cynnwys dolenni i ddogfennau sy'n nodi statws ystyriaethau o'r Gymraeg (e.e. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Ar lefel genedlaethol, mae Polisi Cynllunio Cymru (2016), Nodyn Cyngor Technegol 20 (2017), Nodyn Cyngor Technegol 6 (2010) yn darparu cyngor ar sut i roi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg wrth baratoi cynlluniau datblygu ac wrth gynllunio datblygiad.</p>	<p>Lleol ar y Cyd. Gweler Diagram 8 am ddiffiniad o 'ddatblygiad mawr annisgwyl'. Byddant yn adnabod y materion perthnasol sydd angen eu hystyried wrth gynllunio datblygiadau perthnasol. Byddant yn dangos bod effeithiau negyddol wedi cael eu hosgoi yn y lle cyntaf neu, os oes effeithiau negyddol, byddant yn adnabod mesurau i warchod, hyrwyddo a gwella amgylchiadau. Gweler Diagram 7 y CCA, yn ogystal ag Atodiad 8, am fwy o wybodaeth</p>

### Datganiad iaith Gymraeg

C.25 Mae paragraffau C.19 a Diagram 5 uchod yn egluro'r amgylchiadau pan fydd angen darparu Datganiad iaith Gymraeg gyda chais cynllunio. Mae Diagram 6 (dros y dudalen) yn egluro ei bwrpas, sut i'w baratoi a phwy ddylid ei ddefnyddio i baratoi'r Datganiad. Mae Atodiad 7 yn nodi manylion ar sut i lunio'r asesiad effaith i'w gyflwyno mewn Datganiad. Mae Diagram 9 yn rhoi arweiniad ar sut i ddewis unigolyn cymwys.

C.26 Mae Diagram 5 uchod yn egluro'r amgylchiadau pan fydd angen darparu adroddiad am Asesiad Effaith iaith Gymraeg gyda chais cynllunio. Mae Diagram 7 yn rhoi mwy o fanylion ac yn rhoi trosolwg o'i bwrpas. Gweler Atodiad 8 am fwy o fanylion ar sut i wneud yr asesiad effaith i'w gyflwyno mewn adroddiad am Asesiad Effaith iaith Gymraeg.

## Diagram 6

### CAM 2A : PARATOI DATGANIAD IAITH GYMRAEG PAN FYDD ANGEN UN

PWRPAS?

Mae paratoi Datganiad iaith Gymraeg i'w gyflwyno gyda chais yn rhoi nifer o fanteision, yn arbennig fel arf i arddangos a chyfathrebu bod ystyr-iaeth ddigonol wedi cael ei rhoi i'r iaith yn ystod y broses o lunio cynnig. Mae'n broses lle mae gwybodaeth am effeithiau tebygol datblygiad arfaethedig yn cael eu casglu, eu coladu, a'u hasesu gan asesydd cymwys fydd yn cynghori'r ymgeisydd. Mae'n ofynnol rhoi asesiad o'r effaith gron- nus ar y Gymraeg, boed yn gadarnhaol, yn negyddol neu'n niwtral. Bydd yr ymgeisydd yn ystyried y wybodaeth fel rhan o'r gwaith o lunio'r dat- blygiad. Mae'n caniatáu i'r Awdurdod weld p'un a yw'r cynnig yn bodloni amcanion a pholisïau'r Cynllun. Bydd yn gymorth i'r ymgeisydd, ac yna'r awdurdod, benderfynu pa fesurau sy'n ofynnol (wedi'u hymgorffori neu eu rheoli'n gan amod cynllunio neu gytundeb 106) i ddileu neu leihau effeithiau neu i wella'r effaith gadarnhaol. Bydd hefyd yn galluogi'r Awdurdod i benderfynu p'un a fyddai'r datblygiad yn cael effaith negyddol ar yr iaith a'r gymuned i'r graddau lle byddai'n cyfiawnhau gwrthod y cais.

Tud. 96

SUT?

Mae **Atodiad 7** y Canllaw hwn yn nodi gofynion yr Awdurdod am lefel sylfaenol y wybodaeth sy'n ofynnol mewn Datganiad iaith Gymraeg.

Bydd pob datblygiad arfaethedig yn wahanol ac felly fe ystyrir pob datblygiad yn seiliedig ar ei rinweddau ei hun. Bydd cwmpas ac ystod y gwaith ar gyfer y Datganiad yn dibynnu ar fath y datblygiad, ei raddfa, cymeriad a lleoliad y safle, % y siaradwyr Cymraeg, a math y gwasanaethau a'r cyfleusterau o ran y Gymraeg sy'n gwasanaethu'r gymuned ar hyn o bryd.

Mae **Atodiad 2** yn cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth cydnabyddedig am y Gymraeg, ar adeg paratoi'r Canllaw hwn, er mwyn darparu'r cyd-destun.

Mae ymgysylltu ac ymgynghori â budd-ddeiliaid lleol cyn cwblhau'r cais cynllunio yn bwysig hyd yn oed os nad oes gofyniad statudol i wneud hynny, oherwydd gall budd-ddeiliaid lleol gynnig gwybodaeth leol hanfodol a helpu i nodi materion cynhennus yn gynnar yn y broses. Mae hyn yn galluogi'r ymgeisydd a'r sawl sy'n ei gynghori i ystyried y materion a mynd i'r afael â hwy neu ddarparu esboniadau. Mae paragraff 18 yn Atodiad 7 yn nodi enghreifftiau o fudd-ddeiliaid lleol.

PWY?

Dylid ystyried cael unigolyn cymwys i gasglu a dadansoddi gwybodaeth i'w gofnodi yn y Datganiad iaith Gymraeg, a'ch cynghori. Bydd yr angen am gefnogaeth unigolyn cymwys yn ddibynnol ar faint a math y datblygiad. Yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am dalu am y gwaith ar gyfer y Datganiad iaith Gymraeg. Pan benderfynir penodi unigolyn cymwys, ei rôl fydd sicrhau y dilynir y Fethodoleg osodir yn Atodiad 7 a chynghori'r ymgeisydd yn unol â hynny. Gweler Diagram 9 y Canllaw am ddisgrifiad o 'unigolyn cymwys'.

## CAM 2B Adroddiad Asesu Effaith Iaith Gymraeg

PWRPAS?

Sefydlu effaith debygol datblygiad tai neu gyflogaeth ar raddfa fawr sydd ar safle ar hap annisgwyl ar ardal ddylanwad yn gyffredinol, ac ar yr iaith Gymraeg yn fwy penodol. Os yn angenrheidiol, bydd yn adnabod mesurau fydd naill ai'n lliniaru effeithiau negyddol neu'n diogelu/gwella/lledaenu effeithiau cadarnhaol. Bydd ymgymryd â'r Asesiad yn fodd o adnabod yr effaith gronnus ar yr iaith Gymraeg, boed yn bositif, yn negyddol neu'n niwtral. Mae'n broses lle mae gwybodaeth am effeithiau tebygol datblygiad arfaethedig yn cael eu casglu, eu coladu, a'u hasesu gan asesydd cymwys fydd yn cynghori'r ymgeisydd. Bydd yr ymgeisydd yn ystyried y wybodaeth fel rhan o'r gwaith o lunio'r datblygiad.

Mae'n rhaid i'r cais cynllunio ymwneud â chyfuniad o ddau ffactor, sef bod y safle yn un ar hap annisgwyl a bod y datblygiad yn un ar gyfer graddfa fawr o dai neu'n un sy'n creu cyfleoedd gwaith sylweddol (sy'n cynnwys manwerthu a masnachol). Gweler enghreifftiau o senarios ar y dudalen nesaf.

PRYD?

Tud. 97

Safle ar hap annisgwyl— asesir hyn drwy edrych ar strategaeth a pholisïau'r Cynllun a'r dystiolaeth i gefnogi'r strategaeth a'r polisïau, e.e. ei leoliad o'i gymharu â'r ffin ddatblygu, statws y safle ym mholisïau'r Cynllun, ystyriaethau Capasiti Trefol, pa bryd ddaeth y safle ar gael, cydymffurfiaeth neu ddiffyg cydymffurfiaeth â pholisïau perthnasol y Cynllun.

Datblygiad mawr tai— i ddibenion maen prawf 2 Polisi PS 1, mae'n ddatblygiad fyddai'n golygu cael 10 neu ragor o unedau tai mewn Canolfan Is-ranbarthol neu Ganolfan Wasanaeth Trefol, ac yn golygu cael 5 neu ragor o unedau tai mewn Canolfan Wasanaeth Lleol neu Bentref. Edrychir ar gapasiti'r safle i benderfynu p'un a yw'r trothwy wedi cael ei gyrraedd, e.e. a fyddai modd codi mwy o dai na fwriedir ar y safle a fyddai'n golygu croesi'r trothwy; ac/neu a yw'r safle yn rhan o safle a fyddai, o'i gymryd yn ei gyfanrwydd, yn croesi'r trothwy.

Datblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr sy'n golygu llif arwyddocaol o weithlu:

- i) Angen 10 neu ragor o weithwyr; a
- ii) Bod rhaid marchnata'r swyddi y tu hwnt i'r Ardal Teithio i'r Gwaith a ganlyn er mwyn i'r gweithlu gael y sgiliau perthnasol ar gyfer y swyddi newydd: Caergybi a Bangor; Pwllheli a Phorthmadog; a Thywyn a Dolgellau. Cysylltwch gyda'r Adran sy'n gyfrifol am ddatblygu economi'r ardal am wybodaeth—gweler fanylion cyswllt yn **Atodiad 4**.

SUT A PHWY?

Mae **Atodiad 8** yn nodi disgwyliadau llawn yr Awdurdod ar sut i fynd ati i ymgymryd ag Asesiad Effaith Iaith Gymraeg a'r disgwyliadau am gynnwys yr adroddiad amdano.

Yn wahanol i achosion pan fydd angen gwaith yn gysylltiedig â pharatoi Datganiad Iaith Gymraeg, disgwylir i'r ymgeisydd gael unigolyn cymwys i ymgymryd ag Asesiad Effaith Iaith Gymraeg—gweler Diagram 9 y Canllaw am ddisgrifiad o unigolyn cymwys. Rôl yr unigolyn cymwys fydd ymgymryd â'r gwaith asesu yn unol â'r Fethodoleg Asesiad Effaith Iaith Gymraeg a chynghori'r ymgeisydd yn unol â chasgliadau'r asesiad. Yr ymgeisydd fydd yn gyfrifol am dalu am y gwaith.

Diagram 7



## CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY – DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI

C.27 Mae Diagram 8 isod yn rhoi enghreifftiau o amgylchiadau pan fydd yn rhaid ymgymryd â gwaith i baratoi adroddiad Asesiad Effaith Iaith Gymraeg.

### Diagram 8: Enghreifftiau o Senarios Pan Fyddai Angen Ymgymryd Ag Asesiad Effaith Iaith Gymraeg


**Senario 1** - mae'r safle y tu mewn i'r ffin ddatblygu mewn Canolfan Wasanaeth Trefol, e.e. Caernarfon, Llangefni. Nid yw'n ddynodiad tai ac felly mae'n safle ar hap. Nid oedd yn safle ar hap oedd ar gael i'w ddatblygu pan gafodd y Cynllun ei baratoi a byddai ei datblygu yn golygu cael mwy o unedau tai oddi ar safleoedd ar hap na ragwelwyd ar adeg paratoi'r Cynllun. Mae'r safle felly yn un ar hap annisgwyl. Mae'r datblygiad yn un ar gyfer 15 uned. Ar sail y wybodaeth hon, ceir cyfuniad o'r amgylchiadau y cyfeirir atynt ym maen prawf 2 Polisi PS 1. O ganlyniad, mae angen ymgymryd ag Asesiad Effaith Iaith Gymraeg.

**Senario 2** – mae'r safle y tu allan i ffiniau datblygu. Nid yw wedi cael ei warchod na'i ddynodi ar gyfer cyflogaeth. Mae'r datblygiad yn syrthio i Ddosbarth Defnydd B1. Felly mae'n safle ar hap annisgwyl. Bwriedir cyflogi dros 15 o weithwyr. Ar ôl ymgynghori gyda'r Adran Economi a Chymuned (Cyngor Gwynedd)/ Gwasanaeth Datblygu Economaidd o fewn Adran Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (Cyngor Sir Ynys Môn) rhagwelir y bydd angen i weithwyr symud i mewn i ardal y Cynllun neu deithio o du allan i ardal y Cynllun i'r swyddi oherwydd diffyg sgiliau yn lleol neu ddiffyg cyflenwad digonol o weithwyr efo'r sgiliau yn lleol. O ganlyniad mae angen ymgymryd ag Asesiad Effaith Iaith Gymraeg.

### Dewis unigolyn cymwys

C.28 Cyn penodi unigolyn cymwys, disgwylir bod yr ymgeisydd yn gwneud ymholiadau ynghylch ei alluoedd a'i brofiad. Mae Diagram 9 yn cynorthwyo ymgeisydd i ddewis unigolyn cymwys i roi cyngor ac arweiniad wrth baratoi cais cynllunio.

Diagram 9: Sut i ddewis rhywun cymwys i'ch cynghori gyda Datganiad Iaith Gymraeg neu Asesiad Effaith Iaith Gymraeg



**Ystyriaethau eraill Polisi PS 1**

C.29 Arwyddion a hysbysebion - Mae arwyddion yn cael effaith weledol amlwg ar gymeriad ardal, gan gynnwys ei chymeriad ieithyddol. Maent hefyd yn un ffordd o hybu diwylliant unigryw'r ardal, sy'n arwyddocaol o safbwynt hunaniaeth gwahanol gymunedau a'r diwydiant twristiaeth. Yn achos arwyddion a hysbysebion sy'n destun rheolau cynllunio, mae maen prawf 5 Polisi PS 1 yn hybu darparu arwyddion dwyieithog mewn mannau cyhoeddus sy'n rhan o ddatblygiad. Mae'r Awdurdodau yn cydnabod bod gan rai sefydliadau a chwmnïau frand a delwedd gref a ddefnyddir eisoes y tu hwnt i Gymru. Os yw'r brand a/neu'r logo yn un sy'n dibynnu ar eiriau (yn hytrach na llun) a ddim yn rhan o hunaniaeth y sefydliad neu gwmni, mae'r Awdurdodau'n awyddus i drafod y posibilrwydd o addasu'r ddelwedd ehangach er mwyn adlewyrchu ei leoliad yn ardal y Cynllun. Mae pob sefydliad a chwmni yn gallu sicrhau bod arwyddion a hysbysebion eraill yn ddwyieithog. Mewn amgylchiadau lle mae geiriad yr arwyddion/hysbyseb (a allai fod, e.e. ar 'awning', ffenestr, drws) yn disgrifio cynnyrch neu wasanaeth a werthir (yn hytrach na'r brand corfforaethol/cwmni) mae'n arferol o fewn ardal y Cynllun i'r geiriad ar yr arwyddion/hysbyseb fod yn ddwyieithog, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi "Canllaw Dylunio Dwyieithog", sy'n cynnwys cyfeiriadau at ddylunio arwyddion dwyieithog (gweler Atodiad 3).

C.30 Enwau lleoedd - mae maen prawf 6 Polisi PS 1 yn annog datblygwyr i ddefnyddio enwau Cymraeg ar gyfer datblygiadau, enwau tai a strydoedd newydd er mwyn atgyfnerthu cymeriad ieithyddol cymunedau. Mae'r ddau Gyngor yn annog datblygwyr i gadw hen enwau Cymraeg - [trefniadau Cyngor Gwynedd](#) a [threfniadau Cyngor Sir Ynys Môn](#). Byddai defnyddio enw newydd sy'n deillio o gysylltiadau hanesyddol, daearyddol neu leol i'r ardal yn syniad da. Os yw'r enw presennol yn un gwreiddiol neu wedi bod yn enw ar yr eiddo ers amser maith, yn enwedig os yw'r enw'n un Cymreig, bydd y Cynghorau'n gofyn i'r sawl sy'n gwneud cais i roi enw newydd ar yr eiddo i ailystyried, hyd yn oed os yw'r enw newydd arfaethedig yn un Cymraeg. Fodd bynnag, mae'r penderfyniad terfynol yn nwylo'r perchennog. Mae gan ardal y Cynllun gefndir hanesyddol pwysig ac felly credir ei bod hi'n bwysig gwarchod y dreftadaeth hon. Mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi "Canllawiau safoni enwau lleoedd Cymru" (gweler Atodiad 3).

**Camau 3, 4 a 5: Adnabod mesurau osgoi/lliniaru, paratoi strategaeth a chyflwyno'r cais cynllunio (gweler Diagram 3)**

C.31 Mae Diagram 10 yn disgrifio'r broses o adnabod mesurau osgoi/lliniaru, paratoi strategaeth a chyflwyno'r cais cynllunio.

## Diagram 10

### CAM 3 ADNABOD MESURAU OSGOI/LLINIARU A STRATEGAETH LINIARU PAN FYDD ANGEN AMDANYNT

Dylai'r cynigion ddangos sut roddwyd ystyriaeth gynnar i effeithiau posib ar gymunedau a'r iaith Gymraeg. Dylid ystyried yn ofalus effeithiau andwyol a chadarnhaol y datblygiad ar leoedd sy'n bwysig i allu trosglwyddo'r Gymraeg a lleoedd sy'n bwysig i greu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu Cymraeg. Bydd Datganiad Iaith Gymraeg ac adroddiad am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg yn cofnodi'r ystyriaethau a'r camau gymerwyd i addasu'r datblygiad arfaethedig i fynd i'r afael â nhw.

Os caiff effeithiau andwyol posib eu hadnabod, dylid, yn nhrefn blaenor-iaeth:

- a) Osgoi effeithiau andwyol; a/neu
- b) Leihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu
- c) Liniaru effeithiau pan na ellir eu lleihau.

Os na ellir lliniaru effeithiau andwyol sylweddol yn ddigonol, dylai'r Datganiad Iaith Gymraeg a'r adroddiad am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol i'r Awdurdod i egluro pam fod yr ymgeisydd yn dewis bwrw ymlaen gyda'r cais cynllunio. Disgwylir i'r ymgeisydd egluro pam fod rhinweddau'r datblygiad (sy'n ystyriaethau cynllunio perthnasol) yn gorbwysu gofynion Polisi PS 5 a maen prawf 3 Polisi PS 1.

Os caiff effeithiau cadarnhaol posib eu hadnabod, pan yn bosib, anogir ymgeisydd i ystyried a ellir manteisio ar yr effeithiau hynny neu eu huchafu.

Mae **Atodiad 6** yn rhestru enghreiffiau o weithgareddau y gellir eu defnyddio i osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau andwyol neu gryfhau/ledaenu effeithiau cadarnhaol neu fuddiannau unrhyw ddatblygiad cymwys. Bydd perthnasedd y gweithgaredd yn dibynnu ar fath, graddfa a lleoliad y datblygiad arfaethedig. Disgwylir i'r unigolyn cymwys fydd yn cynghori'r ymgeisydd i gysylltu â'r Fenter Iaith a/neu swyddogion sydd â chyfrifoldeb dros hybu'r Gymraeg i drafod y mesurau yn ogystal â thrafod gyda'r Swyddog Cynllunio.

### CAM CH) CYFLWYNO CAIS CYNLLUNIO

Erbyn i'r cais cynllunio fod yn barod i'w gyflwyno, rhaid sicrhau bod cam A wedi'i gwblhau ac yn ddi-bynnol ar ganlyniad y cam hwn, dylai ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n berthnasol i'r Gymraeg gynnwys yr hyn a ganlyn:

- i. Pan nad oes angen Datganiad iaith Gymraeg ac adroddiad am Asesiad Effaith iaith Gymraeg, anogir ymgeisydd i gyflwyno cofnod am sut roddwyd ystyriaeth i'r iaith Gymraeg wrth lunio'r cais cynllunio. Mae angen i'r dull o gofnodi'r wybodaeth gael ei deilwra i natur y datblygiad arfaethedig a'r materion fydd angen mynd i'r afael â hwy. Gall dulliau gynnwys llythyr gyda'r cais cynllunio, Datganiad Cynllunio, Datganiad Dylunio a Mynediad; neu
- ii. Datganiad Iaith Gymraeg; neu
- iii. Adroddiad am yr Asesiad Effaith Iaith Gymraeg.

Camau 6 a 7: Aseu'r cais cynllunio a gwneud penderfyniad (gweler Diagram 3)

C.32 Mae Diagram 11 yn disgrifio'r broses o aseu'r cais cynllunio a gwneud penderfyniad arno.

## Diagram 11

### CAMAU 6 A 7: ASESU A GWNEUD PENDERFYNIAD AR Y CAIS CYNLLUNIO

#### CAM 6: ASESU'R CAIS CYNLLUNIO

Swyddog Cynllunio

PWY?

Tud. 101

SUT?

Cam 1) Gofyn am gyngor ac arweiniad gan swyddog(ion) cymwys perthnasol yn yr Awdurdod. Bydd y swyddog cymwys perthnasol yn:

- Defnyddio'r Drefn Sgrinio i weld p'un a yw'r datblygiad arfaethedig angen Datganiad Iaith Gymraeg neu adroddiad am Aseiad Iaith Gymraeg;
- Gwirio cynnwys y Datganiad Iaith Gymraeg a'r adroddiad am Aseiad Effaith Iaith Gymraeg yn erbyn gofynion y Fethodoleg berthnasol;
- Tynnu sylw'r Swyddog Cynllunio at fylchau yn y wybodaeth a gyflwynwyd yn y Datganiad Iaith Gymraeg neu'r adroddiad am Aseiad Effaith Iaith Gymraeg;
- Pan yn berthnasol, rhoi arweiniad i'r Swyddog Cynllunio am unrhyw fesurau lliniaru neu wella ychwanegol posib;
- Rhoi arweiniad i'r Swyddog Cynllunio am rinweddau iaith Gymraeg y datblygiad arfaethedig.

SUT?

Cam 2) Pan fydd swyddog cymwys yn codi materion perthnasol, bydd y Swyddog Cynllunio yn rhoi gwybod amdanynt i'r ymgeisydd ac yn gofyn am wybodaeth ychwanegol berthnasol;

Cam 3) Pan fydd anghydfod rhwng y Swyddog Cynllunio a'r ymgeisydd ynglŷn â thystiolaeth, yn ddibynnol ar raddfa'r anghydfod, bydd y Swyddog Cynllunio (mewn ymgynghoriad â'r swyddog cymwys o fewn y Cyngor) yn cyflogi unigolyn cymwys allanol i wirio'r dystiolaeth sy'n destun yr anghydfod. Yr ymgeisydd fydd yn gorfod talu am gost y broses wirio ychwanegol.

Cam 4) Bydd y Swyddog Cynllunio yn gofyn am gyngor ac arweiniad y swyddog cymwys ynglŷn â chasgliadau'r swyddog cymwys allanol ac yna'n trafod â'r ymgeisydd;

Cam 5) Bydd y Swyddog Cynllunio yn ystyried y wybodaeth a dderbynnir o dan gamau 1—4 cyn cwblhau ei adroddiad dirprwyedig neu adroddiad i'r Pwyllgor Cynllunio.

### CAM 7: GWNEUD PENDERFYNIAD—CANIATÁU NEU WRTHOD

Pwyllgor Cynllunio neu'r Prif Swyddog Cynllunio

Tud  
PWY?

102

O dan y ddeddfwriaeth, rhaid i'r Pwyllgor Cynllunio neu'r Prif Swyddog Cynllunio wneud penderfyniad ar gais yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol oni bai bod materion eraill yn nodi bod hynny'n amhriodol. Mae gan y rhai sy'n cyflwyno'r cais cynllunio am ddatblygiad gyfrifoldeb hefyd i ddarparu gwybodaeth ddigonol i alluogi'r penderfynwr wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â chynaliadwyaeth y datblygiad (h.y. yn cyfrannu at lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol). Rôl y sawl sy'n gwneud y penderfyniad yw nodi'r manteision, nodi'r niwed, ystyried yr holl faterion, a'u pwyso a'u mesur i gyd er mwyn gallu gwneud penderfyniad cadarn:


- i. Cysondeb â pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol, oni bai bod ystyriaethau cynllunio perthnasol yn nodi fel arall;
- ii. Gall ystyriaethau cynllunio gynnwys barn y cyhoedd. Nid yw gwrthwynebiad neu gefnogaeth leol ynddo'i hun yn sail dros wrthod neu roi caniatâd cynllunio, oni bai ei fod yn seiliedig ar resymau cynllunio;
- iii. Pa amodau cynllunio a/neu ymrwymiad Cytundeb Adran 106 (sef mecanwaith cynllunio priodol), sy'n angenrheidiol —gweler Atodiad 6;
- iv. A fyddai'n achosi niwed o sylwedd i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned na ellir ei osgoi neu ei liniaru yn foddhaol drwy ddefnyddio mecanwaith cynllunio priodol? Bydd penderfynu p'un a oes risg o niwed 'o sylwedd' yn fater o ffaith a gradd ac fe bennir hyn ar rinweddau'r achos unigol yn seiliedig ar ddadansoddiad o dystiolaeth rymus.

PA YSTYRIAETHAU?



Beth yw 'niwed o sylwedd'?

Defnyddir egwyddorion asesiad risg i ystyried tystiolaeth rymus i wneud y penderfyniad:



**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI**

**Cam 8 Monitro (gweler Diagram 3)**

C.33 Bydd gweithrediad polisiâu'r Cynllun Datblygu Lleol a'r Datganiadau Iaith Gymraeg neu adroddiad am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg a gyflwynir yn cael eu monitro ac fe adroddir ar y deilliannau yn Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol.

C.34 Dyma'r dangosyddion perthnasol:

- Dangosydd D1 - % siaradwyr Cymraeg yn 2021 yn Ynys Môn a Gwynedd;
- Dangosydd D2 – Caniatáu ceisiadau cynllunio lle mae angen mesurau lliniaru iaith Gymraeg;
- Dangosydd D3 – nifer y ceisiadau cynllunio gyda Datganiad Iaith Gymraeg neu Asesiad Effaith Iaith Gymraeg.

C.35 Ceir rhagor o wybodaeth am y dangosyddion ym Mhennod 7 y Cynllun Datblygu Lleol. Fel y nodir yn y Fframwaith Monitro, bydd y Gwasanaeth Cynllunio, Gwasanaethau perthnasol eraill yn y Cynghorau a sefydliadau partner (sef Hunaniaith a [Menter Iaith Môn](#)) yn cydweithio i asesu'r defnydd a wneir o Ddatganiadau ac/neu Asesiadau wrth asesu addasrwydd y wybodaeth y gofynnir amdani ac adnabod unrhyw heriau i gyflawni'r polisiâu.

C.36 Lle'n berthnasol, ac er mwyn casglu rhagor o wybodaeth i ddadansoddi tueddiadau ymhlith siaradwyr Cymraeg yn ardal y Cynllun, bydd y Cynghorau'n gwneud gwaith ymchwil ar adegau priodol yn ystod oes y Cynllun. Bydd y gwaith ystadegol/ansoddol, er enghraifft, yn cynnwys:

- casglu data oddi wrth brynwyr y tai newydd er mwyn, er enghraifft, canfod lle roeddynt yn byw cyn prynu'r tŷ newydd, y math o waith sydd ganddynt, cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith;
- cysylltu gyda busnesau a sefydliadau lleol i gasglu gwybodaeth nad yw'n gyfrinachol am nifer y bobl a gyflogir yn llawn/rhan amser; nifer y bobl a gyflogir sy'n medru siarad Cymraeg; ymhle yr hysbysebwr swyddi newydd.

C.37 Dylai hyn gynorthwyo i ganfod p'un a oes cydberthyniad rhwng datblygiadau newydd a'r newid (cadarnhaol/negyddol) a ragdybir yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg yn y gymuned er mwyn darparu tystiolaeth ar gyfer adolygu'r polisi maes o law.

**ADRAN 3:**  
**SUT I FODLONI**  
**GOFYNIION POLISIÄAU**  
**STRATEGOL PS 5 A PS**  
**6**



**Arweiniad ar ofynion gwybodaeth am y cyd-destun ehangach**

**Rhan Ch Materion i'w hystyried a'r wybodaeth ychwanegol angenrheidiol i gefnogi cais cynllunio**

Ch.1 Bydd y gwahanol fathau o ddatblygiadau sy'n angenrheidiol i gynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy yn digwydd ar amryw o raddfeydd. Bydd y materion fydd angen rhoi sylw iddynt, ac felly'r wybodaeth fydd yn angenrheidiol i wneud penderfyniad rhesymedig, yn amrywio hefyd.

Ch.2 Mae'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref 2012 (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (y DMPWO) yn darparu Ffurflen Gais Safonol ar gyfer ceisiadau cynllunio yng Nghymru ac yn datgan beth yw'r diffiniad o gais 'dilys'. Er mwyn cofrestru'r ceisiadau yn rhai 'dilys', rhaid i ymgeiswyr ddarparu'r holl wybodaeth sydd wedi'i nodi ar y Ffurflen Gais Safonol, e.e. cynlluniau, diagramau a thystysgrifau ac unrhyw asesiadau ategol ychwanegol. Gall awdurdod cynllunio lleol wrthod derbyn cais os nad yw'r wybodaeth briodol yn cael ei darparu gyda'r cais.

Ch.3 Yn ogystal â'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer dilysu ceisiadau, bydd Awdurdod Cynllunio Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn, fel pob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru, angen arolygon ac adroddiadau ategol ychwanegol yn unol â gofynion polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol.

Ch.4 Mae Tabl 3 yn rhoi arweiniad ar faterion sydd angen eu hystyried wrth anelu i wella rhinweddau cynaliadwy'r datblygiad. Yn ogystal, mae'r tabl yn tynnu sylw at y mathau posib o arolygon ac adroddiadau ategol ychwanegol angenrheidiol (yn ddibynnol ar fath y datblygiad a/neu ei leoliad) i ddangos sut mae'r datblygiad arfaethedig yn cyrraedd categori arfer gorau. Mae rhai agweddau wedi cael eu hadnabod fel rhan o'r gofynion dilysu y cyfeirir atynt uchod ac mae eraill yn ofynion sy'n gysylltiedig â pholisïau unigol y Cynllun Datblygu Lleol.

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT YMGYNGHOROL DIWYGIEDIG**

Tabl 3 - Materion i'w hystyried a gwybodaeth ychwanegol angenrheidiol i asesu rhinweddau cynaliadwy datblygiad

Pwnc	Materion i'w hystyried	Gwybodaeth ychwanegol
Tirwedd	<p>Mae tirweddau a morluniau yn rhan annatod o nodweddion arbennig ardal y Cynllun, gan gyfrannu at eu cymeriad ac at yr ymdeimlad o le yn gyffredinol. Datblygiadau cynaliadwy yw'r rhai sy'n gwarchod ac yn gwella cymeriad tirwedd a morwedd ardal y Cynllun, yn ogystal ag ansawdd golygfaol Parc Cenedlaethol Eryri, ac sydd wedi'u dylunio, eu lleoli, eu graddio a'u tirlunio i ategu a gwella nodweddion allweddol y dirwedd, golygfeydd cyhoeddus a manau agored. Mae Strategaeth y Dirwedd yn rhoi gwybodaeth am nodweddion tirwedd fesul Ardal Cymeriad y Dirwedd, tra mae Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti y Dirwedd yn ymdrin ag effaith bosib gwahanol fathau o ddatblygiadau ar y dirwedd. Mae Asesiadau Morlun (lleol a rhanbarthol) yn adnabod nodweddion y morluniau o gwmpas ardal y Cynllun. Yn ogystal, bydd angen rhoi sylw i Gynllun Rheolaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a'r Datganiad o Werth ac Arwyddocâd perthnasol. Ceir gwybodaeth am lle gellir gweld y dogfennau hyn yn Atodiad 3.</p>	<p><u>Asesiad Tirwedd a Gweledol</u></p> <p>Canlyniadau asesiad sydd â nod benodol i sicrhau bod holl effeithiau posib newid a datblygiad ar y dirwedd ei hun ac ar olygfeydd ac amwynder gweledol yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.</p> <p><u>Cynllun Tirweddu</u></p> <p>Cynllun sy'n cynnwys manylion am dirlunio caled a meddal newydd er mwyn dangos sut y gellir integreiddio datblygiad yn foddhaol i'r ardal gyfagos.</p>
Bywyd gwyllt a daeareg	<p>Mae 'bywyd gwyllt' neu 'fioamrywiaeth', daeareg a geomorffoleg yr ardal yn gyfrifol am lawer o'r golygfeydd unigryw, yr arogleuon a'r synau cefn gwlad. Felly mae'n hanfodol eu gwarchod a'u gwella i warchod y nodweddion arbennig sy'n diffinio'r ardal. Datblygiadau cynaliadwy yw'r rhai sy'n gwarchod ac yn gwella bywyd gwyllt, daeareg a geomorffoleg. Bydd angen rhoi sylw, er enghraifft, i'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, a datganiadau o werth Safleoedd Bywyd Gwyllt perthnasol. Ceir gwybodaeth am lle gellir gweld y dogfennau hyn yn Atodiad 3.</p>	<p><u>Arolwg ac Adroddiad Bioamrywiaeth</u></p> <p>Canlyniadau unrhyw arolygon ac argymhellion ecoleg angenrheidiol ar gyfer osgoi, lleihau a gwneud iawn am effeithiau andwyol datblygiad. Gweler Nodyn Cyngor Technegol 5 a Chanllawiau Cynllunio Atodol Arfer dda gwarchod bioamrywiaeth wrth gynllunio a datblygu (i'w gyhoeddi).</p> <p><u>Arolwg coed</u></p>

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT YMGYNGHOROL DIWYGIEDIG**

Tud. 108

Pwnc	Materion i'w hystyried	Gwybodaeth ychwanegol
		<p>Arolwg o'r coed sydd mewn perygl yn sgil y datblygiad ac adroddiad yn amlinellu'r argymhellion ar gyfer osgoi a lleihau effeithiau andwyol a gwella'r ddarpariaeth goed.</p>
Treftadaeth	<p>Mae treftadaeth ddiwylliannol yn elfen bwysig o nodweddion a chymeriad ardal y Cynllun. Mae ei gadwraeth yn cynnal y nodweddion hyn a'r manteision y maent yn eu creu ar gyfer trigolion yr ardal ac ymwelwyr. Mae datblygiadau cynaliadwy yn gwarchod ac yn gwella asedau archeolegol, pensaernïol, hanesyddol a/neu ddiwylliannol ac yn hyrwyddo llên gwerin, celf, llenyddiaeth a cherddoriaeth yr ardal. Mae gosodiad a golygfeydd arwyddocaol o asedau treftadaeth ddiwylliannol ddynodedig, gan gynnwys henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth, yr un mor bwysig â'r ased ei hun. Bydd angen rhoi sylw, er enghraifft, i Werthusiadau Cymeriad Ardaloedd Cadwraeth a Chynlluniau Rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd. Ceir gwybodaeth am lle gellir gweld y dogfennau hyn yn Atodiad 3.</p>	<p><u>Datganiad o'r Effaith ar Dreftadaeth</u></p> <p>Mae 'Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru' (CADW) yn amlygu'r hyn y dylid ei gynnwys mewn 'Datganiad o'r Effaith ar Dreftadaeth' – gweler Atodiad 3. Gweler hefyd Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru (CADW), a Chanllaw Cynllunio Atodol Asedau Treftadaeth (i'w gyhoeddi).</p>
Rheoli llygredd a gwastraff	<p>Mae rheoli gwastraff a llygredd a gynhyrchir yn sgil datblygiad yn helpu i ddiogelu'r ardal rhag effeithiau negyddol llygredd, gan wella iechyd yr amgylchedd a'r cyhoedd, sydd yn ei dro o fudd i economi'r ardal. Mae sawl ffurf o lygredd ac mae'n dilyn nifer o lwybrau. Mae datblygiadau cynaliadwy yn ystyried yr holl ffynonellau perthnasol, y llwybrau a derbynyddion llygredd a gwastraff. Mae datblygiadau cynaliadwy hefyd yn parchu ansawdd bywyd ac yn gwarchod ac yn gwella iechyd ac amwynder trigolion a bywyd gwyllt. Lle bo modd, dylai gwaith adeiladu a gweithredu datblygiadau gael eu cynllunio i leihau faint o wastraff a gynhyrchir a helpu i ail-ddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau gwastraff. Mae canllawiau arfer dda ar reoli gwastraff adeiladu ar gael gan 'Construction Excellence Wales', gweler Atodiad 3.</p>	<p><u>Asesiad Sŵn</u></p> <p>Adroddiad ar effeithiau sŵn a gynhyrchir gan y gwaith adeiladu a gweithredu y datblygiad arfaethedig. Gweler Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn (1997).</p> <p><u>Asesiad ansawdd aer</u></p> <p>Dylai asesiad gymharu'r sefyllfa bresennol gyda'r sefyllfa debygol yn dilyn cwblhau'r datblygiad (gan gynnwys datblygiadau arfaethedig eraill), a phennu'r newidiadau a ddisgwylir yn ansawdd yr aer.</p>

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT YMGYNGHOROL DIWYGIEDIG**

Tud. 109

Pwnc	Materion i'w hystyried	Gwybodaeth ychwanegol
Cludiant	<p>Mae cysylltiadau cludiant yn yr ardal ac i'r ardal yn darparu mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau hanfodol a gwaith yn ogystal â hwyluso cyfleoedd i bobl fwynhau nodweddion arbennig yr ardal. Mae rhwydwaith o lwybrau troed a beicio da yn yr ardal ar gyfer trigolion ac ymwelwyr sy'n annog pobl i fod yn actif; mae bysiau cyhoeddus a threnau yn lleihau niferoedd y ceir preifat sydd ar y ffyrdd sy'n lleihau tagfeydd, llygredd sŵn ac allyriadau carbon. Mae datblygiadau cynaliadwy yn lleihau'r angen i deithio wrth gael eu lleoli yn agos at gyfleusterau a gwasanaethau hanfodol. Mae lleoli datblygiadau mewn mannau sydd o fewn cyrraedd hwylus at lwybrau troed, llwybrau beicio a chludiant cyhoeddus yn lleihau'r angen i deithio mewn car preifat. Mewn rhai cymunedau gwledig mwy anghysbell nid oes gan bobl fawr o ddewis ond teithio mewn car preifat.</p>	<p><u>Asesiad cludiant</u></p> <p>Nodweddion y rhwydwaith cludiant presennol i ac o'r safle, effeithiau posib y datblygiad yn ystod y cyfnod adeiladu a'i weithrediad a dulliau i liniaru unrhyw effeithiau andwyol/uchafu effeithiau cadarnhaol, megis dulliau trafndiaeth cynaliadwy. Gweler Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafndiaeth.</p>
Dyluniad ac adeiladu cynaliadwy a newid hinsawdd	<p>Elfen bwysig o gynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy yw lleihau cyfraniad yr ardal i'r hyn sy'n achosi newid hinsawdd drwy leihau allyriadau carbon. Er mwyn i ddatblygiad fod yn wirioneddol gynaliadwy, mae'n rhaid iddo gael ei ddylunio a'i adeiladu gyda'r diben o fynd i'r afael â'r bygythiad a ddaw yn sgil newid hinsawdd. Gall cynigion datblygu yn yr ardal gynorthwyo i gyflawni'r amcan hwn hefyd drwy osgoi ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd nawr neu ardaloedd a ragwelir fel rhai fydd mewn perygl yn y dyfodol a thrwy adeiladu systemau draenio cynaliadwy (SUDS), a chysylltu â gwella rhwydwaith seilwaith gwyrdd yn yr ardal i helpu i wella bywyd gwyllt a'i helpu i addasu i hinsawdd sy'n newid. Ceir gwybodaeth am lle gellir gweld dogfennau defnyddiol yn Atodiad 3.</p>	<p><u>Datganiad Dylunio a Mynediad</u></p> <p>Esboniad o'r egwyddorion a'r cysyniadau dylunio sydd wedi'u cymhwyso i agweddau penodol o'r cynnig, gan gynnwys swm, gosodiad, graddfa, tirlunio ac edrychiad y datblygiad. Gweler Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2016).</p> <p><u>Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd</u></p> <p>Manylion ynghylch maint a thebygolrwydd llifogydd ar y safle, yn ogystal ag unrhyw effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol i lawr yr afon. Gweler Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a pherygl llifogydd (2004).</p> <p><u>Datganiad Amgylcheddol</u></p>

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT YMGYNGHOROL DIWYGIEDIG**

Tud. 110

Pwnc	Materion i'w hystyried	Gwybodaeth ychwanegol
		<p>Canlyniadau Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol (AEA) sy'n ofynnol ar gyfer cynigion sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd.</p> <p><u>Datganiad cadwraeth dŵr</u></p> <p>Datganiad sy'n cyfeirio at y mesurau ataliol a'r mesurau arbed dŵr y gellir eu cymryd a gafodd eu hystyried ar ddechrau'r broses o ddatblygu cynigion, pa rai a ddewiswyd a sut fyddant yn cael eu cynnwys yn y datblygiad arfaethedig.</p> <p><u>Datganiad ynni</u></p> <p>Datganiad sy'n cyfeirio at y mesurau effeithlonrwydd ynni a gafodd ystyriaeth fel rhan o'r cynnig a sut fydd hynny'n cael ei wireddu. Dylid cyflwyno'r Datganiad ar ben ei hun neu fel rhan o'r Datganiad Dylunio a Mynediad.</p>
Cymysgedd a hyfywdra tai	Elfen bwysig o gynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy yw diwallu anghenion gwahanol aelwydydd yng nghymunedau'r ardal, nawr ac yn y dyfodol.	<p><u>Datganiad tai fforddiadwy</u></p> <p>Gwybodaeth gefnogol am faterion yn ymwneud â darparu tai fforddiadwy ar y safle ac oddi wrth y safle, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• nifer yr unedau (marchnad a fforddiadwy);</li> <li>• nifer y llofftydd;</li> <li>• lleoliad y gwahanol unedau marchnad a fforddiadwy;</li> <li>• daliadaeth tai fforddiadwy (i'w rhentu, rhan berchnogaeth, tai fforddiadwy canolraddol);</li> <li>• <i>pro-forma</i> gwybodaeth hyfywdra;</li> </ul>

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT YMGYNGHOROL DIWYGIEDIG**

Tud. 111

Pwnc	Materion i'w hystyried	Gwybodaeth ychwanegol
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• manylion unrhyw Gymdeithas Tai neu ddarparwr cofrestredig arall sy'n bartner yn y datblygiad;</li> <li>• templedi cytundeb drafft Adran 106.</li> </ul> <p>Gweler CCA Tai fforddiadwy (i'w gyhoeddi).</p> <p><u>Datganiad Tai</u></p> <p>Gwybodaeth gefnogol i gadarnhau sut mae'r datblygiad yn cwrdd â galw ac angen lleol am dai marchnad a thai fforddiadwy; ymrwymiad mewn perthynas â darpariaeth tai fforddiadwy (canran, maint, math a chymysgedd deiliadaeth); ac unrhyw dystiolaeth ategol o wyriad o'r gofynion polisi cysylltiedig. Yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy, rhaid i'r Datganiad Tai hefyd gydnabod y bydd y gymysgedd tai marchnad terfynol a'r trefniadau i integreiddio tai marchnad a thai fforddiadwy yn amodol ar gytundeb ar y materion a gadwyd yn ôl.</p> <p>Gweler CCA Cymysgedd Tai (mabwysiadwyd Hydref 2018).</p>
Gwasanaethau lleol a chyfleusterau lleol	Mae Nodyn Cyngor Technegol 4: Datblygiad manwerthol a masnachu (2016), yn datgan y dylai pob cais am ddatblygiad manwerthu sydd ag arwynebedd llawr gros o fwy na 2,500 o fedrau sgwâr gael ei ategu gan asesiad effaith sy'n rhoi tystiolaeth ynghylch y dewis o safle, effeithiau economaidd ac effeithiau eraill, hygyrchedd ac effeithiau amgylcheddol. Mae Polisi MAN 3 yn nodi'r posibilrwydd y bydd hefyd angen asesiadau ar gyfer rhai datblygiadau llai oherwydd gallai datblygiad o lai na'r trothwy cenedlaethol gael ardrawiad andwyol o sylwedd ar ganol trefi'r ardal.	<p><u>Asesiad o Effaith Manwerthu</u></p> <p>Adroddiad ar effaith y datblygiad ar y gwasanaethau manwerthu yn yr ardal leol.</p> <p><u>Datganiad marchnata</u></p> <p>Gall y dystiolaeth sy'n ofynnol gynnwys manylion defnydd a chyfrifon blaenorol a manylion o ymgyrchoedd gyda'r nod o</p>

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT YMGYNGHOROL DIWYGIEDIG**

<b>Pwnc</b>	<b>Materion i'w hystyried</b>	<b>Gwybodaeth ychwanegol</b>
	<p>Yn ogystal â chynnal canol trefi mae cadw gwasanaeth lleol neu gyfleuster cymunedol yn bwysig i gynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy. Mae Polisi MAN 4 a Pholisi ISA 2 yn nodi'r amgylchiadau eithriadol lle gellir rhoi ystyriaeth i gollu'r gwasanaethau a'r cyfleusterau hyn.</p>	<p>ddod o hyd i berchennog arall i gymryd y defnydd cyfredol ymlaen.</p> <p>Yn ogystal, bydd yn ofynnol darparu tystiolaeth marchnata i ddangos y gwnaed pob ymdrech i sicrhau adeilad addas masnachol pan gyflwynir cynnig ail-ddefnyddio i drosi adeiladau gwledig at ddefnydd preswyl.</p> <p>Gweler CCA Newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu (i'w gyhoeddi)</p>

# CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY DRAFFT YMGYNGHOROL DIWYGIEDIG


## Rhan D: Beth ellir ei adeiladu ymhle?

### Strategaeth Aneddleoedd

D.1 Mae lleoliad datblygiad hefyd yn bwysig i sicrhau datblygiad cynaliadwy. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys Strategaeth Aneddleoedd (trefi/canolfannau a phentrefi), gan gynnwys patrwm gofodol sy'n ceisio cydbwysu anghenion cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol, economaidd ac amgylcheddol (Pennod 5, paragraff 5.7 y Cynllun). Mae gwasgariad gofodol y twf tai wedi'i gysylltu'n agos ag ardaloedd cyflogaeth y Cynllun sy'n arwyddocaol yn strategol.

D.2 Mae Map 1 yn dangos lleoliad aneddeleoedd o fewn ardal y Cynllun Datblygu Lleol ac yn adnabod eu rôl o fewn Coeden Aneddleoedd.

### Map 1 Strategaeth Aneddleoedd a Rôl yr Aneddleoedd Unigol



D.3 Edrychwch ar Atodiad 4 y Cynllun Datblygu Lleol i weld i ba categori mae aneddeleoedd unigol yn perthyn. Mae'r tabl isod hefyd yn cyfeirio at y ddaliadaeth tai fydd yn cael ei hyrwyddo dan y polisiau perthnasol. Oni bai bod cyfyngiadau penodol wedi cael eu hadnabod mewn aneddeleoedd unigol, po fwyaf neu fwyaf arwyddocaol yw'r aneddeleoedd o ran swyddi a gwasanaethau, po ehangaf yw ystod a graddfa'r datblygiadau a gefnogir ynddynt.

D.4 Mae Tabl 4 (dros y dudalen) yn rhoi disgrifiad cryno o'r lefel twf tai a ddisgwylyr yn y tair prif haen yn y Goeden Aneddleoedd, sef:

- Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol;
- Canolfannau Gwasanaeth Lleol;
- Pentrefi Gwasanaeth, Lleol, Arfordirol a Gwledig a Clystyrau



**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT YMGYNGHOROL DIWYGIEDIG**

Tabl 4 - Lefel twf fesul haen o aneddleoedd yn y Goeden Aneddleoedd

Categori anheddle	% twf tai (Polisi PS 17)	Math y datblygiad
<p>Canolfan Isranbarthol</p> <hr/> <p>Canolfan Wasanaeth Trefol</p>	53%	<ul style="list-style-type: none"> <li>Polisi TAI 1, Polisi TAI 8 a Pholisi TAI 15 - Cymysgedd o gartrefi newydd, o ran math a deiliadaeth (tai marchnad agored a thai fforddiadwy) ar safleoedd a ddynodwyd neu ar hap (sy'n cynnwys trosi adeiladau priodol a safleoedd eithrio gwledig).</li> <li>Polisi PS 15, Polisi MAN 1 a Pholisi MAN 3 - Datblygiadau manwerthu a masnachol (gan gynnwys siopau, bwytai, banciau), gyda'r pwyslais ar warchod a chryfhau canol trefi dynodedig yn gyntaf.</li> <li>Polisi TWR 1 a Pholisi TWR 2 - Datblygiadau twristiaeth ategol, gan gynnwys llety gwasanaeth &amp; hunanwasanaeth ac atyniadau/cyfleusterau ymwelwyr.</li> <li>Polisiäau ISA1 - 2 a Pholisiäau ISA 4 - 5 - Gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol, gan gynnwys hybiau trafndiaeth gyhoeddus, llyfrgelloedd.</li> <li>Polisi CYF 1 - Datblygiadau eraill sy'n darparu cyflogaeth i gefnogi'r economi, gan ganolbwyntio yn y lle cyntaf ar safleoedd busnes a diwydiannol sy'n cael eu gwarchod neu eu dynodi.</li> </ul>
Canolfan Wasanaeth Lleol	22%	<ul style="list-style-type: none"> <li>Polisi TAI 2, Polisi TAI 5, Polisi TAI 8 a Pholisi TAI 15 - Cymysgedd o gartrefi newydd, o ran math a deiliadaeth (tai marchnad agored a thai fforddiadwy ym mhob un Canolfan Leol, ar wahân i'r rhai a enwir ym Mholisi TAI 5 sy'n gofyn am dai marchnad leol a thai fforddiadwy) ar safleoedd a ddynodwyd neu ar hap (sy'n cynnwys trosi adeiladau priodol a safleoedd eithrio gwledig).</li> <li>Polisi PS 15, Polisi MAN 1 a Pholisi MAN 3 - Datblygiadau manwerthu a masnachol (gan gynnwys siopau, bwytai, banciau), gyda'r pwyslais ar warchod a chryfhau canol trefi dynodedig yn y lle cyntaf.</li> <li>Polisi TWR 1 a Pholisi TWR 2 - Datblygiadau twristiaeth ategol, gan gynnwys llety gwasanaeth &amp; hunanwasanaeth ac atyniadau /cyfleusterau ymwelwyr.</li> <li>Polisiäau ISA1 - 2 a Pholisiäau ISA 4 - 5 - Gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol, gan gynnwys hybiau trafndiaeth gyhoeddus, llyfrgelloedd.</li> <li>Polisi CYF 1 - Datblygiadau eraill sy'n darparu cyflogaeth i gefnogi'r economi, gan ganolbwyntio yn y lle cyntaf ar safleoedd busnes a diwydiannol sy'n cael eu gwarchod neu eu dynodi.</li> </ul>

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT YMGYNGHOROL DIWYGIEDIG**

Tabl 4 (parhad)

Categori anheddle	% twf tai (Polisi PS 17)	Math y datblygiad
Pentrefi Gwasanaeth	25%	<ul style="list-style-type: none"> <li>Polisi TAI 3, Polisi TAI 5, Polisi TAI 8 a Pholisi TAI 15 - Cymysgedd o gartrefi newydd, o ran math a deiliadaeth (tai marchnad agored a thai fforddiadwy ym mhob un Pentref Gwasanaeth ar wahân i'r rhai a enwir ym Mholisi TAI 5 sy'n gofyn am dai marchnad leol a thai fforddiadwy) ar safleoedd a ddynodwyd neu ar hap (sy'n cynnwys trosi adeiladau priodol a safleoedd eithrio gwledig).</li> <li>Polisi MAN 4 a Pholisi MAN 5 – Gwarchod siopau a thafarndai mewn pentrefi a hwyluso mwy o ddarpariaeth.</li> <li>Polisi TWR 1 a Pholisi TWR 2 - Datblygiadau twristiaeth ategol, gan gynnwys llety gwasanaeth &amp; hunanwasanaeth ac atyniadau/cyfleusterau ymwelwyr.</li> <li>Polisiâu ISA1 - 2 a Pholisiâu ISA 4 - 5 - Gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol.</li> <li>Polisi CYF 6 – Mentrau busnes neu ddiwydiannol newydd ar raddfa briodol a lleoliad addas neu mewn adeilad addas.</li> </ul>
Pentrefi Lleol/ Arfordirol/ Gwledig		<ul style="list-style-type: none"> <li>Polisi TAI 4, Polisi TAI 5, Polisi TAI 8 a Pholisi TAI 15 - Cymysgedd o gartrefi newydd, o ran math a deiliadaeth (tai marchnad agored a thai fforddiadwy ym mhob un Pentref ar wahân i'r rhai a enwir ym Mholisi TAI 5 sy'n gofyn am dai marchnad leol a thai fforddiadwy) ar safleoedd ar hap bychan (sy'n cynnwys trosi adeiladau priodol a safleoedd eithrio gwledig). Nid oes dynodiadau tai yn y Pentrefi.</li> <li>Polisi MAN 4 a Pholisi MAN 5 – Gwarchod siopau a thafarndai mewn pentrefi a hwyluso mwy o ddarpariaeth.</li> <li>Polisi TWR 1 a Pholisi TWR 2 - Datblygiadau twristiaeth gefnogol, gan gynnwys llety gwasanaeth &amp; hunanwasanaeth ac atyniadau/cyfleusterau ymwelwyr.</li> <li>Polisiâu ISA1 - 2 a Pholisiâu ISA 4 - 5 - Gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol.</li> <li>Polisi CYF 6 – Mentrau busnes neu ddiwydiannol newydd ar raddfa briodol a lleoliad addas neu mewn adeilad addas.</li> </ul>
Clystyrau		<ul style="list-style-type: none"> <li>Polisi TAI 6 – cymysgedd o fathau o dai fforddiadwy yn unig ar safleoedd ar hap bychan (sy'n cynnwys trosi adeiladau priodol). Nid oes dynodiadau tai yn y Clystyrau</li> <li>Polisiâu ISA1 – 2 a Pholisiâu ISA 4 - 5 - Gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol.</li> <li>Polisi CYF 6 – Mentrau busnes neu ddiwydiannol newydd ar raddfa briodol a lleoliad addas neu mewn adeilad addas.</li> </ul>
Cefn gwlad		<ul style="list-style-type: none"> <li>Polisiâu PCYFF 1 - PCYFF 2 a Pholisi TAI 7- Tai newydd i alluogi gweithwyr mentrau gwledig (e.e. ffermydd) fyw yn agos at eu</li> </ul>

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT YMGYNGHOROL DIWYGIEDIG**



		<p>gwaith a thai fforddiadwy, drwy drosi adeiladau priodol os nad yw'n hyfyw gwneud defnydd economaidd o'r adeilad.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Polisi TWR 1 a Pholisi TWR 2 - Datblygiadau twristiaeth ategol, gan gynnwys llety gwasanaeth a hunanwasanaeth ac atyniadau /cyfleusterau ymwelwyr.</li><li>• Polisi TWR 3 Pholisi TWR 5 – Meysydd carafanau, siales a llety gweryslla amgen i ymwelwyr.</li><li>• Polisi CYF 6 – Mentrau busnes neu ddiwydiannol newydd ar raddfa briodol a lleoliad addas neu mewn adeilad addas.</li></ul>
--	--	--

D.5 Mae Tabl 5 (dros y dudalen) yn crynhoi gofynion gwybodaeth perthnasol am y cyd-destun ehangach. Bydd dilyn gofynion Polisi PS 1 a'r gofynion a nodir yn y Canllaw hwn yn osgoi oedi diangen yn ystod y broses benderfynu. Bydd diffyg gwybodaeth ddigonol berthnasol i allu dod i gasgliad am effaith y datblygiad yn rheswm i wrthod cais cynllunio.

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT YMGYNGHOROL DIWYGIEDIG**

Tabl 5 Crynhoad o'r Gofynion Gwybodaeth am y Cyd-Destun Ehangach

MATH O DDATBLYGIAD /TYPE OF DEVELOPMENT	PWNC						MATH O ANHEDDLE									
	Yr iaith a diwylliant Cymraeg/The Welsh Language and Culture	Tirwedd/ Landscape	Bywyd Gwylt a Daeareg/ Wildlife and Geology	Treftadaeth/ Heritage	Rheoli Llygredd a Gwastraff/ Waste and Contamination Management	Cludiant/ Transport	Dyluniad/ Design	Cymysgedd a Hyfywra Tai/ Housing Mix and Viability	Gwasanaethau a Chyfleusterau Lleol/ Local Services and Facilities	Canolfan Is-ranbarthol/ Sub-Regional Centre	Canolfannau Gwasanaeth Trefol/ Urban Service Centres	Canolfannau Gwasanaeth Lleol/Local Service Centres	Pentrefi Gwasanaeth/ Service Villages	Pentrefi Lleol/Arfordirol/ Local Coastal Villages	Clystyrau / Clusters	Cefnwglaed/ Countryside
TAI	10+	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★
	5   9	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★
	2   4	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★
	1	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★
	Deiludd Tŷ	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★
CYFLOGAETH	Mawr	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★
	Bach	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★
	Newid Defnydd	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★
CYFLEUSTERAU A GWASANAETHU CYMUNED		★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★
IS ADEILEDD TELATHREBU		★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★
YNNI ADNEWYDDADWY		★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★	★

Allwedd/Key  
 Yn bendant/definitely  
 O bosibl/possible

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT YMGYNGHOROL DIWYGIEDIG**

**ATODIADAU**

ATODIAD	ENW
1	Polisi PS 1, Polisi PS 5 a Pholisi PS 6
2	Ffynonellau data a gwybodaeth ddefnyddiol am yr iaith Gymraeg
3	Rhestr dogfennau defnyddiol
4	Manylion cyswllt defnyddiol
5	Trefn sgrinio
6	Mesurau lliniaru a gwella posib – iaith Gymraeg
7	Methodoleg ar gyfer paratoi Datganiad Iaith Gymraeg
8	Methodoleg ar gyfer paratoi Aseiad Effaith Iaith Gymraeg

**Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy drafft ymgynghorol –  
Atodiad 1 Polisi PS1, Polisi PS 5 a Pholisi PS 6**

Dyma gopi o Bolisi PS 1, Polisi PS 5 a Pholisi PS 6 o'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd ar 31 Gorffennaf 2017.

**POLISI STRATEGOL PS 1: YR IAITH GYMRAEG A'R DIWYLLIANT CYMREIG**

**Bydd y Cynghorau'n hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun.  
Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy:**

1. **Ofyn am Ddatganiad Iaith Gymraeg fydd yn dweud sut bydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg, pan fydd y datblygiad arfaethedig yn perthyn i un o'r categorïau canlynol:**
  - a. **Datblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol sy'n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a/ neu gydag arwynebedd o 1,000 m. sg. neu fwy; neu**
  - b. **Datblygiad preswyl a fydd un ai ar ben ei hun neu yn gronol yn darparu mwy na'r ddarpariaeth tai dangosol a osodwyd ar gyfer yr anheddle ym Mholisi TAI 1 - TAI 6; neu**
  - c. **Datblygiad preswyl o 5 o unedau tai neu fwy ar safleoedd a ddynodwyd neu safleoedd ar hap du mewn i ffiniau datblygu nad yw'n mynd i'r afael â thystiolaeth o angen a galw am dai a gofnodir mewn Asesiad Marchnad Tai a ffynonellau tystiolaeth leol berthnasol eraill.**
2. **Ofyn am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg, a fydd yn dweud sut fydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg, pan fydd y datblygiad arfaethedig ar safle ar hap annisgwyl ar gyfer datblygiad tai ar raddfa fawr neu ddatblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr a fyddai'n golygu llif arwyddocaol o weithlu;**
3. **Wrthod cynigion a fyddai'n achosi niwed o sylwedd i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned nad allir ei osgoi neu ei liniaru yn foddhaol trwy ddefnyddio mecanwaith cynllunio priodol;**
4. **Gofyn am Gynllun Arwyddion dwyieithog i ymdrin â holl arwyddion gweithredol yn y parth cyhoeddus sy'n cael eu cynnwys mewn cais cynllunio gan gyrrff cyhoeddus a chwmnïau masnachol a busnes;**
5. **Gosod disgwyliad y bydd enwau Cymraeg yn cael eu defnyddio ar gyfer datblygiadau newydd, enwau tai a strydoedd.**

**Eglurhad:**

6.1.6 Bwriedir y bydd yr holl fesurau a ddisgrifir yn fras yn y paragraffau o flaen y Polisi yma yn cefnogi cymunedau a'r iaith Gymraeg. Mae amcanion allweddol y Cynllun yn dangos ymrwymiad i hyrwyddo cymunedau cytbwys, cynaliadwy a nodedig. Mae hyn yn golygu bod y Cynllun yn cynnwys teclynnau polisi i ganiatáu cymunedau lleol newid a thyfu'n gynaliadwy ac i gyfarch anghenion pob aelod o gymunedau. Ceir nifer o bolisiau strategol a manwl a fydd yn rhoi eglurhad am sut fydd cynigion i ddatblygu yn cael eu rheoli. Ar y cyfan mae'r Asesiad Cynaliadwyedd (a gafodd ei ddylanwadu gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol) yn edrych yn bositif ar bolisiau a chynigion y Cynllun ar sail bod datblygiad yn digwydd ar y raddfa

## **Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy drafft ymgynghorol – Atodiad 1 Polisi PS1, Polisi PS 5 a Pholisi PS 6**

briodol ac yn y lleoedd priodol, gan gynnwys mesurau hyrwyddo effeithiau cadarnhaol a mesurau lliniaru effeithiau negyddol.

- 6.1.7 Fel y gwelir ym maen prawf 1 a 2 ym Mholisi PS 1, er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus adeg cais cynllunio gofynnir am wybodaeth am geisiadau lle gall datblygiad ddigwydd, pe fyddai'n cael caniatâd cynllunio, ar gyflymder neu raddfa sy'n wahanol i'r hyn a ragwelwyd adeg paratoi'r Cynllun. Mae Polisi PS 1 yn atgyfnerthu polisiau perthnasol eraill yn y Cynllun sydd yn disgrifio'r rhagdybiaethau a wnaed, e.e. lefel twf tai fesul anheddle (Polisiau TAI 1 – TAI 6); bod datblygiad tai yn rhoi dewis priodol o dai marchnad a thai fforddiadwy (Polisi TAI 8). Os oes ansicrwydd, dylid gofyn am gyngor cyn cyflwyno cais cynllunio gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol i weld os fydd angen Datganiad neu Asesiad. Mae cael arwyddion yn Gymraeg ac yn Saesneg ac enwau llefydd ac eiddo Cymraeg yn arwydd clir o gymeriad ardal, gan gynnwys ei chymeriad ieithyddol. Cyhoeddir Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) 'Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy' a Chanllawiau Cynllunio Atodol 'Math a chymysgedd o dai' i roi arweiniad pellach am y mater. Byddant yn egluro'r math a lleoliad datblygiad sy'n debygol o fod yn dderbyniol yn ardal y Cynllun, gan egluro'r ystyriaethau cynllunio sy'n berthnasol. Bydd y CCA 'Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy' yn disgrifio'r arwyddion a ddisgwylir iddynt fod yn ddwyieithog, e.e. arwyddion sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd, hysbysebion, hysbyseb arddangos. Bydd y Datganiad neu'r adroddiad am yr Asesiad yn rhoi cyfle i'r datblygwr egluro ei gais yn fwy manwl ac ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol posib ar y gymuned a'i chydbwysedd ieithyddol. Bydd y CCA, er enghraifft, yn chwilio am dystiolaeth i ddangos bod trafodaeth wedi bod gyda Chynghorau Cymuned, Dinas a Thref a grwpiau cymunedol lleol er mwyn cael gwybodaeth a gofyn am eu barn a bod ystyriaeth wedi rhoi i arolygon am y farchnad tai lleol, a/ neu'r farchnad lafur. Yn ogystal â hynny, byddant yn cyfeirio ymgeisydd at, e.e. gymorth sydd ar gael gan Swyddfa Comisiynydd yr Iaith am ddylunio arwyddion a deunydd marchnata dwyieithog a'r cyngor sydd ar gael i'r sector breifat gan Lywodraeth Cymru/Busnes Cymru ynglŷn â dwyieithrwydd.

### **POLISI STRATEGOL PS 5: DATBLYGU CYNALIADWY**

**Cefnogir datblygiadau ble gellid dangos eu bod yn gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Dylai bob cynnig:**

- 1. Lliniaru'r hyn sy'n peri newid hinsawdd ac addasu i'r effeithiau hynny sy'n anochel yn unol â Pholisi Strategol PS 6;**
- 2. Rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio tir ac isadeiledd yn effeithiol, gan flaenoriaethu aildefnyddio tir ac adeiladau a ddefnyddiwyd o'r blaen, lle bynnag bo hynny'n bosib, oddi mewn i ffiniau datblygu'r Ganolfan Isranbarthol, y Canolfannau Gwasanaeth Trefol a Lleol, Pentrefi neu yn y mannau mwyaf priodol y tu allan iddynt yn unol â Pholisi Strategol PS 17, PS 13 a PS 14;**
- 3. Hyrwyddo Canolfannau a Phentrefi mwy hunangynhaliol drwy gyfrannu at gymunedau cytbwys sy'n cael eu cefnogi gan ddigonedd o wasanaethau; gweithgareddau diwylliannol,**

**Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy drafft ymgynghorol –  
Atodiad 1 Polisi PS1, Polisi PS 5 a Pholisi PS 6**

**celfyddydol, chwaraeon ac adloniant; ystod amrywiol o gyfleoedd gwaith; isadeiledd ffisegol a chymdeithasol; a dewis o ddulliau teithio;**

- 4. Gwarchod, cefnogi a hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg yn unol â Pholisi Strategol PS 1;**
- 5. Cadw a gwella ansawdd asedau'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol (gan gynnwys eu gosodiad), gwella'r ddealltwriaeth ohonynt, y gwerthfawrogiad ohonynt am eu cyfraniad cymdeithasol ac economaidd a gwneud defnydd cynaliadwy ohonynt yn unol â Pholisi Strategol PS 20;**
- 6. Gwarchod a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol, ei dirwedd a'i asedau bioamrywiaeth, gan gynnwys eu deall a'u gwerthfawrogi am y cyfraniad cymdeithasol ac economaidd y maent yn eu darparu yn unol â Pholisi Strategol PS 19.**
- 7. Lleihau'r effaith ar adnoddau lleol, osgoi llygredd ac ymgorffori egwyddorion adeiladu cynaliadwy er mwyn cyfrannu tuag at gadwraeth ac effeithlonrwydd ynni; defnyddio ynni adnewyddadwy; lleihau / ailgylchu gwastraff; defnyddio deunyddiau o ffynonellau cynaliadwy; a diogelu ansawdd y pridd ;**
- 8. Lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir ac a wastreffir; lleihau'r effaith ar adnoddau dŵr ac ar ansawdd y dŵr; rheoli perygl llifogydd ac uchafu'r defnydd o gynlluniau draenio cynaliadwy; a dilyn amcanion Cynllun Rheolaeth Basn Afonydd Gorllewin Cymru.**

**Pan fo hynny'n briodol, dylai cynigion hefyd:**

- 9. Ddiwallu anghenion y boblogaeth leol drwy gydol eu hoes o ran ansawdd, y mathau o ddaliadaeth a fforddiadwyedd unedau tai yn unol â Pholisi Strategol PS 16;**
- 10. Hyrwyddo economi leol amrywiol ac ymatebol, sy'n annog buddsoddiad ac sy'n gallu cynnal Canolfannau, Pentrefi ac ardaloedd gwledig yn unol â Pholisi Strategol PS 13;**
- 11. Cefnogi'r economi leol a busnesau lleol drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes a datblygu sgiliau yn unol â Pholisi Strategol PS 13;**
- 12. Lleihau'r angen i deithio gyda thrafnidiaeth breifat ac annog cyfleoedd i bob defnyddiwr deithio yn ôl y gofyn mor aml â phosib drwy ddefnyddio dulliau amgen, gan roi pwyslais arbennig ar gerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus yn unol â Pholisi Strategol PS 4;**
- 13. Hyrwyddo safonau dylunio uchel sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r ardal leol, manau hygyrch sy'n medru ymateb i ofynion y dyfodol ac sy'n lleihau trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ofni trosedd yn unol â Pholisi Manwl PCYFF 3.**

**POLISI STRATEGOL PS 6: LLINIARU EFFEITHIAU NEWID HINSAWDD AC ADDASU IDDYNT**

**I leddfu effeithiau newid hinsawdd, caniateir cynigion dim ond os ellir dangos eu bod wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r hyn a ganlyn ac wedi ymateb iddynt:**

- 1. Yr hierarchaeth ynni:**



**Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy drafft ymgynghorol –  
Atodiad 1 Polisi PS1, Polisi PS 5 a Pholisi PS 6**

- i. Lleihau'r galw am ynni;
- ii. Effeithlonrwydd ynni;
- iii. Defnyddio technolegau ynni carbon isel neu ynni di-garbon lle bo hynny'n ymarferol, yn hyfyw ac yn gyson â'r angen i ymgysylltu â chymunedau a'u cynnwys; gwarchod mwynderau gweledol, yr amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol a'r tirlun.

**2. Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, cynorthwyo i leihau gwastraff ac annog teithio trwy ddulliau eraill yn hytrach na'r car.**

Er mwyn addasu i effeithiau newid hinsawdd, caniateir cynigion dim ond pan ellir dangos gyda thystiolaeth briodol eu bod wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r hyn a ganlyn ac wedi ymateb yn briodol iddynt:

3. Gweithredu mesurau rheoli dŵr cynaliadwy yn unol ag amcanion Cynllun Rheoli Basnau Afonydd Gorllewin Cymru;
4. Eu lleoli i ffwrdd o ardaloedd lle mae risg llifogydd, gyda'r nod o leihau'r risg llifogydd cyffredinol o fewn ardal y Cynllun ac ardaloedd y tu allan iddi, gan ystyried risg llifogydd 100 mlynedd datblygiadau preswyl, a risg llifogydd 75 mlynedd datblygiadau nad ydynt yn breswyl, oni bai gallir dangos yn glir nad oes unrhyw risg yn bodoli neu fod modd rheoli'r risg hwnnw;
5. Gallu gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd cymaint â phosib oherwydd ei safonau dylunio cynaliadwy uchel, lleoliad, gosodiad a dulliau adeiladu cynaliadwy (yn unol â Pholisi PCYFF 3);
6. Diogelu tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, hyrwyddo rhandiroedd, cefnogi cyfleoedd i gynhyrchu bwyd yn lleol ac amaethu lleol er mwyn lleihau cyfraniad yr ardal i filltiroedd bwyd;
7. Sicrhau nad yw gallu tirweddau, amgylcheddau a rhywogaethau i addasu i effeithiau niweidiol newid hinsawdd yn cael eu heffeithio a bod amgylcheddau cydadferol yn cael eu darparu pan fo angen;
8. Anelu at y safon uchaf bosib o ran effeithlonrwydd dŵr a gweithredu mesurau eraill i wrthsefyll sychder, cynnal y llif dŵr a chynnal neu wella ansawdd dŵr gan gynnwys defnyddio systemau draenio cynaliadwy (yn unol â Pholisi PCYFF 6).

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT YMGYNGHOROL ATODIAD 2 - Ffynonellau data a gwybodaeth ddefnyddiol**

Dyma restr o ffynonellau data a gwybodaeth cydnabyddedig a fydd yn rhoi darlun am gymunedau, ac yn benodol am y Gymraeg. Dyma yw'r ffynonellau cydnabyddedig adeg parato'i'r Canllaw. Disgwylir i ymgeisydd ddefnyddio'r wybodaeth yn yr argraffiadau diweddaraf o'r ffynonellau yn ogystal ag unrhyw ffynonellau cydnabyddedig perthnasol arall a fydd ar gael adeg parato'i'r cais cynllunio.

1) Y **Cyfrifiad** yw'r ffynhonnell allweddol o wybodaeth am nifer y bobl sydd yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r Cyfrifiad yn cynnwys pawb yng Nghymru. Mae amcangyfrifon Cyfrifiad yn disgrifio nodweddion ardaloedd lawr i ddaearyddiaethau bach, ac maent yn cael eu defnyddio i ddeall nodweddion tebyg a'r gwahaniaethau yn y boblogaeth yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.  
<http://llyw.cymru/statistics-and-research/census-population-welsh-language/?lang=cy>

Mae'r Cyfrifiad hefyd yn darparu gwybodaeth am allu yn y Gymraeg ymysg plant tair i bedair blwydd oed yn ôl sgiliau Cymraeg eu rhieni. At ddibenion y Cyfrifiad, gelwir hyn yn drosglwyddiad iaith. Gan ddefnyddio data'r Cyfrifiad, cyfeirir at drosglwyddo'r iaith Gymraeg fel y gyfradd o blant tair i bedair blwydd oed o fewn gwahanol fathau o deuluoedd sydd yn gallu siarad Cymraeg (lle mae un neu ragor o'r oedolion sy'n gyfrifol am fagu'r plentyn/plant yn gallu siarad Cymraeg). Mae data'r Cyfrifiad yn dangos bod cyswllt cryf rhwng y gallu i siarad Cymraeg yn yr oedrannau cynnar (h.y. tair i bedair blwydd oed) a gallu eu rhieni/gwarchodwyr i siarad Cymraeg. Mae data trosglwyddo ar gael ar lefel islaw lefel awdurdod lleol (lefel wardiau wedi eu cyfuno ac ardaloedd cynnyrch ehangach haen ganol). Er nad oes modd datgelu unigolion o'r data, mae'r niferoedd mewn rhai ardaloedd yn fychan iawn, felly dylid cymryd gofal wrth ddehongli unrhyw wahaniaethau rhwng ardaloedd yn seiliedig ar y niferoedd bychain hynny.

Ceir dadansoddiadau o ddata Cyfrifiad 2011 ar wefan Comisiynydd y Gymraeg <http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Polisi%20ymchwil%20a%20data/Pages/Dadansoddiad-Cyfrifiad%202011.aspx>. Mae ffynonellau ac adroddiadau ymchwil eraill ar gael yn yr adran Ystadegau Swyddogol Comisiynydd y Gymraeg ar wefan y Comisiynydd a all fod o ddefnydd wrth gasglu tystiolaeth ar gyfer y defnydd o'r Gymraeg o fewn cymunedau: <http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Polisi%20ymchwil%20a%20data/Ystadegau%20Swyddogol%20Comisiynydd%20y%20Gymraeg/Pages/Ystadegau-Swyddogol-Comisiynydd-y-Gymraeg.aspx>

Dylai ymgeiswyr hefyd wirio gwefan Statiaith.com sy'n ffynhonnell gynhwysfawr o ddata am y Gymraeg. Ceir yma driniaethau o ddata'r Cyfrifiad ynghyd â data o ffynonellau eraill amrywiol. Mae'r gwefan yn cynnwys nifer o fapiau rhyngweithiol sy'n eich galluogi i edrych ar ddata ar gyfer lefelau daearyddol gwahanol. Ceir data ychwanegol am batrymau trosglwyddo iaith mewn gwahanol rannau o Gymru: <https://stataith.com/blog/cyfrifiad-2011/trosglwyddor-gymraeg/dadansoddi-trosglwyddo-2011/>. Ceir hefyd ddadansoddiadau amgen o ddata'r Cyfrifiad megis mapiau o ddosbarthiad siaradwyr o'r Gymraeg yn ystod oriau gwaith: <https://stataith.com/blog/cyfrifiad-2011/mapiau-am-y-gymraeg-o-gyfrifiad-2011/cyfrifiad-2011-poblogaeth-diwrnod-gwaith/>

Cynhelir y Cyfrifiad nesaf yn 2021. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wrthi ar hyn o bryd yn ymchwilio i'r posibilrwydd o symud i gyfrifiad yn seiliedig ar ddata gweinyddol ar ôl 2021.  
<https://www.ons.gov.uk/census/censustransformationprogramme/administrativedatacensusproject>

2) Ceir gwybodaeth am nifer y siaradwyr Cymraeg hefyd o **Arolwg Cenedlaethol Cymru**. Arolwg o gartrefi ydy Arolwg Cenedlaethol Cymru, o oddeutu 12,000 o bobl y flwyddyn ar draws Cymru gyfan. Defnyddir y canlyniadau gan Lywodraeth Cymru i helpu i wneud Cymru yn lle gwell i fyw. Cesglir

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT YMGYNGHOROL ATODIAD 2 - Ffynonellau data a gwybodaeth ddefnyddiol**

gwybodaeth am allu'r boblogaeth yn y Gymraeg, yn ogystal â rhuglder ac amllder defnyddio'r Gymraeg. Defnyddir data o Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer dangosyddion cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

<http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?lang=cy>

3) Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr yn cynnwys data a gwybodaeth defnyddiol ar lefel genedlaethol. Gweler yn benodol:

Adroddiad technegol: Amcanestyniad a thaflywybr nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd, 2011-2050

[https://llyw.cymru/amcangyfrifon-siaradwyr-cymraeg-2011-i-2050-adroddiad-technegol?\\_ga=2.241534922.918532434.1559730965-304451754.1537433634](https://llyw.cymru/amcangyfrifon-siaradwyr-cymraeg-2011-i-2050-adroddiad-technegol?_ga=2.241534922.918532434.1559730965-304451754.1537433634)

4) Mae'r **Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth** hefyd yn casglu gwybodaeth am allu ymatebwr i siarad Cymraeg a pha mor aml maent yn gwneud hynny.

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language>

Yn hanesyddol, ystyrir fod amcangyfrifon arolygon o gartrefi am allu yn yr iaith Gymraeg yn uwch na'r rhai a gynhyrchir gan y Cyfrifiad. Mae gwahaniaethau yn y ffordd y mae'r arolygon hyn a'r Cyfrifiad wedi'u cynnal yn debygol o fod wedi effeithio ar y canlyniadau. Rhoddodd y Cyfrifiad holiadur i bawb ei lenwi eu hunain, defnyddiodd Arolwg Cenedlaethol Cymru gyfweiliadau wyneb – yn - wyneb gydag un oedolyn 16 oed a throsodd. Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn defnyddio rhai cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb a rhai cyfweiliadau ffôn gydag oedolion 16 oed a throsodd. Efallai bod pobl yn fwy parod i ddweud eu bod yn siarad Cymraeg mewn arolygon a arweinir gan gyfweilydd.

5) Ceir gwybodaeth fanylach ynghylch rhuglder siaradwyr Cymraeg, a'u defnydd o'r iaith mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, yn **Arolygon Defnydd Iaith** 2004-06 a 2013-15. Ni fwriedir i'r arolwg hwn ddarparu amcangyfrifon newydd ar nifer y bobl sydd yn siarad Cymraeg yng Nghymru. Yn hytrach mae'n darparu gwybodaeth am oedolion a phobl ifanc sydd yn siarad Cymraeg, pa mor dda gallant siarad yr iaith, pa mor aml, ble, pryd, ac â phwy y maent yn ei defnyddio.

<http://llyw.cymru/statistics-and-research/Welsh-language-use-survey/?lang=cy>

6) Nid oes llawer o ddata gweinyddol ar gael am y Gymraeg, oni bai am ddata yn y byd addysg. Mae data ar gael ar gyfer plant o fewn y gyfundrefn addysg statudol drwy **Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion** (CYBLD). Mae'r CYBLD yn casglu gwybodaeth am ruglder yn y Gymraeg, siarad Cymraeg gartref, astudio'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg.

<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/schooldata/ims/datacollections/pupillevelannualschoolcensus/?skip=1&lang=cy>

7) Mae data hefyd ar gael ar gyfer dysgwyr addysg bellach drwy **Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru** (LLWR). Mae'r LLWR yn casglu gwybodaeth am ruglder yn y Gymraeg, lefel cymhwyster uchaf yn y Gymraeg ar gychwyn y rhaglen ddysgu a gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg.

<http://gov.wales/topics/educationandskills/learningproviders/datacollection/?skip=1&lang=cy>

8) Mae peth data **Cymraeg i Oedolion** wedi ei gyhoeddi hefyd ar wefan StatsCymru. Mae'r data yn dangos niferoedd a chofrestriadau dysgwyr Cymraeg i Oedolion yn ôl darparwr a blwyddyn academaidd.

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Further-Education/welshforadults-learners-enrolments>

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT YMGYNGHOROL ATODIAD 2 - Ffynonellau data a gwybodaeth ddefnyddiol**

9) **Strategaeth iaith Gymraeg Ynys Môn** - Cafodd ei pharatoi o dan enw Fforwm Iaith Ynys Môn. Ar gyfer y strategaeth gyntaf yma, cytunodd y Fforwm i ganolbwyntio ar dair thema sef: plant, pobl ifanc a'r teulu; y gweithlu, gwasanaethau Cymraeg a seilwaith; a'r gymuned. Mae'n rhoi darlun o'r sefyllfa yn Ynys Môn ac yn adnabod cyfres o feysydd blaenoriaeth i weithio arnynt yn ystod cyfnod y Strategaeth (2016 - 2021)

<http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/q/b/n/Strategaeth-iaith-Gymraeg-2016-2021.pdf>

10) **Strategaeth iaith Gymraeg Gwynedd** - ceir darlun o'r sefyllfa ieithyddol yng Ngwynedd yn dilyn gwaith manwl i ddadansoddi canlyniadau Cyfrifiad 2011. Hefyd gwnaed ymchwil trylwyr i'r gwaith da sydd wedi bod yn digwydd yng nghymunedau, ysgolion a gweithleoedd y Sir, a'r gwaith a wnaed gyda phartneriaid a'r sectorau amrywiol ers cyhoeddi Strategaeth iaith Gwynedd 2010-2013. Mae'n adnabod nifer o feysydd strategol i weithio arnynt yn ystod cyfnod y Strategaeth (2014 – 2018)

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/strategaeth-iaith-2017.pdf>

11) Swyddfa Comisiynydd Iaith Gymraeg - **cymorth a chyngor i fusnesau a thrydydd sector** sydd am wneud defnydd o'r Gymraeg ar sail wirfoddol gan ddefnyddio Cynllun Hybu'r Gymraeg i gynllunio ar gyfer cynyddu defnydd er eich budd busnesau a defnyddwyr a'r cwsmeriaid. Mae'r wefan hon yn llawn gwybodaeth am fanteision y Gymraeg, enghreifftiau o arfer da a phrofiadau busnesau ac elusennau o ddefnyddio'r Gymraeg. Cewch hefyd gymorth ymarferol ar ffurf canllawiau amrywiol ar sut i fynd ati i ddefnyddio'r Gymraeg a thystiolaeth ac ymchwil i ddangos gwerth y Gymraeg. Trwy edrych ar galendr, gellir hefyd ddod o hyd i ddiwyddiadau a sesiynau hyfforddiant defnyddiol.

<http://www.comisiynyddygybraeg.cymru/hybu/cy/hafan/Pages/hafan.aspx>

12) Swyddfa Comisiynydd Iaith Gymraeg – **Canllawiau Dylunio dwyieithog**. Nod y canllaw yw sefydlu'r arfer gorau ym mhob agwedd ar ddylunio gan gynnig cyngor ymarferol i sefydliadau a dylunwyr. Mae Rhan 1 y canllaw yn nodi'r egwyddorion creiddiol i reolwyr prosiect a dylunwyr eu hystyried wrth ddylunio'n ddwyieithog. Mae Rhan 2 yn cynnig cyngor pellach ac enghreifftiau o arfer da.

<http://www.comisiynyddygybraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/CYG1754%20Canllaw%20Dylunio%20CYMRAEG.pdf>

13) **Proffiliau iaith ardaloedd a phoblogaeth Gwynedd** – gwybodaeth ystadegol yn deillio o Gyfrifiad 2011 <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Ystadegau-a-data-allweddol/Proffiliau-iaith-ardaloeddaPhoblogaeth.aspx>

14) **Proffil ieithyddol Ynys Môn** – gwybodaeth ystadegol yn deillio o Gyfrifiad 2011 a ffynonellau eraill [https://rhagolwg.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/Dogfennau-cefndirol-2015/10b-Darlun-ystadegol-o-sefyllfar-Gymraeg-yn-Ynys-M%3%B4n-\(Mawrth-2014\)---Terfynol.pdf](https://rhagolwg.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/Dogfennau-cefndirol-2015/10b-Darlun-ystadegol-o-sefyllfar-Gymraeg-yn-Ynys-M%3%B4n-(Mawrth-2014)---Terfynol.pdf)

## Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy, drafft ymgynghorol - Atodiad 3: Rhestr o ddogfennau defnyddiol

Dyma restr o ddogfennau defnyddiol. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr. Disgwylir i ymgeisydd gyfeirio at yr argraffiadau diweddaraf o'r dogfennau yn ogystal ag unrhyw ffynonellau cydnabyddedig perthnasol arall fydd ar gael ar yr adeg pan fo'r cais cynllunio yn cael ei baratoi.

<b>Strategaeth Iaith Gymraeg Gwynedd:</b> <a href="https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/strategaeth-iaith-2017.pdf">https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/strategaeth-iaith-2017.pdf</a>	<b>Strategaeth Iaith Gymraeg Ynys Môn:</b> <a href="http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/q/b/n/Strategaeth-iaith-Gymraeg-2016-2021.pdf">http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/q/b/n/Strategaeth-iaith-Gymraeg-2016-2021.pdf</a>
<b>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015</b> <a href="https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh">https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh</a>	
<b>Deddf Cynllunio (Cymru) 2015</b> <a href="https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/4/contents/enacted/welsh">https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/4/contents/enacted/welsh</a>	
<b>Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011</b> <a href="https://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents/enacted/welsh">https://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents/enacted/welsh</a>	
<b>Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr</b> <a href="https://gov.wales/docs/dcells/publications/170711-welsh-language-strategy-cy.pdf">https://gov.wales/docs/dcells/publications/170711-welsh-language-strategy-cy.pdf</a>	
<b>Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr, Rhaglen Waith 2017 - 21</b> <a href="https://gov.wales/docs/dcells/publications/170711-cymraeg-2050-work-programme-cym-v2.pdf">https://gov.wales/docs/dcells/publications/170711-cymraeg-2050-work-programme-cym-v2.pdf</a>	
<b>Adroddiad technegol: Amcanestyniad a thaflywybr nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd, 2011-2050</b> <a href="https://gov.wales/docs/dcells/publications/170725-technical-report-projection-and-trajectory-for-the-number-of-welsh-speakers-cy.pdf">https://gov.wales/docs/dcells/publications/170725-technical-report-projection-and-trajectory-for-the-number-of-welsh-speakers-cy.pdf</a>	

<b>Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016</b> <a href="http://www.legislation.gov.uk/wsi/2016/59/made/welsh">http://www.legislation.gov.uk/wsi/2016/59/made/welsh</a>
<b>Polisi Cynllunio Cymru (2016) – Pennod 4</b> <a href="http://gov.wales/docs/desh/publications/161117ppw-chapter-4-cy.pdf">http://gov.wales/docs/desh/publications/161117ppw-chapter-4-cy.pdf</a>
<b>Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg</b> <a href="http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/planning-and-the-welsh-language/?lang=cy">http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/planning-and-the-welsh-language/?lang=cy</a>
<b>Llawlyfr Rheoli Datblygu (heb atodiadau)</b> <a href="https://gov.wales/topics/planning/policy/development-management-manual/development-management-manual-without-annexes/?skip=1&amp;lang=cy">https://gov.wales/topics/planning/policy/development-management-manual/development-management-manual-without-annexes/?skip=1&amp;lang=cy</a>
<b>Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy</b> <a href="http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan6/?lang=cy">http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan6/?lang=cy</a>

Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy, drafft ymgynghorol - Atodiad 3: Rhestr o ddogfennau defnyddiol

<p><b>Cynllun Rheoli AHNE Llŷn</b></p> <p><a href="http://www.ahne-llyn-aonb.org/7/cy-GB/Rheoli-r-AHNE">http://www.ahne-llyn-aonb.org/7/cy-GB/Rheoli-r-AHNE</a></p>	<p><b>Cynllun Rheoli AHNE Arfordir Môn</b></p> <p><a href="http://www.ynysmon.gov.uk/cynllunio-a-gwastraff/cefn-gwlad/ardaloedd-o-harddwch-naturiol-eithriadol-ahne/cynllun-rheoli-ahne-ynys-mn/cynllun-rheoli-ahne-ynys-mn-2009-2014/">http://www.ynysmon.gov.uk/cynllunio-a-gwastraff/cefn-gwlad/ardaloedd-o-harddwch-naturiol-eithriadol-ahne/cynllun-rheoli-ahne-ynys-mn/cynllun-rheoli-ahne-ynys-mn-2009-2014/</a></p>
<p><b>Datganiad o Werth Perthnasol – Ardaloedd Gwarchod y Dirwedd – Ynys Môn &amp; ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd</b></p> <p><a href="https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/Adolygiad-o-ATA-yng-Ngwynedd-a-Môn---Crynodeb-Gweithredol-(DC.009).pdf">https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/Adolygiad-o-ATA-yng-Ngwynedd-a-Môn---Crynodeb-Gweithredol-(DC.009).pdf</a></p>	
<p><b>Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti'r Dirwedd – Ynys Môn ac ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri</b></p> <p><a href="https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/Astudiaeth-Sensitifrwydd-a-Chapasiti-y-Tirwedd-(DC.020).pdf">https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/Astudiaeth-Sensitifrwydd-a-Chapasiti-y-Tirwedd-(DC.020).pdf</a></p>	
<p><b>Strategaeth y Dirwedd Gwynedd</b></p> <p><a href="https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/Strategaeth-Tirwedd-Gwynedd-Diweddariad-2012-(DC.010).pdf">https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/Strategaeth-Tirwedd-Gwynedd-Diweddariad-2012-(DC.010).pdf</a></p>	<p><b>Strategaeth y Dirwedd Ynys Môn</b></p> <p><a href="https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/Strategaeth-Tirwedd-Ynys-Môn--Diweddariad-20122-(DC.011).pdf">https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/Strategaeth-Tirwedd-Ynys-Môn--Diweddariad-20122-(DC.011).pdf</a></p>
<p><b>Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Gwynedd</b></p> <p><a href="https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholis%C3%AFau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Natur-Gwynedd---Cynllun-Gweithredu-Bioamrywiaeth.aspx">https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholis%C3%AFau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Natur-Gwynedd---Cynllun-Gweithredu-Bioamrywiaeth.aspx</a></p>	<p><b>Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Ynys Môn</b></p> <p><a href="http://www.ynysmon.gov.uk/cynllunio-a-gwastraff/cefn-gwlad/bioamrywiaeth-a-chadwraeth/bywyd-gwyllt-ynys-mn?redirect=false">http://www.ynysmon.gov.uk/cynllunio-a-gwastraff/cefn-gwlad/bioamrywiaeth-a-chadwraeth/bywyd-gwyllt-ynys-mn?redirect=false</a></p>

Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy, drafft ymgynghorol - Atodiad 3: Rhestr o ddogfennau defnyddiol

<b>Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi Brenin Edward I</b> <a href="http://cadw.gov.wales/historicenvironment/protection/worldheritage/cstlsedward1/?lang=cy">http://cadw.gov.wales/historicenvironment/protection/worldheritage/cstlsedward1/?lang=cy</a>	
<b>Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru</b> <a href="http://www.cewales.org.uk/">http://www.cewales.org.uk/</a>	
<b>Treftadaeth hanesyddol Gwynedd</b> <a href="https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Cynllunio-a-rheolaeth-adeiladu/Ardaloedd-Cadwraeth.aspx">https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Cynllunio-a-rheolaeth-adeiladu/Ardaloedd-Cadwraeth.aspx</a>	<b>Treftadaeth hanesyddol Ynys Môn</b> <a href="http://www.ynysmon.gov.uk/cynllunio-a-gwastraff/amgylchedd-adeiledig-arfordirol-a-naturiol/">http://www.ynysmon.gov.uk/cynllunio-a-gwastraff/amgylchedd-adeiledig-arfordirol-a-naturiol/</a>
<b>Fframwaith Lleol</b> <a href="http://gov.wales/topics/welshlanguage/publications/gweithredun-lleol-resource-pack/?lang=cy">http://gov.wales/topics/welshlanguage/publications/gweithredun-lleol-resource-pack/?lang=cy</a>	
<b>Y Gymraeg – eich busnes</b> <a href="http://www.comisiynyddygybraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Y%20Gymraeg%20Eich%20Busnes%20WELSH2.pdf">http://www.comisiynyddygybraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Y%20Gymraeg%20Eich%20Busnes%20WELSH2.pdf</a>	



**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT YMGYNGHOROL - Atodiad 4: Manylion cyswllt defnyddiol**

**Manylion cyswllt:**

**Rheolaeth Adeiladu**

*[Y prif bwynt cyswllt ar gyfer pob cais cynllunio ac ar gyfer cyngor cyn cyflwyno cais cynllunio]*

Ynys Môn:

Gwasanaeth Cynllunio

Cyngor Sir Ynys Môn  
Swyddfeydd y Cyngor  
Llangefni  
Ynys Môn  
LL77 7TW

[cynllunio@ynysmon.gov.uk](mailto:cynllunio@ynysmon.gov.uk)

Gwynedd:

Gwasanaeth Cynllunio,  
Swyddfa'r Cyngor,  
Ffordd y Cob,  
Pwllheli,  
Gwynedd,  
LL53 5AA

[cynllunio@gwynedd.llyw.cymru](mailto:cynllunio@gwynedd.llyw.cymru)

**Polisi cynllunio**

*[ar gyfer ymholiadau ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol, Canllawiau Cynllunio Atodol a materion eraill yn gysylltiedig â pholisi cynllunio]*

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn,  
Swyddfa'r Cyngor  
Ffordd y Castell  
Caernarfon  
LL55 1SH

[polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru](mailto:polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru)

**Yr Iaith Gymraeg**

Gwasanaethau Iaith Gymraeg  
Adran Cefnogaeth Corfforaethol  
Cyngor Gwynedd  
Swyddfa'r Cyngor  
Stryd y Jêl  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL55 1SH

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT YMGYNGHOROL - Atodiad 4: Manylion cyswllt defnyddiol**

Uned Polisi a Strategaeth  
Cyngor Sir Ynys Môn  
Swyddfeydd y Cyngor  
Llangefni  
Ynys Môn  
LL77 7TW

**Datblygu'r Economi**

Ynys Mon:

Canolfan Fusnes,  
Bryn Cefni,  
Llangefni  
LL77 7XA  
[datecon@ynysmon.gov.uk](mailto:datecon@ynysmon.gov.uk)

Gwynedd:

Pencadlys,  
Stryd y Castell,  
Caernarfon  
LL55 1SH  
[busnes@gwynedd.llyw.cymru](mailto:busnes@gwynedd.llyw.cymru)

**Hunaniaith**

Pencadlys Cyngor Gwynedd  
Stryd y Jêl,  
Caernarfon,  
Gwynedd,  
LL54 5LL  
[hunaniaith@gwynedd.llyw.cymru](mailto:hunaniaith@gwynedd.llyw.cymru)

**Menter Iaith Môn**

Menter Môn Cyf,  
Neuadd y Dref Llangefni,  
Sgwâr Bulkeley,  
Llangefni,  
Ynys Môn  
LL77 7LR  
[iaith@mentermon.com](mailto:iaith@mentermon.com)

**Comisiynydd y Gymraeg**

Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd  
CF10 1AT

[post@comisiynyddygybraeg.cymru](mailto:post@comisiynyddygybraeg.cymru)

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT YMGYNGHOROL - Atodiad 4: Manylion cyswllt defnyddiol**

**Cynghorau Cymuned (ardal Cyngor Gwynedd)**

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Cynghorwyr-a-phwyllgorau/Cynghorau-Cymuned/Etholiadau-Cynghorau-Tref-Cymuned-Gwynedd-2017.aspx>

**Cynghorau Cymuned (ardal Ynys Môn)**

<http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorautref-a-chymuned/>

**Yr Urdd**

[eryl@urdd.cymru](mailto:eryl@urdd.cymru)

**Mudiad Meithrin**

Mudiad gofal plant cyfrwng Cymraeg cenedlaethol sydd â meithrinfeydd ledled Cymru.

[post@meithrin.co.uk](mailto:post@meithrin.co.uk)

**Merched y Wawr**

Cymdeithas i ferched gymdeithasu yn Gymraeg yn y gymuned leol

I weld gwybodaeth am fanylion cyswllt canghennau yn Ynys Môn a Gwynedd edrychwch ar:

<http://merchedywawr.cymru/>

Prif swyddfa: [swyddfa@merchedywawr.cymru](mailto:swyddfa@merchedywawr.cymru)

**Clwb Ffermwyr Ifanc**

Cyfle i bobl ifanc mewn cymunedau gwledig gymdeithasu gyda'i gilydd a gydag eraill ledled Cymru a thu hwnt.

Cangen Ynys Mon

[ynys.mon@yfc-wales.org.uk](mailto:ynys.mon@yfc-wales.org.uk)

Cangen Eryri

[eryri@yfc-wales.org.uk](mailto:eryri@yfc-wales.org.uk)

Cangen Meirionnydd

[meirionnydd@yfc-wales.org.uk](mailto:meirionnydd@yfc-wales.org.uk)

Mae'r uchod yn rhestr o bwyntiau cyswllt allweddol. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr. Gall budd-ddeiliaid eraill fod yn berthnasol, yn ddibynnol ar fath y datblygiad dan sylw. Disgwylir i ymgeisydd ymgysylltu/ymgyngori â'r budd-ddeiliaid mwyaf perthnasol ar yr adeg pan fo'r cais cynllunio'n cael ei baratoi.

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 5 Y Drefn Sgrinio**

<b>A) Pa fath o ddatblygiad?</b>		
A1) A yw'r datblygiad yn un manwerthu, masnachol neu ddiwydiannol (e.e. Dosbarth Defnydd A1, A2, A3, B1, B2, B8, C1, C2, D1, D2, defnydd unigryw)	<b>Ydi</b> (ewch i B isod)	<b>Nac ydi</b> (ewch i A2 isod)
A2) A yw'r datblygiad yn un sy'n ychwanegu at y stoc tai presennol (Dosbarth Defnydd C3, C4)	<b>Ydi</b> (ewch i C isod)	<b>Nac ydi</b> (ewch i A3 isod)
A3) A yw'r datblygiad yn golygu colli cyfleuster cymunedol, e.e. neuadd bentref, ysgol, addoldy, tafarn	<b>Ydi</b> (ewch i Dd isod)	<b>Nac ydi</b> (nid oes angen asesiad pellach o ran y Gymraeg)
<b>B) Defnydd manwerthu, masnachol neu ddiwydiannol</b>		
B1) Maen prawf 1a Polisi PS 1 – a fyddai arwynebedd llawr yr adeilad sy'n destun y cais cynllunio yn fwy na 1,000 m sg a/neu a fydd y cynnig yn golygu y bydd angen cyflogi mwy na 50 o weithwyr ychwanegol?	<b>Ydi</b> (ewch i ddiagram 6 yn rhan C ac Atodiad 7 y CCA i weld sut i gwblhau Datganiad Iaith Gymraeg, ac Atodiad 6 am restr o fesurau lliniaru/ cryfhau posib).	<b>Nac ydi</b> (ewch i Ch isod)
<b>C) Datblygiad tai</b>		
<b>C1)</b> Maen prawf 1b Polisi PS 1 – a yw'r datblygiad ar ei ben ei hun neu'n gronnu yn golygu bod cyfanswm yr unedau tai yn fwy na'r ffigwr dangosol a welir yn Atodiad 5 y Cynllun <sup>1</sup> ?	<b>Ydi</b> (ewch i ddiagram 6 yn rhan C ac Atodiad 7 y CCA i weld sut i gwblhau Datganiad Iaith Gymraeg, ac Atodiad 6 am restr o fesurau lliniaru/ cryfhau posib)	<b>Nac ydi</b> (ewch i C2 isod)
<b>C2)</b> Maen prawf 1c Polisi PS 1 - os yw'r datblygiad ar gyfer 5 tŷ neu fwy, a yw'r datblygiad yn cyfarch y galw am fathau penodol o dai (e.e. o ran nifer y lloffttydd) a welir yn yr Astudiaeth Angen Lleol am Dai (Sirol), mewn Arolwg Tai Lleol (ardal Cyngor Cymuned/ Tref/Dinas neu ardal berthnasol arall), Cofrestr Tai, Cofrestr Tai Teg (gweler Atodiad 2 y CCA am wybodaeth am y ffynonellau gwybodaeth hyn)	<b>Ydi</b> (ewch i D isod)	<b>Nac ydi</b> (ewch i ddiagram 6 yn rhan C ac Atodiad 7 y CCA i weld sut i gwblhau Datganiad Iaith Gymraeg, ac Atodiad 6 am restr o fesurau lliniaru/ cryfhau posib)
<b>Ch) Datblygiad manwerthu, masnachol neu ddiwydiannol <u>nad oes</u> angen Datganiad Iaith Gymraeg (gweler B1 uchod) nag Asesiad Effaith Iaith Gymraeg (gweler maen prawf 2 Polisi PS 1, a Diagramau 5 a 7 y CCA hwn). Gweler hefyd y nodyn cyngor ar ddiwedd yr Atodiad hwn.</b>		

<sup>1</sup> Cysylltwch â'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd i gael gwybod beth yw'r sefyllfa gyfredol.

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 5 Y Drefn Sgrinio**

<p>Ch1) A fydd yr iaith Gymraeg yn weledol ar safle'r datblygiad?</p> <p><u>Arfer gwael</u> Nid yw'r arwyddion a'r hysbysebion mewn manau cyhoeddus, sy'n destun rheolau cynllunio yn y datblygiad, yn ddwyieithog.</p> <p><u>Arfer dda</u> Mae'r cynnig yn cynnwys Cynllun Arwyddion ar gyfer arwyddion a hysbysebion (sy'n destun rheolau cynllunio) mewn manau cyhoeddus, fydd yn golygu eu bod yn rhai dwyieithog - gweler Atodiad 2 am ddolen i ran o wefan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg sy'n rhoi arweiniad ar ddylunio dwyieithog.</p>	<p><b>Bydd</b> – cyflwynwch Gynllun Arwyddion yn unol â Pholisi PS 1 ac felly nid oes asesiad pellach o ran yr agwedd hon o Bolisi PS 1</p>	<p><b>Na fydd</b> - dywedwch mewn rhan berthnasol o'r Datganiad Cynllunio neu ran ychwanegol o'r Datganiad Dyluniad a Mynediad pam fod y cynnig yn gwyro oddi wrth Bolisi PS 1.</p>
<p>Ch2) A oes digon o wybodaeth gyda'r cais cynllunio ynghylch y swyddi fydd ar gael yn y busnes neu'r sefydliad i allu ystyried ei effaith ar yr ardal leol?</p> <p><u>Arfer gwael</u> Mae'r cais yn hapfasnachol heb unrhyw dystiolaeth i ddangos sut fydd y busnes neu'r sefydliad yn cael effaith gadarnhaol ar yr ardal leol.</p> <p><u>Arfer dda</u> Ceir gwybodaeth mewn Datganiad Cynllunio sy'n nodi faint o weithwyr llawn amser a/neu ran amser a gyflogir a pha fath o sgiliau sydd eu hangen, ac mae hynny'n cymharu'n dda efo gwybodaeth am y farchnad lafur leol, neu fe gynigir mesurau i uchafu'r effaith gadarnhaol o feithrin amrywioldeb economaidd yn yr ardal leol, e.e. cefnogi mentrau hyfforddi sgiliau lleol er mwyn sicrhau bod sgiliau perthnasol ar gael yn lleol yn y dyfodol.</p> <p>Ceir gwybodaeth mewn Datganiad Cynllunio sy'n nodi faint o swyddi (nifer a chanran) llawn a rhan amser lle bydd sgiliau dwyieithog yn hanfodol, yn ddymunol neu ddim eu hangen o gwbl.</p>	<p><b>Oes</b> - cyflwynwch wybodaeth ddigonol mewn Datganiad Cynllunio (e.e. nifer a math y swyddi, sgiliau, cymhariaeth efo'r farchnad leol).</p>	<p><b>Nac oes</b> – dywedwch mewn Datganiad Cynllunio pam na ellir rhoi gwybodaeth am nifer a math y swyddi.</p>
<p>Ch3) Os yw'r datblygiad arfaethedig yn golygu defnydd amgen o safle/llain a warchodir ar gyfer</p>	<p><b>Ydi</b> – rhowch wybodaeth berthnasol efo'r cais cynllunio,</p>	<p><b>Nac ydi</b> - dywedwch mewn rhan berthnasol o'r</p>

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 5 Y Drefn Sgrinio**

cyflogaeth ym Mholisi CYF 1, a yw'r cynnig yn gyson â Pholisi CYF 5?	e.e. yn rhan o'r Datganiad Cynllunio (gweler yr eglurhad i Bolisi CYF 5)	Datganiad Cynllunio pam fod y cynnig yn gwyro oddi wrth Bolisi CYF 5.
<b>D) Datblygiad tai nad oes angen Datganiad Iaith Gymraeg (gweler B1 a B2 uchod) nag Asesiad Effaith Iaith Gymraeg (gweler maen prawf 2 Polisi PS 1 a Diagramau 5 a 7 y CCA hwn)</b>		
<p>D1) Os yw maint y datblygiad yn cwrdd y trothwyon tai fforddiadwy a welir ym Mholisi TAI 15, a yw'n darparu'r nifer o dai fforddiadwy sy'n angenrheidiol ar y safle neu'n gwneud cyfraniad ariannol i ddarparu tai fforddiadwy ar safle arall?</p> <p><u>Arfer gwael</u></p> <p>Nid yw'r datblygiad yn bodloni'r targed tai fforddiadwy ac ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth hyfywedd i gyfiawnhau'r diffyg hwn.</p> <p><u>Arfer dda</u></p> <p>Mae'r datblygiad wedi cyrraedd y targed tai fforddiadwy a bennwyd, neu, lle na ellir cyrraedd y targed, mae wedi'i gefnogi gan dystiolaeth hyfywedd manwl sydd, naill ai'n manylu ar sut mae'r cynnig yn darparu'r cyfraniad mwyaf posib o dai fforddiadwy, neu'n manylu ar pam na ellir darparu unrhyw dai fforddiadwy.</p>	<p><b>Ydi</b> – mae'r datblygiad yn gyson â Pholisi TAI 15 ac felly nid oes angen asesiad pellach o ran y Gymraeg</p>	<p><b>Nac ydi</b> – Mae'r wybodaeth yn y Datganiad Hyfywedd Tai Fforddiadwy yn cyfiawnhau'r dull amgen, gan gynnwys sut bydd y datblygiad arfaethedig yn cynnal neu'n creu cymuned nodedig a chynaliadwy.</p>
<p>D2) Os yw'r datblygiad ar gyfer rhwng 2 – 4 o unedau tai (sef llai na'r trothwy ym maen prawf 1c ym Mholisi PS 1) ar safle y tu mewn i ffiniau datblygu Canolfan neu Bentref, a yw'r datblygiad yn darparu ar gyfer cartrefi prynu tro cyntaf (tai neu fflatiau), cartrefi teulu, cartrefi person hŷn.</p> <p><u>Arfer gwael</u></p> <p>Nid yw'r tai (math, maint a deiliadaeth) yn adlewyrchu gofynion presennol ac arfaethedig yr ardal.</p> <p><u>Arfer dda</u></p> <p>Mae'r tai (math, maint a deiliadaeth) yn briodol ar gyfer anghenion a nodwyd o fewn y gymuned sydd eisoes yn bodoli yn yr ardal, ond hefyd yn cyfarch y tueddiadau demograffig a ragwelir yn yr ardal.</p>	<p><b>Ydi</b> – mae'r datblygiad yn gyson â Pholisi TAI 8 ac felly nid oes angen asesiad pellach o ran y Gymraeg.</p>	<p><b>Nac ydi</b> – darparwch wybodaeth i ddangos sut mae'r datblygiad yn gyson â Pholisi TAI 8 y Cynllun</p>

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 5 Y Drefn Sgrinio**

<p>D3) Os yn berthnasol, a yw'r datblygiad yn darparu cymorth i ddarparu llefydd ysgol ychwanegol a/neu adnoddau ychwanegol mewn uned drochi iaith?</p> <p><u>Arfer gwael</u></p> <p>Dim tystiolaeth i ddangos sut byddai cynnydd disgwylidig yn y nifer o blant yn cael ei gyfarch.</p> <p><u>Arfer dda</u></p> <p>Cyflwynwyd tystiolaeth i ddangos cytundeb gyda'r awdurdod addysg bod capasiti digonol yn yr ysgol(ion) perthnasol a/neu'r uned drochi iaith berthnasol i ymdopi gyda'r cynnydd disgwylidig yn y nifer o blant yn sgil y datblygiad neu bod modd lliniaru'r effaith yn addas drwy ddarpariaeth ar y safle a/neu gyfraniadau.</p>	<p><b>Ydi</b> - rhowch wybodaeth berthnasol efo'r cais cynllunio (edrychwch ar CCA Ymrwymadau Cynllunio a CCA Cyfleusterau Addysgol i gael gweld y fformiwla berthnasol).</p>	<p><b>Nac ydi</b> – darparwch wybodaeth i ddangos sut mae'r datblygiad yn gyson â Pholisi ISA 1</p>
<p>D4) A yw'r gyfradd ddatblygu yn ystyried ac yn ymateb yn dda i argaeledd seilwaith cymdeithasol a ffisegol er mwyn sicrhau gallu'r gymuned leol i ymdopi â'r newid (Polisi ISA 1).</p> <p><u>Arfer gwael</u></p> <p>Dim tystiolaeth i ddangos pa ystyriaeth a roddwyd i effaith y gyfradd adeiladu arfaethedig ar wead cymdeithasol.</p> <p><u>Arfer dda</u></p> <p>Cyflwynwyd tystiolaeth i ddangos ymrwymiad, lle'n berthnasol, i ddatblygu'n raddol i sicrhau nad yw'r holl ddatblygiad yn digwydd ar yr un pryd er mwyn cynorthwyo i gymhathu trigolion newydd yn y gymuned bresennol a hwyluso cydlynid y gymuned.</p>	<p><b>Ydi</b> – rhowch wybodaeth berthnasol efo'r cais cynllunio, e.e. rhaglen datblygu fesul cam (os yn berthnasol).</p>	<p><b>Nac ydi</b> – darparwch wybodaeth i gefnogi eich dull o gyflawni'r datblygiad arfaethedig.</p>
<p>D5) Os yn berthnasol, a yw dyluniad y cynnig yn ystyried barn pob rhan berthnasol o'r gymuned leol, ac a ellir dangos hyn yn ddigonol drwy ddatblygiad y dyluniad?</p> <p><u>Arfer gwael</u></p> <p>Nid yw'r dyluniad wedi ystyried barn y gymuned leol ac nid yw wedi cwrdd ag unrhyw rai o ddisgwyliadau'r awdurdod lleol o ran trefniadau ymgysylltu.</p>	<p><b>Ydi</b> – rhowch wybodaeth berthnasol efo'r cais cynllunio, e.e. fel rhan o'r datganiad cynllunio, rhan ychwanegol o'r datganiad dylunio a mynediad, rhan o'r datganiad am ymgysylltu.</p>	<p><b>Nac ydi</b> – darparwch wybodaeth i gefnogi eich dull o gyflawni'r datblygiad arfaethedig.</p>

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 5 Y Drefn Sgrinio**

<p><u>Arfer dda</u></p> <p>Mae dyluniad y datblygiad wedi'i ddatblygu i ystyried barn y gymuned leol. Mae'r ymgysylltu a gynhaliwyd yn cydymffurfio â disgwyliadau'r awdurdod lleol.</p>		
<p><b>Dd) Datblygiad sy'n golygu colli cyfleuster cymunedol, e.e. neuadd bentref, ysgol, addoldy, tafarn</b></p>		
<p>Dd1) A yw'r cyfleuster cymunedol yn chwarae rôl i gynnal hunaniaeth a chynaliadwyedd y gymuned?</p> <p><u>Arfer gwael</u></p> <p>Nid oes cyfleuster cymunedol arall tebyg yn bodoli yn yr anheddle nac mewn anheddle arall y gellir teithio iddo yn hwylus.</p> <p><u>Arfer dda</u></p> <p>Mae cyfleuster cymunedol tebyg yn bodoli yn yr anheddle neu mewn anheddle arall y gellir teithio iddo yn hwylus neu mae'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys mesur lliniaru priodol.</p>	<p><b>Ydi</b> – rhowch wybodaeth berthnasol efo'r cais cynllunio, e.e. fel rhan o'r datganiad cynllunio, rhan ychwanegol o'r datganiad dylunio a mynediad, rhan o'r datganiad am ymgysylltu.</p>	<p><b>Nac ydi</b> – dim angen asesiad pellach o ran y Gymraeg.</p>

Nodyn cyngor i fusnesau:

Mae gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wybodaeth ar ei gwefan am fanteision y Gymraeg, enghreifftiau o arfer dda a phrofiadau busnesau ac elusennau o ddefnyddio'r Gymraeg. Cyfeirir hefyd at gymorth ymarferol sydd ar gael ar ffurf canllawiau amrywiol ar sut i fynd ati i ddefnyddio'r Gymraeg a thystiolaeth ac ymchwil i ddangos gwerth y Gymraeg. Gan ddefnyddio calendr y Swyddfa, gallwch hefyd ddod o hyd i ddigwyddiadau a sesiynau hyfforddiant defnyddiol. Fel rhan o'r pecyn gwybodaeth, ceir holiadur i wneud hunanasesiad o'r busnes, o safbwynt y Gymraeg yn y busnes.

<http://www.comisiynyddygybraeg.cymru/hybu/cy/hafan/Pages/hafan.aspx>



**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT YMGYNGHOROL - Atodiad 6 Gweithgareddau i liniaru a gwella effeithiau ieithyddol  
datblygiad**

- 1) Diben y **cam creu barn gychwynnol/rhestr sgrinio** yn ystod y cam cyn cyflwyno cais cynllunio yw gweld p'un a yw'r datblygiad arfaethedig yn cyrraedd y trothwyon ym meini prawf 1 a 2 Polisi PS 1, ac i ysgogi ymgeisydd na fydd yn cyrraedd y trothwyon hynny i ystyried mesurau fyddai'n gallu cael eu hymgorffori yn ei ddatblygiad.
- 2) Rôl y **Datganiad Iaith Gymraeg** (gweler diagram 6 ac Atodiad 7) yw rhoi gwybodaeth am ddatblygiad arfaethedig sy'n cwrdd â maen prawf 1 a - c Polisi PS 1. Yn ddibynnol ar gasgliadau'r Datganiad, bydd angen adnabod mesurau i'w rhoi ar waith i sicrhau bod y datblygiad yn cwrdd â gofynion polisiâu perthnasol y Cynllun, gan gynnwys Polisi PS 1.
- 3) Os yw datblygiad arfaethedig yn cyrraedd maen prawf 2 Polisi PS 1, bydd angen cyflwyno adroddiad am **Asesiad Effaith Iaith Gymraeg** i gyflwyno'r cyd-destun ac egluro pa fesurau a roddir ar waith i helpu i amddiffyn, hybu a gwella sefyllfa'r iaith Gymraeg, gan roi ystyriaeth i'r datblygiad arfaethedig a'r gymuned leol (gweler diagram 7 ac Atodiad 8).
- 4) Yn achos y Datganiad a'r Asesiad, bydd cynnal yr asesiad mor fuan â phosib wrth baratoi'r cais cynllunio, yn ogystal ag ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn helpu i adnabod cyfleoedd i leihau risg neu uchafu buddion drwy weithgareddau lliniaru posib.

Rhestr o weithgareddau posib

- 5) Mae'r rhestr nesaf yn cynnwys enghreifftiau o weithgareddau posib i liniaru effeithiau ieithyddol datblygiad yn ogystal â mesurau gwella i sicrhau buddion ehangach o'r datblygiad y gellid eu cynnwys mewn ceisiadau cynllunio. Nid yw'r rhestr hon yn gwbl gynhwysfawr, ac felly dylid ei defnyddio fel canllaw yn hytrach na rhestr gyflawn, gynhwysfawr o ofynion. Dylid nodi y gall mesurau lliniaru neu wella fod yn berthnasol i ddatblygiadau arfaethedig ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn y Cynllun yn ogystal â'r rheiny sydd heb eu dynodi (sef, (i) rhai ar hap lle'r ystyriwyd eu cyfraniad ar adeg paratoi'r Cynllun, a (ii) y rhai ar hap sy'n cael eu disgrifio fel rhai annisgwyl – gweler diagram 7 ac Atodiad 8 yn rhan D y Canllaw hwn.
- 6) **Bydd yn hanfodol bod cyswllt uniongyrchol rhwng yr hyn a geisir yn y mesur a'r caniatâd cynllunio. Bydd yn bwysig sicrhau fod yr hyn y gofynnir amdano yn rhesymol mewn perthynas â maint a natur y cynnig, nad yw'n gwneud y datblygiad yn annichonadwy, ac nad yw'n ymwneud â hunaniaeth neu nodweddion personol defnyddiwr y tir.** Bydd rhai cynigion, fel datblygiad sy'n cynnwys tai fforddiadwy digonol, yn cynnwys mesurau lliniaru wedi'u hymgorffori ac felly ni fyddai angen rhagor o fesurau.
- 7) Disgwylir i ymgeisydd gysylltu gyda swyddogion cymwys (e.e. swyddogion cynllunio, datblygu'r iaith Gymraeg, tai, ac addysg) o fewn yr Awdurdodau a/neu gyda'r Mentrau Iaith mor fuan â phosib yn y broses o baratoi cais cynllunio er mwyn trafod mesurau lliniaru a gwella.

Tabl A: Rhestr o enghreifftiau o weithgareddau posib

TAI	
i.	Bod nifer y tai sydd i'w codi yn cael eu codi ychydig ar y tro, neu fesul cam, drwy ystyried tafluniad tai'r Cynllun yn Atodiad 10 y Cynllun;
ii.	Darparu mathau tai (gan gynnwys tai fforddiadwy) sy'n cyd-fynd â chasgliadau astudiaethau angen am dai lleol, cofrestr tai, cofrestr Tai Teg, rhagolygon aelwydydd diweddaraf Llywodraeth Cymru, neu ffynhonnell briodol arall o wybodaeth am

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT YMGYNGHOROL - Atodiad 6 Gweithgareddau i liniaru a gwella effeithiau ieithyddol  
datblygiad**

	anghenion y farchnad dai lleol (gweler Polisi TAI 8 a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Cymysgedd Tai a Pholisi TAI 15 a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Tai Fforddiadwy);
iii.	Darparu tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol sy'n cyd-fynd â gofynion y Cynllun (gweler Polisi TAI 15 a Pholisi TAI 16 a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Tai Fforddiadwy);
iv.	Darparu tai marchnad leol sy'n cyd-fynd â gofynion y Cynllun (Polisi TAI 5) a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Tai Marchnad Leol;
v.	Cytundebau gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ddarparu ar gyfer y gofrestr tai lleol (gweler Canllaw Cynllunio Atodol: Tai Fforddiadwy);
vi.	Enwi strydoedd/datblygiadau gan roi ystyriaeth i dreftadaeth ieithyddol lleol (gweler Polisi PS1 a rhan D.16 y Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy);
vii.	Cefnogi ac ariannu gweithgareddau lle gall rhieni gael cyfle i glywed y Gymraeg efo'u plant, e.e. Cylch Ti a Fi a darpariaeth Gymraeg i Blant (gweler Polisi ISA 1 a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Ymrwymadau Cynllunio);
viii.	Cefnogi ac ariannu llefydd mewn ysgol ac/neu ganolfan drochi (gweler Polisi ISA 1 a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Ymrwymadau Cynllunio);
ix.	Cefnogi ac ariannu gweithgareddau anffurfiol lle gall plant bach (cyn oed ysgol) a phlant ysgol gael cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg (gan gynnwys fel dysgwyr), e.e. hyfforddiant pêl-droed, clybiau ieuencid, clybiau gwyliau ysgol (gweler Polisi ISA 1 a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Ymrwymadau Cynllunio);

<b>CYFLOGAETH</b>	
x.	Enwi datblygiadau gan roi ystyriaeth i dreftadaeth ieithyddol lleol (gweler Polisi PS 1 a rhan D.16 y Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy);
xi.	Darparu arwyddion dwyieithog mewn mannau cyhoeddus (gweler Polisi PS 1 a rhan D.15 y Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy);
xii.	Cefnogi ac ariannu mentrau cyflogaeth a hyfforddi sgiliau lleol (gweler Polisi ISA 1 a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Ymrwymadau Cynllunio);
xiii.	Cefnogi ac ariannu cyfleusterau/grwpiau cymunedol a mentrau/prosiectau diwylliant ac iaith sydd yn yr ardal leol i annog gweithwyr i ddefnyddio'r iaith (gan gynnwys fel dysgwyr) o fewn eu cymunedau (gweler Polisi ISA 1 a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Ymrwymadau Cynllunio);

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT YMGYNGHOROL - Atodiad 6 Gweithgareddau i liniaru a gwella effeithiau ieithyddol  
datblygiad**

xiv.	Cefnogi ac ariannu cyrsiau cyflwyno iaith a gwersi iaith i aelodau staff, e.e. cyrsiau byr wedi'u targedu at anghenion y cyflogwr a'r gweithwyr (gweler Polisi ISA 1 a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Ymrwymadau Cynllunio);
xv.	Cefnogi ac ariannu cyrsiau 'Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith' ar gyfer staff er mwyn codi ymwybyddiaeth o gyd-destun y Gymraeg a natur cymdeithas ddwyieithog yng Ngwynedd a Môn (gweler Polisi ISA 1 a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Ymrwymadau Cynllunio);
xvi.	Darparu gwybodaeth er mwyn codi ymwybyddiaeth darpar gyflogeion am y Gymraeg, natur ddwyieithog cymunedau Gwynedd a Môn a pholisi addysg y Cyngor wrth recriwtio a sefydlu staff newydd (gweler Polisi ISA 1 a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Ymrwymadau Cynllunio);
xvii.	Mabwysiadu polisi/cynllun iaith gwirfoddol neu statudol sy'n egluro sut fydd y cyflogwr yn sicrhau na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg (gweler Polisi ISA 1 a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Ymrwymadau Cynllunio).

<b>CYFLEUSTERAU A GWASANAETHAU CYMUNEDOL</b>	
i.	Enwi datblygiadau gan roi ystyriaeth i dreftadaeth ieithyddol leol (gweler Polisi PS 1 a rhan D.16 y Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy);
ii.	Darparu arwyddion dwyieithog mewn mannau cyhoeddus (gweler Polisi PS 1 a rhan D.15 y Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy);
iii.	Cefnogi ac ariannu mentrau cyflogaeth a hyfforddi sgiliau lleol (gweler Polisi ISA 1 a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Ymrwymadau Cynllunio);
iv.	Cefnogi ac ariannu cyfleusterau/grwpiau cymunedol a mentrau/prosiectau diwylliant ac iaith sydd yn yr ardal leol i annog gweithwyr i ddefnyddio'r iaith (gan gynnwys fel dysgwyr) o fewn eu cymunedau (gweler Polisi ISA 1 a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Ymrwymadau Cynllunio);
v.	Cefnogi ac ariannu cyrsiau cyflwyno iaith a gwersi iaith i aelodau o staff, e.e. cyrsiau byr wedi'u targedu at anghenion y cyflogwr a'r gweithwyr (gweler Polisi ISA 1 a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Ymrwymadau Cynllunio);
vi.	Cefnogi ac ariannu cyrsiau 'Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith' ar gyfer staff er mwyn codi ymwybyddiaeth o gyd-destun y Gymraeg a natur cymdeithas ddwyieithog yng Ngwynedd (gweler Polisi ISA 1 a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Ymrwymadau Cynllunio);
vii.	Darparu gwybodaeth er mwyn codi ymwybyddiaeth darpar cyflogai am y Gymraeg, natur ddwyieithog cymunedau Gwynedd a Môn a pholisi addysg y Cyngor wrth recriwtio a sefydlu staff newydd (gweler Polisi ISA 1 a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Ymrwymadau Cynllunio);
viii.	Mabwysiadu polisi/cynllun iaith gwirfoddol neu statudol sy'n egluro sut fydd y cyflogwr yn sicrhau na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg (gweler Polisi ISA 1 a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Ymrwymadau Cynllunio);

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT YMGYNGHOROL - Atodiad 6 Gweithgareddau i liniaru a gwella effeithiau ieithyddol  
datblygiad**

<b>ISADEILEDD TELATHREBU A GWYBODAETH</b>	
i.	Enwi datblygiadau gan ystyried treftadaeth ieithyddol lleol (gweler Polisi PS1 a rhan D.16 y Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy);
ii.	Darparu arwyddion dwyieithog mewn mannau cyhoeddus (gweler Polisi PS 1 a rhan D.15 y Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy);
iii.	Cefnogi ac ariannu cyfleusterau/grwpiau cymunedol a mentrau/prosiectau diwylliant ac iaith sydd yn yr ardal leol i annog gweithwyr i ddefnyddio'r iaith (gan gynnwys fel dysgwyr) o fewn eu cymunedau (gweler Polisi ISA 1 a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Ymrwymadau Cynllunio);
iv.	Mabwysiadu polisi/cynllun iaith gwirfoddol neu statudol sy'n egluro sut fydd y cyflogwr yn sicrhau na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg (gweler Polisi ISA 1 a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Ymrwymadau Cynllunio);

<b>YNNI ADNEWYDDADWY</b>	
i.	Enwi datblygiadau gan roi ystyriaeth i dreftadaeth ieithyddol lleol (gweler Polisi PS1 a rhan D.16 y Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy);
ii.	Darparu arwyddion dwyieithog mewn mannau cyhoeddus (gweler Polisi PS 1 a rhan D.15 y Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy);
iii.	Cefnogi ac ariannu mentrau cyflogaeth a hyfforddi sgiliau lleol (gweler Polisi ISA 1 a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Ymrwymadau Cynllunio);
iv.	Cefnogi ac ariannu cyfleusterau/grwpiau cymunedol a mentrau/prosiectau diwylliant ac iaith sydd yn yr ardal leol i annog gweithwyr i ddefnyddio'r iaith (gan gynnwys fel dysgwyr) o fewn eu cymunedau (gweler Polisi ISA 1 a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Ymrwymadau Cynllunio);
v.	Mabwysiadu polisi/cynllun iaith gwirfoddol neu statudol sy'n egluro sut fydd y cyflogwr yn sicrhau na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg (gweler Polisi ISA 1 a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Ymrwymadau Cynllunio);

- 8) Bydd yn rhaid i'r caniatâd gynnwys y mesurau naill ai drwy amodau cynllunio neu drwy ymrwymadau Adran 106. **Fel pob amod neu ymrwymiad arall, bydd yn rhaid iddynt fod yn angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio ac ymwneud yn uniongyrchol â'r datblygiad yn unol â'r rheoliadau/cyfraith sy'n ymwneud â'r pwnc (gweler Atodiad 3 sy'n cyfeirio at ddogfennau perthnasol).** Mae'n bwysig nodi na ellir sicrhau unrhyw ofyniad i dalu cyfansymiau gohiriedig drwy amod cynllunio a byddai angen eu sicrhau drwy ymrwymiad Adran 106.

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT YMGYNGHOROL - Atodiad 6 Gweithgareddau i liniaru a gwella effeithiau ieithyddol  
datblygiad**

- 9) Yn seiliedig ar gasgliadau'r Datganiad Iaith Gymraeg a'r adroddiad Asesiad Effaith Iaith Gymraeg a math y datblygiad, a chan gadw'r gofynion cynllunio a ddisgrifir ym mharagraff 7 uchod mewn cof, gellir defnyddio'r enghraifft a ganlyn o amod cynllunio:
- Ni ddylai unrhyw ddatblygiad ddechrau hyd nes bod cynllun i liniaru effeithiau'r datblygiad ar yr iaith Gymraeg wedi ei gyflwyno a'i gymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd y cynllun lliniaru yn cynnwys a, b, c, ac ati, ac yn cynnwys amserlen ar gyfer gweithredu'r mesurau lliniaru. Dylai'r mesurau lliniaru gael eu gweithredu fel y'u cymeradwywyd o fewn yr amserlen(ni) a nodir yn y cynllun lliniaru.
- 10) Nodwch hefyd y gall yr Awdurdodau godi Ardoll Seilwaith Cymunedol ar ddatblygiadau newydd er mwyn talu am seilwaith sy'n angenrheidiol ar gyfer twf megis gwella ffyrdd a pharciau/mannau agored neu ddarparu gwasanaethau iechyd newydd. Codir yr ardoll ar ddatblygiadau newydd ac mae'n ddibynnol ar faint a natur y datblygiad newydd. Bydd yr Awdurdodau'n paratoi gwaith ymchwil i'r maes ac yn edrych ar gysylltiadau rhwng isadeiledd cymunedol a'r iaith Gymraeg a sut y gallai datblygiadau newydd gyfrannu at hyn. Mae'r Strategaethau Iaith ar gyfer Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn, ynghyd â'r Cynlluniau Llesiant Lleol, yn berthnasol er mwyn ystyried unrhyw brosiectau perthnasol y gellir eu hariannu.

**Pa bryd fydd angen paratoi Datganiad Iaith Gymraeg?**

1. Mae paragraff C.16 a Diagramau 5 a 6 wedi disgrifio'n gryno pa bryd fydd angen Datganiad Iaith Gymraeg a'i bwrpas.
2. I'ch atgoffa, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd gwblhau Datganiad Iaith Gymraeg ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau yn unol â Pholisi PS 1 – Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig. Gellir gweld copi cyflawn o'r Polisi yn Atodiad 1 y Canllaw Cynllunio Atodol hwn. Er hwylustod, dyma'r meini prawf sy'n darparu'r trothwy ar gyfer yr angen i baratoi Datganiad Iaith Gymraeg:

**Bydd gofyn am Ddatganiad Iaith Gymraeg fydd yn dweud sut bydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg, pan fydd y datblygiad arfaethedig yn perthyn i un o'r categorïau canlynol:**

- a. Datblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol sy'n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a/ neu gydag arwynebedd o 1,000 m. sg. neu fwy; neu
  - b. Datblygiad preswyl a fydd un ai ar ben ei hun neu yn gronol yn darparu mwy na'r ddarpariaeth tai dangosol a osodwyd ar gyfer yr anheddle ym Mholisi TAI 1 - TAI 6; neu
  - c. Datblygiad preswyl o 5 o unedau tai neu fwy ar safleoedd a ddynodwyd neu safleoedd ar hap du mewn i ffiniau datblygu nad yw'n mynd i'r afael â thystiolaeth o angen a galw am dai a gofnodir mewn Asesiad Marchnad Tai a ffynonellau tystiolaeth leol berthnasol eraill.
3. Mae paratoi Datganiad iaith Gymraeg i'w gyflwyno gyda chais yn cynnig nifer o fanteision, yn arbennig fel arf ar gyfer arddangos a chyfathrebu bod ystyriaeth ddigonol wedi cael ei rhoi i'r iaith yn ystod y broses o lunio cynnig. Mae'n ofynnol dangos p'un a yw datblygiad yn mynd i gyfrannu at greu hinsawdd cymdeithasol a'r amodau sy'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned leol. Mae'n caniatáu i'r Awdurdod weld p'un a yw'r cynnig yn bodloni amcanion a pholisïau'r Cynllun. Bydd yn gymorth i'r ymgeisydd, ac yna i'r awdurdod, benderfynu pa fesurau sy'n ofynnol (wedi'u hymgorffori neu eu rheoli'n gan amod cynllunio neu gytundeb 106) i ddileu neu leihau effeithiau negyddol neu i wella'r effaith gadarnhaol. Bydd hefyd yn galluogi'r Awdurdod i benderfynu p'un a fyddai'r datblygiad yn cael effaith negyddol ar yr iaith a'r gymuned i'r graddau lle byddai'n cyfiawnhau gwrthod y cais.
  4. Os yw'r datblygiad yn un 'mawr' o dan gategori a. uchod (h.y. datblygiad busnes gydag adeilad arwynebedd llawr o 1,000 m. sg. neu fwy) neu o dan gategori b neu c uchod, (h.y. yn golygu darparu 10 neu fwy o unedau tai) yn ôl Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016 (gweler diagram 4 y Canllaw Cynllunio Atodol), bydd yn rhaid ymgymryd â phroses Ymgynghori statudol Cyn Cyflwyno cais cynllunio. Bydd angen cyflwyno Datganiad Cyfranogiad Cyhoeddus efo'r cais cynllunio fydd yn cynnwys gwybodaeth am yr ymgysylltu, am farn y rhai a ymatebodd i'r broses ymgysylltu a'r newidiadau fydd wedi'u gwneud i'r datblygiad, os yw'n berthnasol gwneud hynny wedi ystyried y farn a gafwyd. Pan fydd angen Ymgynghoriad statudol Cyn Cyflwyno cais cynllunio, disgwylir i'r ymgeisydd baratoi Datganiad Iaith Gymraeg fel rhan o'r cynnig drafft ar gyfer yr ymgynghoriad cyn cyflwyno cais a dylid

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 7: Methodoleg ar gyfer paratoi Datganiad Iaith Gymraeg**

croesgyfeirio at y Datganiad iaith Gymraeg fel rhan o'r Datganiad Cyfranogiad Cyhoeddus.

5. Os yw'r datblygiad yn ddatblygiad preswyl o dan gategori b., gofynnir i'r ymgeisydd gysylltu â'r Gwasanaeth Cynllunio am arweiniad pellach ar sut fath o Ddatganiad iaith Gymraeg sydd ei angen.

**Pwrpas y Datganiad Iaith Gymraeg**


6. Pwrpas y Datganiad yw sefydlu effaith debygol y datblygiad arfaethedig ar gymunedau yn gyffredinol, ac ar yr iaith Gymraeg yn fwy penodol ac, os yn briodol, adnabod mesurau fydd naill ai'n lliniaru effeithiau negyddol neu'n diogelu/gwella/lledaenu effeithiau cadarnhaol. Bydd yn cynorthwyo i sicrhau bod goblygiadau ieithyddol datblygiad arfaethedig perthnasol wedi cael eu deall yn llawn cyn y gwneir penderfyniad ar y cais cynllunio. Bydd graddfa a chyfnod yr effeithiau (cadarnhaol a negyddol) yn dibynnu ar natur a math y datblygiad a'r berthynas fydd rhyngddo a'r gymuned. Mae'r Datganiad yn broses strwythuredig sy'n caniatáu i'r iaith Gymraeg gael ei hystyried wrth ystyried cynigion am newid. Dylid cynnwys y wybodaeth, y dadansoddiad a chanlyniadau'r Datganiad iaith Gymraeg mewn adroddiad strwythuredig.
7. Mae'r Fethodoleg a ddisgrifir yn yr Atodiad hwn yn dilyn tri cham. Dyma'r fethodoleg y bydd yn rhaid ei dilyn ar gyfer ymgymryd â'r Datganiad. Mae'n broses lle mae gwybodaeth am effeithiau tebygol datblygiad arfaethedig yn cael eu casglu, eu coladu, eu hasesu a'u hystyried gan yr ymgeisydd, fel rhan o'r gwaith o lunio'r cynnig. Bydd y fethodoleg hefyd yn cael ei gwirio gan swyddogion cymwys o fewn yr Awdurdod cyn i'r sawl fydd yn gwneud penderfyniad benderfynu p'un a ddylid rhoi caniatâd neu beidio.
8. Dylai'r lefel o fanylder sy'n ofynnol fod yn gymesur â graddfa'r datblygiad. Gofynnir i'r ymgeisydd ystyried cyflogi unigolyn cymwys i'w gynorthwyo i wneud y gwaith. Gweler Ffigur 1 y Canllaw Cynllunio Atodol am arweiniad ynghylch yr hyn a olygir wrth unigolyn cymwys. Bydd yr angen am gymorth unigolyn cymwys yn dibynnu ar faint a math y datblygiad.

**Pwy ddylai baratoi'r asesiad ar gyfer y Datganiad Iaith Gymraeg?**

9. Disgwylir i ymgeisydd gyflogi unigolyn cymwys neu grŵp o ymgynghorwyr fydd yn cynnwys unigolyn cymwys i ymgymryd â'r gwaith. Bydd gwneud hynny'n sicrhau cyflawnrwydd ac ansawdd y Datganiad a'r adroddiad amdano. Disgwylir i'r Datganiad amlinellu arbenigedd perthnasol yr unigolyn cymwys, ei gymwysterau neu ei brofiad, fydd yn ddigonol i ddangos bod hyn yn wir. Mae Diagram 9, Adran 2 y Canllaw Cynllunio Atodol yn disgrifio 'unigolyn cymwys' o safbwynt yr iaith Gymraeg, sy'n cynnwys unigolion gyda chymhwyster Cynllunio iaith achrededig, neu gymhwyster, profiad neu hyfforddiant mewn ymchwil am feysydd cynllunio ieithyddol, a chymhwyster Cynllunio Gwlad a Thref. Yr ymgeisydd fydd yn gyfrifol am dalu am y gwaith sy'n gysylltiedig â pharatoi'r Datganiad.

### Y fethodoleg – proses ac asesu

10. Mae'r siart llif yn Ffigur 7.1 isod yn crynhoi'r fethodoleg i'w defnyddio i ymgymryd â'r gwaith sy'n gysylltiedig â pharatoi Datganiad Iaith Gymraeg. Rhoddir disgrifiad manwl o'r fethodoleg yn y paragraffau a'r tablau sy'n dilyn y siart llif.



Ffigur 7.1: Y fethodoleg i'w defnyddio ar gyfer paratoi Datganiad Iaith Gymraeg

11. Rhaid cwblhau'r Datganiad Iaith Gymraeg drwy gynnwys y wybodaeth ar gyfer Cam 1 a 2 yn Ffigur 7.1 ac yna drin a thrafod y materion allweddol a restrir yng Ngham 3 (yn ôl y galw), gan ddarparu cymaint o dystiolaeth ysgrifenedig â phosib.
12. Mae'r materion sy'n berthnasol i ystyriaethau cynllunio defnydd tir yn ymwneud â mannau sy'n bwysig i allu trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref a mannau sy'n bwysig i gynnal a chreu cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio a dysgu Cymraeg. Gellir cynnwys gwybodaeth am unrhyw fater arall y credwch ei fod yn angenrheidiol.

### Methodoleg paratoi Datganiad Iaith Gymraeg

13. Mae'n ofynnol dilyn y Fethodoleg hon i ystyried a dangos sut all y datblygiad arfaethedig effeithio'n negyddol ac/neu'n gadarnhaol ar y cyfleoedd i drosglwyddo a defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned leol a'r ardal leol.



**CAM 1: CASGLU, COFNODI A DADANSODDI GWYBODAETH AM Y GYMUNED A'R ARDAL LEOL**

**Beth yw proffil poblogaeth, aelwydydd a thai?**

14. Rhaid ystyried natur ddemograffig leol (e.e. genedigaethau, marwolaethau, patrymau (niferoedd a chanrannau) mudo, oedran, incwm, amddifadedd) yr anheddle a'r ardal Cyngor Cymuned/ Dinas/Tref lle lleolir safle'r cais er mwyn deall sut y gallai'r datblygiad arfaethedig effeithio ar y gymuned, gan gynnwys newidiadau dros amser ac effeithiau cronus. Bydd nifer ac oedran y siaradwyr Cymraeg ar adeg cyflwyno'r cais cynllunio ac yn y gorffennol yn ffactorau critigol. Rhaid edrych, nid yn unig ar nifer a chanran y siaradwyr yn yr ardal yn gyffredinol, ond, er enghraifft, ar raniad y siaradwyr hynny yn ôl grŵp oedran er mwyn deall beth allai effaith datblygiad fod ar gyfansoddiad ieithyddol pobl yr ardal. Dylid hefyd ddadansoddi data am batrymau trosglwyddo iaith yn y cartref o fewn y gymuned leol. Yn dibynol ar fath y datblygiad dan sylw, rhaid deall natur y farchnad lafur a natur y farchnad dai leol. Sut fydd y datblygiad yn effeithio ar y marchnadoedd hyn? A fydd, er enghraifft, yn cynnig cyfleodd cyflogaeth nad ydynt wedi bod ar gael yn yr ardal yn flaenorol? Bydd y proffil poblogaeth, aelwydydd a thai yn helpu i ddangos pam fod angen y datblygiad a phwy sy'n debygol o gael ei effeithio'n negyddol gan y datblygiad neu fanteisio ohono. Mae Atodiad 2 a 3 y Canllaw Cynllunio Atodol yn cyfeirio at wahanol ffynonellau data a gwybodaeth. Mae'r data a'r wybodaeth ar gael ar sail sawl haen ofodol, e.e. ar sail ward, Cyngor Cymuned, Awdurdod Lleol a Chymru gyfan.
15. Bydd yn rhaid rhoi datganiad byr am eich dealltwriaeth o'r materion hyn yn y Datganiad Iaith Gymraeg.

**Proffil o'r isadeiledd lleol (cyfleusterau a gwasanaethau)**

16. Rhaid ystyried beth yw'r cyfleusterau sydd ar gael yn lleol at ddefnydd cyhoeddus - siopau, meddygfeydd a gwasanaethau cyhoeddus eraill, a chanolfannau cymunedol, neuaddau, ysgolion, ac ati. Pa rai o'r cyfleusterau hyn sy'n cynnig gwasanaethau neu weithgareddau yn y Gymraeg a sut fyddai eich datblygiad chi yn ychwanegu at y ddarpariaeth yn y cyfleusterau hyn? Rhowch grynoded byr o'r sefyllfa yn eich Datganiad Iaith Gymraeg. Mae Papur Testun 5 a baratowyd i gefnogi gwaith paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol yn un ffynhonnell wybodaeth am argaeledd cyfleusterau a gwasanaethau fesul anheddle. Gellir gweld hwn ar lein yn Llyfrgell Archwiliad y Cynllun Datblygu Lleol. Bydd eich gwybodaeth leol am yr anheddle yn rhoi'r wybodaeth fwyaf cyfredol am yr anheddle neu fe ddylech gysylltu â'r Cyngor Cymuned neu Dref, gan y bydd ganddynt wybodaeth sydd ond ar gael yn lleol.
17. Bydd yn rhaid rhoi datganiad byr am eich dealltwriaeth o'r materion hyn yn y Datganiad Iaith Gymraeg

### **Ymgysylltu â'r gymuned leol ac eraill**

18. Dangoswch sut yr ydych wedi ymgynghori ac ymgysylltu â'r budd-ddeiliaid lleol perthnasol ynghylch eich cynnig. Gall budd-ddeiliaid lleol gynnwys cymdogion, grwpiau cymunedol a gwirfoddol, grwpiau penodol (all gynnwys mentrau iaith), y Cyngor Cymuned, yr Aelod Lleol neu Wasanaethau o fewn y Cyngor sydd â gwybodaeth berthnasol am yr anhedde lle lleolir y datblygiad. Gweler manylion cyswllt defnyddiol yn Atodiad 4 y Canllaw hwn. Mae'r iaith Gymraeg yn nodwedd bwysig ar draws yr holl gymunedau sydd ym Môn a Gwynedd. Disgwylir i ymgeisydd ddarparu gwybodaeth yn ddwyieithog, gan roi blaenoriaeth i'r iaith Gymraeg. Dylai ymgeisydd bob amser fod yn barod i dderbyn ymatebion i waith ymgysylltu ac ymgynghori yn y Gymraeg. Bydd graddfa'r ymgysylltu yn dibynnu ar fath a graddfa'r datblygiad sydd dan sylw. Mae'r gofynion deddfwriaethol yn nodi'r lleiafswm o ymgynghori sydd angen ei wneud ar gyfer datblygiad mawr a sut i gyflwyno gwybodaeth am yr ymgynghori. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi [canllaw arfer dda](#) ar gyfer ymgynghori â'r gymuned wrth ymgynghori cyn cyflwyno ceisiadau mawr. Mae Cymorth Cynllunio Cymru (ar ran Llywodraeth Cymru) hefyd wedi cyhoeddi [llawlyfr](#) ar gyfer cynghorau cymuned a thref, grwpiau cymunedol ac unigolion sydd eisiau deall ac ymateb i ymgynghoriadau cyn gwneud cais.
19. Os nad yw'r datblygiad yn un 'mawr' yn ôl y Gorchymyn y cyfeirir ato uchod, dylech gyflwyno datganiad byr am y camau a'r dulliau ymgysylltu fel rhan o'r Datganiad Iaith Gymraeg. Gall pob datblygiad, waeth beth fo'i faint, elwa o ymgysylltu effeithiol ac mae canllawiau Llywodraeth Cymru/Cymorth Cynllunio Cymru a ddisgrifir uchod yr un mor berthnasol i ddatblygiadau nad ydynt yn rhai 'mawr' o ran arfer dda. Mae'r ymgynghori a'r ymgysylltu yn gyfle i chi rannu'ch cynnig dechreuol â'r budd-ddeiliaid lleol a'i egluro wrthynt cyn i chi gyflwyno cais ffurfiol, a chael cefnogaeth gan y gymuned os yw'n bosib. Ni fydd llwyddiant y cais cynllunio yn dibynnu'n llwyr ar gefnogaeth gan y gymuned.

### **CAM 2: CASGLU, COFNODI A DADANSODDI GOFYNIION POLISI**

#### **Y cefndir polisi**

20. Mae cyd-destun polisiâu cyhoeddus yn dylanwadu ar fywydau beunyddiol cymunedau, boed hynny ar lefel sirol, lefel ranbarthol, lefel genedlaethol neu lefel ryngwladol. Wrth fynd ati i lunio datblygiad arfaethedig mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o ba bolisiâu cynllunio defnydd tir yn y Cynllun Datblygu Lleol a pha ganllawiau cynllunio atodol all effeithio ar y datblygiad. Yn ogystal â hynny, byddai'n ddefnyddiol bod yn ymwybodol o ba bolisiâu cyhoeddus eraill sy'n gadarnhaol o blaid y Gymraeg. Mae Atodiad 3 yn cyfeirio at enghreifftiau o ddogfennau polisi defnyddiol ar adeg ysgrifennu'r canllaw hwn. Bydd angen gwirio p'un a oes datblygiadau polisi mwy diweddar yn bodoli ar adeg paratoi'r datganiad.
21. Dylech gynnwys datganiad byr am eich dealltwriaeth o'r materion hyn yn y Datganiad Iaith Gymraeg.

**CAM 3: DEFNYDDIO GWYBODAETH O GAM 1 A 2**

**Nodweddion y datblygiad arfaethedig**

22. Disgrifiwch y cais a pham yr ydych yn credu ei fod yn gyson â pholisïau lleol a chenedlaethol ac yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg yn y gymuned/ardal leol. Os oes unrhyw effeithiau negyddol yn debygol, dylid nodi hynny. Y man cychwyn fydd dangos yn glir fod y cais yn gyson â'r Cynllun Datblygu Lleol. Dylech wneud hyn, nid yn unig drwy restru amcanion a pholisïau perthnasol yn y Cynllun, ond hefyd drwy gynnwys cyfiawnhad llawn dros y cynnig a sut fydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at weithredu'r Cynllun, drwy gyfeirio at y materion allweddol isod. Os bydd unrhyw effeithiau negyddol tebygol, dylid adnabod yr effeithiau hynny a chynnig dulliau lliniaru a digolledu.

**Materion allweddol i'w hystyried**

23. Dylai gweddill y Datganiad Iaith Gymraeg drin a thrafod y materion allweddol a ddangosir yn y tabl isod, wrth gyfeirio at eich dehongliad o'r wybodaeth a gasglwyd am y gymuned (y cyfeirir ato uchod) a'ch gwybodaeth chi am y cais cynllunio. Mae'r materion allweddol yn gysylltiedig â'r manau sy'n bwysig i allu trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref a'r manau sy'n bwysig i gynnal a chreu cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio a dysgu Cymraeg.

**IAITH A SYMUDEDD POBLOGAETH (mae'r mater hwn yn gyffredin i ddatblygiadau Tai a datblygiadau Cyflogaeth)**

Eglurwch, gyda thystiolaeth lawn o'ch proffiliau o Gam 1 a'ch dadansoddiad o Gam 2, sut mae'r datblygiad yn debygol o effeithio ar y Boblogaeth o safbwynt cyfrannu neu effeithio ar y cyfansoddiad ieithyddol. Dylech sôn am yr hyn a ganlyn:

- Sut mae'r datblygiad yn mynd i sicrhau cyfleoedd i bobl aros yn eu cymuned?
- A oes tebygolrwydd y bydd y datblygiad yn denu pobl i'r gymuned? Os oes, beth yw'r nifer a ddisgwylir? Faint a pha ganran ohonynt sy'n debygol o fod yn siarad Cymraeg?
- A oes tebygolrwydd y bydd pobl leol yn ymfudo o'r gymuned o ganlyniad i'r datblygiad?
- Cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg (gan gynnwys dysgwyr) ac unigolion sydd heb unrhyw allu yn Gymraeg
- A yw'r datblygiad yn debygol o arwain at newid yn strwythur oedran y gymuned: mwy neu lai o blant, pobl ifanc, pobl canol oed, pobl hŷn?
- A fydd y newid yn debygol o fod yn barhaol neu'n un dros dro?

**ELFENNAU GWELEDOL (mae'r mater hwn yn gyffredin i ddatblygiadau Tai a datblygiadau Cyflogaeth)**

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 7: Methodoleg ar gyfer paratoi Datganiad Iaith Gymraeg**

**Eglurwch, gyda thystiolaeth o'ch proffiliau o Gam 1 a'ch dadansoddiad o Gam 2, sut fydd y datblygiad yn effeithio ar Welededd yr iaith yn yr ardal, o ran hybu diwylliant unigryw'r ardal. Dylech sôn am yr hyn a ganlyn:**

- A fydd y datblygiad yn cynyddu amlygrwydd yr iaith yn weledol?
- Delwedd gorfforaethol a brandio - arwyddion a hysbysebion ar y safle sydd dan reolaeth cynllunio, e.e. arwydd hysbysebu/marchnata safle tai newydd, arwyddion a hysbysebion i gwsmeriaid mewn mannau cyhoeddus ar safle cyflogaeth
- Enw'r safle neu'r datblygiad – a fydd yn cadw'r hen enw Cymraeg neu a fydd unrhyw enw newydd yn deillio o gysylltiadau hanesyddol, daearyddol neu leol i'r ardal, os yn ymarferol?

**ANSAWDD BYWYDD GAN GYNNWYS SEILWAITH Y GYMUNED (dylech drin a thrafod yr isod yn ôl math y datblygiad)**

**Eglurwch, gyda thystiolaeth o'ch proffiliau o Gam 1 a'ch dadansoddiad o Gam 2, sut mae'r datblygiad yn effeithio ar Seilwaith y gymuned (cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol). Dylech sôn am yr hyn a ganlyn:**

- Pa mor ddigonol yw'r llefydd mewn darpariaethau gofal plant a chyn-ysgol yn yr ardal leol?
- Pa mor ddigonol yw'r llefydd mewn ysgolion yn yr ardal leol? A fyddai'r datblygiad yn debygol o alw am fwy o lefydd neu a oes digon o le yn yr ysgolion yn barod? A oes digon o adnoddau fel bod yr ysgolion yn gallu parhau i gyflawni eu rôl i gynhyrchu siaradwyr Cymraeg rhugl?
- Y cydbwysedd rhwng disgyblion di-Gymraeg a disgyblion Cymraeg yn yr ysgol
- A fyddai'r datblygiad yn cynyddu'r galw am gefnogaeth trochi iaith ar gyfer hwyrddyfodiad?
- A fyddai'r datblygiad yn cynyddu'r galw am gyfleusterau a gwasanaethau lleol?
- I ba raddau mae'r datblygiad yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar gyfleusterau neu wasanaethau presennol?
- I ba raddau fydd y datblygiad yn creu cyfleoedd newydd i hybu'r Gymraeg mewn cyfleusterau a gwasanaethau lleol megis neuaddau, siopau, ac ati?

**TAI NEWYDD**

**Eglurwch, gyda thystiolaeth o'ch proffiliau o Gamau 1 a'ch dadansoddiad o Gam 2, sut mae'r datblygiad yn debygol o effeithio ar y farchnad Dai. Dylech sôn ar hyn a ganlyn:**

- Y pris marchnad disgwylidig ar gyfer y tai a sut mae hyn yn cymharu ag incwm aelwydydd yn lleol a phris cyfartalog tai yn yr ardal
- Cyfraniad tai fforddiadwy a sut mae hynny'n cymharu â'r gofynion polisi
- Cyfradd ddisgwylidig neu arfaethedig datblygu

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 7: Methodoleg ar gyfer paratoi Datganiad Iaith Gymraeg**

<ul style="list-style-type: none"><li>• Cymysgedd tai a sut mae hynny yn cymharu â'r gofynion polisi, arolygon Sirol neu leol, neu ffynonellau gwybodaeth eraill</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Nifer tai a sut mae hynny yn cymharu â'r galw am dai a'r cyflenwad o dai a ddarperir yn y Cynllun ac sydd wedi cael caniatâd ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Effaith gynyddol bosibl y gallai'r datblygiad ei gael, gan ystyried unrhyw ddatblygiad diweddar perthnasol arall yn yr ardal leol</li></ul>

**CYFLOGAETH**

**Eglurwch, gyda thystiolaeth o'ch proffiliau o Gam 1 a'ch dadansoddiad o Gam 2, sut mae'r datblygiad yn effeithio ar Economeg yr ardal leol. Dylech sôn am yr hyn a ganlyn:**

- Sut mae'r datblygiad yn cyfrannu at gyfleoedd cyflogaeth presennol yn yr ardal, e.e. a yw am feithrin amrywioldeb economaidd yn yr ardal leol neu beidio?
- Nifer y swyddi llawn a/neu ran amser
- Y sgiliau sy'n angenrheidiol i'r busnes neu sefydliad a sut mae hynny'n cymharu â sgiliau llafur y bobl leol (o fewn yr ardal Teithio i'r Gwaith)
- Y cyflogau a fydd yn cael eu cynnig a sut mae hynny'n cymharu â chyflogau cyfartalog yn yr ardal
- Sgiliau llafur y bobl leol (o fewn yr ardal Teithio i'r Gwaith) a pha mor debygol yw hi yn ôl yr asesiad uchod y bydd y swyddi yn cael eu llenwi o blith y boblogaeth leol
- A yw'n debygol y bydd yn rhaid chwilio y tu allan i'r ardal leol am weithwyr, e.e. i gael sgiliau arbenigol?
- Pa sgiliau iaith Gymraeg sy'n hanfodol ac yn ddymunol i'r swyddi a grëir gan y datblygiad? Bydd angen diffinio'r rhain fel rhan o gynllun iaith Gymraeg (gwirfoddol neu statudol) y datblygiad.
- Y sgiliau iaith Gymraeg fydd yn angenrheidiol i'r gweithlu sy'n mewnfudo a'u dibynyddion er mwyn iddynt integreiddio yn y gymuned leol
- Yr effaith gynyddol bosib y gallai'r datblygiad ei gael, gan ystyried unrhyw ddatblygiad diweddar perthnasol arall yn yr ardal leol

**CRYNHOI EICH CANFYDDIADAU A'CH CASGLIADAU**

Crynowch eich canfyddiadau gan gynnwys effeithiau tebygol (cadarnhaol a/neu negyddol) sylweddol.

Cofnodwch eich casgliadau, gan gynnwys trafodaeth gyda'r Mentrau Iaith neu eraill ynghylch y gweithgareddau lliniaru a gwella posib.

**MESURAU LLINIARU NEU WELLA**

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 7: Methodoleg ar gyfer paratoi Datganiad Iaith Gymraeg**

Pa weithgareddau sy'n angenrheidiol i gael gwared â neu leihau unrhyw effeithiau niweidiol a achosir gan y datblygiad, neu i ledaenu unrhyw fudd?

Edrychwch ar Atodiad 6 y Canllaw Cynllunio Atodol am weithgareddau posib. Bydd angen creu Strategaeth Lliniaru a Hyrwyddo Buddion i'r Gymraeg gyda rhaglen weithredu sy'n nodi sut a phryd gaiff y gweithgareddau eu cyflawni, h.y. bod y mesurau'n gallu cael eu gwireddu. Bydd angen cynnwys cynllun ar gyfer monitro effaith camau amrywiol y strategaeth yn ogystal.

Cofnodwch eich casgliadau, gan gynnwys ffrwyth eich trafodaethau gyda'r Mentrau Iaith neu eraill ynghylch y gweithgareddau posib.

24. Yn unol ag arfer dda i gloriannu effaith y datblygiad, defnyddiwch y Matrics Risg enghreifftiol yn Ffigur 7.2 i adnabod yr effeithiau posib a'r tebygolrwydd o effaith hynny ar hyfywedd y Gymraeg yn y gymuned a'r ardal leol.

Ffigur 7.2: Matrics Risg enghreifftiol

				EFFAITH 20 MLYNEDD				
				Sylweddol	Bychan	Bychan	Sylweddol	
				Sylweddol positif	Ansylweddol positif	Ansylweddol negyddol	Sylweddol negyddol	
				Holl siaradwyr yn yr Ardal Ddethol	Cynnydd 2.5 pwynt canran a throsodd mewn siaradwyr na'r rhagamcan(busnes fel arfer)	Cynnydd llai na 2.5 pwynt canran mewn siaradwyr na'r rhagamcan(busnes fel arfer)	Uleihâd llai na 2.5 pwynt canran mewn siaradwyr na'r rhagamcan(busnes fel arfer)	Uleihâd 2.5 pwynt canran a throsodd mewn siaradwyr na'r rhagamcan(busnes fel arfer)
				2	1	-1	-2	
				Siawns	Amledd	Tebygolrwydd		
TEBYGOLRWYDD	Gellir disgwyl iddo ddigwydd mewn bron y cyfan o ddatblygiadau cyffelyb	Tystiolaeth gadarn iddo ddigwydd mewn o leiaf 8 gwaith allan o 10 yn yr 20 mlynedd diwethaf	4	Bron yn sicr	8	4	-4	-8
	Gellir disgwyl iddo ddigwydd mewn y mwyafrif o ddatblygiadau cyffelyb	Tystiolaeth gadarn iddo ddigwydd mewn o 5 - 7 gwaith allan o 10 yn yr 20 mlynedd diwethaf	3	Tebyg	6	3	-3	-6
	Gellir disgwyl iddo ddigwydd mewn lleiafrif o ddatblygiadau cyffelyb	Tystiolaeth gadarn iddo ddigwydd mewn o leiaf 2-4 gwaith allan o 10 yn yr 20 mlynedd diwethaf	2	Posibl	4	2	-2	-4
	Gellir disgwyl iddo ddigwydd mewn nifer fechan iawn o ddatblygiadau cyffelyb	Tystiolaeth gadarn iddo ddigwydd llai na 2 waith allan o 10 yn yr 20 mlynedd diwethaf	1	Annhebyg	2	1	-1	-2

**Beth sy'n digwydd ar ôl i'r Datganiad gael ei gyflwyno? (Gweler Diagram 10)**

25. Bydd y Swyddog Cynllunio fydd yn ymdrin â'r cais cynllunio yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynir. Wrth wneud hynny bydd yn ymgynghori gyda swyddog(ion) cymwys o fewn y Cyngor, fydd yn gwirio:

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 7: Methodoleg ar gyfer paratoi Datganiad Iaith Gymraeg**

- (i) P'un a atebwyd holl gwestiynau'r fethodoleg yn gyflawn, ac
  - (ii) A yw'r dadansoddiadau a'r casgliadau ar sail yr wybodaeth gronnus a gyflwynwyd yn rhesymol a'i peidio.
26. Cyn dod i gasgliad a gwneud argymhelliad am y cais cynllunio, bydd y Swyddog Cynllunio'n ystyried tystiolaeth y swyddog(ion) cymwys ar dystiolaeth berthnasol a geir gan bartïon allanol, e.e. cyngorau cymuned a thref. Gall y Swyddog Cynllunio ofyn i'r ymgeisydd am eglurhad neu am ragor o fanylion i sicrhau bod y Datganiad yn gywir ac yn gyflawn cyn gwneud argymhelliad am y cais am ganiatâd cynllunio. Bydd y Swyddog Cynllunio yn trafod tystiolaeth ychwanegol a dderbynnir gan yr ymgeisydd gyda swyddog(ion) cymwys o fewn y Cyngor.
27. Pan fo anghydfod rhwng y Swyddog Cynllunio a'r ymgeisydd ynghylch y dystiolaeth yn y Datganiad Iaith Gymraeg, bydd y Swyddog yn penodi ymgynghorydd allanol cymwys i drin a thrafod y dystiolaeth sy'n destun yr anghydfod. Rhoddir gwybod i'r ymgeisydd am y bwriad i gyflogi ymgynghorydd allanol cyn y caiff ei benodi. Yr ymgeisydd fydd yn gyfrifol am dalu am waith yr ymgynghorydd.

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 8: Fframwaith i baratoi Asesiad Effaith Iaith Gymraeg**

**Pa bryd fydd angen Asesiad Effaith Iaith Gymraeg?**

1. Bydd yn ofynnol i ymgeisydd asesu effaith debygol datblygiad arfaethedig a chynhyrchu adroddiad Asesiad Effaith Iaith Gymraeg os yw'r datblygiad yn bodloni maen prawf 2 Polisi PS 1 – Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig (gweler hefyd Atodiad 1). Er hwylustod, dyma'r maen prawf sy'n darparu'r trothwy ar gyfer yr angen i baratoi adroddiad am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg:

**Bydd gofyn am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg, fydd yn dweud sut fydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg, pan fydd y datblygiad arfaethedig ar safle ar hap annisgwyl, ar gyfer datblygiad tai ar raddfa fawr neu ddatblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr a fyddai'n golygu llif arwyddocaol o weithlu.**

2. Mae diagram 8 yn Adran 2 y Canllaw Cynllunio Atodol yn disgrifio'r hyn a olygir wrth y termau 'safle ar hap annisgwyl', 'datblygiad tai ar raddfa fawr' a 'datblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr a fyddai'n golygu twf arwyddocaol o weithlu'. Er hwylustod mae Tabl 8.1 yn ail ddatgan y disgrifiadau hyn:

**Tabl 8.1: Diffiniad o dermau allweddol**

ar hap annisgwyl – aser hyn drwy edrych ar strategaeth a pholisïau'r Cynllun a'r dystiolaeth i gefnogi'r strategaeth a'r polisïau, e.e. ei leoliad o'i gymharu â'r ffin ddatblygu, statws y safle ym mholisïau'r Cynllun, ystyriaethau Asesiad Capasiti Trefol, pa bryd ddaeth y safle ar gael, cydymffurfiaeth neu ddiffyg cydymffurfiaeth â pholisïau perthnasol.

datblygiad tai ar raddfa fawr - datblygiad fyddai'n golygu cael 10 neu fwy o unedau tai yn y Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol, ac yn golygu cael 5 neu fwy o unedau tai mewn Canolfannau Gwasanaeth Lleol, Pentrefi Gwasanaeth, Pentrefi Lleol/Gwledig/Arfordirol. Edrychir ar gapasiti'r safle i benderfynu p'un a yw'r trothwy wedi cael ei gyrraedd, e.e. a fyddai modd codi mwy o dai na fwriedir ar y safle a fyddai'n golygu croesi'r trothwy; a/neu a yw'r safle yn rhan o safle a fyddai, o'i ystyried yn ei gyfanrwydd, yn croesi'r trothwy.



Datblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr sy'n golygu llif arwyddocaol o weithlu:

i) Angen 10 neu fwy o weithwyr<sup>1</sup>; a

ii) Bod yn rhaid marchnata'r swyddi y tu hwnt i'r Ardal Teithio i'r Gwaith a ganlyn er mwyn i'r gweithlu gael y sgiliau perthnasol ar gyfer y swyddi newydd: Caerdybi a Bangor; Pwllheli a Phorthmadog; a Thywyn a Dolgellau. Cysylltwch gydag Adran Economi a Chymuned (Cyngor Gwynedd) neu'r Gwasanaeth Datblygu Economi o fewn Adran Rheoleiddio a Datblygu Economi (Cyngor Sir Ynys Môn) i gael ciplun o ddata allweddol, gwybodaeth marchnad lafur, ac ati — gweler fanylion cyswllt yn Atodiad 4

3. Felly, yn syml, ni ragwelwyd datblygiad ar y safle dan sylw yn ystod y cam o lunio'r Cynllun Datblygu Lleol ac mae'r datblygiad hwnnw ar raddfa fawr. Oherwydd hynny, ni fu'r cynnig yn destun Asesiad o Gynaliadwyedd (sy'n cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol), a gafodd ei ddylanwadu gan Asesiad Effaith Iaith Gymraeg. Yn sgil hynny, mae Polisi PS 1 y Cynllun yn gofyn am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg o'r datblygiad arfaethedig. Mae'r dull hwn o weithio yn gyson â'r pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol (gweler paragraff 3.2.2). Dylai ymgeiswyr gysylltu gyda'r Uned Rheolaeth Datblygu yn y cyfnod cyn cyflwyno cais cynllunio os oes ansicrwydd ynglŷn â'r angen, neu beidio, am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg.

#### **Pwrpas yr Asesiad**

4. Pwrpas yr Asesiad yw sefydlu effaith debygol y datblygiad arfaethedig ar gymunedau yn gyffredinol, ac ar yr iaith Gymraeg yn fwy penodol ac, os yn briodol, adnabod mesurau fydd naill ai'n lliniaru effeithiau negyddol neu'n diogelu/gwella/lledaenu effeithiau cadarnhaol. Bydd yn cynorthwyo i sicrhau bod goblygiadau ieithyddol datblygiad arfaethedig perthnasol wedi cael eu deall yn llawn cyn y gwneir penderfyniad ar y cais cynllunio. Bydd graddfa a chyfnod yr effeithiau (cadarnhaol a negyddol) yn dibynnu ar natur a math y datblygiad a'r berthynas fydd rhyngddo a'r gymuned. Mae'r Asesiad yn broses strwythuredig sy'n caniatáu i'r iaith Gymraeg gael ei hystyried wrth ystyried cynigion am newid. Dylid rhoi'r wybodaeth, y dadansoddiad a chanlyniadau'r Asesiad Effaith Iaith Gymraeg mewn adroddiad strwythuredig.
5. Mae tair rhan i'r Fethodoleg sydd wedi'i nodi yn yr Atodiad. Dyma'r fethodoleg y bydd yn rhaid ei dilyn i ymgymryd â'r Asesiad. Mae'n broses lle mae gwybodaeth am effeithiau tebygol datblygiad arfaethedig yn cael eu casglu, eu coladu, eu hasesu a'u hystyried gan yr ymgeisydd, fel rhan o'r gwaith o lunio'r cynnig. Bydd y fethodoleg hefyd yn cael ei gwirio gan swyddogion cymwys o fewn yr Awdurdod cyn i'r sawl fydd yn gwneud penderfyniad benderfynu p'un a ddylid rhoi caniatâd neu beidio.

---

<sup>1</sup>Dim ond tua 11% o fusnesau yn ardal y Cynllun sy'n cyflogi 10 neu fwy o weithwyr.


**Pwy ddylai baratoi'r Asesiad?**

6. Oherwydd lleoliad a graddfa'r datblygiad arfaethedig, disgwylir i ymgeisydd gyflogi unigolyn cymwys neu grŵp o ymgynghorwyr fydd yn cynnwys unigolyn cymwys i ymgymryd â'r gwaith. Bydd gwneud hynny'n sicrhau cyflawnrwydd ac ansawdd yr Asesiad a'r adroddiad amdano. Disgwylir i'r adroddiad am yr Asesiad gynnwys datganiad yn amlinellu arbenigedd perthnasol yr unigolyn cymwys, ei gymwysterau neu ei brofiad a fydd yn ddigonol i ddangos bod hyn yn wir. Mae Diagram 8 yn Adran 2 y Canllaw Cynllunio Atodol yn disgrifio 'unigolyn cymwys' o safbwynt yr iaith Gymraeg, sy'n cynnwys unigolion gyda chymhwyster Chynllunio Iaith achrededig, neu gymhwyster, profiad neu hyfforddiant mewn ymchwil am feysydd cynllunio ieithyddol, a chymhwyster Cynllunio Gwlad a Thref.
7. Fel y crybwyllwyd yn Adran 2 y CCA, bydd ymgysylltu a chynnal cyfres o weithgareddau ymgynghori cyn cyflwyno cais yn rhan allweddol o baratoi ceisiadau sydd angen Adroddiad Asesiad Effaith. Bydd disgwyl i randdeiliaid allweddol chwarae rhan lawn yng nghramau A i C isod.

**Y fethodoleg – proses ac asesu**

8. Fel y nodwyd ym mharagraff 4 uchod, bu datblygiad y Cynllun Datblygu Lleol yn destun prosesau Asesiad o Gynaliadwyedd, oedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol. O safbwynt y Gymraeg, cafodd yr Asesiad o Gynaliadwyedd ei ddylanwadu gan Asesiad Effaith Iaith Gymraeg. Yn yr un modd â'r gwaith o ymgymryd ag Asesiad o Gynaliadwyedd, Asesiad Amgylcheddol Strategol, Asesiad Ardrowiad Amgylcheddol o brosiectau unigol, mae 3 prif gam i'w dilyn yn y broses Asesiad Effaith Iaith Gymraeg o'r datblygiad arfaethedig perthnasol (Diagram 8.1):

Diagram 8.1



9. Mae ymgysylltu ac ymgynghori'n rhan allweddol o'r broses a ddisgrifir uchod.

**CAM A1) CYFNOD CWMPASU (ADNABOD Y CYD-DESTUN) - ADNABOD GWYBODAETH  
GWAELODLIN BERTHNASOL**

10. Mae'n bwysig fod y broses Asesiad Effaith Iaith Gymraeg, fel unrhyw asesiad arall, yn dechrau'n gynnar er mwyn galluogi'r ymgeisydd a'i gynghorwyr i adnabod y materion priodol a'u dadansoddi wrth baratoi manylion y datblygiad arfaethedig. Yn fras, bydd y gwaith cwmpasu hwn yn cynnwys yr hyn a ganlyn a dylid cofnodi hynny:
- Disgrifio'r datblygiad arfaethedig;
  - Diffinio'r ardal y gallai'r datblygiad mawr ar safle ar hap annisgwyl ddylanwadu arni yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Bydd hyd a lled yr ardal yn dibynnu ar fath y datblygiad, ei raddfa a'i leoliad;
  - Dogfennu 'cyflwr' cyfredol y cymunedau/ardal a bennwyd, ac yn benodol yr iaith Gymraeg, sy'n rhan o'r llinell sylfaen i seilio asesiad arni;
  - Dogfennu rhagdybiaethau/rhagamcanion am y cymunedau/ardal a bennwyd, er mwyn ceisio cael darlun o'r newid cyfeiriad (yn hytrach na ffigyrau pendant) a ragwelir yn yr ardal a bennwyd ar sail tueddiadau, heb ymyrraeth y datblygiad;
  - Dogfennu amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a'r polisiâu perthnasol, a dogfennu amcanion y Strategaeth Iaith, y Cynllun Llesiant Lleol, a Chynllun y Cyngor.

**Ffynonellau data ar gyfer y gwaith cwmpasu**

11. Mae Atodiad 2 y Canllaw Cynllunio Atodol yn cynnwys gwybodaeth am sawl ffynhonnell ddata berthnasol gydnabyddedig gyfredol am y Gymraeg. Bydd data/gwybodaeth yn cael ei ddiweddarau yn eithaf cyson ac mae posibilrwydd y bydd ffynonellau ychwanegol yn dod i'r amlwg. Felly, wrth gasglu gwybodaeth am yr ardal ddylanwad ar yr adeg o baratoi ar gyfer y datblygiad, dylid ymholi yn drylwyr am fodolaeth y data diweddaraf yn ogystal â data ychwanegol a all ond fod ar gael ar lefel lleol am y Gymraeg ac am y cymunedau yn ehangach. Mae gan fudd-ddeiliaid lleol, megis Cynghorau Cymuned a Thref, ddata a gwybodaeth fydd ond ar gael yn lleol, yn enwedig gwybodaeth am isadeiledd (cyfleusterau a gwasanaethau) o fewn aneddleoedd a'u rôl i hyrwyddo'r Gymraeg.

**Adnabod yr ardal ddylanwad**

12. Mae'n bwysig adnabod yr ardal y gallai'r datblygiad arfaethedig annisgwyl ddylanwadu arni. Nid yw'r ardal ddylanwad yn debygol o barchu ffiniau datblygu aneddleoedd nac efallai wardiau unigol. Yn dibynnu ar raddfa a math y datblygiad, gall yr ardal ddylanwad fod yn lleol iawn neu fe all gynnwys yr Ardal Teithio i Waith a/neu'r Ardal Marchnad Tai. Bydd cynnal trafodaeth fuan gyda'r Awdurdod Cynllunio a budd-ddeiliaid eraill, megis gwasanaethau eraill o fewn y Cynghorau a Mentrau Iaith, yn gwneud cyfraniad buddiol i'r tasgau a ganlyn o ran sefydlu'r dystiolaeth a'i dadansoddi a chynnal yr asesiad. Er enghraifft, fel yn achos astudiaethau effaith manwerthu neu

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 8: Fframwaith i baratoi Asesiad Effaith Iaith Gymraeg**

astudiaethau cyflogaeth, dylid cynnwys map yn yr adroddiad ynghyd â chofnod o'r rhesymau dros ddewis yr ardal ddylanwad. Dylid cofnodi'r drafodaeth gyda budd-ddeiliaid priodol. Dylai'r map gofnodi pa niferoedd a chanrannau o'r boblogaeth gyfan sy'n gallu siarad Cymraeg ar lefel cymuned a ward.

**Proffil y boblogaeth nawr ac yn y dyfodol**

13. Wrth ystyried y wybodaeth y dylid ei chasglu yng nghyd-destun y Gymraeg, argymhellir y dylid defnyddio niferoedd a chanran y boblogaeth sy'n siarad yr iaith (gan gynnwys dysgwyr) a rhaniad y siaradwyr hynny yn ôl grŵp oedran, er mwyn deall beth allai effaith datblygiad fod ar gyfansoddiad ieithyddol yr ardal dros gyfnod o amser. Nid yw iaith plant sy'n iau na thair oed yn cael eu cofnodi yn y Cyfrifiad. Gall ffynonellau eraill ddarparu'r wybodaeth er mwyn sefydlu gwaelodlin a rhagdybiaethau cyflawn, sef data gan Mudiad Meithrin a data darpariaethau Dechrau'n Deg. Dylid hefyd ddadansoddi data am batrymau trosglwyddo iaith yn y cartref o fewn y gymuned leol. Mae deall sefyllfa'r iaith yn y gwahanol grwpiau oedran yn rhoi darlun o hyfywedd yr iaith nawr, yn ogystal â chynnig darlun o sefyllfa'r iaith yn yr ardal ddylanwad dros y degawdau nesaf pe byddai'r tueddiadau presennol yn parhau ac na fyddai'r datblygiad yn digwydd. Sut mae'r datblygiad arfaethedig yn cyfrannu at neu'n effeithio ar ragamcanion o newid sy'n angenrheidiol i gynnal neu gynyddu'r niferoedd a chanrannau o siaradwyr Cymraeg yn yr ardal ddylanwad? Mae'r cam yn cynnig cyfle i adnabod beth fydd y materion i'r ardal yn y dyfodol ac wrth gynnal yr asesiad, sut all y datblygiad arfaethedig effeithio ar hynny (yn gadarnhaol neu yn negyddol).
14. Gall effaith datblygiad arfaethedig mewn ardal ddylanwad lle nad yw'r defnydd o'r Gymraeg yn nodweddiadol mor amlwg yn y cymunedau, fod yn wahanol i'r effaith mewn ardal lle ceir canran uwch o siaradwyr Cymraeg, lle mae'r defnydd o'r Gymraeg o ddydd-i-ddydd yn fwy amlwg. Dylid cofnodi'r dadansoddiad hwn.

**Proffil o'r isadeiledd yn yr ardal ddylanwad (cyfleusterau a gwasanaethau at ddefnydd cyhoeddus)**

15. Wrth ystyried y wybodaeth y dylid ei chasglu yng nghyd-destun y cymunedau yn ehangach, rhaid deall beth yw'r cyfleusterau sydd ar gael yn lleol at ddefnydd cyhoeddus - siopau, meddygfeydd a gwasanaethau cyhoeddus eraill, a chanolfannau cymunedol, neuaddau, ysgolion, ac ati. Wrth ymgysylltu â budd-ddeiliaid perthnasol, gellir cael darlun o ba rai o'r cyfleusterau hyn sy'n cynnig gwasanaethau neu weithgareddau yn y Gymraeg. Os nad yw'r wybodaeth ar gael, disgwylir i ymgeisydd gymryd camau i lenwi'r bwlch. Mae Atodiad 3 yn cyfeirio at y teclyn Gweithredu'n Lleol<sup>2</sup> a all fod o gymorth i adnabod cyfleusterau a gwasanaethau perthnasol a dull o gasglu'r wybodaeth.

**Ymgysylltu yn ystod y cam cwmpasu**

16. Gall pob datblygiad, waeth beth fo'i faint, elwa o ymgysylltu/ymgyngori effeithiol. Yn gyntaf, byddai'n cyd-fynd ag un o egwyddorion yr ISO 31000 sef "*gweithgareddau i gyfathrebu ac*

---

<sup>2</sup> <https://gov.wales/topics/welshlanguage/publications/gweithredun-lleol-resource-pack/?skip=1&lang=cy>

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 8: Fframwaith i baratoi Asesiad Effaith Iaith Gymraeg**

*ymgyngori gyda rhanddeiliaid trwy gydol y broses*<sup>3</sup> Yn ail, mae adnabod nodweddion y gymuned a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y lleoedd (peuoedd) sy'n bwysig i hyfywedd yr iaith yn gynnar yn cynnig y cyfle gorau i sicrhau fod y Gymraeg yn ystyriaeth wrth ddatblygu'r cynnig. Mae Diagram 5 y Canllaw yn adnabod disgwyliadau'r Cynghorau o ran ymgysylltu ac ymgynghori yn ystod y cyfnod cyn cyflwyno cais cynllunio. Bydd datblygiad sydd angen bod yn destun Asesiad Effaith iaith Gymraeg yn ddatblygiad 'mawr' dan Erthygl 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (DMPWO). O dan Ddeddf Cynllunio 2015, bydd angen i ymgeiswyr am 'ddatblygiad mawr' ymgynghori'n statudol cyn gwneud cais. Gosodir nifer o weithgareddau ymgynghori sydd angen eu cyflawni gan yr ymgeisydd cyn gall gyflwyno'r cais cynllunio. Maent yn cynnwys ymgynghori gyda thri grwp o bobl, sef:

- Pobl sy'n ddeiliaid neu'n berchnogion gerllaw safle'r cais; a
  - Ymgynghoreion cymunedol, gan gynnwys Cyngor Cymuned a Chynghorydd (Aelod Lleol); a
  - Ymgynghoreion arbenigol. Rhoddir manylion am bwy yw'r rhain a pha bryd y dylid ymgynghori â nhw yn Atodlen 4 y DMPWO. Penderfynir pwy yw'r ymgynghoreion arbenigol a restrir yn Atodlen 4 sy'n berthnasol i ddatblygiad arfaethedig drwy brofion disgrifiad o'r datblygiad. Mae Atodiad 2 y llawlyfr Ymgynghori â'r Gymuned Cyn gwneud cais: Canllaw Ymarfer Gorau ar gyfer Datblygwyr (2017) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru'n nodi'r profion hynny.
17. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi y gall ymgeisydd adnabod ymgynghoreion ychwanegol, gwerthfawr sydd heb eu rhestru yn Atodlen 4 y DMPWO. Disgwylir i ymgeisydd ymgynghori gyda'r fenter iaith berthnasol. Bydd creu amserlen o weithgareddau ymgynghori ar ddechrau'r prosiect yn helpu i gyflawni'r gweithgareddau ymgysylltu anstatudol a statudol ar yr adeg gywir. Gall hefyd helpu i sicrhau bod y gofynion statudol yn cael eu bodloni.
18. Mae'r ddau Awdurdod Cynllunio Lleol yn darparu gwasanaeth rhoi cyngor cyn cyflwyno cais cynllunio. Mae Atodiad 4 y Canllaw yn cyfeirio at fudd-ddeiliaid allweddol. Mae amseriad trafodaethau anffurfiol o'r fath yn ôl disgrisiwn yr ymgeisydd; ond, yn gyffredinol bydd yn hynod fanteisiol iddynt ddigwydd cyn gynted ag y bo'r ymgeisydd mewn sefyllfa i ddarparu digon o wybodaeth i ffurfio sail ar gyfer trafodaeth. Bydd yn gyfle i swyddogion cynllunio dynnu sylw'r ymgeisydd a/neu'r rhai a fydd yn ei gynghori (sef yr asesydd cymwys) at unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd ganddo. Bydd y swyddog cynllunio'n gofyn am wybodaeth gan swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor. Gall yr ymgeisydd ofyn bod unrhyw wybodaeth ragarweiniol a ddarperir ar y pwynt hwn yn cael ei thrin yn gyfrinachol gan yr awdurdod cynllunio.
19. Mae Tabl 8.2 isod yn cynnig templed ar gyfer cofnodi'r wybodaeth angenrheidiol.

---

<sup>3</sup> Gw. C.10, tudalen 13

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 8: Fframwaith i baratoi Asesiad Effaith Iaith Gymraeg**

Tabl 8.2: Templed cofnodi trafodaethau â budd-ddeiliaid

<b>Ymgynghori ac ymgysylltu am y gweithgareddau sy'n ofynnol i fynd i'r afael â'r buddion a'r risgiau sydd wedi'u hadnabod</b>	
<b>Pa grwpiau/ sefydliadau lleol/ swyddogion a ymgynghorwyd â hwy</b>	<b>Manylion yr adborth a gafwyd</b>

**CAM A2) CYFNOD CWMPASU (ADNABOD Y CYD-DESTUN) – DADANSODDI'R WYBODAETH**

20. Diben y rhan hon o'r cyfnod cwmpasu yw dadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod Cam A1 er mwyn adnabod materion allweddol am y gymuned a'r iaith Gymraeg. Bydd hyn yn gymorth i gael darlun cychwynnol o'r ardrawiadau posib sy'n gysylltiedig â'r datblygiad. Dylid cofnodi'r casgliadau yn yr Adroddiad Asesiad Effaith Iaith Gymraeg.

**CAM B) CYNNAL NEU WNEUD YR ASESIAD**


21. Yn yr un modd â'r broses sy'n gysylltiedig ag Asesiad Ardrawiad Amgylcheddol, bydd angen i'r broses o gynnal yr Asesiad Effaith Iaith Gymraeg ystyried a chofnodi'r hyn a ganlyn, wrth gyfeirio at y wybodaeth gefndirol a'r dadansoddiad uchod (sef Cam A1 a Cham A2):

- i. pwy (e.e. grŵp oedran penodol)/beth (e.e. ysgolion lleol) fydd yn debygol o gael eu heffeithio;
- ii. math yr effaith (h.y. cadarnhaol, negyddol, niwtral, uniongyrchol, anuniongyrchol);

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 8: Fframwaith i baratoi Aseiad Effaith Iaith Gymraeg**

- iii. tebygolrwydd i'r effaith ddigwydd (h.y. pendant, ansicr, gellir ei wyrddroi, ni ellir ei wyrddroi);
- iv. effeithiau cronnus posib.

22. Mae dwy ran i'r rhan hon o'r fethodoleg:



**Rhan 1: Cwblhau'r Aseiad Effaith Iaith Gymraeg**

23. Er mwyn asesu'r datblygiad arfaethedig yn erbyn yr Amcan Aseiad Cynaliadwyedd sy'n berthnasol i'r iaith Gymraeg dylid cwblhau'r rhannau perthnasol yn y matrices ar gyfer yr Aseiad Effaith Iaith Gymraeg a welir yn nhabl 8.2 isod. Bydd angen ystyried natur rhyngberthynol y ffactorau e.e. y boblogaeth o siaradwyr Cymraeg a'r farchnad dai ac economi'r ardal. Dylid defnyddio'r templed yn eich adroddiad am yr Aseiad. Os fydd effeithiau cadarnhaol neu negyddol yn cael eu hadnabod, bydd yn rhaid ystyried p'un a ellir gwella unrhyw effaith cadarnhaol neu sut fyddwch yn rheoli effeithiau negyddol. Dylid cofnodi'r gweithgareddau hynny yng Ngham C isod.

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 8: Fframwaith i baratoi  
Asesiad Effaith Iaith Gymraeg**

24. Gellid defnyddio'r matrices risg/buddion enghreifftiol yn Ffigur 8.1 ar gyfer adnabod yr effaith a'r tebygolrwydd o'r effaith.

Figur 8.1 Matrics Risg/Buddion Enghreifftiol

				EFAITH 20 MLYNEDD				
				Ardal	Sylweddol bositif	Ansylweddol bositif	Ansylweddol negyddol	Sylweddol negyddol
				Holl siaradwyr yn yr Ardal Ddethol	Cynnydd 2.5 pwynt canran a throsodd mewn siaradwyr na'r rhagamcan(busnes fel arfer)	Cynnydd llai na 2.5 pwynt canran mewn siaradwyr na'r rhagamcan(busnes fel arfer)	Lleihâd llai na 2.5 pwynt canran mewn siaradwyr na'r rhagamcan(busnes fel arfer)	Lleihâd 2.5 pwynt canran a throsodd mewn siaradwyr na'r rhagamcan(busnes fel arfer)
					2	1	-1	-2
					Sylweddol	Bychan	Bychan	Sylweddol
TEBYGOLRWYDD ↑	Siawns	Amlledd	Tebygolrwydd					
	Gellir disgwyl iddo ddigwydd mewn bron y cyfan o ddatblygiadau cyffelyb	Tystiolaeth gadarn iddo ddigwydd mewn o leiaf 8 gwaith allan o 10 yn yr 20 mlynedd diwethaf	4	Bron yn sicr	8	4	-4	-8
	Gellir disgwyl iddo ddigwydd mewn y mwyafrif o ddatblygiadau cyffelyb	Tystiolaeth gadarn iddo ddigwydd mewn o 5 - 7 gwaith allan o 10 yn yr 20 mlynedd diwethaf	3	Tebyg	6	3	-3	-6
	Gellir disgwyl iddo ddigwydd mewn lleiafrif o ddatblygiadau cyffelyb	Tystiolaeth gadarn iddo ddigwydd mewn o leiaf 2- 4 gwaith allan o 10 yn yr 20 mlynedd diwethaf	2	Posibl	4	2	-2	-4
	Gellir disgwyl iddo ddigwydd mewn nifer fechan iawn o ddatblygiadau cyffelyb	Tystiolaeth gadarn iddo ddigwydd llai na 2 waith allan o 10 yn yr 20 mlynedd diwethaf	1	Annhebyg	2	1	-1	-2

Tud. 161



**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 8: Fframwaith i baratoi  
Asesiad Effaith Iaith Gymraeg**

**Tabl 8.3: Matrics Asesiad Effaith Iaith Gymraeg**

<b>IAITH A SYMUDEDD POBLOGAETH (mae'r mater hwn yn gyffredin i ddatblygiad Tai a datblygiad Cyflogaeth)</b>	<b>Sgôr</b>			<b>Sylwadau</b>
<b>Eglurwch, gyda thystiolaeth lawn, p'un a yw'r datblygiad yn debygol o arwain at newid yng nghyfansoddiad y Boblogaeth yn yr ardal ddylanwad nawr ac yn y dyfodol, ac yn benodol o safbwynt cyfrannu neu effeithio ar y cyfansoddiad ieithyddol.</b>	<b>Effaith (E)</b>  <b>1,2,3 neu 4</b>	<b>Tebygolrwydd (T)</b>  <b>1,2,3 neu 4</b>	<b>Sgôr Cyfansawdd</b>  <b>0 -8 i +8</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sut mae'r datblygiad yn mynd i sicrhau cyfleoedd i bobl aros yn eu cymuned?</li> </ul>				
<ul style="list-style-type: none"> <li>A oes tebygolrwydd y bydd y datblygiad yn denu pobl ychwanegol i'r gymuned? Os oes, beth yw'r nifer a ddisgwylir? O ble fyddant yn dod? Faint a pha ganran ohonynt sy'n debygol o fod yn siarad Cymraeg?</li> </ul>				
<ul style="list-style-type: none"> <li>A oes tebygolrwydd y bydd pobl leol yn ymfudo o'r gymuned o ganlyniad i'r datblygiad?</li> </ul>				
<ul style="list-style-type: none"> <li>A yw'r datblygiad yn debygol o arwain at newid yn strwythur oedran y gymuned: mwy neu lai o blant, pobl ifanc, pobl canol oed, pobl hŷn?</li> </ul>				
<ul style="list-style-type: none"> <li>A oes tebygolrwydd y bydd yna newid yn y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg (gan gynnwys dysgwyr) ac unigolion heb unrhyw allu yn Gymraeg?</li> </ul>				
<ul style="list-style-type: none"> <li>A fydd y newid yn debygol o fod yn barhaol neu'n un dros dro?</li> </ul>				
<b>Cofnodwch eich dadansoddiad gyda thystiolaeth gan gyfeirio at bwy (e.e. grŵp oedran penodol) fydd yn cael ei effeithio; pa fath o effaith; tebygolrwydd i'r effaith ddigwydd; a'r effaith gronnus bosib. Gellid defnyddio'r matrics risg enghreifftiol yn Ffigur 8.1 i adnabod yr effaith a'r tebygolrwydd o'r effaith.</b>				

Tud. 162

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 8: Fframwaith i baratoi  
Asesiad Effaith Iaith Gymraeg**

Tud. 163

<b>IAITH A SYMUDEDD POBLOGAETH (mae'r mater hwn yn gyffredin i ddatblygiad Tai a datblygiad Cyflogaeth)</b>		<b>Sgôr</b>			<b>Sylwadau</b>
Defnyddiwch dudalen ar wahân os oes angen mwy o le.....					
<b>Sgôr cyfansawdd</b>					
<b>Beth yw'r budd?</b>	<b>Beth yw'r risg?</b>				
Ewch i Gam C i ddangos sut fyddwch yn sicrhau'r budd ac, os yn bosib, yn lledaenu'r budd	Ewch i Gam C i ddangos sut fyddwch yn rheoli'r risg (cael gwared ohono neu leihau'r effaith i lefel dderbyniol)				

<b>ELFENNAU GWELEDOL (mae'r mater hwn yn gyffredin i ddatblygiad Tai a datblygiad Cyflogaeth)</b>	<b>Sgôr</b>			<b>Sylwadau</b>
<b>Eglurwch, gyda thystiolaeth lawn, p'un a yw'r datblygiad yn debygol o arwain at newid yng nghyfansoddiad y Boblogaeth yn yr ardal ddylanwad nawr ac yn y dyfodol, ac yn benodol o safbwynt cyfrannu neu effeithio ar y cyfansoddiad ieithyddol.</b>	<b>Effaith (E)</b>	<b>Tebygolrwydd (T)</b>	<b>Sgôr Cyfansawdd</b>	
	<b>1,2,3 neu 4</b>	<b>1,2,3 neu 4</b>	<b>0 -8 i +8</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>A fydd y datblygiad yn cynyddu amlygrwydd yr iaith yn weledol?</li> </ul>				

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 8: Fframwaith i baratoi  
Asesiad Effaith Iaith Gymraeg**

Tud. 164

<b>ELFENNAU GWELEDOL (mae'r mater hwn yn gyffredin i ddatblygiad Tai a datblygiad Cyflogaeth)</b>		<b>Sgôr</b>			<b>Sylwadau</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Delwedd gorfforaethol a brandio - arwyddion a hysbysebion ar y safle sydd dan reolaeth cynllunio, e.e. arwydd hysbysebu/marchnata safle tai newydd, arwyddion a hysbysebion i gwsmeriaid mewn mannau cyhoeddus ar safle cyflogaeth</li> <li>• Enw'r safle neu'r datblygiad – a fydd yn cadw hen enw Cymraeg neu a fydd unrhyw enw newydd yn deillio o gysylltiadau hanesyddol, daearyddol neu leol i'r ardal, os yn ymarferol?</li> </ul>					
<p><b>Cofnodwch eich dadansoddiad gyda thystiolaeth gan gyfeirio at bwy (e.e. grŵp oedran penodol) fydd yn cael ei effeithio; pa fath o effaith; tebygolrwydd i'r effaith ddigwydd; a'r effaith gronnu bosib. Gellid defnyddio'r matrices risg enghreifftiol yn Ffigur 8.1 i adnabod yr effaith a'r tebygolrwydd o'r effaith.</b></p> <p align="center">Defnyddiwch dudalen ar wahân os oes angen mwy o le.....</p>					
<b>Sgôr cyfansawdd</b>					
<b>Beth yw'r budd?</b>	<b>Beth yw'r risg?</b>				

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 8: Fframwaith i baratoi  
Asesiad Effaith Iaith Gymraeg**

<b>ELFENNAU GWELEDOL (mae'r mater hwn yn gyffredin i ddatblygiad Tai a datblygiad Cyflogaeth)</b>		<b>Sgôr</b>			<b>Sylwadau</b>
Ewch i Gam C i ddangos sut fyddwch yn sicrhau'r budd ac, os yn bosib, yn lledaenu'r budd	Ewch i Gam C i ddangos sut fyddwch yn rheoli'r risg (cael gwared ohono neu leihau'r effaith i lefel dderbyniol)				

<b>ANSAWDD BYWYD GAN GYNNWYS SEILWAITH Y GYMUNED (dylech drin a thrafod yr isod yn ôl math y datblygiad)</b>	<b>Sgôr</b>			<b>Sylwadau</b>
<b>Eglurwch, gyda thystiolaeth lawn, sut mae'r datblygiad yn effeithio ar ANSAWDD BYWYD y gymuned (mwynderau cyhoeddus a chyfleusterau a gwasanaethau cymunedol).</b>	<b>Effaith (E)</b> <b>1,2,3 neu 4</b>	<b>Tebygolrwydd (T)</b> <b>1,2,3 neu 4</b>	<b>Sgôr Cyfansawdd</b> <b>0 -8 i +8</b>	
• I ba raddau mae'r datblygiad yn effeithio ar fwynder cyhoeddus/yr amgylchedd yn yr ardal ddylanwad? A fydd yr ardal yn fwy/llai dymunol i fyw ynddi?				
• Pa mor ddigonol yw'r llefydd mewn darpariaethau gofal plant a chyn-ysgol yn yr ardal leol?				
• Pa mor ddigonol yw'r llefydd mewn ysgolion yn yr ardal leol? A fyddai'r datblygiad yn debygol o alw am fwy o lefydd neu a oes digon				

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 8: Fframwaith i baratoi  
Asesiad Effaith Iaith Gymraeg**

Tud. 166

<b>ANSAWDD BYWYD GAN GYNNWYS SEILWAITH Y GYMUNED (dylech drin a thrafod yr isod yn ôl math y datblygiad)</b>	<b>Sgôr</b>			<b>Sylwadau</b>
o le yn yr ysgolion yn barod? A oes digon o adnoddau fel bod yr ysgolion yn gallu parhau i gyflawni eu rôl i gynhyrchu siaradwyr Cymraeg rhugl?				
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sut fyddai'r datblygiad yn debygol o effeithio ar gydbwysedd rhwng disgyblion di-Gymraeg a disgyblion Cymraeg yn yr ysgol? A fyddai angen rhagor o lefydd yn yr uned drochi? A oes digon o adnoddau i ddarparu cyfleusterau a chyfleoedd fel bod plant o gartrefi di-Gymraeg a rhai a ddysgodd Gymraeg fel ail iaith yn gallu defnyddio a gwella eu Cymraeg a dod yn rhan o'r gymuned Gymraeg?</li> </ul>				
<ul style="list-style-type: none"> <li>A fyddai'r datblygiad yn cynyddu'r galw am gyfleusterau a gwasanaethau lleol?</li> </ul>				
<ul style="list-style-type: none"> <li>I ba raddau mae'r datblygiad yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar gyfleusterau neu wasanaethau presennol?</li> </ul>				
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sut fydd y datblygiad yn cynnal neu greu cyfleoedd newydd i hybu'r Gymraeg mewn cyfleusterau a gwasanaethau lleol megis neuaddau, siopau, ac ati?</li> </ul>				
<ul style="list-style-type: none"> <li>A oes gan y datblygiad botensial i gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar weithgareddau gwahanol grwpiau sy'n weithgar yn y gymuned a gafodd eu hadnabod yn y gwaith proffilio, e.e. mudiadau meithrin, yr Urdd, grwpiau gwirfoddol? Beth yw capasiti'r darparwyr lleol i ymdopi efo'r newid?</li> </ul>				
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sut allai'r gymuned Gymraeg a'i sefydliadau gymhathu'r datblygiad?</li> </ul>				
<p><b>Cofnodwch eich dadansoddiad gyda thystiolaeth gan gyfeirio at bwy (e.e. grŵp oedran penodol) fydd yn cael ei effeithio; pa fath o effaith; tebygolrwydd i'r effaith ddigwydd; a'r effaith gronnus bosib. Gellid defnyddio'r matrices risg enghreifftiol yn Ffigur 8.1 i adnabod yr effaith a'r tebygolrwydd o'r effaith.</b></p>				

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 8: Fframwaith i baratoi  
Asesiad Effaith Iaith Gymraeg**

Tud. 167

ANSAWDD BYWYD GAN GYNNWYS SEILWAITH Y GYMUNED (dylech drin a thrafod yr isod yn ôl math y datblygiad)		Sgôr			Sylwadau
Defnyddiwch dudalen ar wahân os oes angen mwy o le.....					
<b>Sgôr cyfansawdd</b>					
<p><b>Beth yw'r budd?</b></p>          <p>Ewch i Gam C i ddangos sut fyddwch yn sicrhau'r budd ac, os yn bosib, yn lledaenu'r budd</p>	<p><b>Beth yw'r risg?</b></p>          <p>Ewch i Gam C i ddangos sut fyddwch yn rheoli'r risg (cael gwared ohono neu leihau'r effaith i lefel dderbyniol)</p>				

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 8: Fframwaith i baratoi  
Asesiad Effaith Iaith Gymraeg**

Tud. 168

Y FARCHNAD DAI	Sgôr			Sylwadau
<b>Eglurwch, gyda thystiolaeth lawn, sut mae'r datblygiad yn debygol o effeithio ar y farchnad Dai yn yr ardal ddylanwad nawr ac yn y dyfodol, ac yn benodol o safbwynt cyfrannu neu effeithio ar y cyfansoddiad ieithyddol.</b>	<b>Effaith (E)</b>  <b>1,2,3 neu 4</b>	<b>Tebygolrwydd (T)</b>  <b>1,2,3 neu 4</b>	<b>Sgôr Cyfansawdd</b>  <b>0 -8 i +8</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pris marchnad ddisgwyliedig ar gyfer y tai a sut y mae hyn yn cymharu ag incwm aelwydydd yn lleol.</li> </ul>				
<ul style="list-style-type: none"> <li>• A fyddai'r datblygiad yn debygol o gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bris cyfartalog tai yn yr ardal ddylanwad?</li> </ul>				
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfraniad tai fforddiadwy a sut mae hynny'n cymharu â gofynion polisi</li> </ul>				
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfradd ddisgwyliedig neu arfaethedig datblygu. A fyddai'n digwydd yn araf deg?</li> </ul>				
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymysgedd tai a sut mae hynny'n cymharu â gofynion polisi, arolygon Sirol neu leol, neu ffynonellau eraill o wybodaeth</li> </ul>				
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nifer tai a sut mae hynny'n cymharu â'r galw am dai a'r cyflenwad o dai a roddir yn y Cynllun ac sydd wedi cael caniatâd ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu</li> </ul>				
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Effaith gynyddol bosib y gallai'r datblygiad ei gael, gan ystyried unrhyw ddatblygiad diweddar perthnasol arall yn yr ardal leol</li> </ul>				
<ul style="list-style-type: none"> <li>• A fyddai'r datblygiad yn cynyddu'r galw am dai rhent preifat a fyddai'n golygu bod llai o stoc ar gael i aelwydydd lleol?</li> </ul>				
<p><b>Cofnodwch eich dadansoddiad gyda thystiolaeth gan gyfeirio at bwy (e.e. grŵp oedran penodol) fydd yn cael ei effeithio; pa fath o effaith; tebygolrwydd i'r effaith ddigwydd; a'r effaith gronnu bosib. Gellid defnyddio'r matrices risg enghreifftiol yn Ffigur 8.1 i adnabod yr effaith a'r tebygolrwydd o'r effaith.</b></p>				

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 8: Fframwaith i baratoi  
Asesiad Effaith Iaith Gymraeg**

Tud. 169

Y FARCHNAD DAI		Sgôr			Sylwadau
Defnyddiwch dudalen ar wahân os oes angen mwy o le.....					
<b>Sgôr cyfansawdd</b>					
<b>Beth yw'r budd?</b>	<b>Beth yw'r risg?</b>				
Ewch i Gam C i ddangos sut fyddwch yn sicrhau'r budd ac, os yn bosib, yn lledaenu'r budd	Ewch i Gam C i ddangos sut fyddwch yn rheoli'r risg (cael gwared ohono neu leihau'r effaith i lefel dderbyniol)				



**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 8: Fframwaith i baratoi  
Asesiad Effaith Iaith Gymraeg**

Tud. 170

FFACTORAU ECONOMAIDD	Sgôr			Sylwadau
<b>Eglurwch, gyda thystiolaeth lawn, sut mae'r datblygiad yn effeithio ar Economeg yr ardal leol. Dylech sôn am y canlynol:</b>	<b>Effaith (E)</b>  <b>1,2,3 neu 4</b>	<b>Tebygolrwydd (T)</b>  <b>1,2,3 neu 4</b>	<b>Sgôr Cyfansawdd</b>  <b>0 -8 i +8</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sut mae'r datblygiad yn cyfrannu at gyfleoedd cyflogaeth presennol yn yr ardal?</li> </ul>				
<ul style="list-style-type: none"> <li>A yw'n meithrin amrywioldeb economaidd yn yr ardal leol, h.y. creu swyddi sydd ddim ar gael yn lleol?</li> </ul>				
<ul style="list-style-type: none"> <li>Nifer y swyddi llawn a/neu ran amser</li> </ul>				
<ul style="list-style-type: none"> <li>Y sgiliau sy'n angenrheidiol i'r busnes neu'r sefydliad a sut mae hynny'n cymharu â sgiliau llafur y bobl leol (o fewn yr ardal Teithio i'r Gwaith)</li> </ul>				
<ul style="list-style-type: none"> <li>Y cyflogau fydd yn cael eu cynnig a sut mae hynny'n cymharu â chyflogau cyfartalog yn yr ardal</li> </ul>				
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sgiliau llafur y bobl leol (o fewn yr ardal Teithio i'r Gwaith) a pha mor debygol yw hi yn ôl yr asesiad uchod y bydd y swyddi yn cael eu llenwi o blith y boblogaeth leol</li> </ul>				
<ul style="list-style-type: none"> <li>A yw'n debygol y bydd yn rhaid chwilio y tu allan i'r ardal leol am weithwyr, e.e. i gael sgiliau arbenigol</li> </ul>				
<ul style="list-style-type: none"> <li>A fydd gwasanaeth rheng flaen yn cael ei ddarparu i'r cyhoedd?</li> </ul>				
<ul style="list-style-type: none"> <li>Pa sgiliau iaith Gymraeg sy'n hanfodol ac yn ddymunol i'r swyddi a grëir gan y datblygiad. Bydd angen diffinio'r rhain fel rhan o gynllun iaith Gymraeg (gwirfoddol neu statudol) y datblygiad.</li> </ul>				
<ul style="list-style-type: none"> <li>Y sgiliau iaith a fydd yn angenrheidiol i integreiddio yn y gymuned leol, h.y. pa iaith fyddai'n angenrheidiol ar gyfer gwahanol fathau o swyddi</li> </ul>				
<ul style="list-style-type: none"> <li>Yr effaith gynyddol bosib y gallai'r datblygiad ei gael, gan ystyried unrhyw ddatblygiad diweddar perthnasol arall yn yr ardal leol</li> </ul>				

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 8: Fframwaith i baratoi  
Asesiad Effaith Iaith Gymraeg**

Tud. 171

FFACTORAU ECONOMAIDD		Sgôr			Sylwadau
<ul style="list-style-type: none"> <li>A yw'r datblygiad yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar fusnesau lleol cyfredol, e.e. drwy gynnig cyfleoedd i fusnesau fyddai'n gallu cyflenwi gofynion y busnes newydd am nwyddau?</li> </ul>					
<p><b>Cofnodwch eich dadansoddiad gyda thystiolaeth gan gyfeirio at bwy (e.e. grŵp oedran penodol) fydd yn cael ei effeithio; pa fath o effaith; tebygolrwydd i'r effaith ddigwydd; a'r effaith gronnus bosib. Gellid defnyddio'r matrices risg enghreifftiol yn Ffigur 8.1 i adnabod yr effaith a'r tebygolrwydd o'r effaith.</b></p> <p align="right">Defnyddiwch dudalen ar wahân os oes angen mwy o le.....</p>					
		<b>Sgôr cyfansawdd</b>			
<b>Beth yw'r budd?</b>	<b>Beth yw'r risg?</b>				

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 8: Fframwaith i baratoi  
Asesiad Effaith Iaith Gymraeg**

FFACTORAU ECONOMAIDD		Sgôr			Sylwadau
Ewch i Gam C i ddangos sut fyddwch yn sicrhau'r budd ac, os yn bosib, yn lledaenu'r budd	Ewch i Gam C i ddangos sut fyddwch yn rheoli'r risg (cael gwared ohono neu leihau'r effaith i lefel dderbyniol)				

**Rhan 2: Cwblhau'r Matrics Cynaliadwy**

25. Mae'r rhestr nesaf yn nodi matrics o gwestiynau i asesu effaith debygol y datblygiad arfaethedig o safbwynt y safle. Mae'n bosib eich bod wedi ateb rhai o'r cwestiynau hyn eisoes fel rhan o Asesiad Amgylcheddol pan fydd angen un ar gyfer eich cais. Os nad ydych wedi cynnal asesiad amgylcheddol, defnyddiwch y matrics yn nhabl 8.4 isod i gofnodi asesiad y datblygiad arfaethedig ar yr ardal ddylanwad yn gyffredinol. Defnyddiwch y symbolau yn yr allwedd (gweler isod) yn y golofn 'Asesiad'. Mae'r symbolau yn y golofn hon yn nodi p'un a yw'r datblygiad arfaethedig yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at ddiwallu'r Amcan Asesiad Cynaliadwyedd:
- a yw'n cyd-fynd â'r Amcan Asesiad Cynaliadwyedd?
  - a yw'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith niwtral ar yr Amcan Asesiad Cynaliadwyedd? neu
  - a yw'r datblygiad arfaethedig yn rhwystr i gyflawni'r Amcan Asesiad Cynaliadwyedd?
26. Yn y golofn 'Crynodeb', eglurwch, gyda thystiolaeth, sut rydych yn dod i'ch casgliad.
27. Bydd yr ymateb i rannau perthnasol yn y matrics ar gyfer yr Asesiad Effaith Iaith Gymraeg a welir yn nhabl 8.2 wedi asesu'r datblygiad arfaethedig yn erbyn yr Amcan Asesiad Cynaliadwyedd sy'n berthnasol i'r iaith Gymraeg.
28. Os fydd effaith gadarnhaol neu negyddol yn cael ei hadnabod ar ôl cynnal Asesiad o Gynaliadwyedd y safle, bydd yn rhaid ystyried p'un a ellir gwella unrhyw effaith cadarnhaol neu sut fyddwch yn rheoli effeithiau negyddol. Dylid cofnodi'r gweithgareddau hynny yng Ngham C isod.

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 8: Fframwaith i baratoi  
Asesiad Effaith Iaith Gymraeg**

Tabl 8.4: Matrics Cynaliadwy asesu effaith ar yr ardal ddylanwad

**Enw'r safle:**

**Ardal ddylanwad (map)**

**Math y datblygiad:**

Tud. 174

Amcan Asesiad Cynaliadwyedd	Asesiad	Crynodeb
<p>1. Cynnal a mwyhau buddion a chysylltedd bioamrywiaeth (<i>Pynciau AAS: bioamrywiaeth, ffawna, fflora, pridd</i>) A fydd y datblygiad arfaethedig yn...</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Amddiffyn cyfanrwydd safleoedd dynodedig (rhyngwladol, cenedlaethol a lleol), ac osgoi cynefinoedd/rhywogaethau tameidiog</li> <li>• Diogelu a mwyhau cynefinoedd bywyd gwylt ar y tir ac yn y môr (gan gynnwys yr ased coetiroedd sylweddol a geir yn ardal y cynllun), a bioamrywiaeth ehangach mewn ardaloedd gwledig a threfol</li> <li>• Cynnal a gwella'r ddarpariaeth o seilwaith gwyrdd</li> <li>• Diogelu a mwyhau'r safleoedd daearegol dynodedig a'r ddaear amrywiol ehangach</li> <li>• Cynnal a mwyhau swyddogaeth chysylltedd ecolegol</li> </ul>	<p>e.e.</p> <p>++</p>	<p>Bydd y datblygiad arfaethedig yn cyfrannu tuag at yr Amcan Asesiad Cynaliadwyedd hwn oherwydd.....</p>
<p>2. Hyrwyddo hyfywdra, cydlyniant, ac iechyd a lles cymunedol (<i>Pynciau AAS: iechyd bodau dynol, y boblogaeth</i>) A fydd y datblygiad arfaethedig yn...</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bodloni anghenion poblogaeth sy'n heneiddio</li> <li>• Lleihau nifer y bobl mewn oed gwaith sy'n allfudo er mwyn cefnogi cymunedau sy'n gytbwys o ran oedran y boblogaeth</li> </ul>		

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 8: Fframwaith i baratoi  
Asesiad Effaith Iaith Gymraeg**

Tud. 175

Amcan Asesiad Cynaliadwyedd	Asesiad	Crynodeb
<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwella'r ddarpariaeth o gyfleusterau a gwasanaethau i gymunedau difreintiedig ac ardaloedd gwledig a gwella mynediad atynt.</li> <li>Hyrwyddo rhyngweithio cymunedol a chynhwysiad cymdeithasol</li> <li>Cael gwared ar rwystrau a chreu cyfleoedd i bobl fyw bywydau iachach, e.e. hyrwyddo ymarfer corff (cerdded, beicio)</li> <li>Lleihau'r anghydraddoldeb iechyd rhwng ardaloedd a grwpiau cymdeithasol</li> </ul>		
<p>3. Cadw, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg (Pwnc AAS: treftadaeth ddiwylliannol) A fydd y datblygiad arfaethedig yn...</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwarchod a gwella'r cyfleoedd i hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg – er mwyn gallu ymateb i'r cwestiwn hwn dylid cwblhau'r Matrics Asesiad Effaith Iaith Gymraeg yn nhabl 8.3 uchod</li> </ul>		
<p>4. Cadw, hyrwyddo a mwyhau adnoddau diwylliannol ac asedau treftadaeth hanesyddol (Pwnc AAS: treftadaeth ddiwylliannol) A fydd y datblygiad arfaethedig yn...</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau y gwarchodir asedau hanesyddol, archeolegol a diwylliannol lleol (yn cynnwys eu gwarchod rhag datblygiadau newydd), ac y gwneir y mwyaf ohonynt er budd trigolion ac ymwelwyr</li> <li>Hyrwyddo mynediad at yr amgylchedd hanesyddol er dibenion addysg a thwristiaeth/datblygiad economaidd</li> </ul>		

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 8: Fframwaith i baratoi  
Asesiad Effaith Iaith Gymraeg**

Tud. 176

Amcan Asesiad Cynaliadwyedd	Asesiad	Crynodeb
<p>5. Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi fywiog, amrywiol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth leol (<i>Pwnc AAS: Poblogaeth</i>) A fydd y datblygiad arfaethedig yn...</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hyrwyddo a hwyluso buddsoddiad i fusnesau lleol ar draws amrywiaeth o sectorau economaidd</li> <li>• Gwellu a mwyhau cyfleoedd cyflogaeth, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig</li> <li>• Cefnogi'r diwydiant twristiaeth drwy wneud gwelliannau amgylcheddol a gwella'r seilwaith, a chynorthwyo i wella adnoddau a seilwaith presennol</li> <li>• Darparu mynediad at gyfleoedd am hyfforddiant, addysg a datblygu sgiliau i bob sector yn y gymuned</li> <li>• Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd</li> <li>• Creu cyfleoedd i weithwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle</li> </ul>		
<p>6. Darparu tai o ansawdd da, yn cynnwys tai fforddiadwy sy'n bodloni angen lleol (<i>Pwnc AAS: y boblogaeth, iechyd bodau dynol</i>) A fydd y datblygiad arfaethedig yn...</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwellu ansawdd ac argaeledd y stoc tai presennol ar gyfer cymunedau difreintiedig</li> <li>• Cyflwyno mwy o dai fforddiadwy a chynaliadwy gyda'r effaith leiaf bosib ar yr amgylchedd mewn ardaloedd gwledig a threfol</li> </ul>		

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 8: Fframwaith i baratoi  
Asesiad Effaith Iaith Gymraeg**

Tud. 177

Amcan Asesiad Cynaliadwyedd	Asesiad	Crynodeb
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyflwyno tai addasadwy sy'n mynd i'r afael ag anghenion unigol y cymunedau</li> </ul>		
<p>7. Gwerthfawrogi, cadw ac uchafu tirweddau gwledig a threfweddau ardal y cynllun (<i>Pwnc AAS: y dirwedd</i>) A fydd y datblygiad arfaethedig yn...</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwarchod a mwyhau nodweddion arbennig y dirwedd yn ardal y cynllun, yn cynnwys Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, y dirwedd arfordirol / morol a threfweddau</li> <li>Gwarchod a gwella ansawdd y mannau agored sy'n hygyrch i'r cyhoedd mewn amgylchedd gwledig ac adeiledig</li> <li>Sicrhau bod datblygiadau newydd wedi'u hintegreiddio'n briodol ac yn sensitif i gymeriad y dirwedd a'r drefwedd yn ardal y cynllun</li> </ul>		
<p>8. Cefnogi ac uchafu cysylltiadau trafndiaeth dda i gefnogi'r gymuned a'r economi (<i>Pwnc AAS: y boblogaeth, iechyd bodau dynol</i>) A fydd y datblygiad arfaethedig yn...</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwella hygyrchedd mewn ardaloedd lleol, drwy gysylltu rhwydweithiau cludiant (cludiant cyhoeddus a heb gerbyd) â'r canolfannau gwasanaethu</li> <li>Lleihau'r angen am deithio mewn ceir preifat, drwy wella'r seilwaith cludiant cyhoeddus</li> <li>Blaenoriaethu hygyrchedd drwy gael opsiynau trafndiaeth gynaliadwy ar gyfer datblygiadau newydd</li> </ul>		



**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 8: Fframwaith i baratoi  
Asesiad Effaith Iaith Gymraeg**

**Allwedd**

<b>++</b>	Anogaeth frwd i'r datblygiad gan y byddai'n datrys problem bresennol o ran cynaladwyedd	<b>+/-</b>	Materion cynaladwyedd posib; posib lliniaru a / neu negodi
<b>+</b>	Dim rhwystrau cynaladwyedd ac mae'r datblygiad yn dderbyniol	<b>-</b>	Yn broblemus ac annhebygol oherwydd materion cynaladwyedd sy'n hysbys; lliniaru neu negodi'n anodd ac/neu'n ddud
<b>0</b>	Niwtral	<b>--</b>	Cyfyngiadau absoliwt o ran cynaladwyedd
<b>?</b>	Effaith anhysbys/ansicr		

**CAM C) – ADNABOD MESURAU LLINIARU/DIOGELU/GWELLA/LLEDAENU A PHARATOI  
STRATEGAETH YMATEB GYDA CHYNLLUN GWEITHREDU**

29. Mae pob penderfyniad da yn dibynnu ar ddadansoddi'r opsiynau yn effeithiol. Arfarnu'r Opsiynau yw'r broses o adnabod a dethol y strategaeth rheoli risg fwyaf addas o fewn y cyfyngiadau sydd ar y sefyllfa. Fel rheol, mae hyn yn gofyn dilyn proses o sgorio neu bwysoli opsiynau ar sut i leihau'r risg i lefel dderbyniol. Yn dilyn arfarnu'r opsiynau a dod i gasgliadau, gellir bwrw ymlaen i ddewis yr Hoff Strategaeth, sef y strategaeth 'orau' ar gyfer y sefyllfa a'r un sy'n derbyn sêl bendith y datblygwr, y rhanddeiliaid a'r partneriaid.
30. Mae arfarnu yn gofyn am ddilyn rhai, os nad y cyfan, o'r camau a ganlyn:
- Sefydlu'n glir beth yw'r canlyniad y mae rhywun yn ceisio ei gyflawni;
  - Adnabod yr opsiynau posib i gyrraedd y canlyniad hwnnw;
  - Sefydlu'n glir beth yw'r meini prawf a ddefnyddir i arfarnu;
  - Dewis beth yw'r teclyn mwyaf priodol i weithredu pob opsiwn;
  - Adnabod effaith pob opsiwn;
  - Cymharu manteision ac anfanteision pob opsiwn a dod i gasgliad.
31. Fel arfer, mae'r opsiynau rheoli risg ar ffurf un o'r hyn a ganlyn:
- TERFYNU - cael gwared o gyfran o'r risg lle bo hynny'n bosib;
  - GODDEF - derbyn y risg drwy ddewis peidio ag ymyrryd;
  - TROSGLWYDDO – rhannu neu symud elfennau o'r risg drwy rannu gyda rhanddeiliaid neu bartneriaid eraill neu ddefnyddio technoleg, prosesau newydd neu fuddsoddiad o'r newydd;
  - LLINIARU - addasu effeithiau'r datblygiad drwy osod cynlluniau datblygol yn eu lle.
32. Mae gofyn hefyd ystyried MANTEISIO AR GYFLEOEDD sy'n codi o'r risg i gychwyn cyfleoedd newydd.
33. Os fydd effeithiau cadarnhaol neu negyddol yn cael eu hadnabod yng Ngham B uchod bydd yn rhaid ystyried p'un a ellir gwella unrhyw effaith gadarnhaol neu ddangos sut fyddwch yn rheoli effeithiau negyddol. Rhaid cadw mewn cof fod posibilrwydd cryf y bydd y cais cynllunio yn cael ei wrthod gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn unol â Pholisi PS 1, maen prawf 3, os asesir fod effeithiau negyddol o sylwedd yn debygol. Felly, dylid ystyried p'un a oes opsiwn arall yn debygol o ostwng y risg i lefel dderbyniol. Dylid cydnabod nad yw'n bosib, yn ymarferol, i ddileu risg yn gyfan gwbl. Bydd hyn yn gymorth i dewis pa opsiynau sydd ar gael i'w cynnwys mewn Strategaeth a Chynllun Gweithredu.
34. Mae Ffigur 8.2 yn adnabod yn gyffredinol sut fath o ymateb i'w ystyried, yn ddibynnol ar y sgôr cyfansawdd.

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY  
DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 8: Fframwaith i baratoi Asesiad Effaith Iaith Gymraeg**

Ffigur 8.2 Opsiynau Ymateb

	Positif	Opsiynau Ymateb	Negyddol	Opsiynau Ymateb
Sylweddol Tebygol		UCHAFU		TERFYNU
Sylweddol Annhebygol		UCHAFU		LLINIARU
Bychan Tebygol		UCHAFU		LLINIARU
Bychan Annhebygol		UCHAFU		GODDEF

35. Mae Atodiad 6 yn cynnwys rhestr o weithgareddau posib y gellir eu defnyddio i sicrhau effeithiau cadarnhaol ac i reoli risgiau o effeithiau negyddol. Dylid cofnodi'r gweithgareddau hynny yn yr Adroddiad am yr Asesiad, gan nodi sut a pha bryd y caiff y gweithgareddau eu cyflawni. Bydd hyn yn hanfodol er mwyn dangos y gellir gwireddu'r mesurau. Dylid trafod mesurau posib gyda'r Mentrau Iaith a'r Swyddog Cynllunio, fydd yn trafod gyda swyddogion perthnasol o fewn y Cynghorau, e.e. swyddogion addysg, swyddogion datblygu economi.

36. Mae Tabl 8.5 isod yn cynnig templed ar gyfer cofnodi'r wybodaeth angenrheidiol.

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY DRAFFT ÔL-YMGYNGHORI - Atodiad 8: Fframwaith i baratoi  
Asesiad Effaith Iaith Gymraeg**

Tabl 8.5: Tabled Cynllun Gweithredu i gofnodi gweithgareddau diogelu/gwella/hybu/lliniaru

<b>Beth yw'r Budd neu'r Risg a gafodd ei adnabod yng Ngham B uchod?</b>	<b>Gweithgaredd posib i reoli'r budd neu'r risg</b>	<b>Beth mae'r gweithgaredd yn ei gyflawni?</b>	<b>Sut fydd y budd/lliniaru yn cael ei gyflawni?</b>	<b>Beth yw'r amserlen ar gyfer ei ddarparu a phwy yw'r person/sefydliad cyfrifol?</b>	<b>Dull ac amllder monitro (lle mae'n briodol)</b>